

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Iwan Jones

Prif Weithredwr Dros Dro

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E-bost: parc@eryri.llyw.cymru

- Cyfarfod:** Pwyllgor Cynllunio a Mynediad
- Dyddiad:** Dydd Mercher 16 Hydref 2024
- Amser:** 10.00 y.b.
- Man Cyfarfod:** Swyddfa'r Parc Cenedlaethol,
Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser
cychwyn dynodedig***

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

*Y Cyngorwyr: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise
Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,
John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Williams;*

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyngorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Swydd Wag;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

*Mr. Brian Angell, Mr. Tim Jones,
Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd, Swydd Wag,
Swydd Wag.*

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.
2. **Datgan Diddordeb**
Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.
3. **Cofnodion** **3 - 5**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Medi 2024 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.
4. **Cynllun Datblygu Lleol Eryri – Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2023-2024** **6 - 181**
Cyflwyno adroddiadau gan Pennaeth Polisi Cynllunio. (Copïau yma)
5. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir** **182 - 264**
Cyflwyno adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. (Copïau yma)
6. **Adroddiadau Diweddarau** **265 - 270**
Cyflwyno adroddiadau diweddarau, er gwybodaeth. (Copïau yma)
7. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd** **271 - 280**
Cyflwyno rhestr o geisiadau sydd wedi cael eu penderfynu yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd, er gwybodaeth. (Copi yma)

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 4 MEDI 2024**

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Annwen Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Elfed Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams.

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd.

Swyddogion

G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Iona Roberts, Dafydd Thomas, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei weddarleddu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

- 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd a Louise Hughes. Croesawodd y Cadeirydd Eifion Jones, Swyddog Gwasanaethau Democraidd newydd y Parc, i'r cyfarfod.
- 2. Datgan Diddordeb**
Datganodd y Cynghorydd Elwyn Edwards fuddiant personol a rhagfarnol yn Eitem 4 ar y Rhaglen (NP5/53/576A – Estyniad i reilffordd trac cul Llyn Tegid, Tir yn Y Bala, o dan baragraffau 10 (2)(c)(i) a 12 (1) o'r Cod Ymddygiad i Aelodau, a gadawodd y cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod.
- 3. Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar y 26^{ain} o Fehefin 2024 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.
- 4. Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir**
Daeth y Cynghorydd June Jones i'r Gadair am yr eitem yma gan fod y Cynghorydd Elwyn Edwards wedi datgan diddordeb.
Cyflwynwyd – Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau cynllunio.
Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.
- 5. Adroddiadau Diweddarau**
Cyflwynwyd – Adroddiadau diweddarau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.
Nododd rhai aelodau fod yna nifer o geisiadau wedi bod yno am amser hir heb unrhyw ddatblygiad. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai'r ceisiadau yn cael eu hadolygu a byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor nesaf.

6. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**

Cyflwynwyd – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

Nododd Aelod fod manylion cais NP5/58/263B a geir yn yr adroddiad yn wahanol i'r manylion a geir ar y wefan. Cadarnhaodd Swyddog Cynllunio mai'r adroddiad oedd yn gywir ac y byddai'n edrych i weld pam fod y wefan yn anghywir, ac adrodd yn ôl.

7. **Penderfyniadau Apêl**

Cyflwynwyd – Adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar benderfyniad yr Arolygydd i ranol wrthod a rhanol caniatáu yr apêl canlynol:

NP4/26/ENF106G, apêl yn erbyn rhybudd cynnal a chadw tir, tir yn Nhafarn y Machno, Penmachno, gan Mr Mohameh Shirajudin a Mrs Jackie Shirajudin. Nododd y Cyfarwyddwr fod yr apelydd wedi gofyn am ragor o amser i gydymffurfio oherwydd sefyllfa bersonol, a chadarnhaodd y rhoddwyd 3 mis o estyniad i gyflawni'r amodau.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55

ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 04 MEDI 2024

Rhif yr Eitem.

4. **Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**

- (1) NP5/53/576A – Estyniad i reilffordd trac cul Llyn Tegid i gynnwys 1200m o drac reilffordd, croesfan reilffordd, codi gorsaf reilffordd newydd, adeiladau ategol ar gyfer injan drên a cherbydau, blwch signal ynghyd â datblygiad cysylltiol (Ailgyflwyniad), Tir yn Y Bala.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Swyddog Achos yr adroddiad, y cefndir a'r asesiad cynllunio. Hysbyswyd yr Aelodau bod y cais blaenorol (NP5/53/576) wedi cael ei wrthod ar 7 sail ond ystyrid fod yr asiant wedi gallu goresgyn y rhesymau hyn. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod yna faterion heb eu datrys ac fe fyddai angen mwy o fanylion cyn dechrau ar y gwaith neu feddiannu'r safle, gyda pheth pryder yn dal i gael ei godi ynglŷn â'r materion hyn. Ystyrid y gellid datrys y mwyafrif ohonynt trwy amodau cynllunio wedi'u geirio'n briodol. Yn ogystal, erys mater sydd heb ei ddatrys ac sydd angen ei asesu ymhellach, sef effaith y datblygiad ar y rhwydwaith priffyrdd lleol.

Siarad Cyhoeddus:

Rhoddodd Julian Birley, Cadeirydd Rheilffordd Llyn Tegid, gyflwyniad i'r cyfarfod gan nodi:

- fod yr holl resymau am wrthod y cais blaenorol bellach wedi eu datrys
- fod y rheilffordd wedi bod yn broffidiol dros gyfnod o 50 mlynedd, ei bod yn gwasanaethu'r dref yn dda, ac y byddai'r estyniad yn defnyddio parc ceir sydd hyd yma wedi ei dan-ddefnyddio.
- Dywedodd fod ardal y Bala wedi ei hanghofio a gwir angen buddsoddiad ynddi. Gwadodd y byddai heidiau o dwristiaid ychwanegol yn dod am fod y twristiaid yno eisoes, ond nad oedd cyfleusterau digonol iddynt, ac nad oedd llawer yn cyfrannu at economi'r dref a'r ardal. Byddai'r estyniad yn hybu'r ymwelwyr i wario eu harian tra'u bod yno, ac y byddai'n cyfrannu at ddyfodol llewyrchus a chynaliadwy i'r dref.

Argymhellwyd – Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir i ganiatáu'r cais unwaith y bydd yr Awdurdod wedi derbyn y wybodaeth ychwanegol uchod a bod unrhyw faterion a godwyd yn cael sylw digonol.

PENDERFYNWYD rhoi caniatâd i ddiprwo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir, yn unol â'r argymhelliad.

CYFARFOD	Pwyllgor Cynllunio a Mynediad
DYDDIAD	Hydref 16, 2024
TEITL	Cynllun Datblygu Lleol Eryri – Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2023-2024
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Polisi Cynllunio
PWRPAS	Trafod a chymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2023-24

1 CEFNDIR

- 1.1. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (CDLI) diwygiedig ar 6 Chwefror 2019. Mae monitro CDLI Eryri yn broses barhaus ac nid yw'n dod i ben unwaith y bydd y cynllun wedi'i fabwysiadu. Nod Adroddiad Monitro Blynyddol yw dangos i ba raddau y mae strategaeth CDLI Eryri yn cael ei chyflawni, a yw'r polisiau'n gweithio ai peidio neu a oes 'gwagle' polisi. Mae hyblygrwydd o fewn y system CDLI yn caniatáu i addasiadau a diwygiadau gael eu gwneud i bolisiau, gan wneud y cynllun yn berthnasol ac yn ymatebol i newid. Gellir gwneud addasiadau o'r fath, os oes angen, mewn adolygiad ffurfiol o'r CDLI sy'n ofynnol bob pedair blynedd. Fel gŵyr yr aelodau, cynhaliwyd adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLI) ac ymgysylltwyd â rhanddeiliaid rhwng 7 Ebrill 2023 a Mai 12fed 2023. Sefydlodd yr Adroddiad Adolygu yr angen i ymgymryd â threfn ddiwygio llawn, yn hytrach na gweithdrefn Ffurf Fer i ymateb i faterion strategol a godwyd a newidiadau sylweddol yng nghyd-destun polisi cynllunio. Cafodd yr Adroddiad Adolygu ei fabwysiadur a'i gyhoeddi ym mis Mehefin 2023.
- 1.2. Dyma'r pumed Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB), ers mabwysiadu CDLI diwygiedig Eryri ac mae'n cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2023 hyd at ddiwedd Mawrth 2024. Cyflwynir yr AMB i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Er na chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau sylweddol sy'n tansellio Strategaeth Datblygu Gofodol y Cynllun presennol, mae'r angen i ddiwygio'r CDLI a'i Strategaeth yn parhau yn amlwg. Ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2019, mae pethau wedi newid yn sylweddol ac mae'r angen i ddiwygio'r CDLI wedi dod yn fwyfwy amlwg. Mae newidiadau sylweddol wedi digwydd yng nghyd-destun polisi cynllunio, yn enwedig ar lefel genedlaethol gyda chyhoeddi Cymru'r Dyfodol a rhifynnau diweddaraf Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Bydd angen adolygu'r CDLI i adlewyrchu'r pwyslais yn y dogfennau hyn ar egwyddorion creu lleoedd a datblygu cynaliadwy, gan gynnwys y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy.
- 1.3. Bydd diwygio'r CDLI yn gyfle i ailystyried blaenoriaethau polisi cynllunio i gynorthwyo gyda'r adferiad ar ôl argyfwng pandemig Covid-19. Mae effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y pandemig wedi cael canlyniadau pellgyrhaeddol ac wedi codi materion arwyddocaol ar gyfer llunio polisiau yn Eryri yn y dyfodol. Yn dilyn llacio'r cyfyngiadau ar ôl y cyfyngiadau symud cyntaf, gwelodd y Parc Cenedlaethol gynnydd yn nifer yr ymwelwyr uwchlaw blynyddoedd blaenorol, wrth i fwy benderfynu cymryd eu gwyliau o fewn y DU.

Arweiniodd hyn at bwysau sylweddol ar reoli ymwelwyr a'r amgylchedd. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn traffig a pharcio ynghyd â gweryslla gwyllt a chartrefi modur yn parcio ar ochr y ffyrdd / meysydd parcio dros nos. Mae angen pwysleisio economi ymwelwyr sy'n cynnal ac yn parchu'r amgylchedd ac yn diogelu cymunedau lleol, iaith, diwylliant a threftadaeth.

- 1.4. Dros nos, gwelwom gynnydd sylweddol mewn gweithio gartref, a ysgogodd gynnydd yn y galw am eiddo o'r tu allan i'r ardal leol gan y rhai sy'n dymuno cael bywyd mwy cytbwys wrth weithio gartref gan arwain at wrthdaro posibl â thrigolion lleol ynghylch argaeledd eiddo. Mae'r galw am ail gartrefi a lletai gwyliau hefyd wedi gwthio prisiau i fyny gyda mwy o anheddau preswyl parhaol yn cael eu defnyddio fel llety gwyliau gan leihau'r stoc sydd ar gael i gymunedau lleol. Mae hyn wedi rhoi pwysau sylweddol ar y farchnad dai leol ac mae'n bwysig sicrhau bod pobl leol yn gallu byw yn lleol a bod cymunedau'n dod yn fwy cynaliadwy a chydnerth i'r dyfodol. Mae'r pandemig hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd iechyd a lles, mynediad at wasanaethau, cadernid economaidd, cysylltedd digidol a gwerth yr amgylchedd naturiol. Rydym wedi gweld gwerth newydd yn cael ei roi ar ddarparu gwasanaethau lleol, bwyd lleol, a manau gwyrdd o ansawdd lleol.
- 1.5. Rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) hefyd gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Mae angen datblygiadau a seilwaith cynaliadwy, carbon isel i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- 1.6. Mae'r ystyriaethau ar gyfer diwygio'r Cynllun wedi eu gynnwys ar ddiwedd pob Pennod o dan y pennawd "Ymchwil ac ystyriaeth bellach i hysbysu diwygio CDLI Eryri" yn yr Adroddiad Monitro.

PRIF GANFYDDIADAU'R AMB (2023-2024)

Y prif benawdau o'r fframwaith monitro blynyddol yw:

- a) Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sy'n tanseilio pwrpasau statudol y Parc Cenedlaethol.
- b) Mae'r holl geisiadau cynllunio a dderbyniwyd ers mabwysiadu CDLI Eryri diwygiedig (2016-2031) wedi cael eu pennu yn unol â'r Strategaeth Ddatblygu Ofodol.
- c) Mae polisïau CDLI Eryri wedi bod yn effeithiol wrth bennu ceisiadau cynllunio defnydd tir ac wrth amddiffyn apeliadau.
- d) Bu Caniatadau a Chwblhadau Tai yn is na'r targed gofyniad tai blynyddol cyfartalog dros bedair blynedd yn olynol. am sawl blwyddyn yn olynol, er gwelwyd cynnydd yn y nifer dderbyniodd ganiatad cynllunio (45 uned) yn ystod y 5ed blwyddyn monitro. Gall fod nifer o resymau lleol a chenedlaethol ehangach am y niferoedd isel yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r farchnad dai yn y Parc Cenedlaethol yn lleol ei natur, gan ddibynnu ar adeiladwyr lleol bach a phrosiectau hunan-adeiladu ar safleoedd bach. Nid oes unrhyw adeiladwyr tai rhanbarthol yn weithredol yn y farchnad ac felly prin iawn yw'r adeiladu hapfasnachol o dai marchnad agored a thai fforddiadwy. Gall y gostyngiad fod yn rhannol oherwydd chwyddiant uchel ynghyd a chynnydd diweddar mewn costau adeiladu a'r amgylchedd benthyca anodd i ddatblygwyr, adeiladwyr bach, a phrosiectau hunan-adeiladu.
- e) Mae'r Tafllwybr Tai yn dangos diffyg blynyddol yn erbyn y Gofyniad Tai a Ragwelir Blynyddol (GTRh) yn ystod 2023/24 gyda'r nifer a gwblhawyd eleni 34 uned yn is na'r hyn a ragwelwyd (51 GTRh o'i gymharu â 17 o dai a gwblhawyd mewn gwirionedd. Mae nifer yr anheddau

sydd wedi'u cwblhau'n flynyddol wedi bod yn gyson is na'r (GTRh) o 51 annedd y flwyddyn ers 2016-17. Mae diffyg o -41% ar gyfer y gyfradd adeiladu gronol ofynnol o ddechrau cyfnod y cynllun, 2016-17, hyd at 31 Mawrth 2024. Mae'r cynllun yn disgyn yn sylweddol is na'r hyn a fwriedir.

- f) O'r 45 eiddo preswyl newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, roedd 20 o'r rhain yn unedau tai fforddiadwy. Mae hyn yn sylweddol uwch fwy na'r niferoedd yn y blynyddoedd blaenorol, er mae'n parhau i fod yn is na'r pwynt sbardun o 21 uned am y 5ed blwyddyn monitro yn olynol. Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy y rhoddir caniatâd cynllunio iddynt y flwyddyn yn llai nag 21 uned am 4 blynedd yn olynol. Mae angen adolygiad polisi gan nad yw tai fforddiadwy wedi bod yn cael eu darparu. Mae'r pwysau cynyddol ar y farchnad dai leol a waethygydd gan Covid-19 a'r effaith ddilynol ar gynaliadwyedd cymunedau lleol yn awgrymu efallai y bydd angen i bolisiâu CDLI yn y dyfodol ganolbwyntio ar gyflawni tai marchnad leol hygyrch a thai fforddiadwy.
- g) Mae niferoedd tai yr AMB dros y 4 blynedd gyntaf o fonitro (a phellach) yn dangos, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, nad yw nifer isel y datblygiadau tai sector preifat yn darparu tai fforddiadwy o fewn y Parc Cenedlaethol a bod darpariaeth tai fforddiadwy yn ddibynnol iawn ar Gymdeithasau Tai. Nid oes llawer o ddyraniadau preifat yn cael eu cyflwyno ar gyfer eu datblygu, ac felly nid ydynt yn darparu cyfraniad o dai fforddiadwy. Nid oes unrhyw ddyraniadau sector preifat mawr, safleoedd ar hap na safleoedd eithriadig yn cael eu cyflwyno, sy'n golygu nad yw'r cyfraniad % gofynnol o dai fforddiadwy o safleoedd o'r fath yn cael ei ddarparu.
- h) Cyhoeddwyd amcanestyniadau cartrefi 2018 ar gyfer y Parc Cenedlaethol ym mis Mai 2021. Mae'r rhagamcanion hyn yn amcangyfrif y bydd poblogaeth y Parc yn gostwng 1.92% rhwng 2018 a 2028. Yn ystod yr un cyfnod rhagwelir y bydd yr aelwydydd yn Eryri yn cynyddu 40 uned (0.3%), cynnydd cymedrol iawn o fewn cyfnod o 10 mlynedd. Mae poblogaeth sy'n gostwng a chyfraddau ffurfio cartrefi newydd arafach yn awgrymu y gallai ffigur gofynion tai cyffredinol is fod yn fwy addas wrth fynd at i ddiwygio'r CDLI. Byddai ffigur gofynion tai is hefyd yn adlewyrchu niferoedd a gwblhawyd yn y gorffennol a gallu'r diwydiant datblygu tai cyfredol i gyflawni yn y Parc Cenedlaethol.
- i) Penderfynwyd ar yr holl geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer tai ers mabwysiadu'r CDLI yn unol â Pholisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol ac felly maent wedi cydymffurfio â'r brif strategaeth ofodol a amlinellir yn y Cynllun. Oherwydd graddfa gymharol fach datblygiad newydd ac felly nifer isel o unedau tai yn y Parc Cenedlaethol, gall datblygiad annisgwyl ar safle annisgwyl neu safle mawr a gwblhawyd o fewn blwyddyn arwain at ragori ar y % targed ar gyfer haen anheddiad ar gyfer y flwyddyn benodol honno ac fe all gael effaith ddwys ar y % targed (gweler MF25).
- j) Mae gan ddynodiad Parth Menter Eryri ar safleoedd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr y potensial i greu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy newydd. Mae'r safleoedd wedi'u dyrannu'n ffurfiol yn CDLI Eryri mabwysiedig 2016-2031, trwy Ddynodiad Parth Menter Llywodraeth Cymru, ac Ardal Ffocws Ddangosol yn Llanbedr. Mabwysiadwyd polisi sy'n seiliedig ar feini prawf hefyd i ddelio â datblygiadau ar y safleoedd, a bydd angen i ddatblygiad hefyd gydymffurfio â pholisiâu perthnasol eraill o fewn CDLI 2016-2031. Yr unig gais dderbyniwyd o fewn Parth Menter Eryri eleni oedd ar gyfer tystysgrif cyfreithlondeb (defnydd arfaethedig) i ostwng uchder y ddau adeilad adweithyddion presenol ar safle Trawsfynydd. Ni dderbyniwyd unrhyw gais arall am ddatblygiad ym Mharth Menter Trawsfynydd na Llanbedr yn ystod cyfnod yr AMB.
- k) Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am gynlluniau Hydro / Trydan dŵr yn ystod y tair blynedd flaenorol o fonitro o gymharu â 35 cais a dderbyniwyd rhwng 2018/2019. Tybir bod hyn oherwydd y newidiadau mewn taliadau Tariff.

- l) Mae 8,518m² o arwynebedd llawr cyflogaeth newydd wedi cael ei ganiatáu yn ystod 2023 / 2024 yn y Parc Cenedlaethol.
- m) Rhoddwyd caniatâd i 18 cais, mewn perthynas â thwristiaeth, yn ystod y cyfnod monitro blynyddol hwn. Roedd rhain yn cynnwys datblygiadau fel;
- Ceisiadau ar gyfer datblygu Llety Gwyliau Amgen yn bennaf podiau
 - Newid defnydd tir a throsi adeiladau amaethyddol ar gyfer llety gwyliau hunanarlwyo
 - Estyniad storio unllawr arfaethedig i gaban arlwyo presennol yn Nant Gwynant
- n) Rhwng 2023 a 2024, cymeradwywyd 21 cais i wella cyfleusterau cymunedol sef caniatâd ar gyfer gwelliannau i gae chwarae plant yn Aberdyfi a caniatâd ar gyfer trosi cyn eglwys i adeilad cymunedol yn Llan Ffestiniog
- o) Ni fu unrhyw ddatblygiad arwyddocaol, os o gwbl, i effeithio ar bolisïau eraill yn y Cynllun.

CAMAU NESAF

- 1.7. Mae tystiolaeth yr Adroddiadau Monitro Blynyddol diweddar, y newidiadau cyd-destunol sylweddol ynghyd â chyhoeddi Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) ynghyd â newidiadau mewn polisi cenedlaethol wedi amlygu'r angen i ddiwygio'r CDLI. Mae'r Awdurdod wedi cynnal adolygiad o'r CDLI mabwysiedig ac wedi adrodd ar eu canfyddiadau i Lywodraeth Cymru drwy Adroddiad Adolygu. Cafodd yr Adroddiad Adolygu ei fabwysiadu a'i gyhoeddi Mis Mehefin 2023. Fel y gwyddoch, ym mis Rhagfyr 2023 penderfynwyd oedi'r broses o ddiwygio Cynllun Datblygu Lleol Eryri am y tro er mwyn sicrhau bod adnoddau staffio digonol ar gyfer y gwaith paratoadol o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ardal gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.
- 1.8. Isod gweler amserlen ddrafft ddiwygiedig ar gyfer paratoi CDLI Eryri. Rhagwelir bydd y Cytundeb Cyflawni yn cael ei adrodd i Bwyllgor Cynllunio Mawrth 2025 cyn ymyngori ar y cynnwys yn ystod Gwanwyn 2025.

			Cyfnod Ymgynghori
1	Cytundeb Cyflawni	Drafft i'r Pwyllgor: Mawrth 2025 Cymeradwyaeth yr Awdurdod Mehefin 2025 Cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo Gorffennaf 2025 Cytundeb Cyflawni wedi'i gytuno a'i gyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf 2025 Gwaith ar y cynllun diwygiedig yn dechrau yn ffurfiol Awst 2025	Ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) Ebrill 2025 – Mai 2025
2	Cyfranogiad cyn-adneuo	Awst 2025 – Ionawr 2027	Galwad Cyhoeddus am Safleoedd Ymgeisiol: caiff ei

			gynnal am o leiaf chwe wythnos yn ystod Hydref 2025
3	Ymgynghoriad Cyn Adneuo		Ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Cyn Adneuo (y Strategaeth a Ffebrir) Hydref 2026 – Tachwedd 2026
4	Ymgynghoriad Adneuo	Chwefror 2027 – Ionawr 2028	Gorffennaf – Awst 2027 (efallai Mehefin – Gorffennaf i osgoi gwyliau Haf)

Camau Dangosol

5	Cyflwyno	Chwefror 2028	
6	Archwiliad	11 mis wedi'r broses o gyflwyno	
7	Adroddiad yr Arolygwyr	Ionawr 2029	
8	Mabwysiadu	O fewn 8 wythnos i dderbyn Adroddiad Chwefror 2029	
9	Monitro ac Adolygu	Parhaus	Adroddiadau Monitro Blynyddol i'w cyflwyno fis Hydref bob blwyddyn a'r Adolygiad o'r Cynllun ddim hwyrach na 4 blynedd o'r dyddiad mabwysiadu

2 GOBLYGIADAU ADNODDAU

Nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau.

3 ARGYMHELLIAD

Trafod a chymeradwyo cynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol 2023-24, gydag unrhyw newidiadau ychwanegol a gyflwynwyd ac a gytunwyd gan yr aelodau.

4 PAPURAU CEFNDIR

Yn unol â'r adroddiad.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL ERYRI

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL

am y cyfnod 1^{af} Ebrill 2023 i 31^{ain} o Fawrth 2024

Hydref 2024

Cynnwys

1	CYFLWYNIAD	3
2	Y STRATEGAETH DDATBLYGU	10
3	DIOGELU, GWELLA A RHEOLI'R AMGYLCHEDD NATURIOL	16
4	DIOGELU A GWELLA TREFTADAETH DIWYLLIANNOL	40
5	HYRWYDDO CYMUNEDAU IACH A CHYNALIADWY	59
6	CEFNOGI ECONOMI WLEDIG GYNALIADWY	100
7	HYRWYDDO HYGyrCHEDD A CHYNHWYSIAD.....	122
	ATODIAD 1: Fframwaith Monitro Gwerthuso Cynaliadwyedd	130
	ATODIAD 2: CYNNYDD CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL	164
	ATODIAD 3: CYNNYDD AR SAFLEOEDD TAI WEDI'U DYRANNU.....	165
	ATODIAD 4: TAFLWYBR TAI	168
	ATODIAD 5: Data Treth Gyngor fesul Cyngor Cymuned.....	171

1 CYFLWYNIAD

- 1.1 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig 2016-31 (CDLI) ei fabwysiadu ar 6ed Chwefror 2019. Mae monitro CDLI Eryri yn broses barhaus ac nid yw'n dod i ben unwaith y bydd y cynllun yn cael ei fabwysiadu. Nod yr Adroddiad Monitro Blyneddol yw dangos i ba raddau y mae strategaeth CDLI Eryri yn cael ei gyflawni, a yw'r polisïau yn gweithio ai peidio, neu lle mae polisi yn 'ddi-rym'. Mae hyblygrwydd o fewn system y CDLI yn caniatáu i addasiadau a diwygiadau gael eu gwneud i bolisïau, gan wneud y cynllun yn berthnasol ac yn ymatebol i newid. Gellir gwneud addasiadau o'r fath, os oes angen, trwy gyfrwng adolygiad ffurfiol o'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 1.2 Dyma'r pumed Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB), ers mabwysiadu'r CDLI Eryri diwygiedig ac mae'n cwmpasu'r cyfnod Ebrill 2023 hyd ddiwedd Mawrth 2024. Mae'r AMB yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31^{ain} o Hydref bob blwyddyn
- 1.3 Mae gan CDLI Eryri fframwaith monitro mabwysiedig ar waith i lywio'r canfyddiadau yn yr AMB. Nod yr adroddiad hwn yw dilyn strwythur tebyg i ddogfen datganiad ysgrifenedig CDLI Eryri ac mae'n defnyddio'r un penawdau penodau. Mae pob adran yn nodi'r amcanion CDLI perthnasol, ac unrhyw faterion cyd-destunol allweddol sy'n codi yn ystod y cyfnod monitro. Mae astudiaethau achos hefyd wedi'u cynnwys ar ddiwedd pob pennod (lle bo hynny'n berthnasol) i ddarparu enghreifftiau o sut mae polisïau wedi'u hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'r fframwaith monitro hefyd yn cynnwys cyfeiriad at sefydliadau eraill a chynlluniau a strategaethau eraill a allai gael dylanwad rhagweithiol ar weithredu polisïau.

Dangosyddion, Targedau a lefelau Sbarduno

- 1.4 Mae dangosyddion, targedau a lefelau sbarduno wedi'u nodi i asesu perfformiad polisïau ac amcanion. Nodir dylanwadau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod hefyd. Bydd y sbardunau a gynhwysir yn y drefn fonitro yn rhoi arwydd cynnar o berfformiad y Cynllun ac o bosibl pa mor eang y gallai fod angen i adolygiad o'r Cynllun fod.
- 1.5 Pan weithredir pwyntiau sbarduno, mae angen ymchwilio i ddeall pam nad yw polisïau a chynigion yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad a phenderfynu pa gamau fydd yn angenrheidiol. Mae'r camau canlynol wedi'u cynnwys ar gyfer pob dangosydd yn yr AMB i roi eglurder ar y camau i'w cymryd.

Parhau i Fonitro: Mae polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
Hyfforddiant Angenrheidiol: Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen hyfforddiant swyddogion neu Aelodau.
Canllawiau Cynllunio Atodol Angenrheidiol: Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen arweiniad pellach, a allai olygu paratoi CCA ychwanegol.
Archwiliad Pellach / Ymchwil Angenrheidiol: Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen archwilio a / neu ymchwiliad pellach.
Angen Adolygiad Polisi: Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu ac maent yn methu â chyflawni; efallai y bydd angen adolygiad o'r polisi penodol.
Adolygiad o'r Cynllun: Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu ac nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei gweithredu, gan sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad statudol 4 blynedd.

Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd

- 1.6 Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol Terfynol a'r Gwerthusiad o Gynaliadwyedd (2019), a gynhaliwyd fel rhan o'r Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri, yn darparu fframwaith monitro amlinellol a chynghor ar gyfer monitro effeithiau sylweddol gweithredu'r CDLI. Defnyddir hyn er mwyn;
- Bennu perfformiad y cynllun a'i gyfraniad at amcanion a thargedau
 - Adnabod perfformiad mesurau lliniaru
 - Llenwi bylchau data a nodwyd yn gynharach yn y broses GC
 - Nodi effeithiau cynaliadwyedd annymunol
 - Cadarnhau a oed rhagfynegiadau cynaliadwyedd yn gywir
- 1.7 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (2020) yn ei gwneud yn ofynnol i fframweithiau monitro ganolbwyntio ar 'effeithiau amgylcheddol sylweddol' gweithredu Cynllun Datblygu Lleol, gyda'r prif ddiben o nodi effeithiau andwyol nas rhagwelwyd ac, os oes angen, nodi a chymryd camau adferol priodol. Mae rheoliadau'r CDLI yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynhyrchu Adroddiadau Monitro Blyneddol sy'n caniatáu i fframwaith monitro'r Gwerthusiad o Gynaliadwyedd i gael ei integreiddio i waith monitro'r cynllun. Mae coladu data monitro yn gyfle i ddiweddarau gwybodaeth waelodlin a bydd yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth sylfaenol i lywio adolygiad o'r cynllun a diwygiadau neu amnewidiadau dilynol i'r cynllun.
- 1.8 O ran adolygu Cynllun Datblygu Lleol, mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (2020) yn nodi mai'r man cychwyn yw diweddarau'r sefyllfa waelodlin.
- 1.9 Mae dadansoddiad wedi'i wneud ar sut mae'r Cynllun yn cyfrannu at y Gwerthusiad o Gynaliadwyedd. Mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Ystyrir nad oes unrhyw faterion sylweddol o bryder wedi codi yn ystod y cyfnod monitro i newid y Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn sylweddol.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL A CHRYNODEB GWEITHREDOL

1.10 Amlygodd adroddiadau monitro blynyddol y blynyddoedd diwethaf yr angen i ddiwygio Cynllun Datblygu Lleol Eryri ac aethpwyd ati i baratoi a mabwysiadu Adroddiad Adolygu ddechrau 2023. Mae'r adroddiad monitro hwn yn ategu casgliadau yr adroddiadau monitro blynyddol blaenorol a'r adroddiad adolygu. Er na chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau sylweddol sy'n tanseilio Strategaeth Datblygu Gofodol y Cynllun presennol na'i bolisiâu strategol, mae'r angen i ddiwygio'r CDLI a'i Strategaeth wedi dod yn amlwg. Mae newidiadau sylweddol wedi digwydd yng nghyd-destun polisi cynllunio, yn enwedig ar lefel genedlaethol gyda chyhoeddi Cymru'r Dyfodol a rhifynnau wedi'u diweddarau o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC). Fel nodwyd yn yr adroddiad adolygu bydd angen i ddiwygiadau'r CDLI adlewyrchu'r pwyslais yn y dogfennau hyn ar egwyddorion creu lleoedd a datblygu cynaliadwy, gan gynnwys y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy. Mae effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y coronafeirws wedi cael canlyniadau pellgyrhaeddol ac wedi codi materion arwyddocaol ar gyfer llunio polisiâu yn Eryri yn y dyfodol. Mae'r pandemig wedi amlygu pwysigrwydd iechyd a lles, mynediad at wasanaethau, cadernid economaidd, cysylltedd digidol a gwerth yr amgylchedd naturiol. Rydym wedi gweld gwerth o'r newydd yn cael ei roi ar ddarparu gwasanaethau lleol, bwyd lleol, a manau gwyrdd o ansawdd lleol yn ogystal â'r angen am ddatblygiadau cynaliadwy, carbon isel a seilwaith i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Bydd angen i'r diwygiadau yny CDLI sicrhau bod pobl yn gallu byw'n lleol a bod cymunedau'n dod yn fwy cynaliadwy a gwydn i'r dyfodol.

Y prif benawdau o'r fframwaith monitro blynyddol yw:

- Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sy'n tanseilio pwrpasau statudol y Parc Cenedlaethol.
- Mae'r holl geisiadau cynllunio a dderbyniwyd ers mabwysidu CDLI Eryri diwygiedig (2016-2031) wedi cael eu pennu yn unol â'r Strategaeth Ddatblygu Ofodol.
- Mae polisiâu CDLI Eryri wedi bod yn effeithiol wrth bennu ceisiadau cynllunio defnydd tir ac wrth amddiffyn apeliadau.
- Bu Caniatadau a Chwblhadau Tai yn is na'r targed gofyniad tai blynyddol cyfartalog am sawl blwyddyn yn olynol, er gwelwyd cynnydd yn y nifer dderbyniodd ganiatad cynllunio (45 uned) yn ystod y 5ed blwyddyn monitro. Gall fod nifer o resymau lleol a chenedlaethol ehangach am y niferoedd isel yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r farchnad dai yn y Parc Cenedlaethol yn lleol ei natur, gan ddibynnu ar adeiladwyr lleol bach a phrosiectau hunan-adeiladu ar safleoedd bach. Nid oes unrhyw adeiladwyr tai rhanbarthol yn weithredol yn y farchnad ac felly prin iawn yw'r adeiladu hapfasnachol o dai marchnad agored a thai fforddiadwy. Gall y gostyngiad fod yn rhannol oherwydd chwyddiant uchel ynghyd a chynnydd diweddar mewn costau adeiladu ac amgylchedd benthyca anodd i ddatblygwyr, adeiladwyr bach, a phrosiectau hunan-adeiladu.
- Mae'r Taflywyr Tai yn dangos diffyg blynyddol yn erbyn y Gofyniad Tai a Ragwelir Blynyddol (GTRh) yn ystod 2023/24 gyda'r nifer a gwblhawyd eleni 34 uned yn is na'r hyn a ragwelwyd (51 GTRh o'i gymharu â 17 o dai a gwblhawyd mewn gwirionedd). Mae nifer yr anheddau sydd wedi'u cwblhau'n flynyddol wedi bod yn gyson is na'r (GTRh) o 51 annedd y flwyddyn ers 2016-17. Mae diffyg o -41% ar gyfer y gyfradd adeiladu gronol ofynnol o ddechrau cyfnod y cynllun, 2016-17, hyd at 31 Mawrth 2024. Mae'r cynllun yn disgyn yn sylweddol is na'r hyn a fwriedir.

- O'r 45 eiddo preswyl newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, roedd 20 o'r rhain yn unedau tai fforddiadwy. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r niferoedd yn y blynyddoedd blaenorol, er mae'n parhau i fod yn is na'r pwynt sbardun o 21 uned am y 5ed blwyddyn monitro yn olynol. Mae angen adolygiad polisi gan nad yw tai fforddiadwy wedi bod yn cael eu darparu. Mae'r pwysau cynyddol ar y farchnad dai leol a waethygyd gan Covid-19 a'r effaith ddilynol ar gynaliadwyedd cymunedau lleol yn awgrymu efallai y bydd angen i bolisiâu CDLI yn y dyfodol ganolbwyntio ar gyflawni tai marchnad leol hygyrch a thai fforddiadwy.
- Mae niferoedd tai yr AMB dros y 4 blynedd gyntaf o fonitro (a phellach) yn dangos, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, nad yw nifer isel y datblygiadau tai sector preifat yn darparu tai fforddiadwy o fewn y Parc Cenedlaethol a bod darpariaeth tai fforddiadwy yn ddibynnol iawn ar Gymdeithasau Tai. Nid oes llawer o ddyraniadau preifat yn cael eu cyflwyno ar gyfer eu datblygu, ac felly nid ydynt yn darparu cyfraniad o dai fforddiadwy.
- Cyhoeddwyd amcanestyniadau cartrefi 2018 ar gyfer y Parc Cenedlaethol ym mis Mai 2021. Mae'r rhagamcanion hyn yn amcangyfrif y bydd poblogaeth y Parc yn gostwng 1.92% rhwng 2018 a 2028. Yn ystod yr un cyfnod rhagwelir y bydd yr aelwydydd yn Eryri yn cynyddu 40 uned (0.3%), cynnydd cymedrol iawn o fewn cyfnod o 10 mlynedd. Mae poblogaeth sy'n gostwng a chyfraddau ffurfio cartrefi newydd arafach yn awgrymu y gallai ffigur gofynion tai cyffredinol is fod yn fwy addas wrth fynd at i ddiwygio'r CDLI. Byddai ffigur gofynion tai is hefyd yn adlewyrchu niferoedd a gwblhawyd yn y gorffennol a gallu'r diwydiant datblygu tai cyffredol i gyflawni yn y Parc Cenedlaethol.
- Penderfynwyd ar yr holl geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer tai ers mabwysiadu'r CDLI yn unol â Pholisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol ac felly maent wedi cydymffurfio â'r brif strategaeth ofodol a amlinellir yn y Cynllun. Oherwydd graddfa gymharol fach datblygiad newydd ac felly nifer isel o unedau tai yn y Parc Cenedlaethol, gall datblygiad annisgwyl ar safle annisgwyl neu safle mawr a gwblhawyd o fewn blwyddyn arwain at ragori ar y % targed ar gyfer haen anheddiad ar gyfer y flwyddyn benodol honno ac fe all gael effaith ddwys ar y % targed (gweler MF25).
- Mae gan ddynodiad Parth Menter Eryri ar safleoedd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr y potensial i greu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy newydd. Mae'r safleoedd wedi'u dyrannu'n ffurfiol yn CDLI Eryri mabwysiedig 2016-2031, trwy Ddynodiad Parth Menter Llywodraeth Cymru, ac Ardal Ffocws Ddangosol yn Llanbedr. Mabwysiadwyd polisi sy'n seiliedig ar feini prawf hefyd i ddelio â datblygiadau ar y safleoedd, a bydd angen i ddatblygiad hefyd gydymffurfio â pholisiâu perthnasol eraill o fewn CDLIE 2016-2031. Yr unig gais dderbyniwyd o fewn Parth Menter Eryri eleni oedd ar gyfer tystysgrif cyfreithlondeb (defnydd arfaethedig) i ostwng uchder y ddau adeilad adweithyddion presenol ar safle Trawsfynydd. Ni dderbyniwyd unrhyw gais arall am ddatblygiad ym Mharth Menter Trawsfynydd na Llanbedr yn ystod cyfnod yr AMB.

- Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am gynlluniau Hydro / Trydan dŵr yn ystod y tair blynedd flaenorol o fonitro o gymharu â 35 cais a dderbyniwyd rhwng 2018/2019. Tybir bod hyn oherwydd y newidiadau mewn taliadau Tariff.
- Mae 8,518m² o arwynebedd llawr cyflogaeth newydd wedi cael ei ganiatáu yn ystod 2023 / 2024 yn y Parc Cenedlaethol.
- Rhoddwyd caniatâd i 18 cais, mewn perthynas â thwristiaeth, yn ystod y cyfnod monitro blynyddol hwn. Roedd rhain yn cynnwys datblygiadau fel;
 - Ceisiadau ar gyfer datblygu Llety Gwyliau Amgen yn bennaf podiau
 - Newid defnydd a throsi adeiladau ar gyfer llety gwyliau hunanarlwyo
 - Estyniad storio unllawr arfaethedig i gaban arlwyo presennol yn Nant Gwynant
- Rhwng 2023 a 2024, cymeradwywyd 2 gais i wella cyfleusterau cymunedol sef caniatâd ar gyfer gwelliannau i gae chwarae plant yn Aberdyfi a caniatâd ar gyfer trosi cyn eglwys i adeilad cymunedol yn Llan Ffestiniog
- Ni fu unrhyw ddatblygiad arwyddocaol, os o gwbl, i effeithio ar bolisïau eraill yn y Cynllun.

CYD-DESTUN CYFFREDINOL

Ceisiadau cynllunio 2023 - 2024

- 1.11 Penderfynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 391 o geisiadau cynllunio yn ystod 2023 - 24, gan gynnwys Ceisiadau i Ryddhau Amodau, Diwygiadau ansylweddol, a Caniatadau Adeiladau Rhestredig. Mae nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd wedi bod yn is yn y ddwy flynedd ddiwethaf.. Fodd bynnag, yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae cymeradwyaethau wedi parhau i fod yn uchel ar 87%.
- 1.12 Yn dilyn mabwysiadu CDLIE (2016-2031) ym mis Chwefror 2019, mae'r Awdurdod wedi bod yn monitro yr holl benderfyniadau cynllunio a wneir yn ôl y math o ddatblygiad arfaethedig yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r tabl canlynol yn rhoi darlun cliriach o'r math o ddatblygiad a benderfynwyd yn ystod 2023 - 24, (heb gynnwys Ceisiadau i Ryddhau Amodau, Diwygiadau ansylweddol, a Caniatadau Adeiladau Rhestredig) ac mae'n dangos patrwm tebyg i batrwm blynyddoedd blaenorol, er sylwer fod yna lai o ganran am ddatblygiadau deiliaid tŷ eleni a mwy o ganran ceisiadau ar gyfer tai a chyfleustodau/isadeiledd.

Math o Ddatblygiad	Nifer	Canran
Hysbysebion ac Arwyddion	9	3.3%
Amaeth a Pysgodfeydd	18	6.6%
Meysydd Parcio	0	0.0%
Chalets	4	1.5%
Gwasanaethau Cymunedol	2	0.7%
Addysg	0	0.0%
Coedwigaeth	2	0.7%
Llety Gwyliau - Trosiad	8	2.9%
Parciau Gwyliau	1	0.4%
Bwyd i fynd	0	0.0%
Datblygiad Deiliaid Tŷ	107	39.3%
Diwydiant a Busnes	9	3.3%
Mân Ddatblygiad - Adeiladau Eraill	6	2.2%
Tafarndai a Bariau	0	0.0%
Adloniant a Hamdden	2	0.7%
Adnewyddadwy - Hydro	0	0.0%
Adnewyddadwy - Arall	4	1.5%
Adnewyddadwy - Solar	17	6.3%
Tai	38	14.0%
Bwytai a Chaffi	3	1.1%
Manwerthu	2	0.7%
Carafannau Statig	2	0.7%
Carafannau Teithiol a Gwersylla	5	1.8%
Trafnidiaeth	0	0.0%
Cyfleustodau ac Isadeiledd	29	10.7%

Defnyddio Polisiâu Cynllun Datblygu Lleol Eryri

1.13 Mae 46 o bolisiau yn y CDLI 2016-2031 a fabwysiadwyd. Mae 34 o bolisiau wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn ystod 2023-24. Ni ddefnyddiwyd y polisiâu canlynol o fewn y cyfnod monitro;

- Polisi Strategol E (2): Datblygu Mwynau ar Raddfa Fawr
- Polisi Strategol E (3): Symud Gwastraff Llechi a Chwareli Cerrig Adeiladu
- Polisi Strategol F: Gwastraff
- Polisi Datblygu 13: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
- Polisi Datblygu 4: Safleoedd Graddfa – Fach ar gyfer Gwastraff Tŷ a Gwastraff Anadweithiol
- Polisi Datblygu 5: Mannau Agored a Lletemau Las
- Polisi Datblygu 12: Cartrefi Gofal Preswyl a Thai Gofal Ychwanegol
- Polisi Datblygu 14: Llety Rhandy
- Polisi Datblygu 17: Tynnu Ymaith Amod Daliadaeth Amaethyddol a Llety Gwyliau
- Polisi Datblygu 19: Gwaith Newydd a Datblygu Hyfforddiant
- Polisi Datblygu 22: Safleoedd Cabannau a Charafannau Sefydlog
- Polisi Datblygu 25: Parcio Cerbydau Ymwelwyr
- Polisi Datblygu 28: Lletai Wedi'u Gwasanaethu Wedi eu Hadeiladu o'r Newydd
- Polisi Strategol Ng: Gwasanaethau a Chyfleusterau Cymunedol

Apeliadau

1.14 Roedd yna bedwar apêl yn ystod cyfnod monitro 2023 – 2024. Fe wrthodwyd dau (sef cais am dystysgrif defnydd cyfreithlon ar gyfer datblygiad fel annedd a chaniatad adeilad rhestredig ar gyfer tô newydd a garej) a fe ganiatwyd/cynhaliwyd un ar gyfer llety gwyliau. Yn ogystal fe roddwyd caniatad cynllunio ar gyfer garej yn Llanuwchllyn.

Penderfyniadau yn unol â pholisiau CDLI Eryri

Rhwng 2023 a 2024, ni ganiatwyd unrhyw gais cynllunio (% o'r holl geisiadau) a oedd yn groes i argymhelliad y swyddog.

Cyfarfod blynyddol gydag asiantau a chynllunwyr

Ni gynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd gydag asiantau a chynllunwyr yn ystod 2023-24. Mae dyddiad wedi cael ei bennu ar gyfer Cyfarfod Asiantwyr ym mis Gorffennaf 2024.

2 Y STRATEGAETH DDATBLYGU

Nod y Strategaeth:

2.1 Sut rydym yn cwrdd â phrif nod, amcanion strategol a strategaeth dwf y cynllun?

Cyd-destun

Pwrpasau a dyletswydd y Parc Cenedlaethol

2.2 Mae pwrpasau a dyletswydd y Parc Cenedlaethol yn darparu ffocws strategol pwysig i'r CDLI, gan eu bod yn helpu i ddiffinio graddfa a lleoliad datblygiad yn yr ardal yn y dyfodol. Mae rhain yn:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.

Yn ogystal, mae'n ddyletswydd ar y Parc Cenedlaethol i:

- Geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol yn ardal y Parc

2.3 Mae pwrpasau a dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Parc Cenedlaethol, gyda chefnogaeth egwyddor Sandford¹ a phrawf Silkin² yn gosod fframwaith statudol clir ar gyfer cynllunio datblygu yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r dibenion a'r pwrpasau hyn yn darparu ffocws strategol pwysig i'r Cynllun ac yn helpu i ddiffinio cwrpas datblygu yn yr ardal yn y dyfodol.

Datblygu cynaliadwy

2.4 Datblygu cynaliadwy yw ail ffocws allweddol y cynllun. Mae pwrpasau a dyletswydd y Parc Cenedlaethol yn darparu 'cyd-destun arbennig' ar gyfer cynaliadwyedd. Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** yn ymwneud ag ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn yr holl waith a wneir gan gyrrff cyhoeddus ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus nodi sut y byddant yn datblygu'r 7 nod lles a nodir yn y Ddeddf. Amlinellwyd y berthynas rhwng y CDLI Eryri diwygiedig a'r Nodau Lles yn ystod cam paratoi'r cynllun ac mae'r CDLI diwygiedig yn ategu'r nodau llesiant yn gadarnhaol.

¹ Os yw'n ymddangos bod gwrthdaro anghymodlon rhwng y pwrpasau statudol, bydd mwy o bwys ar y pwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

² Mae prawf Silkin ar gyfer datblygiad mawr yn gofyn 'a yw'r datblygiad yn hollol angenrheidiol er budd cenedlaethol ac onid oes datrysiad, ffynhonnell na chyflenwad amgen posibl?'

Graddfa Datblygiad

- 2.5 Mae'r berthynas rhwng graddfa'r datblygiad a'i leoliad yn bwysig wrth ystyried yr effaith ar y dirwedd. O'i gymharu ag ardaloedd awdurdodau cynllunio mwy o faint, mae graddfa'r datblygiad a gynigir yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri yn gymedrol. Ystyrir bod graddfa a lleoliad y datblygiad yn bwysig wrth asesu effaith datblygiad ar dirwedd y Parc Cenedlaethol. O ystyried amgylchedd sensitif y Parc a graddfa'r cymunedau lleol, gallai datblygiad mwy gael effeithiau sylweddol ar gymeriad y dirwedd ac uniondeb amgylchedd y Parc. Mae polisi cenedlaethol yn glir yn yr ystyr na ddylai datblygiad mawr ddigwydd mewn Parciau Cenedlaethol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Nodir hyn ym Mholisi Strategol B: Datblygiad Mawr. **Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo ers eu mabwysiadu yn groes i Bolisi Strategol B: Datblygiad Mawr.**

Strategaeth Datblygu Gofodol

- 2.6 Mae poblogaeth Eryri yn fach ac yn wasgaredig yn ddaearyddol ac mae graddfa'r datblygiad newydd arfaethedig yn gymharol fach i wasanaethu'r boblogaeth bresennol. Mae'r Strategaeth Datblygu Gofodol yn ceisio cynnal hyfywedd a bywiogrwydd cymunedau lleol mewn ffordd gynaliadwy sy'n briodol i'r Parc Cenedlaethol. Rhaid i lefel y datblygiad fod yn gymesur â maint a phoblogaeth aneddiadau unigol a'u gallu i ddarparu ar gyfer datblygiad pellach. Nod Polisi Strategol C (PS: C) yw cyfeirio datblygiad o bob math i'r lleoliad mwyaf priodol. Mae PS: C yn caniatáu ar gyfer datblygu tai newydd, cyflogaeth a darparu gwasanaethau a chyfleusterau mewn aneddiadau yn ôl eu dynodiad yn yr hierarchaeth aneddiadau, gyda'r nod cyffredinol o wneud cymunedau'n fwy hunangynhaliol. Y Bala a Dolgellau yw'r canolfannau gwasanaeth lleol lle bydd y mwyafrif o ddatblygiadau cysylltiedig â thai a chyflogaeth yn digwydd. Ystyrir bod gan Aneddiadau Gwasanaeth y gallu i ategu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Canolfannau Gwasanaethau Lleol. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol a thirwedd yn y Canolfannau Gwasanaethau Lleol ac yn yr Anheddiad Setliad, mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ddarparu ar gyfer datblygiad newydd. Felly mae peth o'r gallu hwn wedi'i ddargyfeirio tuag at yr Aneddiadau Eilaidd, sef y pentrefi mwy. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod tai ar raddfa fach, cyflogaeth a datblygiad arall mewn Aneddiadau Eilaidd, Aneddiadau Llai ac weithiau yng nghefn gwlad agored yn gynaliadwy lle mae cyfleoedd priodol yn codi. **Mae'r holl geisiadau cynllunio a dderbyniwyd ers mabwysiadu'r CDLI Eryri diwygiedig (2016-2031) wedi'u penderfynu yn unol â Pholisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol ac felly yn unol â'r brif strategaeth ofodol a amlinellir yn y Cynllun.** Mae mwy o fanylion ynghylch dosbarthiad cydsyniadau tai a tai a gwblhawyd rhwng haenau aneddiadau ym Mhennod 7: Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy.

Ystyriaethau i lywio diwygiadau i GDLI Eryri

Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040

- 2.7 Cymru'r Dyfodol: Cyhoeddwyd Cynllun Cenedlaethol 2040 (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol) ym mis Chwefror 2021. Mae Cymru'r Dyfodol, sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru rhwng 2020 a 2040, yn gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy gyfrwng y system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a chydnerthedd hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Mae Cymru'r Dyfodol yn gynllun gofodol, sy'n golygu ei fod yn gosod cyfeiriad ar gyfer ble y dylem fod yn buddsoddi mewn seilwaith a datblygu er lles Cymru a'i phobl. Mae'n gosod yr her o gyflawni'r gwelliannau hyn i'r sector cyhoeddus, y sector breifat a'r trydydd sector. Mae'n nodi'n glir pa mor bwysig yw cynllunio seilwaith a datblygiad newydd mewn ffordd sy'n ategu ei gilydd yn

hytrach na blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, gan sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd a bod buddion lluosog yn cael eu cyflawni. Bydd yn bwysig bod diwygiadau o Gynllun Datblygu Lleol Eryri yn y dyfodol yn cydymffurfio â Chymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r blaenoriaethau a nodir yn 'Cymru'r Dyfodol' ym mhenodau perthnasol yr AMB.

Diweddariadau Polisi Cynllunio Cymru

2.8 Ers mabwysiadu CDLI Eryri mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) wedi cael ei ddiweddarau i hyrwyddo'r cysyniad o greu lleoedd o fewn y system gynllunio ac mae'n gosod allan y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy. Mae diwygiadau wedi'u gwneud i alinio â Chymru'r Dyfodol ac i ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac effeithiau pandemig Covid-19. Mae hefyd yn adlewyrchu newidiadau polisi i gyflenwad tir ar gyfer tai, safleoedd a arweinir-gan-dai fforddiadwy, safonau ansawdd datblygu, cynllunio ynni lleol, trafnidiaeth a theithio llesol.

Tirweddau Dynodedig: Gwerthfawr a Chydnherth

2.9 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru. Mae'n galw ar y cyrff rheoli tirweddau dynodedig i gyflawni'r Cynllun Adfer Natur, yr agenda datgarboneiddio, a 'Cymraeg 2050.' Nod ei 10 thema drawsbynciol yw gwella cydnherthedd a gwireddu gwerth llawn tirweddau Cymru:

- Tirweddau i bawb
- Enghreifftiau o reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol
- Atal colli bioamrywiaeth
- Ynni gwyrdd a datgarboneiddio
- Gwireddu potensial economaidd tirwedd
- Tyfu twristiaeth a hamdden awyr agored
- Iaith Gymraeg ffyniannus
- Mae pob tirwedd yn bwysig
- Cyflawni drwy gydweithio
- Arloesi mewn adnoddau

Cynllun Eryri 2020

2.10 Cynllun Eryri, Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol a fabwysiadwyd yn 2020 yw'r ddogfen strategol drosfwaol ar gyfer y Parc Cenedlaethol, sy'n cydlyn ac yn integreiddio cynlluniau, strategaethau a chymau gweithredu eraill. Mae'n nodi sut y caiff pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a'r ddyletswydd gysylltiedig eu cyflawni drwy ddatblygu cynaliadwy. Nid cynllun ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig yw Cynllun Eryri; mae hwn yn gynllun ar gyfer yr holl bobl a sefydliadau hynny sydd â dylanwad dros ddyfodol y Parc Cenedlaethol. Mae Cynllun Eryri yn eistedd ochr yn ochr â Chynllun Datblygu Lleol (CDLI) Eryri. Mae gan y cynlluniau weledigaeth a rennir ac mae'r CDLI yn ceisio cyflawni elfennau gofodol Cynllun Eryri.

2.11 Mae Cynllun Eryri yn cynnwys cyfres o ganlyniadau.

Canlyniadau amgylcheddol:

A1. Mae egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy yn cael eu cyflawni.

A2. Mae bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a'i wella, tra bod cydnherthedd ecosystemau yn cynyddu.

A3. Rydym yn barod am effeithiau newid hinsawdd ac yn lleihau ein hól troed carbon.

A4. Mae Eryri ar flaen y gad yn rhyngwladol wrth fynd i'r afael yn llwyddiannus â

rhywogaethau ymledol, plâu a chlefydau sy'n effeithio ar rywogaethau brodorol.

A5. Mae cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol wrth ofalu am dirweddau, cynefinoedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

A6. Mae Eryri yn enghraifft flaenllaw yng Nghymru o sut i ofalu am a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol. A7. Mae ein Nodweddion Arbennig wedi'u diogelu'n dda.

Canlyniadau Iechyd a Lles:

B1. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant.

B2. Gall trigolion ac ymwelwyr gael mynediad at amrywiaeth o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol gyda'r nod o wella iechyd corfforol a meddyliol.

B3. Mae ein Nodweddion Arbennig yn cael eu cydnabod a'u deall yn eang.

B4. Cyflawnir opsiynau cynaliadwy ar gyfer trafndiaeth a pharcio.

B5. Mae ein cyfleusterau ymwelwyr o ansawdd uchel ac yn sensitif i'r dirwedd.

Deilliannau Cymunedol ac Economi:

C1. Mae iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael eu dathlu, eu cefnogi a'u cryfhau.

C2. Mae swyddi a chyfleoedd yn annog pobl i aros yn yr ardal.

C3. Mae atebion arloesol yn ymwneud â thai fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu yn yr ardal yn cael eu gweithredu

C4. Cefnogir cymunedau lleol i ffynnu ym mhob agwedd ar lesiant

Gadael yr Undeb Ewropeaidd

2.12 Er bod gwir effaith ymadawiad Prydain â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau yn aneglur, mae Brexit yn debygol o gael effaith sylweddol ar y sectorau bwyd, ffermio, pysgota a'r amgylchedd. Mae'r sectorau hyn yn bwysig i economi wledig y Parc Cenedlaethol ac i hyfywedd ein cymunedau lleol ac yn hanfodol i gefnogi cynaliadwyedd yr iaith Gymraeg.

2.13 Arweiniodd ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd hefyd at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr a benderfynodd aros yn y DU gan roi pwysau aruthrol ar ardal y Parc Cenedlaethol a thynnu sylw at yr angen am well cydbwysedd yn yr economi ymwelwyr. Mae gan yr economi ymwelwyr gyfraniad pwysig i'w wneud i economi a chymunedau Eryri – mae angen i'r cyfraniad hwn fod yn gytbwys a chynaliadwy er mwyn gwarchod ein cymunedau, ein hamgylchedd, ein hiaith a'n diwylliant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Pandemig coronafeirws

2.14 Mae hefyd yn bwysig deall goblygiadau pandemig y coronafeirws ar ardal y Parc Cenedlaethol. Daeth yr economi i stop gyda siopau a busnesau nad oedd yn hanfodol yn gorfod cau dros nos. Yn dilyn llacio'r cyfyngiadau ar ôl y cyfyngiadau symud cyntaf, gwelodd y Parc Cenedlaethol gynnydd yn nifer yr ymwelwyr uwchlaw blynyddoedd blaenorol, wrth i fwy benderfynu cymryd eu gwyliau o fewn y DU. Arweiniodd hyn at bwysau sylweddol ar reoli ymwelwyr a'r amgylchedd. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn traffig a pharcio ynghyd â gwrsylla gwyllt a faniau gwrsylla/cartrefi modur yn parcio ar ochr y ffyrdd / meysydd parcio dros nos.

2.15 Dros nos, gwelsom gynnydd sylweddol mewn gweithio gartref, a ysgogodd gynnydd yn y galw am eiddo o'r tu allan i'r ardal leol gan y rhai sy'n dymuno cael bywyd mwy cytbwys wrth weithio gartref gan arwain at wrthdaro posibl â thrigolion lleol ynghylch argaeledd eiddo. Mae'r galw am ail gartrefi a lletai gwyliau hefyd wedi gwthio prisiau i fyny gyda mwy o anheddau preswyl parhaol yn cael eu defnyddio fel llety gwyliau gan leihau'r stoc sydd ar gael i gymunedau lleol.

Adeiladu Lleoedd Gwell Y System Gynllunio yn Cyflawni Dyfodol Cydnerth a Disglair (Gorffennaf 2020)

- 2.16 Mae'r ddogfen hon yn gosod allan beth yw blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i helpu i gymryd camau yn y cyfnod adfer ar ôl argyfwng pandemig Covid-19. Mae'r ddogfen yn amlygu'r blaenoriaethau polisi a'r camau gweithredu y dylid eu defnyddio yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru.
- 2.17 Mae'r argyfwng pandemig wedi amlygu'r angen am leoedd o ansawdd da i bobl fyw, gweithio ac ymlacio ynddynt. Rydym hefyd wedi gweld pwysigrwydd gwasanaethau a seilwaith lleol gyda phobl yn treulio mwy o amser yn lleol. Mae'r ddogfen hefyd yn tynnu sylw at y ffaith, er bod angen yn ddi-os am adferiad economaidd, y dylai'r system gynllunio ei hwyluso, na ddylai hyn fod ar draul ansawdd, o ran iechyd a llesiant ac mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Bydd angen cymryd y blaenoriaethau polisi canlynol ar gyfer adferiad ôl-bandemig i ystyriaeth wrth fynd ati i ddiwygio CDLI Eryri:
- Aros yn lleol: creu cymdogaethau
 - Teithio llesol: ymarfer corff ac ailddarganfod dulliau trafndiaeth
 - Adfywio canol ein trefi
 - Lleoedd digidol – achubiaeth cyfyngiadau'r cyfnod llwyrsgloi
 - Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol
 - Ailddeffro sectorau twristiaeth a diwylliannol Cymru
 - Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol
 - Gwella ansawdd aer a seinweddau ar gyfer gwell iechyd a lles

Casgliad

- 2.18 Er na chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau sylweddol sy'n tanseilio Strategaeth Datblygu Gofodol y Cynllun presennol na'i bolisiau strategol, mae'r angen i ddiwygio'r CDLI a'i Strategaeth wedi dod yn amlwg. Mae nifer yr anheddau sydd wedi'u cwblhau'n flynyddol wedi bod yn gyson is na'r Gofyniad Tai Blynnyddol a Ragwelir o 51 o anheddau ac felly nid ydynt yn bodloni strategaeth twf y CDLI. Mae poblogaeth sy'n gostwng a chyfraddau ffurfio aelwydydd newydd arafach yn awgrymu y gallai ffigwr gofyniad tai cyffredinol is fod yn fwy addas wrth fynd ati i ddiwygio'r CDLI.
- 2.19 Ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2019, mae pethau wedi newid yn sylweddol ac mae'r angen i ddiwygio'r CDLI wedi dod yn amlwg. Mae newidiadau sylweddol wedi digwydd yng nghydestun polisi cynllunio, yn enwedig ar lefel genedlaethol gyda chyhoeddi Cymru'r Dyfodol a rhifynnau diweddaraf Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Bydd angen diwygio'r CDLI i adlewyrchu'r pwyslais yn y dogfennau hyn ar egwyddorion creu lleoedd a datblygu cynaliadwy, gan gynnwys y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy.
- 2.20 Bydd diwygio'r CDLI yn gyfle i ailystyried blaenoriaethau polisi cynllunio i gynorthwyo gyda'r adferiad ar ôl argyfwng pandemig Covid-19. Mae effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y pandemig wedi cael canlyniadau pellgyrhaeddol ac wedi codi materion arwyddocaol ar gyfer llunio polisiau yn Eryri yn y dyfodol. Mae'r pandemig wedi amlygu pwysigrwydd iechyd a lles, mynediad at wasanaethau, cydnerthedd economaidd, cysylltedd digidol a gwerth yr amgylchedd naturiol. Rydym wedi gweld gwerth newydd yn cael ei roi ar ddarparu gwasanaethau lleol, bwyd lleol, a mannau gwyrdd o ansawdd lleol. Mae'n bwysig

sicrhau bod pobl leol yn gallu byw'n lleol a bod cymunedau'n dod yn fwy cynaliadwy a chydnerth i'r dyfodol.

- 2.21 Rhaid i'r ACLI hefyd gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Mae angen datblygiadau a seilwaith cynaliadwy, carbon isel i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae hefyd angen pwysleisio economi ymwelwyr sy'n cynnal ac yn parchu'r amgylchedd ac sy'n gwarchod cymunedau lleol, iaith, diwylliant a threftadaeth.

3 DIOGELU, GWELLA A RHEOLI'R AMGYLCHEDD NATURIOL

Mae'r adran hon yn ymateb i'r amcanion canlynol:

Sicrhau bod yr holl ddatblygiad yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n parchu safleoedd cadwraeth natur dynodedig ac yn sicrhau bod amrywiaeth a digonedd o gynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau gwarchoddedig yn cael eu gwarchod a'u gwella.

Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu gan gynnwys gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau'r defnydd o ynni a chynllunio datblygu derbyniol o ran risg llifogydd.

Annog, lle bo hynny'n briodol, defnyddio adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol ar gyfer cynlluniau cynhyrchu pŵer ynni adnewyddadwy ar raddfa fach i ddiwallu anghenion lleol heb niweidio 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal.

Gwarchod a gwella adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol gan gynnwys ansawdd ei geoamrywiaeth, dŵr, pridd ac aer.

Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd a geoamrywiaeth y Parc Cenedlaethol.

Hyrwyddo lleihau gwastraff a sicrhau bod cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu cynaliadwy, integredig yn unol â'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.

Cymeriad, Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd

- 3.1 Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i hyrwyddo gwarchod, rheoli a chynllunio tirwedd Eryri. Mae ei Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Dirweddau Eryri yn nodi 25 Ardal Cymeriad Tirwedd nodedig. Yn dilyn ymlaen o'r gwaith hwn mae'r Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd ar y Cyd a'i nod yw darparu datblygwyr a asiantau sydd â gwybodaeth am yr effaith y gallai datblygiad ei chael ar dirweddau Eryri a sut i osgoi, lliniaru neu ddigolledu unrhyw effeithiau andwyol.

Gwarchodfa Awyr Dywyll

- 3.2 Ym mis Tachwedd 2015, dyfarnwyd statws Gwarchodfa Awyr Dywyll i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae dynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll yn wobwr fawreddog a roddir gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (a adwaenir yn gryno fel yr IDA) i'r ardaloedd arwahanol hynny sydd wedi profi bod ansawdd awyr eu nos yn rhagorol ac wedi dangos bod ymdrechion gwirioneddol yn cael eu gwneud i leihau llygredd golau ymwithiol.
- 3.3 Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad i'r IDA yn flynyddol, gyda'r nod o ddangos bod y Warchodfa yn parhau i fodloni lleiafswm gofynion y rhaglen, yn cynnal partneriaethau, allgymorth ac ymdrechion dehongli ac yn gwneud cynnydd digonol tuag at gydymffurfio

gydag o leiaf 90% o Gynlluniau Rheoli Goleuadau. Gellir gweld yr adroddiad hwn ar wefan 'International Dark Sky Reserves'.

- 3.4 Yn ystod mis Hydref 2016, cyhoeddwyd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Oleuadau Ymwthiol (Llygredd Golau). Er bod y Parc Cenedlaethol cyfan wedi'i ddynodi'n Warchodfa Awyr Dywyll, mae nifer o ardaloedd craidd, a ddangosir ar y Map Cynigion, lle bydd goleuadau newydd yn cael eu rheoli'n llym a rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion "Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri. Prif Gynllun Goleuo Allanol" a gynhyrchwyd gan Lighting Consultancy And Design Services Ltd. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig (2016-2031) yn mynd i'r afael â'r statws Awyr Dywyll yn y Cynllun, a nodir yr "ardaloedd craidd" ar y map cynigion.
- 3.5 Rhwng 2016 a 2017, bu nifer o gyfarfodydd a thrafodaethau rhwng APCE, Cyngorau Cymunedol a Sefydliadau penodol i geisio cynnal a gweithredu'r Warchodfa Awyr Dywyll trwy amrywiol brosiectau sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn anelu at geisio ei hamddiffyn. Un o'r prosiectau hyn oedd Goleuo Stryd Gwynedd, ac ym mis Mawrth 2017, mae wedi llwyddo i leihau dros 50% o oleuadau stryd Gwynedd, a thrwy hynny sicrhau amddiffyniad pellach i'r Warchodfa Awyr Dywyll. Yn ystod Haf 2017 cyflwynodd Cyngor Priffyrdd a Gwynedd gynneg cyllid ar gyfer buddsoddiad mawr arall, prosiect tair blynedd i leihau'r 7,500 o oleuadau stryd sy'n weddill yng Ngwynedd.
- 3.6 Ers 2017, bu pwyslais ar weithio yn y gymuned i gynorthwyo pobl leol i berchnogi llygredd golau yn eu hardaloedd. Mae digwyddiadau a chyngor ar oleuo sy'n gyfeillgar i'r awyr dywyll wedi cael derbyniad da gyda llawer o gymunedau yn gofyn am ddigwyddiadau a chefnogaeth bellach i sicrhau eu bod yn amddiffyn y tywyllwch lle maen nhw'n byw. Mae hyn yn bwysig i'r Warchodfa gan ei fod yn golygu y bydd yr ardaloedd sydd y tu allan i'r warchodfa yn tywyllu ac yn creu gwarchodfa dywyllach gobeithio. Yn 2019, ymunodd y Parc â phartneriaeth â thair AHNE Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a Pen Llŷn i helpu i amddiffyn yr awyr nosol dros ardal fwy o Ogledd Cymru, gan gael effaith gadarnhaol ar fywyd gwylt, cynefin, preswylwyr a thwristiaid ar raddfa lawer mwy. Mae'r prosiect, a elwir yn 'Prosiect Nôs' yn gweithio ar draws gogledd Cymru i addysgu a chefnogi cymunedau i amddiffyn eu hawyr dywyll a'r holl fuddion a ddaw yn eu sgil. Ers 2019 maent wedi ymgysylltu â bron i 10,000 o bobl mewn digwyddiadau amrywiol yn yr ardal.
- 3.7 Fel rhan o'r 'Prosiect Nôs', paratowyd dogfen ganllaw o'r enw 'Goleuo Da – Canllaw ar gyfer Busnesau a Chymunedau'. Paratowyd y ddogfen ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy gan Light 4 Cundall, gyda chefnogaeth gweithgor o swyddogion o'r AHNE a Phartneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru Prosiect Nôs (sy'n cynnwys swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri). Mae'r ddogfen yn ceisio darparu gwybodaeth i fusnesau, sefydliadau, cymunedau ac unigolion am sut y gallant greu amgylchedd sy'n cefnogi awyr dywyll, ac i ddod yn gyfeillgar i'r awyr dywyll. Mae'n bosibl y gellid mabwysiadu'r canllawiau hyn fel CCA ar gyfer y Parc Cenedlaethol
- 3.8 Yn 2021, gorffennodd y Parc Cenedlaethol brosiect gyda Phlas y Brenin, y Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol yng Nghapel Curig, a groesawodd y prosiect awyr dywyll i weithio ar wella eu goleuo. Mae'r safle bellach yn arddangosiad ardderchog o sut ddylid goleuo ar gyfer yr awyr dywyll. Mae'n well i iechyd trigolion lleol, pobl sy'n ymweld â'r ganolfan ac i'r cynefin nosol ac ar gyfer llu o wahanol fathau o fywyd gwylt. Mae'r ganolfan hefyd wedi arbed bron i ddwy dunnell o garbon y flwyddyn drwy newid ei golau a bydd yn gwireddu miloedd mewn arbedion ynni dros amser.

Newid Hinsawdd

3.9 Yn 2019 datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd. Mae PCC yn nodi fframwaith polisi uchelgeisiol a chynhwysfawr i awdurdodau cynllunio fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.

3.10 Mae meysydd polisi PCC yn hyn o beth yn cynnwys;

- Dylid defnyddio hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy i leihau'r angen i deithio, atal datblygiadau sy'n ddibynnol ar geir mewn lleoliadau anaddas, a chefnogi cyflwyno cynlluniau sydd wedi'u lleoli, eu cynllunio a'u cefnogi gan seilwaith sy'n blaenoriaethu mynediad a symud trwy drafnidiaeth weithredol a chynaliadwy.
- Pwysigrwydd Cerbydau Allyrru Isel lawn (a adwaenir yn gryno fel ULEVs) sy'n cynnwys cerbydau trydan, wrth ddatgarboneiddio trafndiaeth.
- Gofyniad i awdurdodau cynllunio lleol sefydlu targedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn cynlluniau datblygu, yn ogystal â nodi ardaloedd gofodol lle bydd datblygiadau ynni adnewyddadwy yn cael eu caniatáu.
- Cyfyngu gwirioneddol ar echdynnu tanwydd ffosil newydd.
- Sicrhau gwella bioamrywiaeth (budd net i fioamrywiaeth), cydnerthedd ecosystemau a seilwaith gwyrdd fel rhan o atebion sy'n seiliedig ar natur.
- Symud mesurau ymgorffori egwyddorion economi gylchol ymlaen, yn enwedig wrth adeiladu, a defnyddio, yr amgylchedd adeiledig a'r tir, a rheoli adnoddau mwynau yn gynaliadwy.
- Cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

3.11 Mae Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflawni Cymru Carbon Isel 2019, yn ddogfen sy'n amlinellu'r sylfeini i Gymru drosglwyddo i fod yn genedl carbon isel. Mae'r cynllun yn dechrau'r broses o roi'r systemau a'r polisiâu ar waith sydd eu hangen i gyrraedd targedau hirdymor ar draws meysydd allweddol megis amaethyddiaeth, defnydd tir, trafndiaeth, ynni, y sector cyhoeddus, diwydiant a busnes, gwastraff a chartrefi. Erbyn 2050, nod Llywodraeth Cymru yw lleihau allyriadau o leiaf 80% (yn erbyn gwaelodlin 1990).

3.12 Cynhaliwyd asesiad gan swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri yn gynnar yn 2021, er mwyn edrych ar sut mae polisiâu a strategaethau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Eryri;

- Cyfrannu at gynhyrchu CO2 ac i ba raddau
- Mynd ati i leihau carbon ac i ba raddau
- Cyfrannu at amsugno carbon ac i ba raddau

3.13 Daeth yr asesiad o'r CDLI presennol i'r casgliad bod y polisiâu a'r strategaethau ynddo yn effeithiol o ran lleihau carbon yn weithredol a bod polisiâu hefyd yn cyfrannu at amsugno carbon. Er enghraifft mae Polisi Dd (Newid yn yr Hinsawdd) yn y cynllun yn galluogi cadwraeth a gwarchodaeth o goetiroedd, priddoedd ucheldir ac ardaloedd mawndir i gynorthwyo gyda chadw carbon. Mae'n hanfodol bod y Cynllun newydd yn darparu cyfeiriad clir ac yn parhau i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'n hanfodol bod datblygiad yn y dyfodol yn cael ei reoli'n gynaliadwy o fewn terfyn amgylcheddol

a charbon y Parciau Cenedlaethol. Yn ystod mis Mai 2021, cynhyrchodd Dr Chris Jones (Canolfan Tyndall) ddogfen o'r enw 'Gosod Cyllidebau Carbon ar gyfer Eryri'. Roedd y ddogfen yn ceisio cyflwyno targedau newid hinsawdd ar gyfer y Parc Cenedlaethol, wedi'u llywio gan y wyddoniaeth ddiweddaraf ar newid yn yr hinsawdd ac wedi'u diffinio yn nhermau pennu cyllideb carbon ar sail gwyddoniaeth. Daeth yr asesiad i'r casgliad, er mwyn i'r Parc Cenedlaethol wneud cyfraniad 'teg' tuag at Gytundeb IPCC Paris, bod angen iddo;

- Aros o fewn cyllideb allyriadau carbon deuocsid uchaf o 1,201 mil tonnall (ktCO₂) ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2100. Ar lefelau allyriadau CO₂ 2017, byddai'r gyllideb hon yn cael ei gwario o fewn 6 blynedd o 2020
- Cychwyn rhaglen ar unwaith o liniaru CO₂ i gyflawni toriadau blynyddol o 14.2% ar gyfartaledd mewn allyriadau er mwyn darparu cyllideb garbon wedi'i halinio â Chytundeb Paris. Mae angen gweithredu cenedlaethol a lleol ar gyfer y gostyngiadau hyn, a gallent fod yn rhan o gydweithrediad ehangach o fewn y Parc Cenedlaethol
- Cyrraedd sero neu bron yn ddi-garbon erbyn 2039 fan bellaf.

3.14 Mae'r Awdurdod wedi comisiynu Small World Consulting, i gynnal asesiad o ôl troed carbon Parc Cenedlaethol Eryri a llwybr arfaethedig i sero net, a chyhoeddir y canlyniadau yn ystod 2022.

3.15 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd eu 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' yn para'r cyfnod rhwng 2022 a 2030. Nod y cynllun yw amlinellu'r camau y byddant yn eu cymryd erbyn 2030 i sicrhau'r uchelgais o ddod yn gyngor sero net. yn cael ei gwrdd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i'r pynciau a restrir isod, er mwyn sicrhau y cyflawnir yr uchelgais sero net;

- Adeiladau ac ynni
- Symudedd a thrafnidiaeth
- Gwastraff
- Llywodraethu
- Caffael
- Defnydd Tir
- Ecoleg

3.16 Bydd y cynllun yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o broses monitro perfformiad mewnol y cyngor.

Strategaeth Carbon Isel Eryri 2024 - 2029

3.17 Mae swyddogion yr Awdurdod a'r Grŵp Craffu Carbon wedi bod yn gweithio ar lunio drafft o Strategaeth Carbon Isel i'r Awdurdod a mae hyn yn waith amserol ac arwyddocaol gan bod Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu adolygu o fewn y flwyddyn. Yn ogystal a tharged 2050 Llywodraeth Cymru mae gan y Sector Gyhoeddus darged o gyflawni carbon net sero erbyn 2030. Bydd yr 'uchelgais gyfunol 2030' yma yn canolbwyntio ar ôl troed y sector cyhoeddus ei hun, er yn cydnabod bod dylanwad ehangach a rôl arweinyddiaeth bwysig. Mae cynlluniau gweithredu'r sefydliadau eu hunain yn debygol o gynnwys meysydd blaenoriaeth eraill ond mae pedwar maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried fel y rhai allweddol i gyflawni'r uchelgais carbon net sero ar y cyd – ac maent fel a ganlyn; Adeiladau; Symudedd a thrafnidiaeth; Caffael; a Defnydd tir.

- 3.18 Hyd yn hyn, mae APC wedi comisiynu 3 adroddiad i lywio'r sylfaen dystiolaeth a llunio polisiau yn y Parc Cenedlaethol. Mae pob un o'r 3 adroddiad yn cyfrannu'n sylweddol at y sylfaen dystiolaeth, ond mae ganddynt eu cyfyngiadau hefyd. Byddant yn ddefnyddiol ar gyfer llywio a bwydo gwybodaeth yn hytrach na gosod trefniadau ar gyfer llunio polisiau.
- 3.19 Y tri adroddiad dan sylw yw "Canolfan Tyndall: Penny Cyllidebau Carbon ar gyfer Eryri"; Gwaith gan 'Small World Consulting'; a gwaith Aquaterra (sut gall sefydliad y Parc ei hun gyfrannu at di-garboneiddio). Roedd yr adroddiadau yma i gyd yn cynnwys nifer fawr o argymhellion a thargedau er mwyn i'r Awdurdod ei hun, ac ardal y Parc, sicrhau gyrru ymlaen at y targed 2030.

Seilwaith Gwyrdd

- 3.20 Mae gan seilwaith gwyrdd leoliad allweddol ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) (argraffiad 10) a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi mai seilwaith gwyrdd yw'r rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, manau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n croeswasgu a chysylltu lleoedd.
- 3.21 Mae Seilwaith Gwyrdd yn cynnwys nodweddion megis;
- Coedydd
 - Coed stryd
 - Pyllau, nentydd, llynnoedd a gwlyptiroedd
 - Dolydd a glaswelltiroedd
 - Ymylon ffyrdd
 - Parciau a gerddi (manau agored a arferai fod ag adeiladau – tir llwyd)
 - Tiroedd wedi'u tirlunio o amgylch swyddfeydd a ffatrioedd
 - Toeau gwyrdd a waliau gwyrdd
 - Unrhyw nodweddion gyda phlanhigion neu ddŵr
- 3.22 Ar raddfa leol gallai'r rhain gynnwys parciau, caeau, hawliau tramwy cyhoeddus, rhandiroedd, mynwentydd a gerddi. Ar raddfeydd llai gall ymyriadau trefol unigol megis coed stryd, gwrychoedd, ymylon ffyrdd a thoeau/waliau gwyrdd oll gyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd.
- 3.23 Mae'r nodweddion hyn yn darparu ystod o swyddogaethau a defnyddiau naturiol, trwy wella ein cysylltedd trwy lwybrau troed a llwybrau beicio; trwy greu gofod i fyd natur trwy gysylltu cynefinoedd, sefydlu cyfleusterau hamdden a 'gwyrdd' ein hardaloedd trefol gan eu gwneud yn fwy gwydn i effaith newid hinsawdd. Mae CNC yn nodi bod y buddion ecosystem a allai ddeillio o fannau gwyrdd trefol yn sylweddol. Yn y gorffennol, nid oedd pwysigrwydd y meysydd hyn o ran iechyd a lles cyffredinol bob amser yn cael ei werthfawrogi, gan olygu nad oedd eu potensial byth yn cael ei wireddu. Gall gwelliannau mewn seilwaith gwyrdd hefyd arwain at leihau llygredd sŵn, amsugno dŵr stormydd glaw, dal llygredd aer a chreu lleoedd ar gyfer ymarfer corff.
- 3.24 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai'r system gynllunio ddiogelu a gwella asedau a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd. Yn ogystal, rhaid ystyried gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn ofalus fel rhan o ddarpariaeth seilwaith gwyrdd. Dylid gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trwy integreiddio seilwaith gwyrdd i ddatblygiad trwy ddewis safle priodol a defnyddio dylunio creadigol. Gyda chynllunio a dylunio gofalus, gall seilwaith gwyrdd wreiddio manteision bio-amrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau mewn datblygiadau a lleoedd newydd. Mae sawl ffordd o ymgorffori seilwaith gwyrdd, yn dibynnu ar yr anghenion a'r cyfleoedd a gyflwynir gan safle. Mae tirlunio, toeau gwyrdd, ymylon glaswelltog, draeniad trefol cynaliadwy a gerddi yn enghreifftiau o fesurau unigol a all fod â buddion cronol

ehangach, yn enwedig mewn perthynas â bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau yn ogystal â sicrhau rhinweddau amgylcheddol dymunol eraill lleoedd.

- 3.25 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dulliau strategol a rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth drwy gynhyrchu rhestrau eiddo a mapiau cyfoes o seilwaith gwyrdd presennol. Yn dwyn y teitl 'Asesiadau seilwaith gwyrdd', dylid defnyddio'r rhain i ddatblygu adnodd tystiolaeth sy'n seiliedig ar fap a dylent dynnu o'r sylfaen dystiolaeth a ddarparwyd gan Ddatganiadau Ardal ac asesiadau llesiant a chael eu hintegreiddio mewn cynlluniau datblygu. Ceir rhagor o wybodaeth am oblygiadau seilwaith gwyrdd i'r adolygiad o'r cynllun ar ddiwedd y bennod hon.

Ffosffadau

- 3.26 Yn 2016 gosodwyd safonau ffosfforws uwch a thargedau gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (corff cyhoeddus sy'n cynghori llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig), ac yn 2021 cyhoeddodd CNC dystiolaeth a ddangosodd fod dros 60% o ardaloedd cadwraeth arbennig afonol (ACA) cyrff dŵr, wedi methu yn erbyn y safonau ffosfforws diwygiedig.
- 3.27 Fel rhan o'u proses CDLI, cynhyrchodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam "Strategaeth Lleihau Ffosfforws Dalgylch y Ddyfrdwy" (ochr yn ochr â Chyngor Sir y Fflint) ym mis Tachwedd 2021. Cafodd ei gydnabod gan yr Arolygydd Cynllunio fel y cyntaf o'i fath yng Nghymru, ac fe'i crëwyd oherwydd bod prawf cydymffurfio gan CNC wedi canfod bod ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid ill dau wedi methu â chyrraedd y safonau a'r trothwyon newydd.
- 3.28 O ran Parc Cenedlaethol Eryri, cynhaliwyd asesiad yn ystod Ionawr 2022 i geisio deall effaith cynllunio a datblygu posib cyngor cynllunio ffosffad CNC ar gyfer dalgylchoedd ACA afonydd Eryri. O ran y dalgylchoedd ACA afonydd yr effeithir arnynt o fewn y Parc Cenedlaethol, maent yn cynnwys; Gwyrfai, Glaslyn, Dyfrdwy a'r Eden. O'r rhain, mae rhannau o ACA Dyfrdwy yn methu â chyrraedd y safonau newydd hyn.
- 3.29 O ran aneddiadau y mae'r safonau ffosffad newydd yn effeithio arnynt, yng Nghynllun Datblygu Lleol presennol Eryri, amcangyfrifir yr effeithir ar 4 safle a neilltuwyd (gan gynnwys tai). Mae hyn yn cyfateb i tua 28 o unedau marchnad agored a 50 o unedau tai fforddiadwy. Wrth fynd ati i ddiwygio'r Cynllun bydd angen asesu effeithiau strategaethau ffosffad ar safleoedd a dyraniadau o fewn y Parc Cenedlaethol.
- 3.30 Mae'r goblygiadau i Barc Cenedlaethol Eryri, a'r broses adolygu yn cael eu trafod ymhellach ar ddiwedd y bennod.

Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLIS)

- 3.31 Roedd NCT 15 diwygiedig i'w gyhoeddi yn ystod 2022, ond ers hynny mae wedi'i ohirio tan ddiwedd 2024. Bydd y NCT diwygiedig yn cynnwys canllawiau llymach ar gyfer datblygu, sy'n cynnwys datblygu tir llwyd yn unig mewn ardaloedd o risg a throthwyon uwch ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd.
- 3.32 Rhan o'r rheswm am yr oedi yw fel y gall Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) gynllunio'n ddigonol ar gyfer yr ardaloedd perygl llifogydd newydd, yn enwedig wrth lunio Cynlluniau Datblygu Lleol neu wrth fynd drwy brosesau adolygu.
- 3.33 Yn ystod mis Rhagfyr 2021, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn gofyn i'w ACLIS gael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu'r Mapio Llifogydd ar gyfer Cynllunio sy'n rhan o'r NCT 15 newydd. Mae'r MLIC newydd (yn wahanol i Fapiau

Cyngor Datblygu blaenorol y NCT) yn ystyried risgiau newid hinsawdd yn y mapiau perygl llifogydd.

- 3.34 Mewn ymateb i hyn, mae Cyngor Gwynedd, Cyngor Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri wedi penodi Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) er mwyn diweddarau'r asesiadau o safleoedd, a safleoedd a ddynodwyd, o fewn y Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r safleoedd hyn yn amrywio o safleoedd preswyl a dyraniadau; safleoedd cyflogaeth a diwydiannol a'r ardaloedd menter dynodedig..

Datganiadau Ardal

- 3.35 Mae Datganiadau Ardal a gynhyrchir gan CNC yn cwmpasu saith rhan wahanol o Gymru, gyda Datganiad Ardal gogledd orllewin Cymru yn berthnasol i Barc Cenedlaethol Eryri. Eu pwrpas yw amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal; beth y gellir ei wneud i gwrdd â'r heriau hynny a sut y gallwn reoli adnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol.
- 3.36 Mae'r Datganiadau Ardal yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn wrth i fwy o ddata a gwybodaeth gael eu casglu. Roedd y themâu allweddol ar gyfer ardal gogledd orllewin Cymru yn cynnwys 'Ffyrdd o Weithio'; 'Argyfwng hinsawdd a natur'; 'Ailgyssylltu pobl â natur'; 'Annog economi gynaliadwy'; 'Cefnogi rheolaeth tir cynaliadwy'; 'Cyfleoedd ar gyfer ecosystemau cydnerth'.
- 3.37 Nodwyd bod llawer o ecosystemau yn ein hamgylchedd naturiol yn dirywio, ac mae angen dod o hyd i ffyrdd mwy cynaliadwy o reoli, gwarchod a gwella'r asedau naturiol hyn.

Cynllun Morol Cymru

- 3.38 Cyhoeddwyd Cynllun Morol Cymru yn ystod mis Tachwedd 2019, a dyma'r cynllun morol cyntaf i Gymru ac mae'n cynrychioli dechreuad y broses o lunio ein moroedd i gefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Bydd cynllunio morol yn arwain datblygiad cynaliadwy'r ardal forl drwy nodi sut y bydd cynigion yn cael eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- 3.39 Mae'r ddogfen yn gynllun morol ar gyfer rhanbarthau cynllun morol Cymru ar y glannau ac ar y môr. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r cynllun a'r deunydd ategol i lunio cynigion a cheisiadau am drwyddedau, awdurdodau cyhoeddus i arwain y broses o wneud penderfyniadau a defnyddwyr eraill i ddeall polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yn ardal y Cynllun Morol. Mae'n gynllun 20 mlynedd a bydd yn cael ei adolygu bob tair mlynedd.

Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

- 3.40 Cyhoeddwyd y ddogfen hon ym mis Hydref 2020, a dyma'r ail Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (RhPLIEA) i Gymru, sy'n disodli strategaeth 2011. Mae wedi'i baratoi o dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.
- 3.41 Mae'r strategaeth yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rheoli'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru. Mae'n gosod amcanion a mesurau i'r holl bartneriaid weithio tuag atynt dros oes y ddogfen (sef 10 mlynedd oni bai bod angen diweddariadau polisi sylweddol cyn hynny).
- 3.42 Er bod mesurau wedi'u cynllunio i fod yn glir ac yn gyflawnadwy dros y degawd nesaf, mae'r strategaeth wedi'i drafftio gyda golwg strategol tymor hwy, gan gydnabod natur perygl llifogydd ac erydu arfordirol o ran heriau newid yn yr hinsawdd. Yn y modd hwn bydd yn

gweithio ochr yn ochr â chynlluniau strategol eraill ar gyfer rheoli traethlin, seilwaith a chynllunio i nodi'r cyfeiriad y mae Llywodraeth Cymru am ei gymryd.

- 3.43 Cyfeiriad penodol o fewn y ddogfen, a all effeithio'n anuniongyrchol ar y Parc Cenedlaethol, yw'r rhan am Fairbourne, Gwynedd. Saif y pentref ychydig y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Fairbourne ar far tywod isel y tu ôl i amddiffynfeydd arfordirol ac aberol a fydd yn dod yn fwyfwy anodd i'w rheoli. Mae'r amddiffynfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer adlinio rheoledig yn y Cynllun Rheoli Traethlin oherwydd fe ystyrir mai dyma'r ateb mwyaf cynaliadwy i gadw trigolion yn ddiogel yn y tymor hir. Yng Nghymru, bydd 95 o ardaloedd arfordirol yn symud o bolisi 'dal y lein' (amddiffyn) i 'ddim ymyrraeth weithredol' neu 'adlinio rheoledig' erbyn 2100. Mae'n bosibl y bydd angen adleoli eiddo ar ryw 40 o'r ardaloedd hynny. Nid yw polisi o adlinio rheoledig yn golygu tynnu cymorth yn ôl yn gyfan gwbl. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer astudiaethau amddiffyn, cynnal a chadw ac addasu yn Fairbourne. Ers 2013, mae £8 miliwn wedi'i fuddsoddi i gadw ei drigolion yn ddiogel, cynllunio ymlaen llaw ac addasu. Mae'n bosibl y gallai hyn olygu rhywfaint o adleoli trigolion/aelwydydd yn y dyfodol, ac felly mae datblygiadau yn Fairbourne yn rhai i gadw llygad arnynt yn y dyfodol.

Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (Cyngor Gwynedd)

- 3.44 Mae swyddogion Cyngor Gwynedd wedi cynhyrchu dogfen ddrafft 'Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, 2010 yn gofyn fod y 22 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA) yng Nghymru yn llunio Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (Strategaeth Leol). Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (RPLEA) yng Nghymru (Strategaeth Genedlaethol) yn nodi bod dros 245,000 eiddo ar hyd a lled Cymru mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb, gyda bron i 400 eiddo hefyd mewn perygl o erydu arfordirol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn egluro fel bydd yr hinsawdd yn newid, gallwn ddisgwyl i'r perygl hwnnw gynyddu, gyda llifogydd amlach a mwy difrifol, lefel y môr yn codi a'r arfordir yn erydu ar raddfa gyflymach. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi'r cyd-destun cyfreithiol i weithgareddau RPLEA yng Nghymru. Mae'n ofynnol hefyd mewn rhai amgylchiadau i Awdurdodau Lleol lunio Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd dan Reoliadau Perygl Llifogydd 20093 (bellach wedi'i dirymu o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir).
- 3.45 Mae Awdurdodau Rheoli Risg gwahanol (ARR) yng Nghymru yn gyfrifol am wahanol ffynonellau o berygl llifogydd. Mae'r ALILIA yng Nghymru yn gyfrifol am 'beryl llifogydd lleol' gaiff ei ddiffinio fel perygl llifogydd o; Ddŵr wyneb ffo; Dŵr Daear; a Cyrsiau dŵr arferol (yn gyffredinol cyrsiau dŵr llai). Mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio ar y ffynonellau lleol yma o berygl llifogydd ond mae yn cydnabod ac yn ystyried ffynonellau eraill perygl llifogydd (yn cynnwys o'r môr, cyrsiau dŵr mwy a charthffosydd) a ARR cysylltiedig.
- 3.46 Cyhoeddwyd y Strategaeth Leol gyntaf yn 2014, oedd yn gosod y dull cyffredinol i reoli perygl llifogydd lleol. Ochr yn ochr â'r Strategaeth Leol fe gyhoeddwyd y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (CRPL). Roedd y CRPL yn datblygu'r amcanion a'r camau gweithredu lefel uchel a amlinellwyd yn y Strategaeth Leol mewn cynllun mwy manwl i reoli llifogydd yn y cymunedau. Y ddogfen hon yw yr ail Strategaeth Leol. Er i'r Cyngor gyhoeddi y Strategaeth Leol a'r CRPL ar wahân, mae'r Strategaeth Leol newydd yma yn cyfuno'r ddwy ddogfen fel un. Mae hyn yn lleihau unrhyw gymhlethdod ac yn galluogi cyfathrebu a rheoli perygl llifogydd lleol yn fwy effeithiol. Yn y ddogfen hon maent yn adnabod y peryglon presennol ac yn y dyfodol sy'n gysylltiedig gyda llifogydd ac erydu arfordirol. Y nod yw sicrhau fod y darlennydd yn ymwybodol o'r holl ffynonellau llifogydd yn y gymuned, yn hytrach na chanolbwyntio yn unig ar y ffynonellau y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel ARR iddynt.

Adferiad Natur

- 3.47 Mae ffocws allweddol ar wyrddroi dirywiad bioamrywiaeth a phwysigrwydd rhwydweithiau ecolegol cydnerth sy'n hanfodol ar gyfer adfer natur ac at ddibenion iechyd a lles. Hefyd, fe wnaeth y pandemig Covid-19 amlygu pwysigrwydd mynediad i fannau gwyrdd.
- 3.48 Mae 'Adeiladu Gwell Lleodedd' - Gorffennaf 2020' Llywodraeth Cymru yn nodi'r angen i wneud y mwyaf o ddiogelu'r amgylchedd a chyfyngu ar yr effaith amgylcheddol. Bydd y rhain yn cael eu mesur yn erbyn canlyniadau sy'n cynnwys;
- bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth
 - tirweddau arwahanol ac arbennig
 - seilwaith gwyrdd integredig
 - seinweddau priodol
 - llai o risgiau amgylcheddol
 - rheoli adnoddau dŵr yn naturiol
 - aer glân
 - llai o lygredd yn gyffredinol
 - gwytnwch i newid yn yr hinsawdd
 - amgylchedd hanesyddol unigryw ac arbennig
- 3.49 Mae swyddogion o fewn adran cadwraeth y Parc Cenedlaethol yn gweithio ar greu 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri' (CGAN). Fe fydd hwn yn gynllun strategol ar gyfer ceisio adfer yr amgylchedd naturiol. Bydd CGAN Eryri yn ddogfen sydd wedi ei hanelu at hyrwyddo bioamrywiaeth ac ecosystemau o fewn y Parc Cenedlaethol trwy gydweithio gyda chymunedau lleol. Fe fydd yn disodli'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth blaenorol ac yn cyd-fynd â galwadau rhyngwladol am adferiad byd natur, yn ogystal â deddfwriaeth, polisïau, a thargedau byd-eang Llywodraeth Cymru. Bydd hefyd yn cyd-fynd â'r datganiadau Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Natur a gyhoeddwyd yn 2019 a 2021 yn y drefn honno. Bydd y CGAN wedi'i gynllunio i fod ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwella a diogelu byd natur. Bydd hyn yn cynnwys unigolion, grwpiau cymunedol, ysgolion, tîrffeddiawyr, rheolwyr tir, awdurdodau lleol a rhanbarthol, busnesau, a sefydliadau dielw. Prif nod trosfwaol CGAN Eryri fydd i annog mentrau sy'n gwarchod, yn cadw, ac yn gwella byd natur, er budd pobl a'r amgylchedd yn ein cymunedau lleol a thu hwnt. Bydd y CGAN hwn yn cwmpasu'r ardal o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, a rennir rhwng Cynghorau Sir Gwynedd a Chonwy.

Strategaeth Coedlannau

- 3.50 Mae swyddogion o fewn y Parc Cenedlaethol, a phartneriaid allanol, wedi dod at eu gilydd i gynhyrchu drafft 'Strategaeth Coedlannau' ar gyfer yr Awdurdod. Mae hyn yn dilyn astudiaeth diweddar a gynhaliwyd i asesu ôl troed carbon holl Barciau Cenedlaethol y DU wedi amlygu bod angen cynllun lleihau a dal a storio carbon lleol. Fel rhan o'r ymateb i'r adroddiad hwn sydd i'w gyhoeddi'n fuan, roedd Awdurdod y Parc am gynhyrchu Strategaeth Coed a Choetiroedd. Wrth i ddiddordeb gynyddu mewn caffael tir ar gyfer plannu coed, atafaelu carbon, a masnachu carbon, mae ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith cymunedau a'r Awdurdod o'r newidiadau posibl sydd o'n blaenau. Mae'n hanfodol i'r Awdurdod fod yn barod i wynebu'r heriau hyn a darparu arweiniad ar y camau gweithredu priodol, lleoliadau a dwysedd mentrau plannu coed.

- 3.51 Mae Awdurdod y Parc yn deall yr angen i gydbwyso nodau lleihau carbon a chadwraeth amgylcheddol gyda nodweddion unigryw ac anghenion y cymunedau lleol. Trwy fod yn rhagweithiol ac yn unedig gyda'r cymunedau, mae'r Awdurdod yn anelu at sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer Eryri, gan ystyried agweddau ecolegol, cymdeithasol a diwylliannol y rhanbarth. Mae'n debygol y bydd rhyddhau'r astudiaeth ôl troed carbon yn arwain at fwy o sylw a thrafodaethau ynghylch dal a storio carbon a masnachu yn Eryri. Fel ceidwad y Parc Cenedlaethol, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu cyngor ac arweiniad gwerthfawr i gymunedau lleol a rhanddeiliaid. Bydd hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch math a graddfa mentrau plannu coed, gan sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at y nodau hinsawdd a chymeriad a lles unigryw Eryri a'i thrigolion. Bydd fersiwn terfynol o'r Strategaeth yma yn cael ei gyflwyno tuag at ddiwedd 2024/dechrau 2025.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- 3.52 Mae'r ddeddfwriaeth hon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn sefydlu'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Derbyniodd y ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'r ddeddf yn gosod Cymru fel economi werdd carbon isel, yn barod i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- 3.53 Mae polisiau yn y Cynllun Datblygu Lleol (2016-2031) yn gweithio tuag at nodau'r ddeddf hon ac mae polisiau penodol ynddo wedi'u cynnwys gyda'r nod o amddiffyn bioamrywiaeth a'r amgylchedd.

Cymru'r Dyfodol 2040

- 3.54 Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw fframwaith ddatblygu cenedlaethol Llywodraeth Cymru, ac mae'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Wedi'i fabwysiadu yn ystod mis Chwefror 2021, mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio. Mae rhai adrannau o'r ddogfen, sy'n berthnasol i'r bennod hon o'r AMB yn cynnwys;
- 3.55 O ran cynhyrchu ynni, mae lleoliad posib Adweithydd Modiwlaid Bach (AMBach) yn Nhrawsfynydd y cyfeirir ato yn y ddogfen hon. Mae'r ddogfen yn nodi "*Mae Trawsfynydd yn safle posib ar gyfer Adweithydd Modiwlaid Bach, gan adeiladu ar y gallu a'r arbenigedd technegol sector-benodol presennol sydd ar gael yn lleol ac yn creu parth twf diwydiant niwclear newydd. Mae'r safle mewn sefyllfa unigryw ar ôl bod yn gyn orsaf ynni niwclear gyda'r seilwaith angenrheidiol a'r sgiliau lleol ar waith*".
- 3.56 Mae'r dogfen hefyd yn nodi'r ymrwymiad tuag at "Ddatblygu coedwig genedlaethol trwy nodi safleoedd a mecanweithiau priodol. Cefnogir camau i ddiogelu lleoliadau arfaethedig ar gyfer y goedwig genedlaethol". Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gynyddu gorchudd coetir yng Nghymru o leiaf 2,000 ha y flwyddyn o 2020. Mae planhigfeydd coedwigol yn fater rheoli tir ar hyn o bryd ac nid yw gyfystyr â datblygiad yn nhermau cynllunio. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd sut y bydd y polisi cenedlaethol sydd wedi'i gynnwys yn "Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040" yn cael ei gymhwyso trwy'r broses cynllunio. Yn nhermau rheoli tir gallai cynyddu gorchudd coetir gael effaith sylweddol ar dirwedd Eryri a cynaliadwyedd dyfodol ffermydd teuluol bach.

- 3.57 Mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn amlygu uchelgais Llywodraeth Cymru i weld gwelliannau i fioamrywiaeth ledled Cymru ac fel rhan o'r broses gynllunio a cheisiadau. Mae angen i awdurdodau cynllunio sicrhau bod datblygiadau yn lleihau effeithiau ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth, er mwyn caniatáu i rywogaethau addasu a/neu eu symud i gynefinoedd mwy addas.

MF01

Amcan	Amddiffyn, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol.			
Polisiâu Allweddol		Polisiâu Cysylltiedig		
Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd (2)		Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol (D) Polisi Strategol Dd: Newid Hinsawdd (Dd)		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Arwynebedd yr arfordir heb ei ddatblygu 3,499 ha.	Dim colled sylweddol o arfordir annatblygedig	AMB Rhif 1:	Dim colled sylweddol o arfordir annatblygedig.	1 neu fwy o ddatblygiadau gan arwain at golled sylweddol am 3 blynedd yn olynol.
		AMB Rhif 2:	Dim colled sylweddol o arfordir annatblygedig.	
		AMB Rhif 3:	Dim colled sylweddol o arfordir heb ei ddatblygu.	
		AMB Rhif 4:	Dim colled sylweddol o arfordir heb ei ddatblygu	
		AMB Rhif 5:	Dim colled sylweddol o arfordir heb ei ddatblygu	
Dadansoddiad				
Nid oedd yna unrhyw ganiatad o fewn ardal o Arfordir Heb Eu Ddatblygu yn ystod y cyfnod monitro hwn. Felly ni ystyrir bod colled sylweddol o arfordir heb ei ddatblygu wedi bod yn ystod y cyfnod monitro yma.				
Gweithred	Mae polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF02

Amcan	Amddiffyn, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol.			
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd (2)	Polisiâu Cysylltiedig Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol (D) Polisi Strategol Dd: Newid Hinsawdd (Dd)			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Ardaloedd AADd, ACA, SoDdGA neu Ramsar a gollwyd i'w datblygiad (au).	Dim colled net sylweddol.	AMB Rhif 1:	Ni effeithir yn negyddol ar unrhyw ardaloedd AADd, ACA, SoDdGA a Ramsar.	Dim colled
		AMB Rhif 2:	Ni effeithir yn negyddol ar unrhyw ardaloedd AADd, ACA, SoDdGA a Ramsar.	
		AMB Rhif 3:	Ni effeithir yn negyddol ar unrhyw ardaloedd AADd, ACA, SoDdGA a Ramsar.	
		AMB Rhif 4:	Ni effeithir yn negyddol ar unrhyw ardaloedd AADd, ACA, SoDdGA a Ramsar.	
		AMB Rhif 5:	Ni effeithir yn negyddol ar unrhyw ardaloedd AADd, ACA, SoDdGA a Ramsar.	

Dadansoddiad
<ul style="list-style-type: none"> • AADd – Ni roddwyd caniatad i unrhyw ddatblygiad o fewn ardal AADd o fewn y cyfnod monitro yma. • ACA - Rhoddwyd caniatâd i 11 o geisiadau a oedd yn croestorri ACA yn ystod y cyfnod monitro hwn a phump ychwanegol ar gyfer diddymu amodau. Roedd y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd yn cynnwys; Amrywio Amod 10 (Cyflwyno Cynllun Rheoli Coedwigoedd) ynghlwm i ganiatad cynllunio blaenorol yn Zip World, Betws y Coed; Toiled newydd, uwchraddio system draenio, a gosod uned trin carthion newydd, Glyn Cywarch Talsarnau; Dymchwel yr allfa croes presennol yn y cefn, porth blaen a chodi estyniad cefn unllawr, a gosod teras dec uchel yn y cefn mewn eiddo yn Rhyd Ddu; Creu parc solar arfaethedig ar hen dir gwastraff chwarel / amgaefa segur yn cynnwys 275 o baneli PV ar y ddaear ym Mhrenteg; Newidiadau i'r fynedfa bresennol i Coed Hafod y Bryn (Llanbedr) i gynnwys lledu'r fynedfa o 3.3m i 4.2m; Dymchwel byngalo a garej presennol ac adeiladu byngalo dormer deulawr newydd a garej ar wahân mewn eiddo yn Llandanwg; Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer toiled newydd, uwchraddio system draenio, a gosod uned trin carthion newydd yn Nhalsarnau; Newidiad i gais blaenorol i gynnwys newidiadau i'r to gan gynnwys mân gynnydd mewn uchder, gosod 4 ffenestr to a thy ystlumod (lliniaru) ym Mhlas y Brithdir, Dolgellau; Creu llawr caled ar gyfer lleoli cynwysyddion tymhorol, lleoli tipî ar gyfer gweithgareddau grŵp, a chais ôl-weithredol i gadw llwybr a phont car sglefrio'r goedwig, cysgodfan hopranau coed, ciosg camera, ciosg archebu, cwt byrbrydau, storfa cit y safari coed a lloches, tai coed gyda rhwydi, sied tanc dŵr, lloches staff, llithren goedwig, adeiladau cit i ddefnyddio'r rhwydi coedwig a'r plymio ym Metws y Coed; Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer codi adeilad allanol sy'n cynnwys gweithdy, storfa a swyddfa yn Nant Peris; a waith ar y cyd a'r bwriad i osod pibellau newydd yn cynnwys pen cwlfer newydd a man gollwng sgwrio, wal concriid wedi'i hatgyfnerthu, gosod cynhwysydd storio 10troedfedd a chompownd adeiladu dros dro, rhwyll graig a man gosod i lawr yn Tal-Y-Bont. • SoDdGA - Caniatawyd 18 o geisiadau oedd unai o fewn ardal SoDdGA neu yn eu groestorri. Allan o'r 18 yma, roedd pump yn geisiadau er mwyn diddymu neu addasu amod ac un yn ymwneud a diwygiad materol. Caniatawyd ceisiadau ar gyfer; gwelliant i gais blaenorol i gynnwys newidiadau i dô gan gynnwys mân gynnydd mewn uchder,

gosod 4 o oleuadau to a thŷ ystlumod (lliniaru) ger y Brithdir; Creu parc solar arfaethedig ar hen dir gwastraff chwareli / safle cyfansawdd sy'n cynnwys 275 o baneli PV ger Prenteg; Dymchwel y tu ôl i adeilad presennol, portsh blaen a chodi estyniad cefn un llawr, a gosod teras deced codi i gefn ger Rhyd Ddu; Dwy uned wyliau a gosod offer trin pecyn ger Y Bala; Gwaith yn ymwneud â amnewid pibell arfaethedig gan gynnwys pen cwlferd newydd ac ardal rhyddhau sgwr, wal goncrit atgyfnerthu, lleoli cynhwysydd llongau 10 troedfedd a chyfansoddyn adeiladu dros dro ger Tal-Y-Bont; Toiled newydd, uwchraddio system ddraenio, a gosod gwaith trin carthion newydd yn Nhalsarnau; Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer toiled newydd, uwchraddio system ddraenio, a gosod gwaith trin carthion newydd yn Nhalsarnau; Dymchwel byngalo a garej presennol ac adeiladu byngalo dormer deulawr newydd a garej ar wahân yn Llandanwg; Amnewid ffenestr bresennol ar ddrychiad blaen gyda drws plygu deublygu ger Harlech; Amrywio Amod 10 (Cyflwyno Cynllun Rheoli Coedwigoedd) sydd ynghlwm wrth Ganiatâd Cynllunio blaenorol ym Metws y Coed; Creu llawr caled ar gyfer lleoli cynhwysyddion tymhorol, lleoli tipî ar gyfer gweithgareddau grŵp, a chais ôl-weithredol i gadw llwybr a phont car sglefrio'r goedwig, cysgodfan hopranau coed, ciosg camera, ciosg archebu, cwt byrbrydau, storfa cit y saffari coed a lloches, tai coed gyda rhwydi, sied tanc dŵr, lloches staff, llithren goedwig, adeiladau cit i ddefnyddio'r rhwydi coedwig a'r plymio ym Metws y Coed; ac amnewid polyn telegraff replica 15m (telathrebu) presennol gyda monopol 15m uchel i gefnogi agoriadau antena newydd ynghyd â datblygiad ategol ger Abergynolwyn.

- **RAMSAR** - Ni ganiatwyd unrhyw gais o fewn ardal RAMSAR yn ystod y cyfnod monitro yma. Gwrthodwyd dau gais (yn ymwneud a rheilffordd Llanuwchllyn/Y Bala) a tynnwyd un cais yn ôl.

Ystyrir nad yw unrhyw ardaloedd ADDd, ACA, SoDdGA a RAMSAR yn cael eu heffeithio'n negyddol oherwydd y datblygiadau a ganiatwyd, a nad oes datblygiad newydd ei natur a all effeithio ar y dynodiadau.

Gweithred	Mae polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
------------------	---

MF 02a

Amcan		Amddiffyn, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol.		
Polisiau Allweddol Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd (2)		Polisiau Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Awyr dywyll		AMB Rhif 1:	Ni ystyrir bod ardaloedd craidd yr Awyr Dywyll yn cael eu heffeithio'n negyddol	
		AMB Rhif 2:	Ni ystyrir bod ardaloedd craidd yr Awyr Dywyll yn cael eu heffeithio'n negyddol	
		AMB Rhif 3:	Ni ystyrir bod ardaloedd craidd yr Awyr Dywyll yn cael eu heffeithio'n negyddol	
		AMB Rhif 4:	Ni ystyrir bod ardaloedd craidd yr Awyr Dywyll yn cael eu heffeithio'n negyddol	
		AMB Rhif 5:	Ni ystyrir bod ardaloedd craidd yr Awyr Dywyll yn cael eu heffeithio'n negyddol	
Dadansoddiad				
<p>Caniatawyd 20 o geisiadau o fewn (neu yn croestorri) Ardaloedd craidd Awyr Dywyll yn ystod y cyfnod monitro hwn. Roedd y datblygiadau hyn yn cynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Estyniad storio unllawr arfaethedig i'r caban arlwyyo presennol ger Nant Gwynant. Dim ystyriaeth i Awyr Dywyll yn y penderfyniad • Ail-wneud tô a newidiadau i anecs yn Dolgellau • Amnewid ac ymestyn decin presennol, amnewid ffenestri a newidiadau i'r caban ym mhentref gwyliau Trawsfynydd • Trosi canolfan gweithgareddau awyr agored i dŷ ger Y Bala • Codi adeilad amaethyddol ar gyfer storio tail dan do ar safle pwll slyri presennol ger Trawsfynydd • Adeiladu estyniad deulawr ger Llidiardau • Gosod decin a balwstrad a gosod ffenestri newydd yn lle drysau Ffrenig canolog a ffenestri newydd ym mhentref gwyliau Bronaber • Adnewyddu ac ymestyn y decin presennol ym mhentref gwyliau Bronaber • Adeiladu decin blaen pren newydd ym mhentref gwyliau Bronaber • Adeiladu decin pren newydd i gefn ac ochr yr eiddo ym mhentref gwyliau Bronaber • Dau uned gwyliau a gosod uned trin carthion ger y Bala • Gosod twr dellt 30m o uchder sy'n cynnal 9 antenau, 6 dysglau trawsyrru, 6 cypyrddau offer, 1 cabinet medr, ynghyd â lleoli generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, ffurfio ardal llawr caled, adeiladu wal caergawell, a ffurfio cyfansawdd wedi'i ffensio ger Trawsfynydd 				

- Cais cynllunio ôl-weithredol ar gyfer codi adeilad allanol sy'n cynnwys gweithdy, storfa a swyddfa ger Nant Paris
- Dymchwel annedd is-safonol bresennol ac adeilad annedd newydd ger Llidiardau
- Estyniad i fast telathrebu presennol i godi uchder o 5 metr, adleoli 3 antena a 2 ddysgl presennol, goosd 6 antena newydd a 4 cabinet newydd ar y ddaear, ac offer ategol arall o fewn compownd cyfleuster ger Nant Gwynant
- Gosod mast monopol telegyfathrebu 15m o uchel gydag antenau cysylltiedig, cyfarpar ar y ddaear a seilwaith ategol ger Nant Gwynant
- Amnewid y polyn telathrebu 15m presennol gyda pholyn 15m o uchder 'Phase 5 monopole' i gynnal 2 agoriadau antena newydd ynghyd â datblygiad ategol ger Abergynolwyn
- Diwygio Amod Rhif 3 (Amod meddianeth) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio DEU.R/3500/P dyddiedig 12/05/1970 i newid cyfnod dim meddianaeth yn ystod mis Tachwedd bob blwyddyn i rhwng 7ed Ionawr a 7ed Chwefror yn flynyddol. Wedi ei leoli ym mhentref gwyliau Bronaber
- Hysbysiad ymlaen llaw o dan Atodlen 2, Rhan 24 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ar gyfer adleoli 3 antena rhwydwaith gwasanaethau brys a DIM i antena main newydd, cynnydd cyffredinol mewn uchder i 17.4m (o 15m). Wedi ei leoli ger Ysbyty Ifan
- Diwygiad Ansylweddol (Ffenestri) i'r hyn a gymeradwywyd dan Ganiatad Cynllunio NP2/11/L524 dyddiedig 08/03/2023 (sef dymchwel garej ac adeiladu estyniad deulawr ger Nant Gwynant)

Gyda un neu ddau o'r ceisiadau a ganiateir, nid oes ganddynt gyfeiriad at bolisi awyr dywyll, nac asesiad, lle dylai fod un. Ystyrir hyn wrth symud ymlaen a teimlir bod angen arweiniad a hyfforddiant ychwanegol i swyddogion i sicrhau ei fod yn cael ei restru'n effeithiol fel ystyriaeth a/neu gyfyngiad gyda phob cais perthnasol. Er hyn mae y sefyllfa o ran hyn wedi gwella o'r flwyddyn flaenorol yn dilyn trafodaethau.

Gweithred	Mae polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, teimlir bod angen hyfforddiant ychwanegol i swyddogion i sicrhau fod yr holl geisiadau perthnasol yn ystyried y goblygiadau ar yr awyr dywyll lle bo'n briodol.
------------------	--

MF02b

Amcan	Amddiffyn, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol.			
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd (2)	Polisiâu Cysylltiedig Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol (D)			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Biosffer Dyfi	Dim colled net sylweddol	AMB Rhif 1:	Ni ystyrir yr effeithiwyd yn negyddol ar ardal Biosffer Dyfi.	Dim colled
		AMB Rhif 2:	Ni ystyrir yr effeithiwyd yn negyddol ar ardal Biosffer Dyfi.	
		AMB Rhif 3:	Ni ystyrir yr effeithiwyd yn negyddol ar ardal Biosffer Dyfi.	

	AMB Rhif 4: AMB Rhif 5:	Ni ystyrir yr effeithiwyd yn negyddol ar ardal Biosffer Dyfi. Ni ystyrir yr effeithwyd yn negyddol ar ardal Biosffer Dyfi	
Dadansoddiad			
<p>Ni chaniatawyd unrhyw gais, a oedd yn croesdorri ardal craidd biosffer Dyfi yn ystod y cyfnod monitro hwn. O ran yr ardaloedd o'r biosffer, nad oedd yn ardaloedd craidd (hynny yw ardaloedd pontio a byffer), fe ganiatawyd 18 cais cynllunio a 3 cais ar gyfer diddymu amod/au.</p> <p>Roedd un o'r 18 cais cynllunio llawn a ganiatawyd yn cynnwys cais ar gyfer adeiladu 5 tŷ fforddiadwy ym Mhennal, ond doedd hwn ddim o fewn ardal craidd y biosffer. Roedd gweddill y ceisiadau am ddatblygiadau megis estyniadau, trosi neu newid defnydd adeiladau presennol neu ddatblygiadau personol/deiliaid tŷ eraill.</p>			
Gweithred	Mae polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF02c

Amcan	Amddiffyn, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol.		
Polisïau Allweddol Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol (D)	Polisïau Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad	
Gwelliannau treftadaeth naturiol a Natura 2000 trwy A106 / amodau neu ffactorau eraill	Gwelliant mewn ardaloedd wedi gwella	AMB Rhif 1:	Amherthnasol
		AMB Rhif 2:	Amherthnasol
		AMB Rhif 3:	Amherthnasol
		AMB Rhif 4:	Amherthnasol
		AMB Rhif 5:	Amherthnasol
Dadansoddiad			
<p>Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn pennu bod <i>"yn rhaid i awdurdodau cynllunio gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer eu swyddogaethau. Golyga hyn na ddylai datblygiadau achosi unrhyw golli cynefinoedd neu boblogaethau sylweddol o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol ac mae'n rhaid sicrhau manteision net ar gyfer bioamrywiaeth"</i>.</p> <p>Mae'r Awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth wrth ystyried cynigion datblygu. Mae sicrhau mantais net ar gyfer bioamrywiaeth o fewn cyd-destun Polisi Cynllunio Cymru yn galw am ymateb pragmatig i amgylchiadau penodol y safle. Os na ellir osgoi colli bioamrywiaeth yn gyfan-gwbl (h.y. ei gynnal), a bod cyn lleied â phosibl yn cael ei golli, mae'n ddefnyddiol ystyried manteision net fel egwyddor i wneud yn iawn am y colli ac i chwilio am gyfleoedd ar gyfer gwella, a'u sicrhau. Gellir sicrhau mantais net ar gyfer bioamrywiaeth trwy greu cynefinoedd ac/neu drefniadau rheoli hirdymor i wella cynefinoedd presennol, i wella bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau. Trwy ddeall cyd-destun lleol, mae'n bosibl nodi cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth.</p>			
Gweithredu	Mae polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF04

Amcan		Amddiffyn, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol.		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygu Cynaliadwy (A) Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol (D)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Swm y datblygiad (yn ôl categori NCT 15) nas dyrannwyd yn y CDLI a ganiateir yn gorlifdir C1 a C2 nad yw'n cwrdd â phrofion NCT 15.	Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad sy'n gwrthdaro â NCT 15 (heb gynnwys y rhai a ystyrir yn eithriadau yn NCT 15)	AMB Rhif 1:	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn annerbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd	1 datblygiad
		AMB Rhif 2:	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn annerbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd	
		AMB Rhif 3:	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn annerbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd	
		AMB Rhif 4:	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn annerbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd	
		AMB Rhif 5:	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn annerbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd	
Dadansoddiad				
<ul style="list-style-type: none"> • C1 - Caniatawyd 25 o ddatblygiadau a oedd o fewn, neu'n rhannol o fewn, ardal C1 yn ystod y cyfnod monitro hwn. O ran y ceisiadau, roeddynt yn cynnwys y canlynol; • tri cais yn ymwneud a chaniatâd hysbysebu; • dau yn ganiatadau am ddiddymu amod cynllunio • pump yn ymwneud a chaniatâd adeilad rhestredig • dau ar gyfer gosod fan arlwygo dros dro • dau gais ar gyfer adeiladu estyniad (un i fusnes ac un i anedd) • newid defnydd llely gwyliau i ffurfio rhan o anedd ym Mhryncrug • caniatad ar gyfer tystysgrif defnydd cyfreithlon (defnydd arfaethedig) ar gyfer codi estyniad cefn un llawr a garej wrth ochr tŷ • dymchwel ystafell wydr a chodi estyniad ochr unllawr yn Arthog • dymchwel garej presennol ac adeiladu garej newydd yn Dolwyddelan • cadw 4 gasibo o fewn maes parcio presennol a gafodd ganiatâd dros dro dan ganiatad cynllunio blaenorol ym Meddgelert • cais ar gyfer amnewid peiriant ATM presennol a gosod camera TCC yn Y Bala • adeiladu estyniad llawr cyntaf i weithdy/golchdy presennol i gynnwys swyddfa cynllun agored yn Dolgellau 				

- dymchwel adeilad presennol ac adeiladau allanol segur ac adeiladu adeilad newydd. Tirlunio caled a meddal gan gynnwys maes parcio newydd, compownd storio wedi'i ffensiio gyda chynwysyddion storio yn Dolgellau
- tynu'r lolfa haul presennol ac adeiladu estyniad ochr unllawr, newidiadau i'r ports ffrynt ac adeiladu dwy ddormer i'r drychiad cefn ym Meddgelert
- dymchwel estyniad to fflat ac adeiladu estyniad unllawr gyda tho talcen yn Llanbedr
- dymchwel ystafell haul presennol a chodi estyniad yn Dolgellau

C2 – Caniatwyd 34 o ddatblygiadau oedd o fewn, neu'n rhannol o fewn, ardal C2 yn ystod y cyfnod monitro hwn. Roedd y ceisiadau yn cynnwys;

- dau gais ar gyfer hysbysebion
- newidiadau ac ehangu mynedfa amaethyddol i'r briffordd ger Nant Peris
- diwygiad i amod cais cynllunio ar gyfer addasu maint to mewn pwerdy ger Plas y Brithdir
- newid drysau allanol a ffenestri i flaen siopau am ddrysau agor awtomatig newydd, gosod hysbysfyrddau ar flaen yr adeilad, adnewyddu rampiau allanol a gosod paneli solar PV
- newid defnydd adeilad defnydd cymysg ar hyn o bryd gyda defnydd cyfreithlon ar gyfer deintyddiaeth (Dosbarth Defnydd D1) a 2 fflat (Dosbarth Defnydd C3) i un annedd gan gynnwys llety preswyl ategol yn Dolgellau
- adeiladu lolfa haul i ochr y ty yn Llanuwchllyn
- adeiladu estyniad deulawr yn Llanuwchllyn
- codi adeilad unllawr i'w ddefnyddio fel llety cathod masnachol ger Llanelltyd
- adeiladu estyniad cefn deulawr mewn eiddo ger Betws y Coed
- pump cais yn ymwneud a chaniatâd adeilad rhestredig
- pedwar cais yn ymwneud a diwygiadau ansylweddol i ganiatad cynllunio blaenorol yn ymwneud a datblygiadau i eiddo personol
- dymchwel ystafell wydr a chodi estyniad ochr unllawr a gosod dwy ffenest to ar y blaen mewn eiddo yn Arthog
- dymchwel yr allfa croes presennol yn y cefn, porth blaen a chodi estyniad cefn unllawr, a gosod teras dec uchel yn y cefn ger Rhyd Ddu
- codi estyniad cefn unllawr, codi garej deulawr ar wahan a swyddfa cartref, a lledu pont mynediad i gerbydau, Parc Glan y Coed, Dwygyfylchi
- codi estyniad ochr unllawr a garej dwbl ar wahan mewn eiddo ger Bermo
- adeiladu dau dy fforddiadwy ar wahan ar gyfer angen lleol (1 byngalo ac 1 ty deulawr) ger Talybont
- estyniad i'r penty yn y cefn, amnewid y ffenestri a'r ffenestr to yn y cefn, ffenestr to ar y drychiad blaen ynghyd a newidiadau mewnol, llys Meurig, Dolgellau
- gwaith allanol gan gynnwys ailosod y peiriant ATM allanol presennol yn Dolgellau
- newid defnydd modurdy integrol i ystafell wely a chodi garej ar wahân ger Dwygyfylchi
- tynnu simdde a gosod ffenestri to mewn eiddo yn Llanuwchllyn
- rendro dros gladin brics concrit presennol gyda rendrad lliw llyfn mewn eiddo yn Nyffryn Ardudwy

- gosod drysau a phaneli Ffrengig Upvc (3 set) yn lle'r drysau a'r paneli Ffrengig pren presennol ar y drychiad blaen mewn gwesty yn Llanbedr
- amnewid y polyn telathrebu 15m presennol gyda pholyn 15m o uchder 'Phase 5 monopole' i gynnal 2 agoriadau antena newydd ynghyd â datblygiad ategol ger Abergynolwyn
- estyniad blaen unllawr yn cynnwys adeiladu wal gerrig ffiniol fer gyda mynedfa giât ger Llanelltyd
- dau gais am ddatblygiadau solar (ger Betws y Coed a ger Abergynolwyn)

Yn dilyn yr asesiadau a'u casgliadau, ni ystyriwyd unrhyw geisiadau yn annerbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd, ac ymgynghorwyd â phob cynnig datblygu â CNC.

Dywedodd CNC y dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol megis Cynlluniau Gweithredu Llifogydd, Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd a Thrwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd fel rhan o rai o'r cynlluniau, ond ni chodwyd unrhyw bryderon fel arall. Mewn rhai achosion/ceisiadau fe roddodd CNC awgrymiadau neu ofynion er mwyn sicrhau a gwella cais o ran ei risg yn erbyn llifogydd.

Gweithredu Mae polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

MF05

Amcan	Amddiffyn, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol.		
Polisiâu Allweddol		Polisiâu Cysylltiedig	
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno
% y datblygiadau newydd gyda Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS)	100% o'r holl ddatblygiadau o 3 tŷ neu fwy	AMB Rhif 1:	amherthnasol
		AMB Rhif 2:	amherthnasol
		AMB Rhif 3:	amherthnasol
		AMB Rhif 4:	amherthnasol
		AMB Rhif 5:	amherthnasol
Dadansoddiad			
O 7 ^{fed} Ionawr 2019, bydd angen i bob datblygiad newydd o fwy nag un tŷ annedd neu os yw'r ardal adeiladu yn 100m ² neu fwy, gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ar gyfer dŵr wyneb. Rhaid dylunio ac adeiladu SuDS ar ddatblygiadau newydd yn unol â'r Safonau SuDS Statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a rhaid i Gynlluniau SuDS gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n gweithredu yn ei rôl SAB, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Er hyn ni fyddwn yn gwybod i sicrwydd os yw hyn yn cael ei weithredu gan fod deddfwriaeth ar wahân i gynllunio.			
Gweithredu	Mae polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF07

Amcan	Amddiffyn, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol.		
Polisiâu Allweddol		Polisiâu Cysylltiedig	
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno
Arwynebedd man agored (68.5 ha) a lletem	Dim colled net sylweddol	AMB Rhif 1:	Dim colled sylweddol
		AMB Rhif 2:	Dim colled sylweddol
			1 datblygiad a arweiniodd at gollod sylweddol

werdd (54.7 ha)	AMB Rhif 3:	Dim colled sylweddol	am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad gan arwain at golled sylweddol mewn blwyddyn
	AMB Rhif 4:	Dim colled sylweddol	
	AMB Rhif 5:	Dim colled sylweddol	
Dadansoddiad			
<p>Mannau Agored: Fe ganiatwyd un cais o fewn, neu'n rannol o fewn ardaloedd o fannau agored yn ystod 2023/2024. Y cais oedd er mwyn amnewid drysau a phaneli Ffrengig pren presennol gyda drysau a phaneli Ffrengig Upvc (tri set) ar y drychiad blaen.</p> <p>Lletemau Gwyrdd: Caniatwyd tri cais o fewn ardal lletem werdd yn ystod 2023/2024. Roedd rhain yn geisiadau i; ddymchwel portsh blaen presennol a chodi estyniad ffrynt un llawr newydd; rendro dros gladin brics concrit presennol gyda rendr lliw llyfn; a chodi ystafell ardd un llawr newydd ar slabiau concrit presennol a gwaith tirwedd cysylltiedig.</p> <p>Ni ystyrir bod colled sylweddol wedi bod i ardaloedd o Fannau Agored ac/neu Lletemau Gwyrdd yn ystod y cyfnod monitro hwn.</p>			
Gweithredu Mae polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF08

Amcan	Amddiffyn, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol.			
Polisiâu Allweddol		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Monitro ceisiadau a phenderfyniadau cynllunio yn y Lletem Werdd	Dim datblygiad amhriodol	AMB Rhif 1:	Dim datblygiad amhriodol	1 datblygiad sy'n arwain at golli lle agored
		AMB Rhif 2:	Dim datblygiad amhriodol	
		AMB Rhif 3:	Dim datblygiad amhriodol	
		AMB Rhif 4:	Dim datblygiad amhriodol	
		AMB Rhif 5:	Dim datblygiad amhriodol	
Dadansoddiad				
<p>Caniatwyd tri cais o fewn ardal lletem werdd yn ystod 2023/2024. Roedd rhain yn geisiadau i; ddymchwel portsh blaen presennol a chodi estyniad ffrynt un llawr newydd; rendro dros gladin brics concrit presennol gyda rendr lliw llyfn; a chodi ystafell ardd un llawr newydd ar slabiau concrit presennol a gwaith tirwedd cysylltiedig.</p> <p>Ni ystyriwyd bod y rhain yn amhriodol, nac yn ddatblygiadau 'newydd' o fewn ardaloedd Lletem Werdd ac felly mae'r polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol.</p>				
Gweithredu Mae polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.				

MF11

Amcan	Amddiffyn, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol.		
Polisiâu Allweddol		Polisiâu Cysylltiedig	
Dangosydd	Targed	Canlyniad	
Monitro cynnydd y Cynllun Rheoli Traethlin	Monitro Cynnydd	AMB Rhif 1:	amherthnasol
		AMB Rhif 2:	amherthnasol
		AMB Rhif 3:	amherthnasol
		AMB Rhif 4:	amherthnasol
		AMB Rhif 5:	amherthnasol
Dadansoddiad			
Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Morol Cymru cyntaf gan Lywodraeth Cymru ar Dachwedd 12, 2019. Cynhelir trafodaethau dilynol gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gweld sut y gall y Parc Cenedlaethol gyfrannu at lwyddiant y Cynllun.			
Erbyn hyn mae Cyngor Gwynedd wedi cynhyrchu fersiwn drafft o'i Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol, sydd yn cynnwys edrych ar berygl llifogydd o'r môr yn ogystal ag erydiad arfordirol (ymysg llifogydd yn gyffredinol). Bydd swyddogion o'r Parc yn cynnal trafodaethau a swyddogion Cyngor Gwynedd ac Ymgynghoriaeth Gwynedd ynglŷn â'r materion yma, a fydd yn berthnasol ar gyfer diwygio y Cynllun Datblygu Lleol a gweithio ar waith yn ymwneud a'r Cynllun Traethlin. Bydd angen hefyd ystyried rhai o bolisiau sydd gan y Cyngor, er enghraifft Polisi Ardal Rheoli Newid Arfordirol, ac ystyried y posibilrwydd o ddatblygu polisi addas ar gyfer ardal y Parc.			
Gweithredu	Mae polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

Ymchwil ac ystyriaethau pellach i lywio diwygiad CDLI Eryri

- 3.58 Mae 'Cymru'r Dyfodol 2040' yn ddogfen sy'n tynnu sylw at y gwir bosibilrwydd o Adweithydd Modiwlwr Bach (AMBach) yn cael ei leoli yn Nhrawsfynydd yn y dyfodol. Bydd yn bwysig i'r Awdurdod gymryd rhan yn y trafodaethau yn y dyfodol ynghylch y posibilrwydd y bydd yr AMBach yn cael ei leoli yn Trawsfynydd a'i oblygiadau i'r Parc Cenedlaethol. Ar hyn o bryd mae uchelgais i gyflwyno rhaglen a fyddai'n cynnwys adeiladu Adweithydd Modiwlwr Bach, ar safle Trawsfynydd, i ddechrau yn 2027. Mae polisiâu presennol CDLIE yn cydnabod y gallai'r safle hwn dderbyn busnesau ynni carbon isel a thechnolegau cynhyrchu ynni, ar yr amod nad oes unrhyw effeithiau negyddol ar y dirwedd.
- 3.59 Bydd yn bwysig bod yr adolygiad o CDLI Eryri yn canolbwyntio ar wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a rhoi ffafriaeth i ddarparu datrysiadau ar sail natur, gan gynnwys seilwaith gwyrdd. Mae rhwydweithiau ecolegol cydnerth hefyd yn rhan annatod o iechyd a lles ac yn rhan o'r ymateb i newid yn yr hinsawdd.
- 3.60 Fel y soniwyd eisoes ym mhar 3.9, "Cymru'r Dyfodol 2040" mae hwn hefyd yn cynnwys Polisi 15, sy'n ymrwymiad i ddynodi Coedwig Genedlaethol. Er bod y manylion am y raddfa a lleoliad a sut mae'n berthnasol i'r broses gynllunio yn aneglur ar hyn o bryd bydd yr effaith ar y dirwedd a'r darpar effaith economaidd a'r goblygiadau cymdeithasol angen cael eu hystyried ymhellach. Dylid pwysleisio nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer plannu coed.

- 3.61 Bydd angen ystyried ‘Asesiadau Seilwaith Gwyrdd’ a’r angen i dynnu o’r sylfaen dystiolaeth a ddarparwyd gan Ddatganiadau Ardal CNC er mwyn ystyried sut y gellir sicrhau manteision sylweddol drwy seilwaith gwyrdd. Gall hyn olygu nodi cyfleoedd i wella rheolaeth dŵr (fel lliniaru llifogydd a systemau draenio cynaliadwy), ansawdd aer, ac addasu cynefinoedd a rhywogaethau ecosystemau i newid yn yr hinsawdd. Bydd angen i awdurdodau cynllunio sicrhau bod datblygiad yn lleihau effaith ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwella, sy’n gysylltiedig â nodau enillion bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. Bydd angen i awdurdodau cynllunio hefyd annog rheolaeth briodol ar nodweddion y dirwedd sydd o bwysigrwydd mawr i fflora a ffawna gwyllt er mwyn ategu a gwella rhwydwaith Natura 2000. Bydd angen adolygu’r asesiadau’n rheolaidd i sicrhau bod gwybodaeth am gynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion yn cael ei diweddarau, a gellid eu hymgorffori mewn adroddiadau monitro blynyddol yn y dyfodol a thechnolegau cynhyrchu ynni, ar yr amod nad oes unrhyw effeithiau negyddol ar y dirwedd.
- 3.62 O ran Datganiadau Ardal, mae’r themâu allweddol ar gyfer ardal gogledd orllewin Cymru yn cynnwys;
- Ffyrdd o weithio – bydd Datganiadau Ardal yn dechrau’r ffordd barhaus o gydweithio
 - Argyfwng hinsawdd ac amgylcheddol – nododd rhanddeiliaid mai’r argyfwng hinsawdd a’r amgylchedd oedd y thema bwysicaf a chyffredinol ar gyfer ardal gogledd orllewin Cymru
 - Annog economi gynaliadwy – proses i ddatblygu cyfleoedd cynaliadwy ar gyfer yr economi a’r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys nodi dulliau cynaliadwy o ymdrin â chyfleoedd economaidd sy’n gwella’r adnoddau naturiol sy’n unigryw i’r ardal.
 - Ailgysylltu pobl â byd natur – creu cyfleoedd i gael mynediad at a cymunedau ailgysylltu, deall, ymgysylltu a dylanwadu ar ddefnydd creadigol yr amgylchedd natur lleol
 - Cyfleoedd ar gyfer ecosystem gydnerth – sicrhau ein bod i gyd yn gweithio gyda’n gilydd i wella cydnerthedd ecosystemau yn yr ardal. Angen gwrthdroi dirywiad, a gweithredu i gyfoethogi bioamrywiaeth
 - Cefnogi rheolaeth tir cynaliadwy – gweithio gyda rheolwyr aer, tir a dŵr ar draws gogledd orllewin Cymru i hyrwyddo a datblygu rheolaeth adnoddau cynaliadwy gan gyfrannu at iechyd holl fywyd yr ardal.
- 3.63 Bydd angen ystyried ac asesu ymhellach y mater o ffosffadau yn ystod y broses o ddiwygio y CDLI. Yn dilyn ymlaen o ‘Strategaeth Lleihau Ffosfforws Dalgylch y Ddyfrdwy’ a gynhaliwyd fel rhan o broses CDLI Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, efallai y bydd asesiad a strategaeth debyg yn cael eu cynnal ar gyfer dalgylchoedd afonydd ACA y Parc Cenedlaethol.
- 3.64 Mae’r pandemig wedi dod â materion amgylcheddol ehangach i sylw ac wedi amlygu bod angen blaenoriaethu’r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd yn yr adferiad yn dilyn y pandemig. Bydd pwysigrwydd materion newid hinsawdd yn golygu mwy fyth o ffocws ar y mater yn yr adolygiad o’r CDLI. Bydd gwaith sy’n cael ei wneud ar hyn o bryd ar y pwnc, sy’n benodol i’r Parc Cenedlaethol, yn helpu i hysbysu a oes/le mae ymhle mae diffyg polisiâu ar hyn o bryd, neu a ellid gwneud mwy, er mwyn mynd â’r Parc ymhellach i diriogaeth sero net.

Astudiaethau achos

Cynlluniau ynni / pŵer dŵr bach

Ni roddwyd caniatâd (ac ni chyflwynwyd) ar gyfer unrhyw gynlluniau pŵer dŵr newydd yn ystod y cyfnod adroddiad monitro hwn (2023-2024).

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn awyddus i gefnogi defnyddio technolegau adnewyddadwy a charbon isel lle nad ydynt yn peryglu pwrpasau dynodiad y Parc Cenedlaethol na'r Rhinweddau Arbennig fel y'u rhestrir yn y CDLI. Er y bu nifer fach o gydsyniadau cynllunio ar gyfer tyrbinau gwynt ar raddfa ddomestig a gosodiadau pv heulol / solar, mae'r angen i amddiffyn tirwedd ac amwynder gweledol yr ardal yn rhagweld bod y defnydd o'r technolegau penodol hyn yn gyfyngedig.

Yn ystod y blynyddoedd blaenorol, yr oedd nifer sylweddol o gynlluniau ynni dŵr, mae'r rhain ychydig yn haws i'w cynnwys mewn tirweddau sensitif, gan eu bod yn gyfyngedig i gynlluniau rhediad-afon bach ar nentydd yr ucheldir lle gellir claddu'r penstoc lle mae'r tai tyrbinau o faint cymedrol ac wedi'u cynllunio i ymdoddi i'r tirweddau amaethyddol neu maent yn agos at adeiladau amaethyddol eraill ar ffermydd.

Caniatawyd 113 o gynlluniau trydan dŵr / hydro newydd yn Eryri ers i'r Cynllun Datblygu Lleol Eryri cyntaf (2011-2026) gael ei fabwysiadu, gyda chynhwysedd cynhyrchu o ryw 7.5619MW (gall y gallu fod yn uwch mewn gwirionedd gan nad yw'r gallu yn hysbys ar gyfer pob cais, yn enwedig yr unedau micro-gynhyrchu). Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau hydro hyn yn achosion o arallgyfeirio amaethyddol, gan greu incwm ychwanegol ar ffermydd.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y ceisiadau am gynlluniau pŵer dŵr yn Eryri ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Eryri.

	<i>Caniatawyd</i>	<i>Gwrthodwyd</i>	<i>Tynnwyd yn ôl</i>
<i>Nifer</i>	113	19	3

Er y cydnabyddir bod nifer y safleoedd addas yn gyfyngedig ac y gallai cyfyngiadau amgylcheddol ac ecolegol atal cynlluniau sylweddol pellach rhag datblygu, mae'r Parc Cenedlaethol, er hynny, yn cyfrannu at leihau'r galw am danwydd ffosil trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy a chefnogi cynhyrchu incwm i ffermwyr sy'n gallu allforio gormodedd o drydan i'r grid cenedlaethol.

4 DIOGELU A GWELLA TREFTADAETH DIWYLLIANNOL

Mae'r adran hon yn ymateb i'r amcanion canlynol:

Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys gweddillion archeolegol a thirweddau hanesyddol, a hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth a threflun adeiledig Eryri.

Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.

Bil Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (2016)

- 4.1 Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (2016) yn cynnig amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion rhestredig, yn gwella mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy ac yn cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ar yr amgylchedd hanesyddol. Rhoddodd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) 2016-2031 ystyriaeth i'r Ddeddf a bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i'r Ddeddf wrth ddrafftio CCA yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae'r CDLI hefyd wedi cynnwys Polisi sy'n gwarchod Safleoedd Treftadaeth y Byd Ymgeisiol, gan ddiogelu'r Safle Treftadaeth y Byd sydd bellach wedi'i ddynodi, – 'Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru'. Galluogodd hyn y gwaith o warchod, cadw a gwella Safleoedd Treftadaeth y Byd Ymgeisiol a oedd o fudd i sicrhau'r dynodiad. Mae angen amddiffyn safleoedd sydd yn y Parc Cenedlaethol ar y rhestr betrus o enwebiadau Treftadaeth y Byd gydag UNESCO yn y dyfodol.
- 4.2 Mae prosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau yn cynnig cyfle i berchnogion eiddo cymwys dderbyn grant i atgyweirio adeiladau, adfer nodweddion pensaernïol coll ynghyd â dod â lloriau gwag yn ôl i ddefnydd economaidd. Amcan arall y fenter yw hyrwyddo ymwybyddiaeth o dreftadaeth y dref ac annog y gymuned ac ymwelwyr i chwarae mwy o ran yn eu treftadaeth ddiwylliannol. Mae diweddariad ar Brosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau yn adran Astudiaeth Achos y bennod hon.
- 4.3 Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau gyda'r prosiect i reoli 14 Ardal Gadwraeth Eryri. Wedi'i ariannu gan gronfa *Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy* Llywodraeth Cymru, bwriad y prosiect yw sicrhau y gall cadwraeth gynaliadwy wella Ardaloedd Cadwraeth i'r dyfodol. Roedd cam cyntaf y prosiect hwn rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022 yn cynnwys gweithio gyda chymunedau lleol yr Ardaloedd Cadwraeth i ddatblygu Gwerthusiadau a Chynlluniau Rheoli. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys datganiad o arwyddocâd a chynllun gweithredu i warchod a gwella'r Ardaloedd yn gynaliadwy, gyda phwyslais arbennig ar eu gwneud yn fwy ynni-effeithlon. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiadau amhriodol a lle bo modd, bod yr ardal a'r lleoliad yn cael eu gwella. Fodd bynnag, dwy o'r prif heriau sy'n wynebu ein Hardaloedd Cadwraeth heddiw yw'r Agenda Newid Hinsawdd a'r diffyg dealltwriaeth o swyddogaeth ac arwyddocâd yr adeiladau o fewn yr ardaloedd dynodedig hyn.

- 4.4 Ynglŷn â'r agenda Newid yn yr Hinsawdd, mae llawer o'r stoc adeiladau yn yr Ardaloedd Cadwraeth hyn yn adeiladau traddodiadol sy'n cael eu nodi fel rhai nad ydynt yn ynni-effeithlon iawn. Gall effeithlonrwydd ynni gael ei gyfyngu ymhellach gan y gofynion rheoliadol cynllunio ychwanegol sy'n ymwneud â gwelliannau i gartrefi megis paneli solar a gwydr dwbl. Gall y cyfyngiadau ychwanegol hyn arwain at ddryswch ymhlith perchnogion eiddo ynghylch gwella effeithlonrwydd eiddo, a all arwain at beidio cymryd unrhyw gamau gweithredu neu gymryd camau amhriodol. Gall hefyd arwain at gyngor anghyson gan swyddogion. Weithiau gall adeiladwyr lleol hefyd wneud gwelliannau amhriodol i gartrefi a all gael effaith andwyol ar yr Ardaloedd Cadwraeth ond a all hefyd wneud adeilad yn fwy aneffeithlon. Gwerthusiad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheolaeth gadarnhaol o'r ardaloedd hyn i sicrhau datblygiad priodol yn ogystal â chynaliadwy. Yn benodol, mae'r Gwerthusiadau'n diffinio'r hyn sy'n bwysig am yr ardaloedd ond hefyd, trwy ddadansoddi, yn dechrau nodi lle mae materion, cyfleoedd a ffactorau eraill. Mae'r Cynlluniau Rheoli dilynol yn darparu fframwaith i reoli'r Ardaloedd Cadwraeth yn effeithiol, gan wella a gwarchod eu cymeriad arbennig mewn ffordd gadarnhaol a rhagweithiol, a darparu canllawiau effeithiol i'r rhai sy'n byw, yn gweithio, yn buddsoddi ac yn rheoli'r ardaloedd. Mae diweddariad ar Brosiect Ardaloedd Cadwraeth yn adran Astudiaeth Achos y bennod hon.

MF12

<p>Amcan</p>	<p>Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys gweddillion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.</p> <p>Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.</p>			
<p>Polisiau Allweddol Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff)</p>	<p>Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy</p> <p>Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol</p> <p>Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Heb eu Dynodi</p> <p>Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig</p>			
<p>Dangosydd</p>	<p>Targed</p>	<p>Canlyniad</p>		<p>Pwynt Sbarduno</p>
<p>Paratoi a mabwysiadu CCA ar yr Amgylchedd Hanesyddol</p>	<p>Erbyn 2019</p>	<p>AMB Rhif 1:</p>	<p>Mae'r gwaith paratoi ar y gweill</p>	
		<p>AMB Rhif 2:</p>	<p>Mae'r gwaith paratoi ar y gweill</p>	
		<p>AMB Rhif 3:</p>	<p>Gwaith paratoi ar y gweill ond oedi oherwydd ymrwymadau gwaith eraill</p>	
		<p>AMB Rhif 4:</p>	<p>Gwaith paratoi ar y gweill ond oedi oherwydd ymrwymadau gwaith eraill</p>	
		<p>AMB Rhif 5:</p>	<p>Gwaith paratoi ar y gweill ond oedi oherwydd ymrwymadau gwaith eraill</p>	
<p>Dadansoddiad</p>				
<p>Mae paratoi CCA ar y gweill er mwyn cefnogi'r polisiau a fabwysiadwyd ond bu oedi oherwydd ymrwymadau gwaith eraill.</p>				
<p>Gweithred</p>				

MF13

Amcan		Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys gweddillion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.		
		Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff)		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Heb eu Dynodi Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Paratoi a mabwysiadu CCA ar Ddylunio Cynaliadwy - ar wahân yn lleol	Erbyn 2018	AMB Rhif 1:	Mae'r gwaith paratoi ar y gweill ond wedi'i oedi oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill	
		AMB Rhif 2:	Mae'r gwaith paratoi ar y gweill ond wedi'i oedi oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill	
		AMB Rhif 3:	Gwaith paratoi ar y gweill ond oedi oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill	
		AMB Rhif 4:	Gwaith paratoi ar y gweill ond oedi oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill	
		AMB Rhif 5:	Gwaith paratoi ar y gweill ond oedi oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill	
Dadansoddiad				
Mae gwaith paratoi CCA ar y gweill er mwyn cefnogi'r polisiâu a fabwysiadwyd ond mae wedi cael ei ohirio oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill.				
Gweithred				

MF14

<p>Amcan</p>	<p>Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys gweddillion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.</p> <p>Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.</p>			
<p>Polisiâu Allweddol Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff)</p>	<p>Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy</p> <p>Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol</p> <p>Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Heb eu Dynodi</p> <p>Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig</p>			
<p>Dangosydd</p>	<p>Targed</p>	<p>Canlyniad</p>		<p>Pwynt Sbarduno</p>
<p>Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth gydag Aseidiadau Ardal cyfoes (14)</p>	<p>Cwblhau Aseidiadau Ardal erbyn 2012 a'u hadolygu bob 5 mlynedd</p>	<p>AMB Rhif 1:</p>	<p>Oedi</p>	
		<p>AMB Rhif 2:</p>	<p>Oedi</p>	
		<p>AMB Rhif 3:</p>	<p>Ar y gweill</p>	
		<p>AMB Rhif 4:</p>	<p>Wedi'u paratoi</p>	
		<p>AMB Rhif 5:</p>	<p>Wedi'u paratoi</p>	
<p>Dadansoddiad</p>				
<p>Mae'r Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli wedi'u drafftio ynghyd â chanllawiau ar wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Gwerthusiadau a'r Cynlluniau Rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r camau nesaf yn cynnwys mabwysiadu ffurfiol fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.</p>				
<p>Gweithred</p>				

Amcan	<p>Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys gweddillion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.</p> <p>Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.</p>			
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff)	Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Heb eu Dynodi Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth gyda Chynlluniau Rheoli cyfoes	Cwblhau Cynlluniau Rheoli a'u hadolygu bob 5 mlynedd.	AMB Rhif 1:	Oedi	
		AMB Rhif 2:	Oedi	
		AMB Rhif 3:	Ar y gweill	
		AMB Rhif 4:	Wedi'u paratoi	
		AMB Rhif 5:	Wedi'u paratoi	
Dadansoddiad				
Mae'r Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli wedi'u drafftio ynghyd â chanllawiau ar wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Gwerthusiadau a'r Cynlluniau Rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r camau nesaf yn cynnwys mabwysiadu ffurfiol fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.				
Gweithred				

MF16

Amcan		Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys gweddillion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri. Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.			
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff)		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Heb eu Dynodi Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno	
Nifer yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl (323)	Lleihau nifer yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl a monitro'r rheswm dros y cynnydd yn y nifer.	AMB Rhif 1:	303		
			(2018-19)		
		AMB Rhif 2:			
		AMB Rhif 3:			
		AMB Rhif 4:	107		
		AMB Rhif 5:	171		
Dadansoddiad					
Yn ôl y System Asesu Treftadaeth Adeiledig (HAA Base) mae cyflwr yr Adeiladau Rhestredig mewn Perygl o fewn y Parc fel a ganlyn:					
Asesiad Risg	Nifer o Adeiladau	%	Sgor Risg	Nifer	%
Mewn Risg	171	9.2	1 Mewn Perygl Difrifol	61	3.27
			2 Mewn Perygol Sylweddol	3	0.16
			3 Mewn Perygl	107	5.73
Bregus	197	10.56	4 Bregus	197	10.56
Dim mewn Risg	1498	80	5 Dim mewn Risg	454	24.33
			6 Dim mewn Risg	1044	55.95
Proffil Cyflwr	Nifer o Adeiladau	%			
Da	1057	56.65			
Gweddol	618	33.12			
Gwael	127	6.81			
Gwael lawn	64	3.43			

Gweithred	Parhau i Fonitro: Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
------------------	---

MF17

Amcan	Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys gweddillion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.			
	Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.			
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff)		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Heb eu Dynodi Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Monitro ceisiadau cynllunio mewn Parciau a Gerddi Hanesyddol ac yn gyfagos iddynt a allai gael effaith.		AMB Rhif 1:	Ni ystyriwyd bod yr un ohonynt yn cael effaith andwyol ar y parc hanesyddol na'i osodiad.	
		AMB Rhif 2:	Ni ystyriwyd bod yr un ohonynt yn cael effaith andwyol ar y parc hanesyddol na'i osodiad.	
		AMB Rhif 3:	Ni ystyriwyd bod unrhyw un yn cael effaith andwyol ar y parc hanesyddol na'i leoliad	
		AMB Rhif 4:	12	
		AMB Rhif 5:	12	

Dadansoddiad

Cafwyd 19 cais cynllunio, ar gyfer datblygiadau amrywiol o fewn byffer 100m i barciau a gerddi hanesyddol. O'r 19 cais, gwrthodwyd 4 cais, a thynnwyd 3 yn ôl. Cymeradwywyd 12 o'r ceisiadau cynllunio hyn, sy'n cynnwys 1 dystysgrif wedi'i chymeradwyo, a 2 gais i ryddhau amodau. O'r 12 cais a gymeradwywyd roedd 4 yn geisiadau adeilad rhestredig ac 1 cais cynllunio cysylltiedig. Roedd cais arall am ddiwygiad ansylweddol i gais a ganiatawyd yn flaenorol. Ymhlith y ceisiadau llawn a ganiatawyd oedd y canlynol:

- Codi estyniad ochr unllawr a garej ddwbl ar wahân yn Bermo.
- Cadw gwaith trin carthion yn rhannol / cwblhau'n rhannol, ynghyd â gwaith cysylltiedig ar Safle Datgomisiynu, Trawsfynydd
- Gosod 2 arae o baneli solar wedi'u gosod ar y ddaear (22 panel ym mhob arae yn darparu allbwn brig o 18kw) a gosod pwmp gwres ffynhonnell aer ar eiddo ym Maentwrog.
- Drilio o 17no. tyllau turio ar gyfer ymchwilio a monitro dŵr daear ar Safle Datgomisiynu, Trawsfynydd

Ystyriodd y ddau gais cynllunio eiddo preifat Bolisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol sy'n gwarchod yn benodol Barciau a Gerddi Hanesyddol rhag datblygiad anaddas yn y broses asesu, gan ddod i'r canlyniad na fydd effeithiau adwyol ar ddynodiad Parciau a Gerddi Hanesyddol. Yn anffodus ni chafodd Polisi Strategol Ff ei ystyried yn ystod yr asesiad ar geisiadau Safle Dadgomisynnu Trawsfynydd.

Gydag cais cadw gwaith trin carthion, fel rhan o'r asesiad, penderfynwyd byddai adeiladu gwaith trin carthion newydd yn seilwaith angenrheidiol a hanfodol i ganiatáu ar gyfer gallu trin carthion parhaus y safle i mewn a thu hwnt i bwynt mynediad Gofal a Chynnal presennol y safle. Bydd hyn yn galluogi datgomisiynu parhaus yr orsaf bŵer. Bydd y gwaith amnewid yn cael ei leoli o fewn ffiniau Safle Trawsfynydd ac, o ystyried cyd-destun cyffredinol y safle, ni fydd yn ymddangos fel ffurf anghydweddol o ddatblygiad. Yn gyffredinol, ystyrir bod y datblygiad yn unol â CDLIE.

Gydag cais drilio tyllau turio, fel rhan o'r asesiad, penderfynwyd byddai'r cynnig yn angenrheidiol ac yn rhan o'r broses ddatgomisiynu. Mae'r tyllau turio arfaethedig ar raddfa gyfyngedig ac ni fyddant yn niweidiol i gymeriad mwynder gweledol yr ardal. Ni fyddai gwrthdaro gyda'r polisiâu perthnasol a nodwyd; mae'r cais felly yn un y gellir ei gefnogi.

Er hyn, bydd angen sicrhau bod Polisi Strategol Ff yn cael ei weithredu fel y bwriadwyd ac mae angen hyfforddiant swyddogion.

Gweithred

Angen hyfforddiant. Nid yw Polisi Strategol Ff yn cael ei weithredu fel y bwriadwyd ac mae angen hyfforddiant swyddogion. Mae hyfforddiant swyddogion wedi'i drefnu gyda Swyddogion Rheoli Datblygu, ynghyd ag adolygiad o'r broses dilysu ceisiadau i atal digwyddiad pellach.

MF18 +19

Amcan

Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys gweddillion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.

	Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parhau 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.			
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff)		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Heb eu Dynodi Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer yr Henebion Rhestredig sydd mewn perygl. Monitro ceisiadau cynllunio a allai gael effaith ar Heneb Rhestredig	Lleihau'r nifer sydd mewn perygl	AMB Rhif 1:	Ni ystyriwyd bod yr un ohonynt yn cael effaith andwyol ar Henebion Rhestredig.	
		AMB Rhif 2:	Ni ystyriwyd bod yr un ohonynt yn cael effaith andwyol ar Henebion Rhestredig.	
		AMB Rhif 3:	Ni ystyriwyd bod unrhyw un yn cael effaith andwyol ar Henebion Cofrestredig.	
		AMB Rhif 4:	Ni ystyriwyd bod unrhyw un yn cael effaith andwyol ar Henebion Cofrestredig.	
		AMB Rhif 5:	Ni ystyriwyd bod unrhyw un yn cael effaith andwyol ar Henebion Cofrestredig.	

Dadansoddiad	
<p>Mae CADW yn cadw cofnod o HRh mewn perygl, gellir gweld y wybodaeth hon yn Amcan 10 (b) yr SA o'r Fframwaith Monitro Gwerthuso Cynaliadwyedd. O fewn parth clustogi HRh 100m, caniatwyd 16 cais cynllunio yn ystod y cyfnod monitro hwn, gyda 5 ohonynt ar gyfer datblygiadau newydd. Bu'r gweddill ar gyfer mân ddatblygiadau i ddatblygiadau presennol, megis addasiadau, trosiadau a newid defnydd. Roedd rhai hefyd ar gyfer newid amodau ceisiadau presennol. Mae'r datblygiadau newydd yn cynnwys yr isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Codi estyniad ochr deulawr, estyniad unllawr yn y cefn, a garej/siop gardd ar wahân i eiddo yn Harlech. • Adeiladu tŷ deulawr ar wahân yng Ngarndolbenmaen. • Gosod paneli solar ar y to ym Metws-y-coed. • Caniatâd Hysbyseb i arddangos panel gwybodaeth Taith Mari Jones yn Brithdir. • Codi adeilad amaethyddol yn Llanfairfechan. <p>Ni ystyriwyd bod unrhyw un yn cael effaith andwyol ar Henebion Cofrestredig.</p>	
Gweithred	Parhau i Fonitro: Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

MF20

Amcan	<p>Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys gweddillion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.</p> <p>Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.</p>			
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff)	Polisiâu Cysylltiedig			
	Polisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy			
	Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol			
	Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Heb eu Dynodi			
	Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y safleoedd archeolegol, Henebion Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth sy'n cael	Pob cynnig datblygu	AMB Rhif 1:	Oedi	1 datblygiad yn methu â chadw neu wella am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad yn
		AMB Rhif 2:	Oedi	
		AMB Rhif 3:	Oedi	

eu cadw neu eu gwella gan gynigion datblygu		AMB Rhif 4:		methu â chadw neu wella mewn blwyddyn (mae angen iddo gysylltu ag Asesiadau CA a Chynlluniau Rheoli fel uchod)
		AMB Rhif 5:		
Dadansoddiad				
<p>Gan nad yw'r asesiadau Ardal Gadwraeth a'r cynlluniau rheoli wedi'u mabwysiadu eto fel ystyriaeth gynllunio perthnasol, mae'n anodd penderfynu a yw cynigion datblygu wedi gwella ardaloedd cadwraeth. Er hyn, mae cadw a gwella ardaloedd cadwraeth wedi cael ei ystyried fel rhan o'r broses benderfynu ar geisiadau cynllunio. Oherwydd Prosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau, mae llawer o welliannau wedi'u gwneud i'r Ardal Gadwraeth. Gweler yr adran 'Astudiaethau Achos' am ragor o wybodaeth. Yn ogystal bu gweithredu yn rhan o'r Prosiect Ardaloedd Cadwraeth o pedwar digwyddiad galw i mewn ar draws y Parc Cenedlaethol gydag arbenigwyr ym maes Cadwraeth Adeiladau yn hyrwyddo'r prosiect ac yn hyrwyddo gwybodaeth am wahanol ddulliau addas a chynaliadwy o wella effeithlonrwydd ynni adeiladau traddodiadol o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Yn ogystal, roedd cynllun grant ar gael i gynorthwyo gyda gwelliannau effeithlonrwydd ynni a / neu uwchraddio thermol eiddo cyhoeddus, cymunedol a masnachol o fewn Ardaloedd Cadwraeth dynodedig y Parc Cenedlaethol, megis Eglwysi / Capeli, Neuaddau Cymunedol, Llyfrgelloedd, Tafarndai Cymunedol, a Siopau Pentref. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau oedd 3 Mawrth 2023 a phenderfynwyd ar y cais llwyddiannus. Mae'r gwaith y cais llwyddiannus bellach wedi'i gwblhau ac yn cael ei hystyried yn cael effaith bositif ar yr ardal gadwraeth Betws y Coed ble lleolir yr adeilad.</p>				
Gweithred	Parhau i Fonitro: Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF21

Amcan	<p>Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys gweddillion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.</p> <p>Amddiffyn a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.</p>	
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff)	Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy	Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol

		Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Heb eu Dynodi		
		Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Monitro ceisiadau cynllunio sy'n dod ymlaen o fewn Safle Treftadaeth y Byd neu leoliad hanfodol a Safle Treftadaeth y Byd Ymgeisydd	Dim effaith annerbyniol ar y dynodiadau a'r dynodiadau ymgeisydd	AMB Rhif 1:	Mae'r gwaith paratoi ar y gweill	
		AMB Rhif 2:	Mae'r gwaith paratoi ar y gweill	
		AMB Rhif 3:	Ni ystyriwyd bod unrhyw un yn cael effaith annerbyniol ar y dynodiadau.	
		AMB Rhif 4:	Ni ystyriwyd bod unrhyw un yn cael effaith annerbyniol ar y dynodiadau.	
		AMB Rhif 5:	Ni ystyriwyd bod unrhyw un yn cael effaith annerbyniol ar y dynodiadau.	
Dadansoddiad				
<p>Ers mis Gorffennaf 2021, mae'r Safle Treftadaeth y Byd Ymgeisiol a ddynodwyd yn flaenorol, Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru, wedi derbyn statws Safle Treftadaeth y Byd dynodedig. Mae hyn yn golygu bod dau Safle Treftadaeth y Byd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri erbyn hyn.</p> <p><u>Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd – Castell Harlech</u></p> <p>Caniatawyd 10 cais o fewn Lleoliad Hanfodol Safleoedd Treftadaeth y Byd. Roedd y ceisiadau hyn yn cynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Estyniad a garej mewn eiddo yn Harlech • Gosod tanc olew mewn eiddo • Newidiadau i flaen siop • Datblygiad preswyl saith uned (2 fforddiadwy a 5 marchnad agored) yn cynnwys tri phar o dai un talcen ac un ty ar wahan, creu mynedfa cerbydau newydd a thirlunio • Ail ddatblygu adeilad yn gysylltiedig a'r Clwb Golff • Adeiladu ty deulawr ar wahan gyda 4 ystafell wely a garej mewnol, Cae Gwastad • Newid defnydd rhan o'r llawr gwaelod o fanwerthu (A3) i ddefnydd manwerthu a domestig • Amnewid ffenestr ar y drychiad blaen gyda drws deublyg i eiddo personol • Codi 2 estyniad unllawr (1 i'r ffrynt ac 1 i'r ochr) • Caniatad Hysbyseb i gadw arwyddion wedi'u goleuo'n allanol 				

Rhodddwyd hefyd ganiatad i ryddhau amodau yn seiliedig ar ganiatad blaenorol ar eiddo domestig ar Ffordd Glan Mor.

Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru Safle Treftadaeth y Byd

Caniatawyd 1 cais o fewn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn ystod y flwyddyn monitro hon. Roedd y cais hwn ar gyfer Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer atgyweiriadau i'r strwythurau bwres a pharapet presennol ar ddrychiad ochr y prif eiddo a gwneud gwaith atgyweirio i'r allfeydd dŵr glaw ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog. Ystyriwyd nad oedd y cais hyn yn cael effaith annerbyniol ar y dynodiad, yn hytrach yn cael effaith positif ar y dynodiad fel adeilad allweddol sy'n rhan o'r ddynodiad.

Cyflwynwyd 8 rhag-gais hefyd ar gyfer datblygiad o fewn ffin Safle Treftadaeth y Byd y Dirwedd Lechi. Roedd 7 allan o'r 8 yn ymholiadau ar gyfer ceisiadau man ddatblygiadau/datblygiadau deiliaid tai, tra bod un yn ymholiad ar gyfer atgyfnerthu arglawdd llifogydd presennol yn Maentwrog

Gweithred

Parhau i Fonitro: Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Ymchwil ac ystyriaethau pellach i lywio diwygiad CDLI Eryri

- 4.5 Nid oes unrhyw un o bwyntiau sbarduno'r dangosyddion monitro yn y Bennod hon wedi'u rhoi ar waith felly gallwn dybio bod y polisiau'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Ystyrir nad oes unrhyw oblygiadau mawr i ddiwygio'r CDLI yn yr adran hon.
- 4.6 Serch hynny, fel yr adroddir yn yr Adroddiad Monitro diwethaf 2021-2022, roedd apêl ynglŷn â datblygiad penodol o fewn y Parc Cenedlaethol, lle y cwestiynodd yr Arolygydd Bolisi Datblygu 7 o'r CDLI, y Gofrestr Adeiladau Traddodiadol a'r meini prawf i gynnwys adeilad ar y gofrestr.
- 4.7 Mae Polisi Datblygu 7 yn cynnwys meini prawf ar gyfer datblygu a gwarchod a gwella Adeiladau Traddodiadol yn ogystal ag Adeiladau Rhestredig, gyda meini prawf penodol pellach ar gyfer Adeiladau Rhestredig. Mae hyn oherwydd bod yr adeiladau sydd bellach yn cael eu hystyried a'u nodi fel 'adeiladau traddodiadol' ar y gofrestr, yn hanesyddol, wedi'u rhestru fel Adeiladau Rhestredig Gradd III ar y raddfa a gydnabyddir gan y gyfraith, cyn i'r raddfa gael ei hadolygu i gynnwys a chydabod ond Adeiladau Rhestredig Gradd I, Gradd II*, a Gradd II yn unig, trwy Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Yn ôl y Ddeddf hon, mae angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer pob gwaith dymchwel, addasu neu ymestyn adeilad rhestredig sy'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Nid yw hyn yn ofynnol ar gyfer adeiladau ar y Gofrestr Adeiladau Traddodiadol, y tu allan i Ardal Gadwraeth a/neu Ddynodiad Erthygl 4. Er hynny, fel y nodir ym mharagraffau 4.20-4.22 y CDLI, mae cymeriad Eryri yn ddyledus iawn i'w Adeiladau Rhestredig a'r traddodiad cyfoethog o arddulliau adeiladu ac amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n adlewyrchu ac yn nodweddu'r bensaernïaeth frodorol. Er nad ydynt yn cyflawni statws 'arbennig' Adeiladau Rhestredig, mae'r angen yn parhau i warchod yr adeiladau traddodiadol hyn rhag newid amhriodol. Mae Adeiladau Traddodiadol yn arwyddocaol gan eu bod yn cyfrannu at gymeriad pensaernïol lleol a thraddodiadau'r ardal. Gan nad yw'r rhestr yn derfynol, gellir ychwanegu eiddo ychwanegol ati o bryd i'w gilydd. Felly, ni chaniateir unrhyw gynnig sydd o raddfa, dyluniad, neu sy'n dibynnu ar ddeunyddiau a ystyrir yn amhriodol.
- 4.8 Roedd yr apêl yn ymwneud â throsi adeilad allanol cyn-fyncws/storfa anecs i lety anecs un ystafell. Gwrthodwyd y cais yn wreiddiol gan yr Awdurdod oherwydd canfyddiadau y byddai'n mynd yn groes i Bolisi Datblygu 7. Drwy'r broses apêl, cafodd y penderfyniad hwn ei wydroi gan yr Arolygydd, gan ganfod na fyddai'r gwaith yn amhriodol ac felly na fyddai'n mynd yn groes i Bolisi Datblygu 7, gan nodi "...nid yw'n rhesymol cymhwyso'r un profion ar fân adeilad allanol adeilad traddodiadol sydd wedi'i newid yn fawr ag a fyddai'n cael ei gymhwyso i adeilad rhestredig." (Cyfeirnod yr Apêl: APP/H954/A/21/3280822). Er ei fod wedi'i nodi fel 'Adeilad Traddodiadol' ar y Gofrestr, roedd newidiadau i'r adeilad wedi digwydd y tu allan i Reolaeth Cynllunio, gan arwain at gasgliad yr Arolygydd nad yw'n ymarferol rhoi'r un amddiffyniad i adeiladau traddodiadol sydd wedi newid yn ddramatig, ag ar adeiladau rhestredig. Wrth ddiwygio'r CDLI, bydd angen ystyried yr achos hwn o ran Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol.
- 4.9 Fodd bynnag, ers penderfyniad yr achos apêl hwn, mae llythyr 'Rhestriad Lleol o Adeiladau Hanesyddol' gan y Dirprwy Weinidog, wedi gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru sicrhau camau gweithredol i ddiogelu adeiladau hanesyddol a thraddodiadol sydd y tu allan i'r trothwy gwarchod cenedlaethol.
- 4.10 Wrth adolygu'r CDLI, bydd angen felly ystyried achos apêl APP/H954/A/21/3280822 a'r llythyr 'Rhestriad Lleol o Adeiladau Hanesyddol', ynghylch Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol.

4.11 O ystyried canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol 2016-2031, nid oes goblygiadau mawr ar gyfer diwygio'r CDLI yn yr adran hon, gan fod y polisiau yn y bennod hon wedi'u gweithredu'n llwyddiannus.

Ardaloedd Cadwraeth addas ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain



Mae'r Awdurdod wedi cychwyn ar brosiect newydd i reoli 14 Ardal Gadwraeth Eryri. Wedi'i ariannu gan gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, bydd y prosiect, a arweinir gan Chambers Conservation, yn sicrhau y gall cadwraeth gynaliadwy wella'r Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer y dyfodol. Mae cam cyntaf y prosiect hwn rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022 yn cynnwys gweithio gyda chymunedau lleol a grwpiau buddiant Ardaloedd Cadwraeth i ddatblygu Gwerthusiadau a Chynlluniau Rheoli ar gyfer yr ardaloedd dynodedig. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys datganiad o arwyddocâd a chynllun gweithredu i warchod a gwella'r ardaloedd yn gynaliadwy, gyda phwyslais arbennig ar eu gwneud yn fwy ynni-effeithlon. Mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i sicrhau bod Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiadau amhriodol a lle bo modd, bod yr ardal a'r lleoliad yn cael eu gwella. Fodd bynnag, dwy o'r heriau mawr sy'n wynebu ein Hardaloedd Cadwraeth heddiw yw'r Agenda Newid Hinsawdd a'r diffyg dealltwriaeth o weithrediad ac arwyddocâd yr adeiladau o fewn yr ardaloedd dynodedig hyn.

Ynglŷn â'r agenda Newid yn yr Hinsawdd, mae llawer o'r stoc adeiladau yn yr Ardaloedd Cadwraeth hyn yn adeiladau traddodiadol sy'n cael eu nodi fel rhai nad ydynt yn ynni-effeithlon iawn. Gall effeithlonrwydd ynni gael ei gyfyngu ymhellach gan y gofynion rheoliadol cynllunio ychwanegol sy'n ymwneud â gwelliannau i gartrefi megis paneli solar a gwydr dwbl. Gall y cyfyngiadau ychwanegol hyn arwain at ddryswch ymhlith perchnogion eiddo ynghylch gwella effeithlonrwydd eiddo, a all arwain at beidio cymryd unrhyw gamau gweithredu neu gymryd camau amhriodol. Gall hefyd arwain at gyngor anghyson gan swyddogion. Weithiau gall adeiladwyr lleol hefyd wneud gwelliannau amhriodol i gartrefi a all gael effaith andwyol ar yr Ardaloedd Cadwraeth ond a all hefyd wneud adeilad yn fwy aneffeithlon. Gwerthusiad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheolaeth gadarnhaol o'r ardaloedd hyn i sicrhau datblygiad priodol yn ogystal â chynaliadwy. Yn benodol, bydd y Gwerthusiadau'n diffinio'r hyn sy'n bwysig am yr ardaloedd ond hefyd, trwy ddadansoddi, yn dechrau nodi lle mae materion, cyfleoedd a ffactorau eraill. Bydd y Cynlluniau Rheoli dilynol yn darparu fframwaith i reoli'r Ardaloedd Cadwraeth yn effeithiol, gan wella a gwarchod eu cymeriad arbennig mewn ffordd gadarnhaol a rhagweithiol, a darparu canllawiau effeithiol i'r rhai sy'n byw, yn gweithio, yn buddsoddi ac yn rheoli'r ardaloedd.

Diweddariad 2023/2024

Roedd y dogfennau Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli unigol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30 Medi a 11 Tachwedd 2022. Derbyniwyd nifer o sylwadau gan nifer o ymatebwyr. Yn dilyn gwirio'r newidiadau y bwriad yw cyflwyno'r dogfennau i'r Aelodau i'w mabwysiadu'n derfynol o fewn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Gwaith arall sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r gwaith hwn yn ystod Gwanwyn/Haf 2023 yw pedwar digwyddiad galw i mewn ar draws y Parc Cenedlaethol gydag arbenigwyr ym maes Cadwraeth Adeiladau yn hyrwyddo'r prosiect ac yn hyrwyddo gwybodaeth am wahanol ddulliau addas a chynaliadwy o wella effeithlonrwydd ynni adeiladau traddodiadol o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Yn ogystal, roedd cynllun grant ar gael i gynorthwyo gyda gwelliannau effeithlonrwydd ynni a / neu uwchraddio thermol eiddo cyhoeddus, cymunedol a masnachol o fewn Ardaloedd Cadwraeth dynodedig y Parc Cenedlaethol, megis Eglwysi / Capeli, Neuaddau Cymunedol, Llyfrgelloedd, Tafarndai Cymunedol, a Siopau Pentref. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau oedd 3 Mawrth 2023 a phenderfynwyd ar y cais llwyddiannus, [ble mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau ar adeilad masnachol yn Betws y Coed.](#)

Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau



Mae Partneriaeth Tirwedd y Carneddau wedi datblygu cynllun a fydd yn helpu i hyrwyddo dyfodol cadarnhaol i'r Carneddau trwy gynyddu dealltwriaeth a mwynhad o'i hanes, traddodiadau diwylliannol a bywyd gwylt. Bydd yn gwarchod treftadaeth yr ardal trwy hyrwyddo ffermio cynaliadwy sy'n amddiffyn cynefinoedd, rhywogaethau ac olion archeolegol prin, a thrwy gofnodi enwau lleoedd ac atgofion. Bydd grant o £1.7 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth Genedlaethol y Loteri yn helpu i gyflawni'r cynllun, gwerth dros £4 miliwn, dros y 5 mlynedd nesaf.

Ymhlith y prosiectau o fewn y cynllun mae:

1. Cylchdaith y Carneddau – : Sefydlu taith aml-ddiwrnod ar Hawliau Tramwy presennol, cyrchu gwelliannau, hyrwyddo a chreu adnoddau dehongli digidol ac argraffedig.
2. Ucheldiroedd Pori: Gwelliannau ymylol ac ymylon mynyddoedd, cadwraeth a chofnodi'r fran goesgoch a gwaith clirio eithin a rhedyn o safleoedd archeolegol.
3. Tirwedd o Fwyell Neolithig: Archeoleg gyhoeddus yn archwilio chwareli cerrig 6,000 oed a'r bwyell hardd a fasnachwyd ac a gyfnewidiwyd dros bellteroedd maith ledled Prydain.
4. Gwyddoniaeth Dinasyddion LiDAR: Darganfod a mapio archeoleg, mawndiroedd a nodweddion tirwedd gan ddefnyddio sgan laser o'r awyr 3D newydd o dirwedd gyfan y Carneddau.
5. Dolydd: Adfer dolydd yr ucheldir sy'n lleoedd bwydo pwysig i adar prin gan gynnwys Llinos y Mynydd. Sefydlu a chefnogi dolydd ar ochrau'r dyffryn sy'n llawn blodau i gynyddu bioamrywiaeth a helpu peillwyr.
6. Y Cylch Dŵr: Mawn ac Afonydd: Gwella coridorau glan afon, cael gwared â'r Ffromlys Chwarennog, atgyweirio mawndir, codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amgylcheddol mawndir, cynefinoedd llynnoedd ac afonydd a dadansoddi paill hynafol mewn mawn er mwyn deall newid tirweddol.
7. Coed a Choetir: Plannu coed mewn ardaloedd penodol i wella cysylltedd cynefinoedd a bioamrywiaeth a chofnodi coed hynafol, sefydlu meithrinfeydd bach i blannu coed lleol a chael gwared ar Rododendron ymledol.
8. Gorwelion / Nenlinellau: Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r copaon a'r cribau uchel nodedig a'u gwybodaeth am eu treftadaeth arbennig a'u bywyd gwylt gan gynnwys carneddau claddu o'r oes efydd a chynefinoedd planhigion arctig ac alpaidd hynafol.
9. Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau: Prosiect ymchwil a hanes lafar a fydd yn rhannu straeon, atgofion a phrofiadau o fywyd a magaeth yn y Carneddau yn ogystal â gwybodaeth am gymunedau ffermio a sut mae'r rheini wedi siapiau y Carneddau rydym yn adnabod heddiw.

Diweddariad 2023/2024

Mae'r prosiect bellach wedi pasio'r pwynt hanner ffordd ac mae sawl carreg filltir wedi'i gyflawni. Mae gwefan Partneriaeth y Carneddau wedi'i lansio ac mae'r prosiectau ar darged amser a chyllideb i gyflawni a chwblhau erbyn gwanwyn 2026. Mae swyddogion yn cynllunio a chadarnhau prosiectau gwaddol y cynllun ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod effaith prosiectau'r Cynllun o fudd i gymunedau'r ardal am flynyddoedd i ddod. Mae gwerthusiad ffurfiannol (formative evaluation) yn ein galluogi i adlewyrchu ar gynnydd y Cynllun yn rheolaidd, ac addasu cynlluniau a ffyrdd o weithio fel mae'r angen yn codi. Mae hyn yn golygu bod y Partneriaeth yn medru gweithio yn Ystwyth ac ymateb i anghenion. Mae hyn yn hanfodol wrth wireddu cynllun hirdymor.

Prosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau

Un o nodweddion amlycaf tref Dolgellau yw ei hadeiladau uchel o gerrig llwyd dolerit a llechi, a'i gwe o strydoedd cul sydd wedi esblygu a datblygu'n ddamweiniol dros bedair canrif. Mae 180 o adeiladau'r dref wedi'u rhestru, ac mae llawer o adeiladau hanesyddol y dref, yn fasnachol yn bennaf, wedi dadfeilio, gyda rhai wedi bod yn wag neu'n rhannol wag ers blynyddoedd.

Er mwyn helpu i adfywio'r dref, sefydlwyd prosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau, sy'n bartneriaeth rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cadw a Chyngor Gwynedd yn 2009. Mae'r fenter yn cynnig grantiau i berchnogion eiddo cymwys tuag at atgyweirio adeiladau, adfer colli nodweddion pensaernïol a dod â lloriau gwag yn ôl i ddefnydd economaidd. Amcan arall y fenter yw hybu ymwybyddiaeth o dreftadaeth y dref ac annog trigolion ac ymwelwyr i gymryd mwy o ran yn eu treftadaeth ddiwylliannol.

Diweddariad 2023/2024.

Mae'r gwaith allanol i 4 Eldon Row bron wedi'i gwblhau a dim ond addurno blaen y siop ac ail-leoli pibell nwy allanol sydd ei angen.

Mae'r gwaith adfer a thrwsio hanfodol i Dŷ Newyddion, yr hen Wilkins Newsagents (adeilad â blaenoriaeth) yn mynd rhagddo'n arafach na'r disgwyl. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn hynod heriol oherwydd natur y gwaith adfer a'r gwaith strwythurol. Y gobaith yw y bydd y gofod manwerthu/masnachol ar y llawr gwaelod yn cael ei ddefnyddio eto ym mis Medi. Bydd y gwaith llawr uwch mewnol yn cael ei gwblhau fel ail gam gan berchennog yr eiddo.

Mae nifer o brosiectau codi ymwybyddiaeth yn ymwneud â diwydiannau gwlan a thanerdy Dolgellau wedi eu cwblhau. Mae'r prosiectau hyn wedi cael ymgysylltiad cymunedol cryf ag ysgolion lleol a grwpiau crefft a hanes lleol, lle mae gweithiau celf wedi'u creu gan Josie Russell a Nicole Le Maire, artistiaid lleol sy'n gweithio trwy gyfrwng tecstilau a ffelt gwlan yn y drefn honno. Mae'r gweithiau celf hyn bellach wedi'u gosod i'w harddangos yn barhaol yn Darllenfa Rhydd, gan eu gwneud yn hygyrch i bawb.

Mae dau safle cyn felinau gwlan ar yr afon Aran wedi cael eu harolygu gan archeolegydd gyda chymorth Grŵp yr Aran. Bydd yr adroddiadau archeolegol sy'n ymwneud â'r canfyddiadau yn cael eu lanlwytho ar wefan yr Awdurdod. Derbyniodd aelodau Grŵp yr Aran hyfforddiant mewn arolygu adeiladau.

Trefnwyd wythnos wlan lle bu plant ysgol yn dysgu am y diwydiant a'i gysylltiad â'r fasnach gaethweision siwgr a thraws-iwerydd trwy lwybrau cerdded a darlith gan Ddarlithydd o Brifysgol Caerdydd. Cynhaliwyd gweithdai hefyd i ddisgyblion yr ysgol ddysgu am greu gweithiau celf o wlan, ffelt a thecstilau eraill.

Mae llyfr ar y diwydiannau gwlan a thanerdy wedi ei gyhoeddi a chynhaliwyd lansiad swyddogol y llyfr. Mae incwm o werthu'r llyfrau yn cael ei ddefnyddio gan Grŵp yr Aran i godi ymwybyddiaeth o'r diwydiannau ymhellach trwy brosiectau eraill.

Mae bwrdd dehongli a ffrâm newydd yn ymwneud â dau lwybr cerdded ar hyd yr afon Aran ac sy'n cynnwys safleoedd yr hen felinau gwlan wedi'u cynhyrchu a'u gosod ger y fynedfa i faes parcio'r Marian. Cynhaliwyd digwyddiad gyda phlant ysgolion lleol yn dadorchuddio'r bwrdd dehongli yn swyddogol.

Dyddiad cwblhau cyffredinol y prosiect ar hyn o bryd yw 31 Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei ohirio tan ddechrau mis Medi oherwydd y gwaith parhaus i Dŷ Newyddion.

5 HYRWYDDO CYMUNEDAU IACH A CHYNALIADWY

Mae'r adran hon yn ymateb i'r amcanion canlynol:

Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol.

Cefnogi'r ddarpariaeth briodol a chadw cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol ledled yr ardal.

Annog cyfleusterau hamdden cymunedol lle maent yn diwallu anghenion lleol a heb wrthdaro â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc.


Hyrwyddo mesurau i annog datblygiad sy'n cefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ac i amddiffyn cymunedau rhag datblygiadau sy'n ansensitif i effeithio ar y Gymraeg.

Y Farchnad Dai Gyffredinol

Prisiau Tai a Gwerthiannau

- 5.1 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn derbyn data ar werthiannau tai gan y Gofrestrfa Tir; mae'r data ar ffurf yr holl drafodion unigol o fewn ffin y Parc. Pris tŷ ar gyfartaledd yn 2020 oedd £215,524, i fyny o £211,107 yn 2019.. Cododd pris tŷ cyfartalog cymedrig ar gyfer 2021 ymhellach i £259,096. Yn 2022 cododd eto i £272,294. Yn ystod 2023, gostyngodd hyn yn sylweddol i £244,570. Mae canolrif pris tŷ yn lleihau effaith gogwyddo'r pryniannau gwerth uchaf ac isaf. Mae canolrif gwerth prisiau tŷ wedi bod yn cynyddu ers 2014 (gyda gostyngiad yn 2016), gan gyrraedd £172,000 yn 2020. Cynyddodd yn sylweddol yn 2021 i £210,000. Gwelodd 2022 cynnydd pellach i £220,000. Yn ystod 2023, gostyngodd hyn i £200,000. Dengys Graff 1 isod y newidiadau tai canolrifol ers 2009.

Graff 1: Prisiau Cyfartalog a Chanolrif Tŷ ers 2009 ym Mharc Cenedlaethol Eryri



5.2 O ran nifer y gwerthiannau blynyddol; gostyngodd rhwng 2018 a 2020, o 491 i 346. Yn ystod 2020, cynyddodd nol i 446 cyn gostwng eto yn 2023 i 349

5.3 Rhesymau dros y cynnydd mewn prisiau:

- Arweiniodd y Pandemig Covid-19 at gynnydd mewn gweithio gartref a chyfleoedd i fyw ymhellach i ffwrdd oddi wrth y gweithle. Mae ansawdd bywyd a thirwedd a gynigir gan y Parc Cenedlaethol yn denu'r rhai sy'n dymuno cael bywyd mwy cytbwys tra'n gweithio gartref, sy'n cynyddu'r galw ar y farchnad dai leol.
- Gwnaeth Brexit a'r Pandemig Covid-19 hi'n anodd i gymryd gwyliau y tu allan i'r DU, gan gynyddu lefelau twristiaeth yn y DU. Arweiniodd hyn at brynu mwy o dai fel ail gartrefi neu dai gwyliau ar rent. Mae ardaloedd fel Parciau Cenedlaethol yn arbennig o dan bwysau a gall y cynnydd yn y gystadleuaeth am dai ar werth arwain at gynnydd mewn prisiau. Er bod 'gwyliau gartref' yn fwy amlwg yn ystod y tymhorau 20-21, mae'n bosibl bod y ffactorau hyn yn dal i gael effaith, gan fod lefelau covid-19 yn parhau i amrywio, a bod yr argyfwng costau byw yn atal pobl rhag mynd ar wyliau dramor.
- Gwelwyd prisiau tai yn disgyn yn sylweddol ar ddechrau 2023 yn Eryri ac ar draws Cymru. Credir bod hyn o ganlyniad i gyllideb y Llywodraeth DU yn Hydref 2022, cyfraddau llog yn codi, ac anawsterau i gael morgeisi.

Ail gartrefi / llety gwyliau hunanarlwyo: Ymgynghoriadau a Newidiadau Rheoleiddio

Mae lefelau perchnogaeth ail gartrefi a'r cynnydd mewn llety hunanarlwyo tymor byr wedi bod yn fater amlwg iawn ers i'r cyfnod cloi cyntaf ddod i ben. Mae effeithiau'r pandemig a Brexit wedi cyflymu tueddiadau presennol. Mae'r cynnydd mewn ail gartrefi a llety hunanarlwyo tymor byr yn gysylltiedig ag effeithiau economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol ar gynaliadwyedd cymunedau ac yn bryder mawr i gymunedau Eryri. Hyd at yr 20fed o Hydref 2022, nid oedd newid defnydd tŷ presennol i ail gartref neu lety gwyliau yn cael ei ystyried fel datblygiad o dan y Ddeddf Cynllunio, felly roedd eu newid defnydd y tu allan i sgôp y system Gynllunio, a'r CDLIE. Nid yw 2016-2031 yn cynnwys polisiau perthnasol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn o fesurau ym mis Gorffennaf 2022 i fynd i'r afael â mater ail gartrefi a llety hunanarlwyo tymor byr yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys elfen cynllunio defnydd tir a allai effeithio ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys newid deddfwriaethol sy'n galluogi Awdurdod Cynllunio Lleol i geisio rheoli ail gartrefi a llety hunanarlwyo tymor byr yn ei ardal. Mae'n dilyn ymgynghoriad ar y mater ym mis Tachwedd 2021, yr oedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi'r egwyddor iddi ond hefyd yn tynnu sylw at rai materion yn ymwneud ag ymarferoldeb a baich adnoddau.

O Hydref 20fed, 2022, diwygiwyd *Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987* (UCO) i greu dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer

'Anheddau, a ddefnyddir fel prif breswylfa neu unig breswylfa' (Dosbarth C3),

'Anheddau, a ddefnyddir fel arall fel unig neu brif breswylfa' (Dosbarth C4), a:

Gosodiadau tymor byr 'Dosbarth C6'.

Yn flaenorol nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng y defnyddiau hyn o fewn y Gorchymyn Dosbarth Defnydd – a byddent i gyd wedi cael eu hystyried dan un Dosbarth C3.

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 hefyd wedi'i ddiwygio i ganiatáu newidiadau rhwng y 3 defnydd uchod. Datblygiad a Ganiateir (h.y. dim angen cais cynllunio) i newid rhwng y 3 defnydd newydd – C3, C5 a C6. Yn hollbwysig, gall yr hawliau 'datblygu a ganiateir' hyn gael eu datgymhwyso o fewn ardal benodol gan yr hyn a elwir yn Gyfarwyddyd Erthygl 4 gan Awdurdod Cynllunio Lleol ar sail tystiolaeth leol gadarn.

Fel y nodir yn **llythyr y Gweinidog at ACLlau dyddiedig 28 Medi 2022** mae'r newidiadau cyflenwol hefyd wedi'u gwneud i adran 4.2 Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Mae'r newidiadau polisi hyn yn ei gwneud yn glir, lle bo'n berthnasol, bod yn rhaid ystyried mynychder ail gartrefi a gosodiadau tymor byr mewn ardal leol wrth ystyried gofynion tai a dulliau polisi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn glir, pan fo awdurdod cynllunio lleol yn cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, y dylai atgyfnerthu ei gamau gweithredu drwy ei gwneud yn ofynnol i amodau gael eu gosod ar bob annedd newydd sy'n cyfyngu ar eu defnydd i Ddosbarth C3 lle byddai amod o'r fath yn bodloni'r profion perthnasol. Dylai awdurdodau lleol hefyd ddyrannu safleoedd mewn CDLlau sydd wedi'u cyfyngu i ddefnydd C3, gan gynnwys tai marchnad leol, mewn ardaloedd lle maent yn ceisio rheoli ail gartrefi a gosodiadau tymor byr.

Yn Nhachwedd 2022, penderfynodd Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod i gytuno gyda'r egwyddor o Gyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli defnydd llety gwyliau tymor byr ag ail gartrefi, gyda rhybudd o 12 mis ag ymgynghoriad cyhoeddus i ddigwydd yng Ngwanwyn 2024.

Ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i Ail Gartrefi³

Cynhaliodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd ymchwiliad ffurfiol yn canolbwyntio ar ail gartrefi. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd archwilio'r argymhellion a wnaed gan Dr Simon Brooks yn ei adroddiad, a gwerthuso'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer newid polisi yn y maes hwn a nodi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth a data. Cyflwynodd yr adain Polisi Cynllunio ymateb manwl i'r ymgynghoriad. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 23 Mehefin 2022. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 15 o argymhellion, yn cefnogi newidiadau rheoleiddiol ac ymchwil a monitro pellach, gan gynnwys drwy brosiect peilot Dwyfor.

Cynllun Cymunedau Cymraeg⁴

Cyhoeddwyd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn Hydref 2022. Mae'n cynnig cefnogaeth i gymunedau Cymraeg eu hiaith sydd â chrynodeiad uchel o ail gartrefi.

Mae'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cynnwys gweithredoedd am y canlynol:

Yr Economi, Tai a'r Gymraeg

Mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a arweinir gan y gymuned

Tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned

Grŵp llywio asiantaethau eiddo a rhanddeiliaid

Ymgyrch tai lleol - Cynllun Cyfle Teg

Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Llysgenhadon Diwylliannol

Enwau lleoedd Cymraeg

Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022 gyda'r nod o wneud argymhellion er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg. Cyhoeddwyd argymhellion terfynol y Comisiwn mewn Papur safbwynt y Comisiwn, a gyhoeddwyd yn Awst 2024⁵. Er mwyn gallu amrywio polisi cyhoeddus mewn cymunedau o'r fath, argymhellir y dylid dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol. Yn ogystal ag ystyried ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol (dwysedd uwch), mae'r Comisiwn wedi dechrau ar y gwaith o graffu ar feysydd polisi penodol. Nid argymhellion a geir ar rhain hyd yma ond safbwyntiau a sylwadau cychwynnol. Mae'r meysydd yn cynnwys cynllunio, tai, addysg, ag asedau cymunedol. Bydd y comisiwn yn arwain ar ddadansoddiad sosio-ieithyddol o iechyd yr iaith yn ein cymunedau. Bydd yn datblygu model i roi

³ <https://senedd.wales/committees/local-government-and-housing-committee/>

⁴ <https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg>

⁵ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/6/4/1685613974/papur-safbwynt-y-comisiwn-cymunedau-cymraeg.pdf>

tystiolaeth i awdurdodau lleol ar fywiogrwydd yr iaith yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Cynllun Peilot Dwyfor⁶

5.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu peilot yn ardal Dwyfor i dreialu a monitro mentrau newydd i fynd i'r afael â mater ail gartrefi a fforddiadwyedd. Mae rhan o Ddwyfor o fewn y Parc Cenedlaethol (Beddgelert, Garndolbenmaen), ac mae APCE yn rhan o'r cynllun fel partneriaid. Mae'r pecyn radical o fesurau yn cynnwys rhoi'r gallu i awdurdodau lleol gyflwyno premiymau treth cyngor uwch ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor; newidiadau i'r trothwyon gosod ar gyfer rhoi llety gwyliau ar y rhestr ardrethi annomestig; newidiadau arloesol i'r fframwaith cynllunio a chynllun tai cymunedau Cymraeg.

Treth Trafodiad Tir

5.5 Rhaid i'r rheini sy'n bwriadu prynu ail gartrefi neu eiddo brynu i osod yng Nghymru dalu o leiaf 4% yn y Dreth Trafodiad Tir (TTT) ar ben yr hyn sy'n daladwy am eu band. Mae'r gyfradd uwch hon yn cael ei rhoi ar waith pan werthir tŷ i rywun sydd eisoes yn berchen ar eiddo arall, a all yn ogystal â chartrefi gwyliau hefyd gynnwys y rhai sy'n prynu tai i'w rhentu a hefyd rhywun sy'n dal i geisio gwerthu eu cartref gwreiddiol. Felly, mae'n bosibl defnyddio'r wybodaeth i ddarparu disgrifiad o nifer yr anheddau sy'n cael eu prynu fel ail gartref neu fel tai gosodiad ar gyfer gwyliau, ond o ystyried yr amrywiol amgylchiadau lle mae'n berthnasol, mae angen bod yn ofalus. Yn 2021, yn dilyn cais gan Adran Bolisi Parc Cenedlaethol Eryri, mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi rhyddhau'r data hwn yn benodol i dri Pharc Cenedlaethol Cymru⁷.

5.6 Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm nifer y trafodion preswyl bob blwyddyn ariannol, Ebrill i Fawrth (gall y nifer hwn gynnwys trafodion cabannau, carafannau statig ac ati mewn parciau gwyliau), a'r nifer sy'n talu'r gyfradd uwch. Mae nifer y trafodion yn 2023/24, a'r rhai sy'n talu cyfraddau uwch, wedi disgyn i'r lefel isaf o'r 6 mlynedd diwethaf. .

Ystadegau Treth Trafodiad Tir Preswyl ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri			
	Trafodion preswyl	Talu cyfradd uwch	Canran sy'n talu cyfradd uwch
2018-19	590	240	41%
2019-20	530	230	43%
2020-21	520	220	42%
2021-22	670	280	42%
2022-23	530	200	38%
2023-24	450	190	42%


5.7 Mae'r ganran ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri o tua 42% yn cymharu â 30% i ardal Gwynedd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, a 23% ar gyfer ardal Conwy y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

⁶ <https://llyw.cymru/cadarnhaur-camau-nesaf-i-fynd-ir-afael-ag-effaith-perchnogaeth-ail-gartrefi-ar-gymunedau-cymru>

⁷ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Taxes-devolved-to-Wales/Land-Transaction-Tax/Geographic-data/residentiallandtransactiontaxstatistics-by-measure-nationalpark>

Data treth Cyngor

- 5.8 Mae data treth cyngor yn dangos nifer yr eiddo sydd yn talu premiwm treth cyngor ar ail gartrefi. Dangosir hefyd nifer yr eiddo hunanarlwyo sy'n talu cyfraddau busnes annomestig. Os cyfunir y ddwy set ddata, dangosir y canrannau ar gyfer pob cyngor cymunedol ar y map thematig isod. Nid yw band 'A' wedi'i gynnwys, gan fod gan rai cymunedau niferoedd uchel oherwydd parciau statig a chalet gyda chyfyngiadau deiliadaeth ar waith. Mae rhai ardaloedd cynghorau cymunedol yn cynnwys tir y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol. . Dangosir data Gwynedd yn Ebrill 2024 y cymunedau gyda'r canrannau uchaf yw Aberdyfi, (46%), Beddgelert (34%) Llanfair (28%) a Llanfihangel y Pennant (24%). O edrych ar y tueddiadau o 2020 i 2022, yng Ngwynedd nid oes cynnydd sylweddol yn y niferoedd cyffredinol. Mewn sawl cymuned fodd bynnag, mae tuedd amlwg o ostyngiad mewn ail gartrefi, a chynnydd cyfatebol tebyg yn nifer y cartrefi sy'n talu ardrethi annomestig. Gall hyn adlewyrchu perchenogion yn dewis cynnig eu hail gartrefi fel llety gwyliau tymor byr, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi ac osgoi talu Treth y Cyngor.
- 5.9 Nid oedd data 2022 ar gyfer Cyngor Conwy yn dangos newid sylweddol yn yn niferoedd o ail gartrefi, ac unedau gwyliau hunanarlwyo. Wrth gymharu gyda data 2020, gwelir cynydd a gostyngiadau bach ymysg y cymunedau. Yng Ngonwy, y cymunedau gyda'r canrannau cyfunol uchaf ydi Bro Machno (26%), Capel Curig (21%), a Betws y Coed (19%).
- 5.10 Mae'n ymddangos bod cyflwyniad Cyngor Gwynedd o bremiwm 150% ar ail gartrefi wedi ysgogi mwy i 'droi' eiddo o ail gartrefi i fusnesau hunanarlwyo sy'n talu ardrethi annomestig.
- 5.11 Mae'n bosibl iawn y bydd y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn codi'r trothwy ar gyfer nifer y diwrnodau y gellir gosod cartref fel llety gwyliau tymor byr i fod yn gymwys i gael ei ystyried yn llety annomestig, yn cael effeithiau pellach ar y niferoedd, ynghyd â chodiadau ym mhremiwm y dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi (hyd at uchafswm o 300%). Ynghyd â'r angen posibl am ganiatâd cynllunio, un canlyniad posibl fyddai gostyngiad mewn ail gartrefi a allai arwain at fwy o symud i'r ardal i fyw yn barhaol, a fydd yn cael effaith ar gymunedau.
- 5.12 Mae'r tabl yn Atodiad 4 yn dangos data Treth y Cyngor ar gyfer ardaloedd cynghorau cymuned o fewn y Parc Cenedlaethol i Wynedd a Chonwy, gan gynnwys yr ardaloedd sydd yn rhannol o fewn ardal y Parc.



5.13 Credir bod y defnydd o eiddo a ddefnyddir fel llety 'Airbnb' wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Nid yw'r math hwn o eiddo bob amser yn dod o fewn cylchoedd gwaith rheoleiddio; felly, efallai nad yw'r gwir nifer yn hysbys, a gall fod yn sylweddol. Canfu arolwg gan Gyngor Gwynedd yn 2019 fod cynnydd mawr wedi bod yn nifer y llety hunanarlwyo a llety Airbnb yn ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd⁸. Byddai data cywir ar y niferoedd hyn yn gymorth i lunio polisïau a bydd APCE yn parhau i weithio gyda phartneriaid i archwilio ffyrdd o gyflawni hyn. Efallai bod cynllun trwydded statudol arfaethedig ar gyfer llety gwyliau rai blynyddoedd i fwrdd o gael ei gyflwyno.


Incwm

5.14 Mae'r berthynas rhwng incwm a phris tai yn allweddol bwysig wrth ddarparu darlun o fforddiadwyedd tai yn y Parc Cenedlaethol. Mae gwybodaeth incwm ar gael o ddata incwm aelwydydd CACI. Mae incymau lleol yn y Parc Cenedlaethol yn gyffredinol isel a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth â chyflog uwch yn gyfyngedig. Golyga lefel incwm cyfartalog isel yr ardal nad yw cyfran helaeth o boblogaeth Eryri yn gallu fforddio tai ar werth yn y farchnad dai leol. Mae enillwyr incwm canolig hefyd yn gweld bod eu gallu i brynu tŷ ar y marchnadoedd agored yn cael ei beryglu gan y galw allanol.

⁸ https://www.visitsnowdonia.info/sites/default/files/2020-06/Arolwg%20Stoc%20Welyau%20Gwynedd%202018_19_C_05062020.pdf

5.15 Dengys y map isod gymarebau prisiau tai canolrifol i incwm canolrifol 2022 ar gyfer wardiau o fewn, neu'n rhannol o fewn, y Parc Cenedlaethol (mae wardiau sy'n gorwedd yn rhannol o fewn y Parc yn cynnwys data o'r tu allan i ardal yr Awdurdod). Fel arfer bydd benthycwyr morgeisi yn rhoi benthg tair gwaith a hanner incwm y cartref i'r ymgeiswyr. Mae gan bob ward yn y Parc Cenedlaethol gymhareb o 4 neu fwy. O'r 43 ward, mae gan 32 gymhareb o 6 neu fwy (74%). Mae nifer sylweddol o ddarpar brynwyr tro cyntaf felly yn cael eu prasio allan o'r farchnad dai.

Cymarebau canolrif pris tŷ yn erbyn incwm canolrifol ar gyfer wardiau yn y Parc Cenedlaethol neu'n rhannol ynddo (data 2022)



Datblygu Tai yn y Parc Cenedlaethol

- 5.16 Nid oes unrhyw adeiladwyr tai rhanbarthol yn weithredol yn y farchnad ac felly prin yw'r adeilad hapfasnachol o dai marchnad agored a fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r farchnad dai yn y Parc Cenedlaethol yn lleol ei natur, gan ddibynnu ar adeiladwyr lleol bach a phrosiectau hunan-adeiladu ar safleoedd bach. Gall chwyddiant uchel a'r ansicrwydd ynghylch benthyca yn y blynyddoedd diwethaf anghymhell datblygwyr, adeiladwyr bach, a phrosiectau hunan adeiladu rhag mynd ymlaen gyda chynlluniau i fuddsoddi neu geisio caniatâd ac adeiladu tai, a all effeithio ar gyfradd datblygu tai ar hyn o bryd. Gyda niferoedd yn uwch y llynedd, ac yn isel eleni, nid yw'n ymddangos bod y pandemig wedi cael effaith glir nac arwyddocaol ar ddatblygiadau tai newydd yn y Parc Cenedlaethol. Ystyrir bod effaith y pandemig wedi disgyn yn bennaf ar y stoc dai bresennol fel y trafodwyd yn flaenorol ym mharagraffau .
- 5.17 Ffactor arall sydd wedi dod yn fwy amlwg ers 2021/2022 yw'r cynnydd yng nghost deunyddiau adeiladu. Dengys ffigyrau a ryddhawyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol fod y mynegai prisiau deunyddiau 'Pob Gwaith' wedi cynyddu 25.2% ar lefel y DU ym mis Ebrill 2022 o'i gymharu â'r un mis y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd prisiau deunyddiau adeiladu ar gyfer tai newydd 22.5% dros 2021/2022 ac maent yn parhau yn uchel yn 2023. Gellir priodoli llawer o hyn i amhariad byd-eang ar y gadwyn gyflenwi, a bu prinder gweithwyr yn y diwydiant adeiladu, gydag effeithiau brexit a COVID yn cyfrannu at hyn. Gellir priodoli nifer isel y tai a gwblhawyd yn ystod blynyddoedd diweddar yr AMRI'r ffactorau hyn. Gall y ffactorau hyn hefyd annog datblygwyr i beidio â chyflwyno ceisiadau cynllunio am anheddau. Bydd chwyddiant cynyddol, cost benthyca, argyfwng costau byw, i gyd yn cyfrannu at lefelau is o ddatblygiadau tai.
- 5.18 Mae datblygiad tai fforddiadwy gan gymdeithasau tai hefyd yn wynebu rhwystrau. Trwy drafodaethau gyda chymdeithasau tai sy'n gweithredu o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, rydym yn ymwybodol ei bod yn gynyddol anodd gwneud i gynlluniau wneud synnwyr yn ariannol, yn enwedig cynlluniau bach mewn ardaloedd gwledig. Maent yn ei chael hi'n anodd cael contractwyr adeiladu i adeiladu cynlluniau bach ac mae costau'n uwch gyda llai o elw. Mae costau adeiladu cynyddol yn gwaethygu'r broblem. Hefyd, mae cynlluniau mewn aneddiadau llai yn fwy heriol o ran sefydlu'r angen, yn enwedig am dai canolradd.

Angen am Dai Fforddiadwy

- 5.19 Mae Awdurdodau Tai Lleol yn gyfrifol am gynhyrchu a diweddarau Asesiad Marchnad Tai Lleol (AMTLI) mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio a rhanddeiliaid eraill. Mae Cyngor Gwynedd wedi diweddarau eu AMTLI am y cyfnod (2018-2023). Mae AMTLI Gwynedd (2018-2023) wedi nodi ffigwr angen tai blynyddol o 707 ar gyfer ardal Gwynedd. Mae defnyddio rhaniad pro rata o 19% ar gyfer rhan ardal Gwynedd o fewn ffin y Parc Cenedlaethol, yn rhoi angen blynyddol o 134 a chyfanswm o 670 o unedau dros y cyfnod 5 mlynedd yr AMTLI.
- 5.20 Mae Conwy wedi rhyddhau Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AMTLI) interim gyda'r bwriad o ddiweddarau'r AMTLI diwethaf a gyhoeddwyd yn 2018. Mae'n ddogfen interim yn disgwyl yr Asesiad nesaf a fydd yn dilyn canllawiau newydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r AMTLI yn nodi cyfanswm o 1,145 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol dros y cyfnod 2022-2027 (229 uned y flwyddyn) ar gyfer Sir Conwy gyfan. Ar raniad pro rata o 4% i'r rhan o ardal Conwy sydd o fewn ffin y Parc Cenedlaethol, mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 46 uned dros y cyfnod 5 mlynedd, angen blynyddol o 9 uned i ardal Conwy sydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Nid oes llawer o newid yn y ffigyrau hyn o'r AMTLI blaenorol ar gyfer 2018-23.

5.21 Mae penawdau nodedig o AMTLI Conwy yn cynnwys:

- Dengys dadansoddiad y farchnad bod 46.7% o brynwyr tro cyntaf a chartrefi newydd eu ffurfio yn cael eu prasio allan o'r farchnad, o safbwynt rhentu a phrynu. Mae diffiniadau o gostau tai fforddiadwy a dderbynnir gan y diwydiant yn awgrymu bod gwario mwy na 30% o incwm aelwydydd ar gostau tai yn anghynaliadwy.
- Noda'r asesiad mai dim ond rhenti tai cymdeithasol y gallai 31.5% o aelwydydd newydd eu fforddio, a dim ond 15.2% sy'n gallu fforddio cynlluniau perchnogaeth cost isel (canolradd).
- Mae gan Sir Conwy lefel gymharol isel o stoc tai cymdeithasol yng Nghymru, felly mae'n rhaid i lawer o aelwydydd incwm is ddiwynnu ar y sector preifat.
- Mae cyfran yr eiddo rhent preifat wedi sefydlogi ar tua 17% o anheddau. I aelwydydd newydd, mae rhentu gan landlord preifat yn ddrud. Mae llai na 2% o osodiadau preifat sydd newydd gael eu marchnata yng Nghonwy yn cael eu gosod ar y Lwfans Tai Lleol, neu'n is na hynny, oherwydd eu maint.
- Mae cymorth budd-dal tai yn y sector preifat wedi'i rewi, mae'r diffyg rhwng budd-daliadau tai a rhent yn golygu bod rhaid i ddeiliaid tai ddod o hyd i arian rhent o gyllidebau sydd eisoes yn dynn. Ychydig iawn o opsiynau sydd gan ddeiliaid tai sengl ifanc ar incwm isel.
- Mae perchnogion eiddo yn ystyried opsiynau gan fod prisiau tai a gosodiadau tymor byr yn cynnig dewisiadau amgen deniadol.
- Bydd colli anheddau i ddefnyddiau dibreswyl yn cael effaith negyddol ar y cyflenwad cyffredinol. Gallai polisïau i reoli'r golled ostwng lefel gyffredinol y galw am dai sydd heb ei ddiwallu. Dylid ystyried polisïau i gadw llety preswyl a gwrthsefyll colledion i osodiadau gwyliau.

5.22 Mae'r canllawiau newydd⁹ yn cynghori, lle mae ffiniau parciau cenedlaethol yn croesi ffiniau awdurdodau lleol, y gallai fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr adeiladu HMAs mewn ffordd sy'n caniatáu i ddata angen tai gael ei echdynnu ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Awgrymir bod Parciau Cenedlaethol yn defnyddio'r amcangyfrifon o'r angen a'r galw am dai ychwanegol a nodir yn AMTLI awdurdod lleol i ddatblygu adroddiad dadansoddol cryno. Mae Gwynedd a Chonwy wedi dechrau ar y gwaith o ddiweddarau eu AMTLI a fydd yn rhan bwysig o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygiad o CDLI Eryri yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno methodoleg newydd ar gyfer cynhyrchu AMTLI.

5.23 Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio'n agos gyda Gwynedd a Chonwy ac yn defnyddio canfyddiadau'r AMTLl i helpu i lywio'r math o anheddau sy'n ofynnol o ran maint a chymysgedd deiliadaeth. Yn ogystal, mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a chymdeithasau tai wedi sefydlu cofrestr dai ganolraddol (Tai Teg) a gydlynir gan gymdeithas dai Grŵp Cynefin. Mae'r gofrestr hon yn rhoi gwybodaeth benodol am anghenion tai canolradd ar draws gogledd Cymru ac mae'n bosibl i dorri i lawr y wybodaeth drwy setliad i ddarparu ffigwr cywir o angen tai canolradd o fewn aneddiadau ar draws y Parc Cenedlaethol.

Eiddo Rhent

5.24 Fel y nodwyd uchod, mae argaeledd cartrefi rhent yn dod yn fwyfwy anodd. Mae eiddo rhent yn cael eu newid i lety gwyliau, a all fod yn fwy proffidiol i'r perchennog. Mae rhenti yn cynyddu, ynghyd â chwyddiant a chostau byw, tra bod cyflogau a buddion yn aros yn eu

⁹ https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/asesiad-or-farchnad-dai-leol-canllawiau-2022_0.pdf

hunfan. Mae hyn yn rhoi rheswm cryf dros reoli colli eiddo preswyl i ddefnydd gwyliau, a all fod yn bosibl gyda newidiadau mewn polisi cynllunio a deddfwriaeth yn y dyfodol.

Rhagamcanion Poblogaeth ac Aelwydydd

- 5.25 Cyhoeddwyd amcanestyniadau aelwydydd cenedlaethol (2018) ar gyfer y Parc Cenedlaethol ym mis Mai 2021. Mae'r rhagamcanion hyn yn amcangyfrif y bydd poblogaeth y Parc yn gostwng 1.92 % rhwng 2018 a 2028, sef cyfanswm o 480. Yn ystod yr un cyfnod rhagwelir y bydd yr aelwydydd yn Eryri yn cynyddu 40 uned (0.3%), cynnydd cymedrol iawn o fewn cyfnod o 10 mlynedd. Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd un person yn cynyddu ac yn parhau i fod y math o aelwyd mwyaf cyffredin, gan gyfrif am 41.7% o'r holl aelwydydd yn 2028. Rhagwelir y bydd nifer mathau eraill o gartrefi yn gostwng dros y cyfnod, rhagwelir y bydd aelwydydd mwy o faint yn gweld gostyngiad canrannol mwy amlwg. Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd gyda phlant yn lleihau o bron i 2,450 o gartrefi i ychydig o dan 2,160 o gartrefi (gostyngiad o 4.2%), gan wneud i fyny 17.8% o'r holl gartrefi erbyn 2028. Bydd poblogaeth sy'n gostwng a chyfraddau ffurfio aelwydydd arafach yn lleihau'r angen am fwy o dai.
- 5.26 Gan fod yr amcanestyniadau hyn yn dangos cynnydd bach iawn yn nifer yr aelwydydd yn Eryri, ac felly cynnydd bach iawn yn nifer yr anheddau sydd eu hangen mae'n awgrymu angen i ystyried ffigwr gofyniad a darpariaeth tai is a fyddai efallai'n fwy addas mewn diwygiado CDLI Eryri yn y dyfodol.

Adolygiad o Gytundebau Adran 106

- 5.27 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod benthycwyr yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni gydag agwedd fwy gofalus tuag at forgeisiau hunan-adeiladu yn gyffredinol ac at eiddo sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau megis cytundebau adran 106. Yn unol â gofynion benthycwyr, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Awdurdod wedi ceisio diwygio ei Gytundebau Adran 106 yn unol â'r gwaith a wneir yn genedlaethol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi. Er gwaethaf gwneud 106 cytundeb yn fwy hyblyg i fenthycwyr, maent yn parhau i fod yn wrth-risg wrth fenthycwyr i brynwyr tro cyntaf yn enwedig ar gyfer tai anghenion lleol fforddiadwy ac yn enwedig ar brosiectau hunan-adeiladu. Mae'r Awdurdod o'r farn nad oes unrhyw ddiwygiadau pellach yn bosibl i gytundebau 106 heb gyfaddawdu ar bolisiâu CDLI. Mae copïau o gytundebau safonol 106 ar gael ar y wefan i ymgeiswyr eu trafod yn gynnar gyda benthycwyr a chyda'r Awdurdod os oes angen. Yn ogystal â hyn, mae'r Awdurdod hefyd wedi diwygio, pan ofynnir gan ddatblygwyr, gytundebau A106 i ganiatáu ar gyfer rhannu cynlluniau ecwiti ar dai. Mae hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran pwy all brynu'r eiddo ar ôl eu datblygu. Mae'r Awdurdod wedi anfon nodyn briffio ar y cyd â Chyngor Gwynedd a Tai Teg i gynghori Broceriaid Morgeisi / Cynghorwyr Ariannol ynghylch argaeledd morgeisi ar gyfer safleoedd tai fforddiadwy gyda Chytundebau Adran 106. Mae dau fenthyciwr yn benodol yn fwy ffafriol i ddarparu morgeisi. Y gobaith yw y bydd y nodyn yn codi ymwybyddiaeth ac yn cynorthwyo broceriaid i ddod o hyd i forgeisi ar gyfer anheddau fforddiadwy gyda chytundebau Adran 106.

Diweddariad cynnydd ar safleoedd a ddyrannwyd

- 5.28 Mewnbynwyd gwybodaeth a ddarperir ar gyfer y safleoedd a ddyrannwyd yn Atodiad 3 sy'n atodlen ar gynnydd datblygu safleoedd tai a ddyrannwyd yn y CDLI. Mae'r Awdurdod yn cysylltu â pherchnogion safleoedd a ddyrannwyd a safleoedd mawr yn flynyddol i ddarganfod cynnydd ar safleoedd a derbyn eu mewnbwn pryd y cânt eu cyflawni.

NCT 20 - Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

- 5.29 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru NCT 20 diwygiedig ym mis Hydref 2017. Mae Polisi Datblygu 18: Yr Iaith Gymraeg a Ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol ar gyfer datblygiadau o faint a math penodol. Mabwysiadwyd y CCA cyfredol ar yr Iaith Gymraeg yn 2011. Adolygwyd ac ymgynghorwyd â CCA drafft a disgwylir iddo gael ei fabwysiadu Haf 2021. Cynhaliwyd asesiad effaith iaith wrth baratoi CDLIE 2016-2031 a lywiodd y strategaeth a'r polisiau o fewn y Cynllun. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais i weld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd 1 miliwn erbyn 2050. Er mwyn cyflawni'r nod hwn o sicrhau bywiogrwydd yr iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, rhaid i'r CDLI diwygiedig barhau i gefnogi, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw trwy sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth a thai digonol a chymesur i gynnal y cymunedau lleol.

Tai Gwag

- 5.30 Heblaw am adeiladu unedau tai fforddiadwy newydd mae hefyd lefel cymharol uchel o eiddo gwag tymor hir yn y Parc Cenedlaethol y gellid dod â nhw'n ôl i ddefnydd i bwrpasau tai. Bydd peth o'r diffyg tai fforddiadwy a ddynodwyd yn y Parc yn cael ei gwrdd gan eiddo gwag yn dod yn ôl i ddefnydd. Nid oes angen caniatâd cynllunio i ddod a chartref gwag yn ôl i ddefnydd, mae'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i helpu dod â'r eiddo gwag tymor hir hyn yn ôl i ddefnydd preswyl parhaol fel tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.
- 5.31 Mae gan Gynghorau Gwynedd a Chonwy gyda Strategaethau Eiddo Gwag, ac mae eu swyddogion yn gweithio i hwyluso adferiad eiddo gwag tymor hir a throi adeiladau gwag priodol eraill yn ôl i ddefnydd preswyl parhaol fel tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol. Mae'r Awdurdod yn cyfrannu at Gynlluniau Gweithredu Gorfodaeth Eiddo Gwag Cynghorau Gwynedd a Chonwy. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflenwi hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r cynlluniau yma. Mae'r Awdurdod wedi cydweithio gyda Chyngor Conwy i sefydlu cynllun grant ar gyfer prynwyr tro cyntaf sydd yn prynu eiddo gwag. Mae'r arian yn dod o gronfa symiau cymudo o gytundebau Adran 106.

Taflywbr Tai 2023 – 2024


- 5.32 Yn unol â'r canllawiau, mae ACLIau a fabwysiadodd eu CDLI cyn cyhoeddi Llawlyfr y Cynllun Datblygu Rhifyn 3 ym mis Mawrth 2020, angen creu taflywbr tai yn seiliedig ar y gwir nifer a gwblhawyd hyd yma, a nodi amseriad a camau cyflawni safleoedd yn y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y cynllun. Mae dau dabl, un ar gyfer dyraniadau ac un ar gyfer safleoedd mawr (5 uned neu fwy) wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.
- 5.33 Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r nifer sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol o'i gymharu â'r Gofyniad Tai Blynyddol Cyfartalog (GTBC), fel y nodir yn y cynllun mabwysiedig.

Tabl 1: Nifer sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol yn erbyn y Gofyniad Tai Blynyddol ar gyfartaledd


Blwyddyn y Cynllun Datblygu Lleol	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31
Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd mawr	7	12	0	0	11	0	12	6							
Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd bach	13	15	17	14	27	13	11	11							
Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn									7	49	38	8	11	14	41
Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar fanciau tir yn ystod y flwyddyn									47	35	36	40	48	42	36
Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar hapsafleoedd yn ystod y flwyddyn									20	20	20	20	20	20	20
Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (GBC) o'r Cynllun Mabwysiedig CDLLE 2016-2031	51	51	51	51	51	51	51	51	51	51	51	51	51	51	51
Nifer y tai wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn	20	27	17	14	38	13	22	17							

5.34 Mae'r graff a'r testun taflwybr tai canlynol yn dangos y lefel flynyddol o dai wedi eu cwblhau yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog (GBC) a nodir yn y CDLI, yn nhermau rhifiadol a chanrannol. Mae hefyd yn cynnwys cyfanswm cronus y tai sydd wedi eu cwblhau yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cronus cyfartalog a nodir yn y cynllun, yn nhermau rhifiadol a chanrannol.

Graff 1: Graff Taflwybr Tai fel y'i nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri Mabwysiedig 2016 2031



Graff 2: Graff Tafllwybr Tai - fel y'i diwygiwyd trwy'r AMB



5.35 Dengys Graff 1 y tafllwybr fel y'i nodir yn CDLIE 2016-31. Dengys Graff 2 y tafllwybr fel y'i diwygiwyd gan yr AMB hwn ar gyfer 2023.24. Mae Graff 2 yn dangos bod diffyg blynyddol yn erbyn 'llinell ddu' GBC yn 2023/24 . **Eleni, mae'r cwblhadau 34 uned yn is na'r hyn a ragwelwyd (51 GCB o'i gymharu â 17 cwblhad, - 67%).** Mae nifer yr anheddau sydd wedi'u hadeiladu bob blwyddyn wedi bod yn gyson is na'r gofyniad cyfartalog blynyddol (GCB) o 51 annedd y flwyddyn am bob blwyddyn er 2016-17.

5.36 Y gyfradd adeiladu gronol ofynnol o ddechrau cyfnod y cynllun 2016 i 31ain Mawrth 2024, fel y nodir ar y 'llinell ddu', oedd 408 o unedau. **Y 'llinell goch' o'r unedau a gwblhawyd mewn gwirionedd oedd 169 uned, sy'n cynrychioli diffyg o 239 uned mewn cyflenwi tai dros gyfnod y cynllun hyd yma (-41%).**

5.37 Am y cyfnod saith mlynedd sy'n weddill o'r cynllun, y bariau cyflenwi diwygiedig yw canlyniad y grŵp rhanddeiliaid ac mae'n dangos bod y cyflenwad yn fwy na'r hyn sydd ar ôl i'w adeiladu'n gronnus ac yn flynyddol. Mae'r nifer a ragwelwyd eu cwblhau yn uwch na chyfradd GCB, a gyda'i gilydd fyddai'n cael eu cyflwyno 592 o unedau, yn uwch na'r nifer GCB o

357 am y cyfnod hwnnw . Fodd bynnag, o ystyried y cyfraddau cwblhau isel iawn a'r caniatâd a roddir, gweithgaredd y diwydiant datblygu yn y Parc Cenedlaethol yn ogystal â'r ffigyrau amcanestyniad cartrefi a gyhoeddwyd yn ddiweddar , ynghyd â materion eraill a nodwyd yn yr AMB hwn, gallai ffigwr gofyniad cynllun is fod yn fwy addas mewn unrhyw ddiwygiadau i CDLI Eryri yn y dyfodol.

5.38 Mae'r graff hefyd yn dangos, wrth i ddyraniadau ddod ar waith ac wedi cael caniatâd cynllunio, byddai'r elfen hon yn cynyddu mewn cyfrannedd yn gyffredinol tra byddai'r elfen dyrannu safle yn lleihau.

5.39 O ran nifer tai sydd wedi eu cwblhau, mae'r cynllun yn disgyn yn sylweddol is na'r hyn a fwriadwyd. Bu diffyg mewn tai cronus yn erbyn y Gofyniad Cyfartalog Blyneddol (GCB) am 8 mlynedd yn olynol. Ymhlith y rhesymau dros y diffyg mae diffyg safleoedd mawr yn dod ymlaen, gweithgaredd wedi'i ddyrannu ac ar hap (annisgwyl) a gweithgaredd Cymdeithas Tai isel. Trafodir hyn yn fanylach yn yr AMB hwn.

5.40 Yn y cyfnod hyd at fabwysiadu'r CDLI nesaf, bydd yr Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r diffyg yn darparu tai drwy weithredu rhagweithiol, gan gynnwys:

- Ystyried cynigion ar gyfer datblygiad preswyl newydd yn ôl eu rhinweddau cynllunio cymharol fesul safle a rhoi sylw dyledus i'r angen i gynyddu darpariaeth tai.
- Cydweithio ag Awdurdodau Tai Gwynedd a Chonwy i fynd i'r afael â diffygion ac ar eu Cynlluniau Gweithredu Tai, gan gynnwys unrhyw gynlluniau i adeiladu a darparu tai fforddiadwy.
- Parhau i weithio gydag Cymdeithasau Tai i ddarparu tai ar safleoedd a ddyrannwyd ac i chwilio am safleoedd a chyfleoedd newydd i ddarparu tai fforddiadwy.
- Archwilio tai cydweithredol a chymunedol trwy weithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol.

MF24

Amcan		Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol.		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y caniatadau a roddwyd a thai newydd yn cael eu cwblhau bob blwyddyn	Bodloni'r gofyniad o 770 (51 uned y flwyddyn ar gyfartaledd) dros gyfnod y Cynllun (2016-2031)	Mabwysiadu		Yn is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog, targedwch dros ddwy flynedd yn olynol hy o dan 102 uned dros ddwy flynedd yn olynol.
		AMB Rhif 1:	Rhodddwyd caniatâd i 14 uned dai, cwblhawyd 14 uned dai	
		AMB Rhif 2:	Rhodddwyd caniatâd i 34 uned dai, cwblhawyd 38 uned dai	
		AMB Rhif 3:	Rhodddwyd caniatâd i 7 uned dai, cwblhawyd 13 uned dai	
		AMB Rhif 4:	Rhodddwyd caniatâd i 15 uned dai, cwblhawyd 22 uned dai	
		AMB Rhif 5:	Rhodddwyd caniatâd i 45 uned dai, cwblhawyd 17 uned dai	
	2017/18 44			
	2018/19 57			
	2019/20 62			
	2020/21 72			
	2021/22 85			
	2022/23 56			
	2023/24 51			
	2024/25 51			
	2025/26 60			
	2026/27 52			
	2027/28 46			
	2028/29 46			
	2029/30 46			
	2030/31 45			
Dadansoddiad				
Casgliad:				
<p>Mae'r nifer o ganiatadau cynllunio at gyfer tai a nifer y tai wedi eu cwblhau yn tueddu i amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Rhai blynyddoedd mae nifer yr unedau y rhodddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn isel tra bo'r nifer sydd wedi eu cwblhau yn uwch, ac i'r gwrthwyneb. Felly mae'n anodd iawn penderfynu ar unrhyw dueddiadau penodol.</p> <p>Mae ffactorau allanol wedi effeithio ar yr economi gyffredinol a'r farchnad dai ac wedi dylanwadu ar ddatblygiad o fewn y Parc Cenedlaethol. Efallai bod yr ansicrwydd ynghylch Brexit dros y 7 blynedd diwethaf wedi atal datblygwyr rhag bwrw ymlaen â chynlluniau i fuddsoddi mewn tai. Mae ffactorau fel Brexit a'r pandemig Covid-19 wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol mewn costau deunyddiau adeiladu). Gall chwyddiant uchel, costau byw uchel, ynghyd â chyflogau disymud hefyd berswadio datblygwyr i beidio â bwrw ymlaen i ddatblygu plotiau unigol/hunanadeiladu pwrpasol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol wedi arwain at amgylchedd benthyca anodd i adeiladwyr bach a phrosiectau hunanadeiladu yn ogystal â bod morgeisi'n dod yn fwyfwy anodd i'w cael, a allai effeithio ar y gyfradd ddatblygu yn y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Nid yw llawer o dirfeddianwyr yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu cymell i ddod â safleoedd ymlaen i'w datblygu gan nad oes llawer o bwysau masnachol i'w datblygu yn yr ardal. Mae diffyg diddordeb a datblygiadau sector preifat cyffredinol yn y Parc Cenedlaethol.</p>				

Mae gweithgarwch cymdeithasau tai yn ystod pob blwyddyn yn cael effaith sylweddol ar y ffigyrau tai cyffredinol yn y Parc Cenedlaethol. Yn ystod AMB blwyddyn 1 a 3, nid oedd unrhyw ganiatadau na chwblhadau gan Gymdeithasau Tai, tra bod caniatadau a chwblhadau yn uwch ym mlwyddyn 2. Mae Cymdeithas Tai wedi cwblhau safle o 9 o dai ym mlwyddyn 4, sydd yn cynyddu'r ffigwr.

Y patrymau a ddangosir gan hyn, a thargedau eraill yn yr AMB hwn, yw'r rôl sylweddol y mae Cymdeithasau Tai yn ei chwarae wrth ddarparu unedau tai fforddiadwy ar safleoedd a neilltuwyd ac wrth ddarparu tai fforddiadwy yn ardal y Parc Cenedlaethol.

Roedd nifer y caniatadau a'r niferoedd unedau a gwblhawyd yn uwch yn ystod AMB 2, yn cael eu hybu gan weithgarwch Cymdeithasau Tai (9 caniatâd, 11 wedi'u cwblhau). Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau tai a chymdeithasau tai i ddod â safleoedd priodol ymlaen i'w datblygu..

Rhodddwyd ystyriaeth i'r tuedd o gwblhau isel a gydnabuwyd gan AMB blaenorol yn ystod adolygiad o GDLI Eryri. Gwnaed newidiadau i'r polisi tai gan ddisgwyl gweld cynydd yn y nifer y tai a gwblheir. Cynigiwyd dyraniadau tai newydd mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion lleol dros gyfnod y Cynllun a chynigiwyd mwy o ddewis a hyblygrwydd safleoedd i sicrhau y darperir tai newydd yn barhaus. Cynyddwyd y trothwyon ar gyfer angen darpariaeth tai fforddiadwy o fewn aneddiadau, ee O fewn Canolfannau Gwasanaethau Lleol 20% o dai fforddiadwy yn ofynnol ar safleoedd o 5 anedd neu fwy. Roedd y CDLI blaenorol yn gofyn am ddarpariaeth tai fforddiadwy 50% ar bob safle heb ei ddyrannu mewn Canolfannau Gwasanaethau Lleol. O fewn aneddiadau gwasanaeth ac eilaidd, mae anheddau marchnad agored sengl ar safleoedd ar hap yn dderbyniol bellach. Ystyriwyd mai cynnwys tai marchnad gyffredinol a thai fforddiadwy mewn aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd oedd y ffordd fwyaf priodol ymlaen er mwyn cydbwysu'r angen i ddarparu tai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol, gan alluogi rhyddhau mwy o dai marchnad agored i ysgogi'r farchnad dai yn lleol. Bwriadwyd hyn hefyd i gynyddu'r gyfradd gwblhau gyffredinol a chefnogi adeiladwyr bach a'r economi leol yn nghyd-destun lleoliad tirwedd dynodedig.

Tra bu cynnydd yn yr ail flwyddyn o fonitro, mae'r niferoedd isel iawn ar gyfer y flwyddyn 1af, 3edd a 4ydd flwyddyn yn awgrymu nad yw'r polisi wedi cael yr effaith a ddymunir o gynyddu datblygiadau tai. Fodd bynnag, gwelir cynnydd sylweddol yn y nifer a dderbyniodd ganiatad cynllunio yn ystod 5ed blwyddyn monitro (gyda 45 uned wedi cael caniatad), gyda rhain yn gymysgedd o safleoedd unigol, trosiadau, cynlluniau adeiladu o'r newydd preifat a cynlluniau adeiladu cymdeithasol.. Mae'r niferoedd isel o ddatblygiadau mewn rhai blynyddoedd, yn enwedig o'r sector preifat, yn awgrymu ei fod yn gysylltiedig â chyflwr cyffredinol y farchnad dai, chwyddiant uchel a'r amgylchedd benthyca, a bod adeiladwyr bach yn llawer mwy amharod i gymryd risg mewn hinsawdd economaidd ansefydlog.

Gweithred

Mae nifer y tai sydd wedi eu caniatu a'u cwblhau wedi bod yn is na'r targed gofynion tai blynyddol cyfartalog am sawl blwyddyn yn olynol, er gwelwyd cynnydd yn y nifer dderbyniodd ganiatad cynllunio (45 uned) yn ystod y 5ed blwyddyn monitro. Bydd rhaid parhau i fonitro i weld os yw'r cynnydd yn debygol o barhau.

Mae'r pwysau cynyddol ar y farchnad dai genedlaethol a lleol sydd wedi gwaethygu o ganlyniad Covid 19 yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau lleol; sydd yn awgrymu y dylai polisiâu CDLI y dyfodol ganolbwyntio ar sicrhau tai marchnad lleol hygyrch a thai fforddiadwy.

	<p>Mae'r rhagamcanion cartrefi diweddaraf hefyd yn awgrymu y gallai ffigwr gofynion tai is fod yn fwy addas wrth ddiwygio'r CDLI.</p> <p>Mae darparu cartrefi yn elfen allweddol o strategaeth y cynllun. Gyda niferoedd isel parhaus o unedau yn dod ymlaen ac yn cael eu cwblhau mewn sawl blwyddyn monitro, nid yw ffigyrau tai'r cynllun datblygu yn cael eu cyflawni. Mae adroddiad adolygu wedi ei baratoi a'i fabwysiadu yn ystod 2023 sydd yn argymhell adolygiad llawn o'r Cynllun.</p>
--	--

MF25

Amcan		Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol.			
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno	
% y cydsyniadau a roddir a thai newydd yn cael eu cwblhau'n flynyddol ym mhob haen anheddiad	Canolfannau Gwasanaethau Lleol (25%) Setliadau Gwasanaeth (10%) Aneddiadau Eilaidd (45%) Aneddiadau Llai (10%) Cefn Gwlad Agored (10%)	Mabwysiadu		Canran yr anheddau a ganiateir yn disgyn yn is na'r targedau ar gyfer a) Canolfannau Gwasanaethau Lleol a Setliadau Gwasanaeth b) yn rhagori ar y targedau ar gyfer Aneddiadau Eilaidd a Cefn Gwlad Agored am ddwy flynedd yn olynol	
		AMB Rhif 1:	Gweler y dadansoddiad		
		AMB Rhif 2:			
		AMB Rhif 3:			
		AMB Rhif 4:			
		AMB Rhif 5:			
Dadansoddiad					
2019/2020 :					
Caniatâd a Roddwyd:					
Canolfannau Gwasanaethau Lleol. 2 uned = 14% Yn is na'r targed					
Setliadau Gwasanaeth 2 uned = 14% Uwchlaw'r targed					
Aneddiadau Eilaidd 9 uned = 64% Uwchlaw'r targed					
Aneddiadau Llai: 0%					
Cefn Gwlad Agored : 1 uned = 7% Yn is na'r targed					
Cwblhau:					
Canolfannau Gwasanaethau Lleol: 3 uned = 21% Yn is na'r targed					
Setliadau Gwasanaeth: 2 uned = 14% Uwchlaw'r targed					
Aneddiadau Eilaidd: 4 uned = 29% Yn is na'r targed					
Aneddiadau Llai: 0%					
Cefn Gwlad Agored : 4 uned = 36% Uwchlaw'r targed					
2020/21:					
Caniatâd a Roddwyd:					
Canolfannau Gwasanaethau Lleol. 15 uned = 44% Uwchlaw'r targed lawn					
Setliadau Gwasanaeth 4 uned = 12% Uwchlaw'r targed lawn					

Aneddiadau Eilaidd **3 uned = 9 % Yn is na'r targed**
Aneddiadau Llai: 3 uned = 9% **Yn is na'r targed**
Cefn Gwlad Agored : 9 uned = 26 % **Uwchlaw'r targed lawn**

Nifer y tai wedi eu cwblhau:

Canolfannau Gwasanaethau Lleol: 5 uned = 13 % **Yn is na'r targed**
Setliadau Gwasanaeth: **13 uned = 34 % Uwchlaw'r targed**
Aneddiadau Eilaidd: **9 uned = 24% Yn is na'r targed**
Aneddiadau Llai: 0%
Cefn Gwlad Agored : 11 uned = 29 % **Uwchlaw'r targed**

2021/22

Caniatâd a Roddwyd:

Canolfannau Gwasanaethau Lleol. 0 uned = 0% **Yn is na'r targed**
Setliadau Gwasanaeth 1 uned = 14% **Uwchlaw'r targed lawn**
Aneddiadau Eilaidd 4 uned = 57% **Uwchlaw'r targed lawn**
Aneddiadau Llai: 0 uned = 0% **Yn is na'r targed**
Cefn Gwlad Agored : 2 uned = 29% **Uwchlaw'r targed lawn**

Nifer y tai wedi eu cwblhau:

Canolfannau Gwasanaethau Lleol: 0 uned = 0% **Yn is na'r targed**
Setliadau Gwasanaeth: 4 uned = 31% **Uwchlaw'r targed lawn**
Aneddiadau Eilaidd: 4 uned = 31% **Yn is na'r targed**
Aneddiadau Llai: 0% = **Yn is na'r targed**
Cefn Gwlad Agored : 5 uned = 38% **Uwchlaw'r targed**

2022/23

Caniatâd a Roddwyd:

Canolfannau Gwasanaethau Lleol. 0 uned = 0% **Yn is na'r targed**
Setliadau Gwasanaeth 1 uned = 7% **Yn is na'r targed**
Aneddiadau Eilaidd 5 uned = 33% **Yn is na'r targed**
Aneddiadau Llai: 0 uned = 0% **Yn is na'r targed**
Cefn Gwlad Agored : 9 uned = 60% **Uwchlaw'r targed**

Nifer y tai wedi eu cwblhau:

Canolfannau Gwasanaethau Lleol: 11 uned = 50% **Uwchlaw'r targed**
Setliadau Gwasanaeth: 1 uned = 5% **Yn is na'r targed**
Aneddiadau Eilaidd: 5 uned = 23% **Yn is na'r targed**
Aneddiadau Llai: 1 uned = 5% **Yn is na'r targed**
Cefn Gwlad Agored : 4 uned = 18% **Uwchlaw'r targed**

2023/24

Caniatâd a Roddwyd:

Canolfannau Gwasanaethau Lleol. 1 uned = 2% **Yn is na'r targed**
Setliadau Gwasanaeth 18 uned = 40% **Uwchlaw'r targed**
Aneddiadau Eilaidd 10 uned = 22% **Yn is na'r targed**
Aneddiadau Llai: 0 uned = 0% **Yn is na'r targed**
Cefn Gwlad Agored : 16 uned = 36% **Uwchlaw'r targed**

Nifer y tai wedi eu cwblhau:

Canolfannau Gwasanaethau Lleol: 1 uned = 6% **Yn is na'r targed**
Setliadau Gwasanaeth: 4 uned = 23% **Uwchlaw'r targed**
Aneddiadau Eilaidd: 2 uned = 12% **Yn is na'r targed**
Aneddiadau Llai: 1 uned = 6% **Yn is na'r targed**
Cefn Gwlad Agored : 9 uned = 53% **Uwchlaw'r targed**

Penderfynwyd ar yr holl geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer tai ers mabwysiadu'r CDLI yn unol â Pholisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol ac felly maent wedi cydymffurfio â'r brif strategaeth ofodol a amlinellir yn y Cynllun.

Oherwydd y datblygiad ar raddfa gymharol fach a nifer isel yr unedau tai yn y Parc Cenedlaethol, gall datblygiad annisgwyl ar safle annisgwyl neu safle mawr a gwblhawyd o fewn blwyddyn arwain at ragori ar y targed % ar gyfer haen anheddiad benodol ar gyfer y flwyddyn benodol honno a gall cael effaith ddwys ar y % targed. O ystyried y niferoedd isel o dai sydd yn cael eu datblygu yn y Parc Cenedlaethol, gall y canrannau gael eu gogwyddo'n sylweddol bob blwyddyn.

O ystyried y nifer isel o unedau a ganiatawyd ac a gwblhawyd, mae'n anodd tynnu unrhyw dueddiadau cryf o'r targed hwn. Gall mân newidiadau mewn niferoedd, a datblygiad gan gymdeithas dai, newid y canrannau dosbarthu yn sylweddol. Mae angen ystyried gwerth y targed yma, a'r pwyntiau sbarduno, gan fod y niferoedd wedi bod yn isel.

Gweithred	Archwiliad Pellach / Ymchwiliad Angenrheidiol: Nid yw polisiau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen archwilio a / neu ymchwiliad pellach.
-----------	--

MF26

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol.			
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer yr unedau tai fforddiadwy sy'n cael caniatâd cynllunio bob blwyddyn	Rhoddir caniatâd cynllunio i 25 uned tai fforddiadwy y flwyddyn	Mabwysiadu		Rhoddir caniatâd cynllunio o dan 21 uned y flwyddyn am 2 flynedd yn olynol
		AMB Rhif 1:	2	
		AMB Rhif 2:	14	
		AMB Rhif 3:	1	
		AMB Rhif 4:	2	
		AMB Rhif 5:	20	
Dadansoddiad				
O'r 45 eiddo preswyl newydd y rhoddiwyd caniatâd cynllunio iddynt rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, roedd 20 o'r rhain yn unedau tai fforddiadwy. Mae hyn yn sylweddol fwy na'r niferoedd yn y blynyddoedd blaenorol er mae'n parhau i fod yn is na'r pwynt sbardun o 21 uned am y 5ed blwyddyn monitro yn olynol.				
Roedd y caniatadau cynllunio am dai fforddiadwy yn ystod 23/24 yn gymysgedd o drosiadau, safleoedd eithredig ag safleoedd ar hap. Roedd cymdeithas tai wedi derbyn caniatad am 10 uned fforddiadwy ar ddau safle (5 uned yr un).				
Tra bod y niferoedd y flwyddyn yma yn uwch (20 uned), mae yn parhau yn is na'r targed (25 uned). Fel gyda'r llynedd, gall ffactorau allanol fod wedi effeithio ar yr economi gyffredinol a'r farchnad dai ac wedi dylanwadu ar ddatblygiad yn y Parc Cenedlaethol. Mae sefyllfa yr economi cenedlaethol, yn dilyn brexit a Covid, a chwyddiant a chyfraddau llog uchel wedi atal datblygwyr rhag bwrw ymlaen â chynlluniau i fuddsoddi mewn tai. Bu cynnydd yng nghostau deunyddiau adeiladu tai; chwyddiant ynghyd â chyflogau disymud a chostau byw uchel yn ei gwneud yn fwyfwy anodd cael morgeisi.				

Mae'r Awdurdod yn dibynnu ar Gymdeithasau Tai i gyflenwi'r mwyafrif o unedau tai fforddiadwy ar safleoedd a ddyrannwyd. Nid yw'r Parc Cenedlaethol yn gweld datblygiad tai gan gwmnïau adeiladu tai mawr. Mae datblygwyr ar raddfa fach sy'n adeiladu lleiniau sengl yn fwy cyffredin; mae cynlluniau mawr yn bennaf gan Gymdeithasau Tai, sy'n darparu darpariaeth fforddiadwy 100%.

Mae codi'r trothwy mewn aneddiadau Gwasanaeth ac Eilaidd yn yr adolygiad ffurf fer yn caniatáu i unedau sengl fod yn anheddau marchnad agored. Mae hyn wedi arwain at ganiatâd ar gyfer nifer o anheddau marchnad agored sengl (9 yn 2019/20, 3 yn 2020/21, 5 yn 2021/22). Pe bai polisïau'r CDLIE blaenorol wedi'u cymhwyso, byddai angen i 5 o'r 7 caniatâd a roddwyd yn ystod 2021/22 fod yn fforddiadwy. Heb gynnwys yr unedau a ganiatawyd i Gymdeithasau Tai, gall y nifer isel o ganiatadau cartrefi fforddiadwy ei briodoli'n rhannol i'r newid hwn yn y trothwy. Efallai bod y newid wedi annog datblygwyr ar raddfa fach i wneud cais am leiniau sengl mewn ardaloedd lle byddai gofyniad i fod yn fforddiadwy o dan y cynllun blaenorol (er nad oes sicrwydd y byddai tai fforddiadwy wedi dod ymlaen)

Mae'r ffigyrau AMB dros y 5 blynedd diwethaf (ac ymhellach) yn dangos nad yw'r sector preifat yn darparu llawer o dai fforddiadwy o fewn y parc cenedlaethol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Yn y parc cenedlaethol, nid oes llawer o ddyraniadau preifat yn cael eu cyflwyno ar gyfer datblygiad, ac felly nid ydynt yn darparu llawer o dai fforddiadwy. Nid oes datblygiadau tai mawr yn dod ymlaen, sy'n golygu nad yw'r % cyfraniad gofynnol o dai fforddiadwy ar safleoedd o'r fath yn cael ei ddarparu. Mae hyn yn amlygu'r angen i adolygu pa mor gyflawnadwy yw ffigyrau tai'r cynllun a hyfywedd safleoedd. Ceir mwy o weithgarwch, er mai niferoedd isel ydynt, mewn datblygiadau plotiau sengl, bach, sy'n tueddu i fod yn blotiau hunanadeiladu / adeiladu pwrpasol gan ddatblygwyr lleol i ddarparu ar gyfer eu hanghenion eu hunain, ac nid datblygiadau at ddibenion elw a buddsoddiad ar gyfer y farchnad. Mae hyn yn awgrymu efallai y bydd angen i bolisi yn y dyfodol ganolbwyntio ar ddarparu tai ar gyfer y farchnad leol, a thai fforddiadwy.

Gweithred

Er bod 20 uned fforddiadwy wedi cael caniad cynllunio rhwng 2023-24, mae nifer yr unedau tai fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt y flwyddyn yn llai na 21 uned am 5 blynedd yn olynol. Mae angen adolygiad polisi gan nad yw tai fforddiadwy yn cael eu darparu ac nid yw dyraniadau'n cael eu cyflwyno.

Mae'r pwysau cynyddol ar y farchnad dai leol a waethygyd gan Brexit a Covid 19 a'r effaith ddilynol ar gynaliadwyedd cymunedau lleol yn awgrymu y gallai fod angen i bolisïau CDLI yn y dyfodol ganolbwyntio ar gyflawni tai marchnad leol hygyrch a thai fforddiadwy.

Mae darparu tai fforddiadwy i gymunedau lleol yn elfen allweddol o strategaeth y cynllun. Gyda niferoedd isel parhaus o unedau yn dod ymlaen, nid yw ffigyrau tai'r cynllun datblygu yn cael eu cyflawni. Mae'r adolygiad ffurfiol wedi dechrau ym Mawrth 2023 ac adroddiad adolygu wedi'i baratoi.

MF27

Amcan		Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer yr unedau tai fforddiadwy sy'n cael eu cwblhau bob blwyddyn	25 uned tai fforddiadwy i'w cwblhau bob blwyddyn.	Mabwysiadu		Cwblheir llai na 21 uned y flwyddyn am 2 flynedd yn olynol
		AMB Rhif 1:	3	
		AMB Rhif 2:	19	
		AMB Rhif 3:	2	
		AMB Rhif 4:	11	
		AMB Rhif 5:	4	
Dadansoddiad				
<p>Mae nifer yr unedau fforddiadwy a gwblhawyd yn ystod 2023/24 wedi disgyn i 4 uned. Mae hyn yn parhau ymhell islaw'r targed o 25 uned ac islaw'r pwynt sbardun o 21. Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi bod yn is na'r targed am 5 blynedd yn olynol .</p> <p>Efallai bod y nifer isel o dai sydd wedi eu cwblhau wedi digwydd oherwydd iechyd cyffredinol y farchnad eiddo a'r economi. Efallai bod ffactorau allanol wedi effeithio ar yr economi gyffredinol a'r farchnad dai ac wedi dylanwadu ar ddatblygiad o fewn y Parc Cenedlaethol, megis ansicrwydd ynghylch Brexit ac amgylchedd benthyca anodd i adeiladwyr bach a phrosiectau hunan-adeiladu. Mae ffactorau fel Brexit a'r pandemig Covid-19 wedi cyfrannu at gynnydd sylweddol yng nghost deunyddiau adeiladu . Gall chwyddiant, costau byw uchel, ynghyd â chyflogau disymud hefyd berswadio datblygwyr i beidio â bwrw ymlaen i ddatblygu plotiau unigol/hunanadeiladu pwrpasol, gyda morgeisi yn fwyfwy anodd eu cael.</p> <p>Mae'r Awdurdod yn ddibynnol ar Gymdeithasau Dai i ddarparu unedau tai fforddiadwy. Yn 2023/24, ni gwblhawyd uned fforddiadwy gan Gymdeithasau Tai, sydd yn cael effaith sylweddol ar y ffigyrau ar gyfer y flwyddyn fonitro yma.</p> <p>Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, nid yw'n ymddangos bod y sector preifat yn darparu llawer o dai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol. Mae darparu tai fforddiadwy yn dibynnu'n helaeth ar weithgarwch cymdeithasau tai, sydd fel arfer yn darparu safle bob dwy flynedd. Nid yw'n ymddangos y gellir dibynnu ar y sector preifat i ddarparu tai fforddiadwy.</p>				
Gweithred	<p>Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd y flwyddyn yn is na 21 uned am 3 blynedd yn olynol er bod y ffigwr ar gyfer 2020-21 (19 uned) ychydig yn is na'r targed.</p> <p>Mae darparu tai fforddiadwy i gymunedau lleol yn elfen allweddol o strategaeth y cynllun. Gyda niferoedd isel parhaus o unedau wedi'u cwblhau, nid yw ffigyrau tai'r cynllun datblygu yn cael eu cyflenwi. O ystyried y sefyllfa sy'n wynebu cymunedau Eryri, ystyrir ei bod yn briodol sbarduno adolygiad ffurfiol.</p>			

	<p>Mae'r pwysau cynyddol ar y farchnad dai leol a waethygydd gan Brexit a Covid 19 a'r effaith ddilynol ar gynaliadwyedd cymunedau lleol yn awgrymu y gallai fod angen i bolisiau CDLI yn y dyfodol ganolbwyntio ar gyflawni tai marchnad leol hygyrch a thai fforddiadwy. Mae'r adolygiad ffurfiol wedi dechrau ym Mawrth 2023 ac adroddiad adolygu wedi'i baratoi.</p>
--	--

MF28

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol			
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy	Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer yr unedau marchnad sy'n dod ymlaen o ganlyniad i ddiffyg hyfywedd (hy unedau nad ydynt yn hyfyw ac sydd felly wedi arwain at dai marchnad agored gyda swm cymudo).		Mabwysiadu		Roedd 10 uned neu fwy y flwyddyn yn rhoi caniatâd cynllunio am dair blynedd yn olynol.
		AMB Rhif 1:	0	
		AMB Rhif 2:	3	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	3	
		AMB Rhif 5:	5	
Dadansoddiad				
Derbyniwyd symiau cymudo ar gyfer pump cais cynllunio yn ystod 2023/24, gan arwain at 4 uned, ac un rhan o uned. Roedd 4 cais ar gyfer trosi adeiladau i ddefnydd preswyl yng nghefn gwlad, ynghyd a rhan o uned ar gyfer caniatâd am 7 ty newydd a oedd yn cynnwys 2 uned fforddiadwy.				
Gweithred	Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol			

MF29

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol			
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy	Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer yr unedau tai fforddiadwy sy'n cael caniatâd cynllunio bob blwyddyn trwy ar hap.	6 uned y flwyddyn	AMB Rhif 1:	2	Rhoddir caniatâd cynllunio o dan 5 uned y flwyddyn am 2 flynedd yn olynol
		AMB Rhif 2:	4	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	7	

Dadansoddiad	
Cafodd 7 uned tai fforddiadwy ganiatâd cynllunio trwy safleoedd ar hap yn 2023/24 sydd yn sylweddol uwch na'r blynyddoedd blaenorol.	
Ystyriwyd y ffigyrau isel blaenorol ar gyfer unedau tai fforddiadwy a ganiateir ar safleoedd ar hap yn ystod adolygiad y CDLI 2016-2031 i sicrhau bod safleoedd ar hap yn cael eu dwyn ymlaen i'w datblygu. Mae'r trothwyon yn y Cynllun diwygiedig yn cynyddu i gynorthwyo safleoedd yn dod ymlaen; a darpariaeth canran yr unedau tai fforddiadwy sydd eu hangen ar gyfer datblygiadau yn lleihau. Mae'n ymddangos bod nifer o safleoedd ar hap marchnad agored bach wedi dod ymlaen, sy'n disgyn o dan y trothwy.	
Mae codi'r trothwy mewn aneddiadau Gwasanaeth ac Eilaidd yn caniatáu i unedau sengl fod yn anheddau marchnad agored, ond o'r blaen roedd yn ofynnol iddynt fod yn fforddiadwy. Mae hyn wedi arwain at ganiatâd ar gyfer nifer o anheddau marchnad agored sengl yn y mathau hyn o aneddiadau dros y 4 blynedd gyntaf o fonitro. Gall y nifer isel o ganiatadau ar gyfer cartrefi fforddiadwy fod yn ganlyniad uniongyrchol i'r newid hwn yn y trothwy. Efallai bod y newid wedi annog datblygwyr ar raddfa fach i wneud cais am leiniau sengl marchnad agored mewn ardaloedd lle byddai gofyniad i fod yn fforddiadwy o dan y cynllun blaenorol.	
Gweithred	Mae'r pwynt sbardun wedi'i actifadu yn dilyn dwy flynedd yn olynol o niferoedd yn disgyn yn is na'r targed. Gall cyfraniad safleoedd ar hap yn y cynllun fod yn rhy uchel ac mae angen ei adolygu fel rhan o'r strategaeth dai.

MF30

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy ar gyfer pobl / Cymunedau lleol		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy	Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad	
Nifer yr unedau tai fforddiadwy sy'n cael eu cwblhau bob blwyddyn ar hap / annisgwyl.	6 uned y flwyddyn	Mabwysiadu	
		AMB Rhif 1:	2
		AMB Rhif 2:	4
		AMB Rhif 3:	0
		AMB Rhif 4:	2
		AMB Rhif 5:	1
Pwynt Sbarduno			
Cwblhawyd un uned fforddiadwy ar safleoedd ar hap yn ystod 2023/24 mewn anhedd llai.			
Mae'r farchnad dai yn y Parc Cenedlaethol yn lleol ei natur, gan ddibynnu ar adeiladwyr lleol bach a phrosiectau hunan-adeiladu ar safleoedd bach o lai na phum uned. Nid oes unrhyw adeiladwyr tai rhanbarthol yn weithredol yn y farchnad ac felly prin yw'r adeilad hapfasnachol o dai marchnad agored a fforddiadwy.			
Bydd angen monitro'r targed yn agos dros y flwyddyn nesaf i weld a yw hyn yn rhan o duedd tymor hwy.			

Gweithred	Mae'r pwynt sbardun wedi'i actifadu yn dilyn dwy flynedd yn olynol o niferoedd yn disgyn yn is na'r targed. Gall cyfraniad safleoedd ar hap yn y cynllun fod yn rhy uchel ac mae angen ei adolygu.
-----------	--

MF31

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol			
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		
Nifer yr unedau tai fforddiadwy sy'n cael caniatâd cynllunio bob blwyddyn trwy drawsnewidiadau.	3 uned y flwyddyn	Mabwysiadu		Rhoddir caniatâd cynllunio o dan 2 uned y flwyddyn am 2 flynedd yn olynol
		AMB Rhif 1:	0	
		AMB Rhif 2:	1	
		AMB Rhif 3:	1	
		AMB Rhif 4:	2	
		AMB Rhif 5:	4	
Dadansoddiad				
<p>4 uned tai fforddiadwy sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio drwy drosiadau yn ystod 2023/24. Mae hyn yn dilyn pedair mlynedd lle mae'r nifer wedi bod yn is na'r lefel sbarduno o 3.</p> <p>3 uned yn drosiad o westy i unedau fforddiadwy</p> <p>Efallai bod rhesymau economaidd cyffredinol am y niferoedd isel. Gallai'r angen am A.106 am annedd fforddiadwy berswadio datblygwyr i beidio â bwrw ymlaen â datblygiad, ynghyd ag anhawster i gael morgais. Ynghyd â chwyddiant uchel, costau adeiladu uchel a chyflogau disymud, nid yw'r hinsawdd economaidd bresennol yn annog buddsoddi mewn addasiadau fel anheddau fforddiadwy.</p>				
Gweithred	Mae'r pwynt sbardun wedi'i actifadu yn dilyn tair blynedd yn olynol o niferoedd yn disgyn yn is na'r targed, ond mae'r nifer yn uwch na'r targed yn ystod 2022/23. Nid yw tai fforddiadwy yn cael eu darparu drwy addasiadau; nid yw polisiâu'r cynllun yn cael eu gweithredu ac maent yn methu â chyflenwi; mae angen adolygiad o'r polisi.			

MF32

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol			
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig		Polisiau Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno	
Nifer yr unedau tai fforddiadwy sy'n cael eu cwblhau bob blwyddyn trwy drawsnewidiadau.	3 uned y flwyddyn	Mabwysiadu	Cwblheir llai na 2 uned y flwyddyn am 3 blynedd yn olynol	
		AMB Rhif 1:		3
		AMB Rhif 2:		4
		AMB Rhif 3:		2
		AMB Rhif 4:		0
		AMB Rhif 5:	3	
Dadansoddiad				
Cwblhawyd 3 uned fforddiadwy trwy drosiadau, sef drwy trosi gwesty				
Gweithred	Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol			

MF33

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol			
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy		Polisiau Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno	
Monitro'r defnydd o dai fforddiadwy mewn aneddiadau llai	2 fesul anheddiad dros oes y Cynllun	Mabwysiadu	Cymryd 2 uned i bob anheddiad. Manteisio ar fwy na dwy uned i bob setliad sy'n ymwneud ag angen. Dim cymryd ar ôl 4 blynedd mewn unrhyw setliad unigol.	
		AMB Rhif 1:		0
		AMB Rhif 2:		3
		AMB Rhif 3:		0
		AMB Rhif 4:		0
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Ni chaniatawyd unrhyw anheddau fforddiadwy mewn aneddiadau llai.				
Dros gyfnod pum mlynedd yr AMB, dim ond mewn dau o'r 29 o aneddiadau llai yn ardal y parc cenedlaethol y darparwyd tai fforddiadwy. Gallai'r gofyniad fforddiadwy gyda'r angen am A.106, a'r anawsterau o ran cael morgais, fod yn annog pobl i beidio â datblygu, ynghyd â ffeithiau economaidd ehangach eraill, fel yr amlinellir o dan dargedau eraill.				

Mae'r targed o 2 uned fesul anheddiad yn ymddangos yn uchelgeisiol (byddai'n cyfateb i 58 uned), ac nid yw'n ymddangos yn gyflawnadwy a dylid ei ailystyried fel rhan o'r adolygiad. Mae'r pwysau cynyddol ar y farchnad dai leol a waethygyd gan Brexit a Covid 19 a'r effaith ddilynol ar gynaliadwyedd cymunedau lleol yn awgrymu y gallai fod angen i bolisiau CDLI yn y dyfodol ganolbwyntio ar gyflawni tai marchnad leol hygyrch.

Gweithred	Nid yw polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen ymchwil ac/neu ymchwiliad pellach.
-----------	--

MF34

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol			
Polisiau Allweddol	Polisiau Cysylltiedig			
Polisi Strategol G: Tai				
Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy				
Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig				
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer yr unedau tai fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio ac a gwblhawyd y flwyddyn ar Safleoedd Eithriedig. Nid yw'r Safleoedd Eithriedig wedi'u cynnwys yn y ffigwr gofynion tai.	1 cynllun yn cael ei gwblhau bob 4 blynedd	Mabwysiadu		Llai nag 1 cynllun yn cael ei gwblhau bob 4 blynedd.
		AMB Rhif 1:	0	
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	1	
		AMB Rhif 5:	9 wedi caniatáu 0 wedi cwblhau	
Dadansoddiad				
Caniatawyd 9 uned fforddiadwy ar Safle Eithriedig yn ystod 2023/24. Ni chwblhawyd yr un uned ar Safle Eithriedig yn ystod 2023/24. Gellir disgwyl unedau yn cael eu gwblhau yn y blynyddoedd nesaf yn dilyn caniatadau yn ystod 23/24.				
Mae tir addas sy'n eiddo i gymdeithasau tai eisoes wedi'i ddyrannu yn y cynllun datblygu, yn hytrach na chael ei ddwyn ymlaen fel safleoedd eithriedig.				
Gallai'r gofyniad fforddiadwy a'r angen am A.106, ynghyd ag anawsterau o ran cael morgais, fod yn annog pobl i beidio â datblygu, ynghyd â ffactorau economaidd ehangach eraill, fel yr amlinellir o dan dargedau eraill.				
Gweithred	Angen Archwilio / Ymchwil Bellach. Mae'r ffigwr ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf o fonitro yn disgyn yn is na'r lefel sbarduno a bydd yr Awdurdod yn ymchwilio ac yn parhau i fonitro adroddiadau yn y dyfodol i wahaniaethu tueddiadau.			

MF35

Amcan		Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Monitro maint y safleoedd sy'n dod ymlaen a nifer yr unedau a gynigir ar bob safle.		Mabwysiadu		
		AMB Rhif 1:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 2:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 3:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 3:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 4:	Gweler y dadansoddiad	
Dadansoddiad				
<p>O'r 45 uned y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod 2023/24, roedd safleoedd o 7, 6 a dau safle 5 uned. Roedd y gweddill yn safleoedd sengl neu 2 uned. Mae fwy o safleoedd mawr wedi bod yn ystod 23/24 nac yn flaenorol, gyda dau safle 5 uned gan gymdeithas tai.</p> <p>Mae'r farchnad dai yn y Parc Cenedlaethol yn lleol ei natur, gan ddibynnu ar adeiladwyr lleol bach a phrosiectau hunan-adeiladu ar safleoedd bach o lai na phum uned. Nid oes unrhyw adeiladwyr tai rhanbarthol yn weithredol yn y farchnad ac felly prin yw'r adeilad hapfasnachol o dai marchnad agored a fforddiadwy. Mae safleoedd mawr yn bennaf ddibynnol ar weithgaredd Cymdeithas Dai.</p>				
Gweithred	Nid yw polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen ymchwil ac/neu ymchwiliad pellach.			

MF36

Amcan		Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Monitro targedau a throthwyon tai fforddiadwy safleoedd sy'n dod ymlaen.		Mabwysiadu		
		AMB Rhif 1:	Cyrhaeddwyd y targedau	
		AMB Rhif 2:	Cyrhaeddwyd y targedau	

		AMB Rhif 3:	Cyrhaeddwyd y targedau	
		AMB Rhif 4:	Cyrhaeddwyd y targedau	
		AMB Rhif 5:	Cyrhaeddwyd y targedau	
Dadansoddiad				
<p>Mae'r unedau a oedd â gofyniad tai fforddiadwy wedi cwrdd â tharged tai fforddiadwy CDLI Eryri.</p> <p>Bydd angen i'r adolygiad ystyried y targedau a throthwyon Tai Fforddiadwy.</p> <p>Ystyriwyd un cais i drosi 4 uned preswyl adeilad rhestredig nad oedd yn hyfyw i ddarparu tai fforddiadwy.</p>				
Gweithred	Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen ymchwil ac/neu ymchwiliad pellach.			

MF37

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol			
Polisïau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 13: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr		Polisïau Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Os nodir angen trwy'r GTNA o fewn y Genedlaethol Parc yn ystyried yn addas safleoedd.	Parhewch i fod yn rhan o y grŵp GTNA	Mabwysiadu		Methu â chyfarfod a nodwyd angen.
		AMB Rhif 1:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 2:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 3:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 4:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 5:	Gweler y dadansoddiad	
Dadansoddiad				
<p>Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau llety sipsiwn a theithwyr o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae awdurdodau tai lleol Gwynedd a Conwy wedi cwblhau eu Hasesiadau Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar lefel awdurdod lleol yn gynnar yn 2016. Mae'r GTAA ar gyfer cyflwynwyd ardaloedd Gwynedd a Conwy i Lywodraeth Cymru a chanfuwyd nad oedd angen yn y Parc Cenedlaethol am safle preswyl na safle tramwy / stopio dros dro ar gyfer sipsiwn a theithwyr.</p> <p>Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu grŵp llywio newydd ar gyfer 2021 y mae'r Awdurdod yn aelod ohono. Ym mis Mai 2021, comisiynwyd Arc4 i gynorthwyo Cyngorau Gwynedd ac Ynys Môn i baratoi Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i lywio strategaethau tai lleol a pholisïau darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr mewn Cynlluniau Datblygu. Mae'r GTANA wedi'i gynnal yn unol â'r fethodoleg a nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o Ymgymryd ag Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Eto ni wnaeth y GTANA nodi angen am safle yn y Parc Cenedlaethol.</p>				

Bydd yr Awdurdod yn parhau i fod yn rhan o grŵp llywio'r prosiect i sicrhau y cynhelir monitro parhaus ac y nodir a ddylid darparu rhagor o fannau aros preswyl neu dros dro i ddiwallu unrhyw angen pellach a nodwyd. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio polisi sy'n seiliedig ar feini prawf CDLI Eryri i farnu cynigion i gwrdd â galw yn y dyfodol neu alw annisgwyl.

Gweithred Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol

MF38

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol Cymunedau			
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy	Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		
Monitro'r ffigwr angen tai fforddiadwy a nodwyd trwy'r AMTLI / LHMA ac arolygon anghenion tai lleol priodol eraill		Mabwysiadu	Pwynt Sbarduno	
		AMB Rhif 1:		Gweler y dadansoddiad
		AMB Rhif 2:		
		AMB Rhif 3:		
		AMB Rhif 4:		
		AMB Rhif 5:		
Dadansoddiad				
<p>Mae Awdurdodau Tai Lleol yn gyfrifol am gynhyrchu a diweddarau AMTLI mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio a rhanddeiliaid eraill. Mae Awdurdodau Tai Lleol yn gyfrifol am gynhyrchu a diweddarau Asesiadau Marchnad Tai Lleol (AMTLI) mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio a rhanddeiliaid eraill.</p> <p>Mae Conwy wedi rhyddhau AMTLI interim gyda'r bwriad o ddiweddarau'r Asesiad o'r Farchnad Tai Leol diwethaf a gyhoeddwyd yn 2018. Mae'n ddogfen dros dro, gan ddisgwyl yr Asesiad nesaf a fydd yn dilyn canllawiau newydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r AMTLI yn nodi cyfanswm o 1,145 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol dros y cyfnod 2022-2027 (229 uned y flwyddyn) ar gyfer Sir Conwy gyfan. Ar raniad pro rata o 4% i'r rhan o ardal Conwy sydd o fewn ffin y Parc Cenedlaethol, mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 46 uned dros y cyfnod 5 mlynedd, sef angen blynyddol o 9 uned i'r ardal o Gonwy sydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Ychydig iawn o newid sydd yn y ffigyrau hyn o'r AMTLI blaenorol ar gyfer 2018-23.</p> <p>Mae Cyngor Gwynedd wedi diweddarau eu AMTLI am y cyfnod (2018-2023). Mae Gwynedd AMTLI (2018-2023) wedi nodi ffigwr angen tai blynyddol o 707 ar gyfer ardal Gwynedd. Mae defnyddio rhaniad pro rata o 19% ar gyfer rhan ardal Gwynedd o fewn ffin y Parc Cenedlaethol, yn rhoi angen blynyddol o 134 a chyfanswm o 670 o unedau dros y cyfnod 5 mlynedd AMTLI. Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio'n agos gyda Gwynedd a Conwy ac yn defnyddio canfyddiadau'r AMTLIau i helpu i lywio'r math o anheddau sy'n ofynnol o ran maint a chymysgedd deiliadaeth.</p> <p>Mae Awdurdodau Tai Gwynedd a Conwy yn edrych i ddechrau ar eu AMTLI yn y dyfodol agos yn unol â methodoleg newydd a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru.</p>				

Mae Gwynedd a Chonwy wedi dechrau ar y gwaith o ddiweddarau eu AMTLI a fydd yn rhan bwysig o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygiad o CDLI Eryri yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno methodoleg newydd ar gyfer cynhyrchu AMTLI.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio'n agos gyda Gwynedd a Chonwy ac yn defnyddio canfyddiadau'r AMTLIau i helpu i lywio'r math o anheddau sy'n ofynnol o ran maint a chymysgedd deiliadaeth

Yn ystod y flwyddyn fonitro hon, mae'r Hwyluswyr Tai Gwledig (RHEs) wedi cynnal arolwg o anghenion tai lleol yn Nolgarrog/Trefriw.

Gweithred Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol

MF39

Amcan	Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy	Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad	
Monitro'r angen am dai fforddiadwy canolradd trwy Gofrestr Tai Teg		Mabwysiadu	
		AMB Rhif 1:	Gweler y dadansoddiad
		AMB Rhif 2:	
		AMB Rhif 3:	
		AMB Rhif 4:	
		AMB Rhif 5:	
Dadansoddiad			
Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a chymdeithasau tai wedi sefydlu Tai Teg, cofrestr dai ganolradd ar y cyd sy'n cael ei chydlynu gan gymdeithas dai Grwp Cynefin. Mae'r gofrestr hon yn darparu gwybodaeth benodol am anghenion tai canolradd ar draws gogledd Cymru i gyd ac mae'n bosibl rhannu'r wybodaeth trwy setliad i ddarparu ffigwr cywir o angen tai canolraddol mewn aneddiadau ar draws y Parc Cenedlaethol. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'r Awdurdod a chymdeithasau tai.			
Nifer yr aelwydydd ar gofrestr Tai Teg o fewn y Parc Cenedlaethol ym mis Awst 2023 oedd:			
Gwynedd: 152 i'w prynu ac 159 i'w rhentu; Conwy: 97 i'w prynu ac 80 i'w rhentu			
Bu cynnydd yn y niferoedd a gofrestrwyd. Gan ei bod yn bosibl i aelwydydd fod ar y ddwy gofrestr, ac yn gallu dewis hyd at dri maes, efallai y bydd dyblygu. Rhennir y ffigyrau yn ardaloedd cynghorau cymunedol, ac mae rhai ohonynt yn cynnwys ardaloedd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.			
Gweithred	Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol		

MF40

Amcan		Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a Newid Defnydd o Adeiladau Gwledig Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy mewn Safleoedd Eithriedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Adolygu'r CCA presennol ar Dai Fforddiadwy	Erbyn 2019	Mabwysiadu	CCA presennol	Methu â chyflawni
		AMB Rhif 1:	CCA Wedi'i ddiwygio a'i fabwysiadu	
		AMB Rhif 2:		
		AMB Rhif 3:		
		AMB Rhif 4:		
		AMB Rhif 5:		
Dadansoddiad				
<p>Mabwysiadwyd CCA diwygiedig ar gyfer tai fforddiadwy ym mis Medi 2019. Mae hwn yn nodyn canllaw ymarferol ar gyfer ymgeiswyr sy'n bwriadu cyflwyno cais cynllunio am annedd fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol sydd ar gael i'w lawrlwytho ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn parhau i drafod materion hyfywedd fesul achos gan gyfeirio at y CCA ar Dai Fforddiadwy</p> <p>Mae'r CCA yn darparu gwybodaeth fanwl ar sut y bydd polisiau a gynhwysir yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri (ELDP) (2016-2031) diwygiedig yn cael eu defnyddio'n ymarferol gan yr Awdurdod. Y polisiau mwyaf perthnasol yn y CDLI Eryri diwygiedig yw Polisi Strategol G: Tai, Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy, Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy ar Safleoedd Eithrio a Pholisi Datblygu 9: Trosi a Newid defnydd adeiladau gwledig.</p> <p>Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos rhwng y 9fed o Orffennaf 2019 a'r 18fed o Fedi 2019. Mae'r adroddiad ymgynghori ar gael i'w weld ar wefan yr Awdurdod.</p> <p>Diweddarwyd y CCA i adlewyrchu data cyfredol ar incwm cartrefi sy'n llywio lefel prisiau fforddiadwy eiddo. Diffiniwyd maint unedau tai fforddiadwy hefyd fel eu bod yn gymesur ag anghenion yr aelwyd a fwriadwyd ac yn parhau i fod yn fforddiadwy am byth. Mae'r CCA hefyd wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r data mwyaf diweddar sy'n ymwneud â thaliadau symiau cymudedig.</p> <p>Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu nodyn canllaw ymarferol ar gyfer ymgeiswyr sy'n bwriadu cyflwyno cais cynllunio am annedd fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol sydd ar gael i'w lawrlwytho ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn parhau i drafod materion hyfywedd fesul achos gan gyfeirio at y CCA ar Dai Fforddiadwy.</p>				
Gweithred	Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol			

MF41

Amcan		Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy Polisi Datblygu 17: Dileu Llety Amaethyddol a Gwyliau Cyflwr Galwedigaeth		Polisiau Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd i gael gwared ar amod deiliadaeth llety amaethyddol neu wyliau	Amnewid amod sy'n cyfyngu deiliadaeth i dai fforddiadwy	Mabwysiadu		Llai na 30% o'r holl gymeradwyaethau i gael gwared ar amodau llety amaethyddol neu wyliau
		AMB Rhif 1:	0	
		AMB Rhif 2:	1	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Yn ystod 2023/24, ni chymeradwywyd unrhyw gais.				
Gweithred		Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol		

MF42

Amcan		Cefnogi'r ddarpariaeth briodol a chadw cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol ledled yr ardal. Annog cyfleusterau hamdden cymunedol lle maent yn diwallu anghenion lleol a heb wrthdaro â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc.		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol Ng: Gwasanaethau a Chyfleusterau Cymunedol		Polisiau Cysylltiedig Polisi Strategol A: Dibenion y Parc Cenedlaethol a Datblygu Cynaliadwy		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y cyfleusterau cymunedol newydd neu well mewn Canolfannau Gwasanaethau Lleol, Aneiddadau Eilaidd ac Aneiddadau Llai	Cynnydd yn nifer y cyfleusterau cymunedol newydd neu well	Mabwysiadu		
		AMB Rhif 1:	2 gyfleuster cymunedol gwell	
		AMB Rhif 2:	2 gyfleuster cymunedol gwell	
		AMB Rhif 3:	1 cyfleuster cymunedol gwell	
		AMB Rhif 4:	1 cyfleuster cymunedol gwell	
		AMB Rhif 5:	2 cyfleuster cymunedol gwell	

Dadansoddiad	
Yn ystod 2023/24:	
<ul style="list-style-type: none"> - Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer gwelliannau i gae chwarae plant yn Aberdyfi, Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer trosi cyn eglwys i adeilad cymunedol yn Llan Ffestiniog. 	
Gweithred	Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol

MF43

Amcan		Cefnogi'r ddarpariaeth briodol a chadw cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol ledled yr ardal.		
		Annog cyfleusterau hamdden cymunedol lle maent yn diwallu anghenion lleol a heb wrthdaro â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol Ng: Gwasanaethau a Chyfleusterau Cymunedol		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Strategol A: Dibenion y Parc Cenedlaethol a Datblygu Cynaliadwy		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y cyfleusterau cymunedol a gollwyd oherwydd newid defnydd	Dim colli cyfleusterau hyfyw	Mabwysiadu		Methu â chyflawni
		AMB Rhif 1:	Dim colledion	
		AMB Rhif 2:	Dim colledion	
		AMB Rhif 3:	Dim colledion	
		AMB Rhif 4:	Dim colledion	
		AMB Rhif 5:	Dim colledion	
Dadansoddiad				
Gweithred				
		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol		

MF44

Amcan		Hyrwyddo mesurau i annog datblygiad sy'n cefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ac i amddiffyn cymunedau rhag datblygiadau sy'n ansensitif i effeithio ar y Gymraeg.		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 18: Yr iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol a gyflwynwyd	Dim niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned	Mabwysiadu		1 cynllun niweidiol am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad niweidiol
		AMB Rhif 1:	Dim cynllun na datblygiadau niweidiol	
		AMB Rhif 2:	Dim cynllun na datblygiadau niweidiol	

		AMB Rhif 3:	Dim cynllun na datblygiadau niweidiol	mewn blwyddyn
		AMB Rhif 4:	Dim cynllun na datblygiadau niweidiol	
		AMB Rhif 5:	Dim cynllun na datblygiadau niweidiol	
Dadansoddiad				
Yn ystod 2023/24, cyflwynwyd tridatganiad cymunedol ac ieithyddol. Roeddun ar gyfer cais i newid defnydd westy i 6 uned preswyl. Cyflwynwyd datganiad arall ar gyfer cais am 7 uned preswyl, ac un arall o 5 uned.				
Gweithred	Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol			

MF45

Amcan	Hyrwyddo mesurau i annog datblygiad sy'n cefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ac i amddiffyn cymunedau rhag datblygiadau sy'n ansensitif i effeithio ar y Gymraeg.			
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 18: Yr iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol C ymunedau	Polisiâu Cysylltiedig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Monitro effeithiolrwydd y datganiad Cymunedol ac Ieithyddol a'r Aseidiadau Effaith Cymunedol ac Ieithyddol	Nifer a gynhyrchwyd yn unol â pholisi. Aseu effeithiolrwydd.	Mabwysiadu	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 1:		
		AMB Rhif 2:		
		AMB Rhif 3:		
		AMB Rhif 4:		
		AMB Rhif 5:		
Dadansoddiad				
Fe wnaeth y Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol a gyflwynwyd mewn blynyddoedd blaenorol alluogi'r Awdurdod i wneud penderfyniad hyddysg ar geisiadau a allai fod wedi cael effaith ar y Gymraeg mewn cymunedau. Maent hefyd wedi rhoi cyfle i ymgeiswyr ddangos dylanwadau cadarnhaol ar gymunedau, yn enwedig lle mae'r datblygiad yn diwallu anghenion lleol. Mewn ymateb i unrhyw effeithiau negyddol y datblygiad, mae'r datganiad hefyd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd ehangu ar fuddion y datblygiad a chyflwyno tystiolaeth o ffactorau lliniarol sy'n berthnasol i'r cais a'r cynllunio.				
Gweithred	Mae polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol			

MF46

Amcan	Hyrwyddo mesurau i annog datblygiad sy'n cefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ac i amddiffyn cymunedau rhag datblygiadau sy'n ansensitif i effeithio ar y Gymraeg			
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 18: Yr iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau Polisi Datblygu 10: Hysbysebion ac Arwyddion	Polisiâu Cysylltiedig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Annog arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog	Cynnydd mewn arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog	Mabwysiadu		
		AMB Rhif 1:	Cynnydd	
		AMB Rhif 2:	Cynnydd	
		AMB Rhif 3:	Cynnydd	
		AMB Rhif 4:	Cynnydd	
		AMB Rhif 5:	Cynnydd	
Dadansoddiad				
Yn ystod 2023/243, anogwyd ymgeiswyr i gynhyrchu arwyddion dwyieithog. Yn ystod y cyfnod Monitro Blyneddol hwn, roedd 6 allan o 8 caniatâd hysbysebion yn ddwyieithog. Roedd 3 arwydd yn byrddau dehogli, dau ar gyfer modurdy, dau ar gyfer banc, ac un ar gyfer caff/siop. Nid oedd caniatad am arwyddion i siop/cafe yn Harlech, ac arwydd i HSBC Bala, yn ddwyieithog.				
Gweithred	Hyfforddiant Angenrheidiol: Nid yw polisiâu'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen hyfforddiant swyddogion.			

MF47

Amcan	Hyrwyddo mesurau i annog datblygiad sy'n cefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ac i amddiffyn cymunedau rhag datblygiadau sy'n ansensitif i effeithio ar y Gymraeg			
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 18: Yr iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau	Polisiâu Cysylltiedig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Annog defnyddio enwau lleoedd Cymreig ar gyfer datblygiadau newydd	Cynnydd yn enwau lleoedd Cymru ar gyfer datblygiadau newydd	Mabwysiadu		
		AMB Rhif 1:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 2:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 3:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 4:	Gweler y dadansoddiad	
		AMB Rhif 5:	Gweler y dadansoddiad	

Dadansoddiad

Mae'r Awdurdod yn ymgymryd â nifer o fentrau sy'n annog defnyddio'r Gymraeg ac yn ceisio amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg. Maent hefyd yn gamau gweithredu o dan amcanion Cynllun Rheoli yr Awdurdod (Cynllun Eryri). Mae prosiectau o'r fath yn hyrwyddo'r iaith yn gadarnhaol, sy'n rhoi ei synnwyr o le i'r Parc Cenedlaethol. Trwy gymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath, bydd gan unigolion fwy o ymwybyddiaeth o'r iaith ac efallai y bydd ganddynt fwy o feddwl i gadw enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd a mabwysiadu polisïau dwyieithog ar gyfer busnes.

- *Mae'r Ysgwrn, Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i bobl gymdeithasu, ymgysylltu â threftadaeth a chymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys gwirfoddoli, datblygu sgiliau, gweithgareddau a digwyddiadau. Mae Yr Ysgwrn yn ychwanegu at adnoddau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo'n swyddogol y defnydd o'r enwau Yr Wyddfa ac Eryri ym mhob iaith. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r penderfyniad ac mae nifer o gyrff cenedlaethol yn dilyn yr un trywydd, gan arwain at well ymwybyddiaeth o enwau lleoedd Cymraeg a dealltwriaeth o'u harwyddocâd. Mae prosiectau enwau lleoedd yn cael eu cynllunio gyda Pontio (Bangor) ac ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2023. Rhaid i bob cais cynllunio canolig/mawr gynnal asesiad ieithyddol a dangos nad oes unrhyw effaith andwyol cyn cael ei ganiatáu.*
- *Anogir pob gwirfoddolwr i gymryd rhan yn y cynllun Llysgenhadon fel cyflwyniad i'r PC.*
- *Sefydlwyd cynllun Wardeiniaid Gwirfoddol Cader Idris yn debyg i'r Wyddfa, i annog dysgwyr i ymarfer pan fyddant allan ar batrôl. Mae 65% o wirfoddolwyr Yr Wyddfa yn rhugl yn y Gymraeg, 20% o wirfoddolwyr Cader Idris yn rhugl yn y Gymraeg.*
- *Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn casglu enwau lleoedd i gyfrannu at y Rhestr o Enwau Hanesyddol Cymraeg. Dehonglir a hyrwyddir yr enwau trwy brosiectau creadigol.*
- *Yn 2022, penderfynodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol fabwysiadu'r enwau Eryri ac Yr Wyddfa yn swyddogol ym mhob iaith. Mae'r penderfyniad hwn wedi ysgogi gweithredu tebyg gan gyrff cenedlaethol eraill ac wedi ysbrydoli gwell ymwybyddiaeth o enwau lleoedd Eryri a'u harwyddocâd diwylliannol.*
- *Mabwysiadwyd egwyddorion ar gyfer delio ag enwau lleoedd gan APCE, er mwyn cysoni'r defnydd o enwau lleoedd. Mae'r rhestr o enwau llynnoedd ar fin cael ei chysoni gan y Panel Safoni Enwau Lleoedd a bydd hyn yn arwain at gysondeb yn enwau copaon Eryri maes o law.*
- *Llysgenhadon Eryri: Rhaglen llysgennad i wella profiad dysgu Rhinweddau Arbennig Eryri. Mae yna dros 900 o lysgenhadon sy'n cyflawni modiwlau, ac un ohonynt yw'r iaith Gymraeg ac mae na elfennau o chwedlau, enwau lleoedd a defnydd yr iaith yn nifer o'r modiwlau arall.*
- *Cyfres ar-lein ar sut i ynganu enwau daearyddol Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol. Cynnydd sylweddol mewn ceisiadau am wybodaeth a dealltwriaeth gan gyfryngau allanol ar ddefnyddio'r Wyddfa ac Eryri yn unig mewn cyfathrebu rhyngwladol.*
- *Mynychodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol Eisteddfod Genedlaethol 2023 i hyrwyddo ein gwaith a'n dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol a'i rinweddau arbennig.*
- *Cyd-weithio gyda chyrrff eraill i hyrwyddo'r Gymraeg*

Gweithred

Mae polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Parhau i fonitro ac annog defnyddio enwau Cymreig ar gyfer datblygiadau newydd

MF48

Amcan		<p>Cefnogi datblygiad priodol sy'n diwallu anghenion tai y gymuned leol, gan roi sylw arbennig i dai fforddiadwy i bobl leol</p> <p>Cefnogi'r ddarpariaeth briodol a chadw cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol ledled yr ardal.</p> <p>Annog cyfleusterau hamdden cymunedol lle maent yn diwallu anghenion lleol a heb wrthdaro â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc</p> <p>Hyrwyddo mesurau i annog datblygiad sy'n cefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ac i amddiffyn cymunedau rhag datblygiadau sy'n ansensitif o ran effeithio ar y Gymraeg.</p>		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol G: Tai Polisi Strategol A: Dibenion y Parc Cenedlaethol a Datblygu Cynaliadwy Polisi Datblygu 18: Yr iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau Polisi Strategol B: Datblygiad Mawr		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y rhwymedigaethau cynllunio a sicrhawyd ar ddatblygiad mwy	Pob datblygiad mawr	Mabwysiadu		Methu â sicrhau rhwymedigaethau lle bo angen ar 2 safle neu fwy mewn 3 blynedd
		AMB Rhif 1:	0	
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Yn ystod 2023/24 ni chyflwynwyd unrhyw ddatblygiad ar raddfa fawr sy'n gofyn am rwymedigaeth gynllunio.				
Gweithred		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol		

Ymchwil ac ystyriaeth bellach i lywio diwygiadau CDLI Eryri

5.41 Nifer y tai a gwblhawyd ar gyfer 2023/24 oedd 17 o unedau, lleihad o ffigwr cwblhau'r llynedd o 22 uned. Mae'r ffigwr cwblhau ymhell islaw'r targed gofyniad tai blynyddol cyfartalog o 51 o unedau. Mae'r Taflywybr Tai yn dangos diffyg blynyddol yn erbyn y Gofyniad Tai a Ragwelir yn Flynyddol (AAR) yn ystod 2023/24 gyda'r 17 uned a gwblhawyd eleni yn is na'r hyn a ragwelwyd (51 AAR o'i gymharu â 17 o dai a gwblhawyd mewn gwirionedd, - 67% mewn termau canrannol). Mae nifer yr anheddau sydd wedi'u cwblhau'n flynyddol wedi bod yn gyson is na'r (AAR) o 51 annedd y flwyddyn ers 2016-17. Mae diffyg o -41% ar gyfer y gyfradd adeiladu gronol ofynnol o ddechrau cyfnod y cynllun, 2016-17, hyd at 31 Mawrth 2024. Mae'r cynllun yn disgyn yn sylweddol is na'r hyn a fwriadwyd; bu diffyg mewn tai cronus yn erbyn yr GTB am 5 mlynedd yn olynol.

- 5.42 Efallai y bydd nifer o resymau lleol a chenedlaethol ehangach dros y niferoedd isel. Mae'r farchnad dai yn y Parc Cenedlaethol yn lleol ei natur, gan ddibynnu ar adeiladwyr lleol bach a phrosiectau hunan-adeiladu ar safleoedd bach. Nid oes unrhyw adeiladwyr tai rhanbarthol yn weithredol yn y farchnad ac felly prin yw'r adeiladu hapfasnachol o dai marchnad agored a fforddiadwy. Gall y gostyngiad yn niferoedd y tai sydd wedi eu cwblhau yn y blynyddoedd diwedddara fod yn rhannol oherwydd yr amgylchedd benthyca anodd i ddatblygwyr, adeiladwyr bach a phrosiectau hunan-adeiladu. Mae'r niferoedd isel o dai wedi eu cwblhau rhwng 2015 a 2019 wedi bod yn dueddiad cyffredinol yn y Parc Cenedlaethol ac ar lefel Cymru gyfan. Roedd disgwyl i'r newidiadau ym mholisiau tai yr Awdurdod drwy adolygiad diweddar CDLI Eryri (sef cynyddu y trothwyon cyn bod angen darparu tai fforddiadwy o fewn aneddiadau) i ysgogi'r farchnad dai i gynyddu dewis a chyfradd cwblhau cyffredinol yn ogystal â chefnogi adeiladwyr bach a'r economi lleol, fodd bynnag nid yw hyn wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o fonitro'r polisi.
- 5.43 Mae darparu tai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol yn dibynnu'n sylweddol ar weithgaredd y Cymdeithasau Tai. Fe wnaeth caniatadau a chwblhadau gan Gymdeithasau Tai helpu i gynyddu'r ffigyrau tai fforddiadwy am yr ail flwyddyn o fonitro, ond roeddent yn absennol o'r flwyddyn gyntaf a'r drydedd flwyddyn.. Mae'n rhaid i'r Awdurdod barhau i weithio'n agos gyda Chymdeithasau Tai i sicrhau bod safleoedd fforddiadwy yn parhau i ddod ymlaen ac yn cael eu darparu. Mae'r niferoedd tai AMB dros y 5 blynedd gyntaf o fonitro (a phellach) yn dangos yn yr hinsawdd economaidd bresennol nad yw'r nifer isel o ddatblygiadau tai sector preifat yn darparu tai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol a bod darpariaeth tai fforddiadwy yn dibynnu'n fawr ar Gymdeithasau Tai. Nid oes unrhyw ddyraniadau preifat yn cael eu cyflwyno ar gyfer datblygiad, ac felly nid ydynt yn darparu cyfraniad o dai fforddiadwy. Nid oes unrhyw ddyraniadau sector preifat mawr, safleoedd ar hap na safleoedd eithriadig yn cael eu cyflwyno, sy'n golygu nad yw'r % cyfraniad gofynnol o dai fforddiadwy ar safleoedd o'r fath yn cael ei ddarparu. Gall ddangos nad oes modd cyflenwi datblygiadau preifat ar raddfa fawr yn ardal y parc cenedlaethol, neu nad oes unrhyw ddiddordeb sector preifat i'w datblygu o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae mwy o weithgarwch, er yn isel o ran nifer, o ddatblygiadau plotiau sengl, sy'n tueddu i fod yn blotiau hunanadeiladu/ plotiau adeiladu pwrpasol gan ddatblygwyr lleol, i ddarparu ar gyfer eu hanghenion eu hunain, ac nid datblygiad at ddibenion elw a buddsoddiad. Mae hyn yn awgrymu efallai fod angen i bolisiau'r dyfodol ganolbwyntio ar ddarparu tai ar gyfer y farchnad leol, a thai fforddiadwy. Bydd angen i'r Cynllun newydd ystyried yr hyn y gellir ei gyflawni'n realistig gan y diwydiant (preifat, cymdeithasol a hunanadeiladu) yn Eryri.
- 5.44 Mae nifer yr ail gartrefi a gosodiadau gwyliau tymor byr wedi dod yn broblem sylweddol yn y parc cenedlaethol ac ardal ehangach gogledd orllewin Cymru. Mae niferoedd cynyddol yn cyfrannu at gynnydd mewn prisiau tai a gostyngiad yn y stoc dai sydd ar gael i'w rhentu neu brynu gan y gymuned leol. Mae hyn yn cael effaith ar gynaliadwyedd cymunedau hyfyw a'r iaith Gymraeg. Mae newidiadau rheoliadol i'w cyflwyno a fydd yn caniatáu mwy o reolaeth dros newidiadau rhwng gwahanol fathau o ddefnyddiau preswyl a ffurfio polisiau cynllunio. Bydd hyn yn gofyn am gasglu tystiolaeth bellach i'w hystyried yn ofalus a chydweithio ag awdurdodau eraill, ynghyd ag ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai'r gwaith o gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 yn golygu swm sylweddol o adnoddau, a allai gael effaith sylweddol ar y farchnad dai leol.
- 5.45 Cyhoeddwyd amcanestyniadau aelwydydd 2018 y Parc Cenedlaethol ym mis Mai 2021. Mae'r rhagamcanion hyn yn amcangyfrif y bydd poblogaeth y Parc yn gostwng 1.92% rhwng 2018 a 2028. Yn ystod yr un cyfnod rhagwelir y bydd yr aelwydydd yn Eryri yn cynyddu 40 uned (0.3%), cynnydd cymedrol iawn o fewn cyfnod o 10 mlynedd. Mae poblogaeth sy'n gostwng a chyfraddau ffurfio aelwydydd newydd arafach yn awgrymu y gallai ffigwr gofynion tai cyffredinol is fod yn fwy addas wrth ddiwygio'r CDLI. Byddai ffigwr gofynion tai is hefyd yn adlewyrchu cwblhad yn y gorffennol a gallu'r diwydiant datblygu tai cyfredol i gyflawni yn y Parc Cenedlaethol.

- 5.46 Oherwydd pwysau cynyddol ar y farchnad dai leol a waethygydd gan Covid 19 a'r effaith a ddeilliodd o hynny ar gynaliadwyedd cymunedau lleol; mae angen adolygiad o bolisiau tai CDLI. Mae dadansoddiad cychwynnol o brisiau tai, incwm, ail gartrefi a data gosod tai gwyliau ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol yn awgrymu y dylai polisiau CDLI ganolbwyntio ar sicrhau tai marchnad lleol hygyrch a thai fforddiadwy i sicrhau hyfywedd tymor hir cymunedau lleol Eryri.
- 5.47 Mae angen ymchwil pellach i ymchwilio i bolisiau tai marchnad leol a thai preswyl sylfaenol, dadansoddi tystiolaeth a dangosyddion perthnasol ac archwilio sut y cawsant eu gweithredu a'u cyflwyno mewn Awdurdodau eraill. Mae angen gwaith pellach i ymchwilio y posibilrwydd o ystyried tai marchnad leol yn ogystal ac ailedrych ar y ffiniau datblygu tai ac asesu capasiti anheddiad.
- 5.48 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais i weld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd 1 miliwn erbyn 2050. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid i'r CDLI gefnogi, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw trwy sicrhau bod digon o gyfleoedd cyflogaeth a thai i gynnal cymunedau lleol. Bydd angen i bolisiau penodol ddarparu arweiniad pellach i sicrhau bod datblygiad o'r graddfa, math a chymeriad priodol yn cae ei gyflawni i ddiwallu anghenion cymunedau lleol. At hynny, bydd angen i'r CDLI diwygiedig sicrhau bod datblygu yn digwydd ar gyfradd y gellir ei hamsugno a'i chymhathu heb niweidio cymeriad cymunedau. Mae hysbysebion ac arwyddion yn ddull o hyrwyddo diwylliant unigryw Eryri a gallant gyfrannu'n aruthrol at Naws am Le. Wrth ddiwygio'r CDLI, bydd yn bwysig bod polisiau yn sicrhau bod hysbysebion ac arwyddio yn cael eu darparu'n ddwyieithog ac yn disgwyl i ddatblygiadau a strydoedd newydd gael enwau Cymraeg.
- 5.49 Gwneir ymchwil a dadansoddiad manwl pellach o'r math o safleoedd a ganiatawyd yn y Parc Cenedlaethol ers mabwysiadu'r CDLI. Bydd angen dadansoddi data tai mewn perthynas â nifer y sector preifat, hunan-adeiladu, unedau tai canolradd a chymdeithasol a ddygir ymlaen yn y Parc Cenedlaethol ac sy'n cymharu ag ardaloedd gwledig eraill a phatrymau cenedlaethol. Bydd angen i'r Awdurdod hefyd ddadansoddi datblygiad ar safleoedd hap posib. Bydd y data yn bwydo i'r sylfaen dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Papur Cefndir Tai, i lywio'r adolygiad nesaf.
- 5.50 Dylid hefyd ystyried cyfraniad posibl ymddiriedolaeth tai, tai cydweithredol ac ymddiriedolaethau tir dan arweiniad y gymuned. Mae'r Awdurdod yn archwilio'r posibilrwydd o greu ac ariannu swydd swyddog tai dan arweiniad y gymuned, ynghyd â phartneriaid eraill, i weithio gyda chymunedau ac archwilio cynlluniau tai posibl a arweinir gan y Gymuned. Bydd trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid a chymunedau lleol.
- 5.51 Bydd cydweithio ag awdurdodau tai lleol Gwynedd a Conwy yn parhau i gynorthwyo gyda gweithredu eu Strategaethau Tai. Bydd yr Awdurdod yn ceisio cynorthwyo gyda Chynllun Gweithredu Tai diweddar Cyngor Gwynedd, ei waith adnabod angen tai, ac unrhyw gynlluniau i ddatblygu tai fforddiadwy yn ardal y Parc Cenedlaethol.

Astudiaethau achos

Tir yng Nghysgod y Coleg, Y Bala.



Yn ystod 2020/21, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tai yn Y Bala. Mae'r 9 uned gymeradwy yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r safleoedd gyda rhifau caniatâd ar gyfer 2020/21. Dyrannwyd y tir, sy'n gyfagos i ystâd dai a ddatblygwyd yn flaenorol gan gymdeithas dai, ar gyfer 10 uned fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol o dan Bolisi Strategol G (Tai) CDLIE 2016-31.

Datblygwr a pherchennog y safle yw Adra, y Gymdeithas Dai. Rhoddwyd y caniatâd i adeiladu 9 annedd fforddiadwy (3 byngalo dwy ystafell wely a 6 thŷ dwy wely) ac ardaloedd parcio a gardd cysylltiedig. Mae'r cynnig yn cynnwys darparu 91m² o le amwynder ar y safle a fydd ar gael i'r holl blant lleol. Oherwydd cynnwys yr ardal chwarae, daethpwyd i'r casgliad bod darparu 9 annedd ar y safle yn hytrach na'r ffigur a ddyrannwyd o 10 yn dderbyniol. Darparwyd tystiolaeth gan yr ymgeisydd, a nododd yr angen am dai dwy ystafell wely yn ward Y Bala. Mae'r gwaith adeiladu eisoes wedi cychwyn ar y safle.

Mae pob un o'r 9 tŷ wedi'u cwblhau a bellach mae pobl yn byw ynddynt Mae gan bob annedd bwmp gwres ffynhonnell aer a phaneli solar.

6 CEFNOGI ECONOMI WLEDIG GYNALIADWY

Mae'r adran hon yn ymateb i'r amcanion canlynol:

Annog twf economaidd cynaliadwy trwy gefnogi economi wledig sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth ac yn cynnal cymunedau ffyniannus.

Cefnogi twristiaeth a hamdden awyr agored sy'n sicrhau'r buddion economaidd lleol i'r eithaf, yn lleihau effaith amgylcheddol ac yn cydymdeimlo â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.

Cyflogaeth

- 6.1 Caniatawyd saith o geisiadau yn ystod 2023 /2024 a arweiniodd at gynnydd amcangyfrifedig o 8518 m² o arwynebedd llawr newydd at ddibenion cyflogaeth. Roedd y ceisiadau ar gyfer:
- Adeiladau estyniad llawr cyntaf i weithdy/golchdy presennol i gynnwys swyddfa cynllun agored, ger Heol Glyndwr yn Nolgellau Codi estyniadau unllawr yn y cefn ac addasiadau gan gynnwys gosod dwy simnai echdynnu cegin, waliau cynnal, grisiau metel a nenbont a gosod ffenestr newydd, yn y Royal Oak Betws y Coed Creu llawr caled ar gyfer lleoli cynwysyddion tymhorol, lleoli tipî ar gyfer gweithgareddau grŵp, a chais ôl-weithredol i gadw llwybr a phont car sglefrio'r goedwig, cysgodfan hopranau coed, ciosg camera, ciosg archebu, cwt byrbrydau, storfa cit y saffari coed a lloches, tai coed gyda rhwydi, sied tanc dŵr, lloches staff, llithren goedwig, adeiladau cit i ddefnyddio'r rhwydi goedwig a'r plymio. Zip World, Betws y Coed
 - Cadw 4 gasibo o fewn maes parcio presennol a gafodd ganiatâd dros dro dan Ganiatad Cynllunio NP2/11/1G dyddiedig 09/04/2021 tan 31/12/23, a sied storio y tu ol i'r caffi yng Nghaffi Glandwr, Beddgelert Lleoli caban arlwyo yn barhaol yng Nghaffi Colwyn, Beddgelert
 - Lleoli fan arlwyo o fewn yr iard gefn, Tir i gefn yr Afr, Y Bala
 - Newid defnydd o siop fanwerthu presennol (Dosbarth Defnydd A1) i siop de / siop anrhegion bach arfaethedig (Dosbarth Defnydd A3 & A1) yn y Bala
- 6.2 Mae'r cyfanswm o 8518m² o arwynebedd llawr cyflogaeth newydd wedi ei seilio ar wybodaeth o gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio a fe all gynnwys ardal tu allan i'r man datblygu. Oherwydd hyn tybir bod y cyfanswm yn sylweddol llai na 8518m² ond er hyn bod cynnydd mewn llawr cyflogaeth wedi bod yn ystod y cyfnod AMB diweddaraf.
- 6.3 Mae gwaith wedi cychwyn ar astudiaeth gydweithredol (rhwng Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd a Chyngor Môn) a fydd yn adolygu ac asesu'r ddarpariaeth tir cyflogaeth i gynorthwyo i ffurfio sail tystiolaeth ar gyfer adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Eryri.
- 6.4 Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Adeiladu Lleuedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair – Creu Lleuedd a'r adferiad Covid 19'. Mae'r dogfennau'n ceisio amlygu'r polisiau a'r offer cynllunio presennol allweddol y dylid eu defnyddio gan bob sector mewn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gymru, gan gydnabod yr angen parhaus i Gynllunwyr weithredu o fewn cyd-destun ehangach o flaenoriaethau a gweithredu ar bob graddfa.

- 6.5 Mae'r ddogfen hefyd yn nodi y bydd angen ailedrych ar ragolygon economaidd ac arolygon i sicrhau bod y cyflenwad o dir ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ddigonol ac yn addas i'r dyfodol, gan gymryd i ystyriaeth yr angen i gael dewis o safleoedd. Bydd hyn yn rhan o'r asesiad a wneir rhwng y Parc Cenedlaethol, Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, a grybwyllwyd eisoes. O ran safleoedd cyflogaeth strategol, mae 'Adeiladu Lleoedd Gwell' yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol barhau i asesu a oes angen y rhain o hyd neu sut y gall anghenion newid, a chydweithio ar draws rhanbarth i ddynodi tir os oes gobaith realistig iddo gael ei ddatblygu yn y tymor canolig. Gyda'r cynnydd mewn gweithio o gartref, bydd angen i'r adolygiad hefyd ystyried manwerthu a chanol trefi fel gweithleoedd hyblyg i weithwyr o bell ymgynnull i rannu syniadau a mynediad i amgylcheddau a chyfleusterau swyddfa.
- 6.6 Hefyd mae "Adeiladu Lleoedd Gwell" yn nodi tra bod yn ddiamau angen am adferiad economaidd y dylai'r system gynllunio ei hwyluso, ni ddylai hyn fod ar draul ansawdd, o ran iechyd a llesiant ac mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae hyn hefyd yn gyson ag Egwyddor Sandford, sy'n allweddol i weithrediad y Parciau Cenedlaethol.
- 6.7 Yn 2019, daeth cynrychiolwyr o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU at ei gilydd i gytuno a llofnodi Bargen Twf Gogledd Cymru. Amcangyfrifir y bydd y fargen yn werth mwy na £1bn i ogledd Cymru, a bydd yn anelu at gael effaith gadarnhaol ar filoedd o gartrefi, busnesau a sefydliadau ar draws yr ardal. Mae'r rhaglenni o fewn y fargen yn cynnwys prosiectau ar;
- Ynni carbon isel
 - Gweithgynhyrchu uwch
 - Diwydiannau tir (amaethyddiaeth a thwristiaeth)
 - Tir ac eiddo
 - Sgiliau a chyflogaeth
 - Cysylltedd digidol
 - Trafnidiaeth strategol.
- 6.8 Amcanion y fargen, yn ôl Uchelgais Gogledd Cymru, fydd creu tua 4,200 o swyddi newydd a darparu £2.4bn o GYC ychwanegol. O ran y Parc Cenedlaethol, prosiect sy'n gysylltiedig â'r cytundeb yw'r uchelgais i ddod â datblygiad SMR i Drawsfynydd, ac mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio gyda'r prif noddwr, Cwmni Eginio, i ddatblygu'r safle.

Parth Menter Eryri

- 6.9 Mae gan Barth Menter Eryri sy'n cynnwys hen safle'r orsaf ynni niwclear yn Trawsfynydd a'r hen faes awyr yn Llanbedr y potensial i greu cyfleoedd gwaith newydd o ansawdd. Yn flaenorol, roedd y safle yn Llanbedr ar y rhestr fer fel lleoliad posib ar gyfer Porthladd Gofod yn ystod 2015; fodd bynnag, dyfarnwyd cyllid y Strategaeth Ddiwydiannol yn 2018 i borthladd lansio fertigol arfaethedig yn Sutherland, yr Alban, gan ddod â photensial cyfleuster lansio fertigol yn Llanbedr i ben.
- 6.10 Yn y Dynodiad Parth Menter yn Llanbedr, bydd defnydd sy'n gysylltiedig â hedfan, awyrfod yn cael ei annog gan y Parc Cenedlaethol, ochr yn ochr â defnyddiau B1, B2 a B8 eraill. Ym Mharth Menter Trawsfynydd, mae polisïau'n cyfeirio defnyddiau tuag at y rhai sy'n gysylltiedig â datgomisiynu niwclear, busnes ynni carbon isel, technolegau cynhyrchu ynni ac ymchwil a datblygu. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ddatblygiad o fewn Parth Menter Eryri yn ystod cyfnod yr AMB, ond cyhoeddwyd yn ystod Mehefin 2020 bod safle Trawsfynydd wedi'i ddewis i arwain ar brosiect digomisiynu adweithyddion

Magnox yn y DU. Bydd hyn yn gweld gwaith datgomisiynu yn cael ei ddwyn ymlaen a sicrhau cyflogaeth yn yr ardal. Rhagwelir y bydd rhaglen ddigomisiynu o 20 mlynedd ar y safle, gyda thri phrif gam. Er mwyn sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf ar safle Trawsfynydd, mae swyddogion polisi yn rhan o gyfarfodydd Grŵp Safle Strategol Trawsfynydd yn ogystal â grwpiau Nuleaf (fforwm cynghori etifeddiaeth niwclear) ledled y DU. Yn ddiweddar, sefydlwyd grŵp Nuleaf ychwanegol gyda ffocws Cymreig a chynhelir y cyfarfod cyntaf ddiwedd 2021.

- 6.11 Fel y trafodwyd o'r blaen ym Mhennod 3, mae'r ddogfen 'Cymu'r Dyfodol 2040' yn tynnu sylw at y gwir bosibilrwydd y bydd AMBach yn cael ei leoli yn Nhrawsfynydd yn y dyfodol. Er efallai na fydd o fewn amserlen nesaf y CDLI, bydd yn bwysig i'r Awdurdod gymryd rhan mewn trafodaethau yn y dyfodol ynghylch y posibilrwydd y bydd yr AMBach yn Trawsfynydd a'i oblygiadau i'r Parc Cenedlaethol.
- 6.12 Ar hyn o bryd, mae uchelgais i gyflwyno rhaglen a fyddai'n cynnwys adeiladu SMR ar safle Trawsfynydd, i ddechrau yn 2027. Mae polisiâu presennol yr ELDP yn cydnabod y gallai'r safle hwn dderbyn busnesau ynni carbon isel a thechnolegau cynhyrchu ynni, ar yr amod nad oes effeithiau negyddol ar y dirwedd. Yr amcanion ar gyfer y safle (a datblygiad SMR), yn ôl Uchelgais Gogledd Cymru, yw;
- Arbed hyd at 2,660,000 tonnall o arbedion CO₂e
 - Creu hyd at 557 o swyddi newydd
 - Cynhyrchu hyd at 700MW o gapasiti gosodedig newydd gan ddefnyddio ynni carbon isel.

Mae swyddogion o'r Adran Bolisi yn gweithio gyda Magnox/NRS ar gyfer ffurfio Fframwaith Gynllunio ar gyfer y safle ar gyfer y broses ddatgomisiynu. Fe fydd drafft o'r ddogfen yma yn cael ei gyflwyno gan Magnox/NRS erbyn diwedd 2024 neu yn gynnar yn ystod 2025, a fe fydd diweddariad yn cael ei roi o fewn yr AMB nesaf.

Twristiaeth a Hamdden

- 6.13 Y prif newidiadau i'r polisiâu Llety i Ymwelwyr o fewn ELDP 2016-2031 a fabwysiadwyd ym mis Chwefror 2019, rydym yn ymwneud â'r ddau bolisi newydd, Polisi Datblygu 28: Llety â Gwasanaeth Adeiladu Newydd, a Pholisi Datblygu 29: Llety Gwyliau Amgen. Mabwysiadwyd y CCA Llety Ymwelwyr newydd ar Ionawr 22 2020.
- 6.14 Mae polisiâu yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi twristiaeth a hamdden awyr agored sy'n sicrhau'r buddion economaidd lleol i'r eithaf. Mae nifer o geisiadau wedi'u cymeradwyo ers mabwysiadu'r CDLI 2016-2031, sydd wedi arwain at welliannau i gyfleusterau twristiaeth.
- 6.15 Yn dilyn llacio cyfyngiadau ar ôl y cyfnod clo cyntaf, gwelodd y Parc Cenedlaethol gynnydd yn nifer yr ymwelwyr uwchlaw'r blynyddoedd blaenorol, wrth i fwy benderfynu cymryd eu gwyliau yn y DU. Arweiniodd hyn at bwysau sylweddol ar reoli ymwelwyr a'r amgylchedd. Arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer y gwerysyla gwylt a cartrefi modur yn aros dros nos mewn cilfannau, meysydd parcio a thir preifat, yn hytrach na safleoedd ffurfiol. Arhosodd niferoedd y cartrefi modur a phwysau canlyniadol yn uchel yn ystod cyfnod 2021/22. Mae twristiaeth yn rhan annatod o economi'r Parc Cenedlaethol a bydd safleoedd carafanau a gwerysyla wedi colli incwm yn ystod 2020 ac ni fyddant wedi elwa o gartrefi modur nad oedd yn defnyddio safleoedd ffurfiol. Yn y tymor byr, cymerodd yr Awdurdod gamau amrywiol, mewn cydweithrediad â'r Awdurdodau Lleol a Chyrrff eraill, ar atal, addysgu a rhannu gwybodaeth. Nid yw polisiâu cyfredol Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn caniatáu unrhyw safleoedd carafanau gwerysyla neu deithiol newydd (sy'n cynnwys cartrefi modur) oherwydd eu heffaith ar y dirwedd a Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae galwadau gan y sector twristiaeth am ddarparu safleoedd 'aires' bach ar gyfer cartrefi modur gyda chyfleusterau

sylyfaenol, er enghraifft ar feysydd parcio mewn aneddiadau. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi y byddant yn treialu safleoedd 'Aires' dros gyfnod o 3 blynedd, gan anelu i ddechrau yn ystod 2023. Bydd y rhain wedi'u lleoli ar feysydd parcio presennol y Cyngor (Criccieth, Llanberis, Caernarfon, Pwllheli). Nid oes safle wedi ei bennu o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol.

- 6.16 Daw yn amlwg maes o law p'un a yw'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a chartrefi modur yn duedd hirdymor. Os yw'r amodau'n ei gwneud hi'n fwy cyfleus i deithio y tu allan i'r DU, gallai nifer yr ymwelwyr ostwng o'r lefelau a welwyd eleni.

Manwerthu

- 6.17 Cynhaliwyd arolwg manwerthu yn ystod Hydref 2022 yn Aberdyfi, Bala, Betws y Coed, Dolgellau a Harlech. Canran yr eiddo gwag ar gyfartaledd ar gyfer y pum tref oedd 8.2%, sydd ychydig yn uwch na'r 9.2% a welwyd yn astudiaeth 2021. Ar lefel cenedlaethol, mae'r nifer o unedau manwerthu gwag yn parhau i gynyddu ers 2022. Y ffigwr ar gyfer ail chwarter 2023 oedd 17%, cynnydd o 0.3% i'w gymharu a'r un cyfnod yn 2022 (adroddwyd gan Consortïwm Manwerthu Cymru). Caniatwyd dau gais am estyniadau ac newidiadau i unedau manwerthu yn ystod 2022/2023
- 6.18 Oherwydd cyfyngiadau staffio ac adnoddau, ni gynhaliwyd arolwg manwerthu yn ystod y cyfnod monitro yma. Bydd arolwg manwerthu yn cael ei gynnal yn ystod misoedd yr hydref 2024 ac fe adroddir arno yn yr adroddiad monitro blynyddol y flwyddyn nesaf 2022/23.
- 6.19 Mae "Adeiladu Lleuedd Gwell" Llywodraeth Cymru (Mehefin 2020) yn nodi ei bwriad i adfywio canol trefi yng Nghymru. Ledled Cymru, roedd cyfyngiadau clo Covid yn golygu bod canolfannau manwerthu a masnachol yn wag ac archfarchnadoedd a siopau cyfleustra oedd yr unig siopau oedd ar agor. Roedd y canlyniadau economaidd yn golygu bod llawer o fanwerthwyr mewn trafferthion ariannol a allai arwain at gyfraddau uwch o swyddi gwag mewn canolfannau masnachol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r sefyllfa hon drwy sicrhau bod y canolfannau manwerthu a masnachol yn gallu gweithredu mor hyblyg â phosibl. Bydd hyn yn dechrau drwy nodi gweledigaeth glir ar gyfer pob canolfan o fewn CDLlau, yn ogystal â sefydlu ffiniau realistig a synhwylol ar gyfer canolfannau, gan nodi safleoedd i'w hailddatblygu. Golyga hyn bod rhaid ailasesu rôl a swyddogaeth ardaloedd siopa sefydledig ac weithiau bydd angen gwneud penderfyniadau anodd o ran dyfodol rhai o'r canolfannau hyn; bydd uwchgynllunio yn arf arbennig o ddefnyddiol yn hyn o beth.
- 6.20 Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai canolfannau fod yn lleoedd lle mae amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu, cyflogaeth, masnachol, cymunedol, hamdden, iechyd a sector cyhoeddus yn dod at ei gilydd mewn hwb gweithgaredd i'w gwneud yn hyfyw fel cyrchfannau unwaith eto. Mae tystiolaeth yn awgrymu na fydd defnyddiau manwerthu traddodiadol mor amlwg, ac y bydd y galw am ofod manwerthu newydd yn isel iawn hyd y gellir rhagweld, felly bydd angen adolygu ardaloedd manwerthu cynradd ar fyrder. Rhaid i hyn fod yn realistig ac ni ddylid ei wneud gan ddisgwyl y bydd meddianwyr manwerthu yn dychwelyd yn y niferoedd a oedd yn bodoli cyn y pandemig. Dylid herio polisiau afresymol ac anhyblyg drwy broses y cynllun datblygu, gan y bydd angen llawer mwy o feddwl yn greadigol i ailddychmygu ac ailwrpasu'r ardaloedd hyn.

6.21 Mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, dylid cael Aseidiadau Canol Tref yn lle aseidiadau manwerthu. Ni ddylent edrych ar angen manwerthu yn unig mwyach ond dylent gynnwys ystod ehangach o ofynion defnydd, yn enwedig yn y sectorau cyflogaeth, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus.

MF50

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 19: Datblygiad cyflogaeth a hyfforddiant newydd Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Llawr llawr cyflogaeth newydd wedi'i adeiladu yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol	Cynnydd mewn arwynebedd llawr cyflogaeth newydd	AMB Rhif 1:	0	Methu â chyflawni
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Ni adeiladwyd unrhyw arwynebedd llawr cyflogaeth newydd mewn Canolfannau Gwasanaethau Lleol yn ystod 2023/2024. Gweler MF51 am arwynebeddau llawr cyflogaeth newydd mewn ardaloedd eraill o'r Parc Cenedlaethol. Rhoddwyd ganiatad i adeiladu estyniad llawr cyntaf i weithdy/golchdy presennol i gynnwys swyddfa cynllun agored yn Nolgellau a allai olygu mwy o lawr cyflogaeth o fewn Canolfan Gwasanaeth Lleol, ond nid yw'n ddatblygiad o'r newydd.				
Gweithredu	Mae'n bosib nodi bod y dangosydd yma yn methu i raddau o ran methu a chyflawni llawr cyflogaeth newydd o fewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol. I geisio datrys hyn, bydd darpariaeth tir cyflogaeth yn cael ei hasesu a'i hadolygu o fewn yr ardaloedd hyn yn ystod yr adolygiad o'r cynllun, a mae'r gwaith yma wedi dechrau yn barod ar y cyd a Chyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn.			

MF51

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 19: Datblygiad cyflogaeth a hyfforddiant newydd Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Cyfanswm arwynebedd llawr cyflogaeth newydd wedi'i adeiladu yn y Parc Cenedlaethol (gan gynnwys trosiadau / addasiadau)	Cynnydd mewn arwynebedd llawr cyflogaeth newydd	AMB Rhif 1:	2367.77 m ²	Methu â chyflawni
		AMB Rhif 2:	463.18m ²	
		AMB Rhif 3:	834.42m ²	
		AMB Rhif 4:	3356m ²	
		AMB Rhif 5:	8518 m ²	
Dadansoddiad				
Caniatawyd saith cais (perthnasol i'r dangosydd yma) ar gyfer ardaloedd o gyflogaeth neu manwerthu newydd (neu drosiadau/addasiadau) o fewn y Parc Cenedlaethol yn ystod y cyfnod monitro hwn, gyda rhai ohonynt yn arwain at arwynebedd llawr cyflogaeth newydd.				
<ul style="list-style-type: none"> Adeiladau estyniad llawr cyntaf i weithdy/golchdy presennol i gynnwys swyddfa cynllun agored, ger Heol Glyndwr yn Nolgellau 				

- Codi estyniadau unllawr yn y cefn ac addasiadau gan gynnwys gosod dwy simnai echdynnu cegin, waliau cynnal, grisiau metel a nenbont a gosod ffenestr newydd, yn y Royal Oak Betws y Coed
- Creu llawr caled ar gyfer lleoli cynwysyddion tymhorol, lleoli tipî ar gyfer gweithgareddau grŵp, a chais ôl-weithredol i gadw llwybr a phont car sglefrio'r goedwig, cysgodfan hopranau coed, ciosg camera, ciosg archebu, cwt byrbrydau, storfa cit y safari coed a lloches, tai coed gyda rhwydi, sied tanc dŵr, lloches staff, llithren goedwig, adeiladau cit i ddefnyddio'r rhwydi coedwig a'r plymio. Zip World, Betws y Coed.
- Cadw 4 gasibo o fewn maes parcio presennol a gafodd ganiatâd dros dro dan Ganiatad Cynllunio NP2/11/1G dyddiedig 09/04/2021 tan 31/12/23, a sied storio y tu ol i'r caffi yng Nghaffi Glandwr, Beddgelert
- Lleoli caban arlwyyo yn barhaol yng Nghaffi Colwyn, Beddgelert
- Lleoli fan arlwyyo o fewn yr iard gefn, Tir i gefn yr Afr, Y Bala
- Newid defnydd o siop fanwerthu presennol (Dosbarth Defnydd A1) i siop de / siop anrhegion bach arfaethedig (Dosbarth Defnydd A3 & A1) yn y Bala

Mae'r cyfanswm o 8518m² o arwynebedd llawr cyflogaeth newydd wedi ei seilio ar wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio a fe all gynnwys ardal tu allan i'r man datblygu. Oherwydd hyn tybir y bod y cyfanswm yn sylweddol llai na 8518m² ond er hyn bod cynydd mewn llawr cyflogaeth wedi bod yn ystyrd y cyfnod AMB diweddaraf.

Gweithredu Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

MF52

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 19: Datblygiad cyflogaeth a hyfforddiant newydd Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y swyddi ychwanegol a grëwyd	Cynnydd yn nifer y swyddi ychwanegol sy'n cael eu creu	AMB Rhif 1:	Cynyddu	Methu â chyflawni
		AMB Rhif 2:	Cynyddu	
		AMB Rhif 3:	Cynyddu	
		AMB Rhif 4:	Cynyddu	
		AMB Rhif 5:	Cynyddu	
Dadansoddiad				
Caniatawyd ceisiadau a arweiniodd at gynnydd mewn arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol (fel yr amlygwyd yn MF51, er na ellid eu hystyried yn gyfranwyr sylweddol at gynnydd mewn swyddi).				
Ymhlith yr enghreifftiau mae;				
<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladau estyniad llawr cyntaf i weithdy/golchdy presennol i gynnwys swyddfa cynllun agored, ger Heol Glyndwr yn Nolgellau • Codi estyniadau unllawr yn y cefn ac addasiadau gan gynnwys gosod dwy simnai echdynnu cegin, waliau cynnal, grisiau metel a nenbont a gosod ffenestr newydd, yn y Royal Oak Betws y Coed • Creu llawr caled ar gyfer lleoli cynwysyddion tymhorol, lleoli tipî ar gyfer gweithgareddau grŵp, a chais ôl-weithredol i gadw llwybr a phont car sglefrio'r goedwig, cysgodfan hopranau coed, ciosg camera, ciosg archebu, cwt byrbrydau, storfa cit y safari coed a lloches, tai coed 				

gyda rhwydi, sied tanc dŵr, lloches staff, llithren goedwig, adeiladau cit i ddefnyddio'r rhwydi coedwig a'r plymio. Zip World, Betws y Coed.

- Cadw 4 gasibo o fewn maes parcio presennol a gafodd ganiatâd dros dro dan Ganiatad Cynllunio NP2/11/1G dyddiedig 09/04/2021 tan 31/12/23, a sied storio y tu ol i'r cafffi yng Nghaffi Glandwr, Beddgelert
- Lleoli caban arlwyo yn barhaol yng Nghaffi Colwyn, Beddgelert
- Lleoli fan arlwyo o fewn yr iard gefn, Tir i gefn yr Afr, Y Bala
- Newid defnydd o siop fanwerthu presennol (Dosbarth Defnydd A1) i siop de / siop anrhegion bach arfaethedig (Dosbarth Defnydd A3 & A1) yn y Bala

Nid yw'r union nifer y swyddi ychwanegol a grëwyd yn hysbys, ond byddant yn arwain at gynnydd yn y nifer ychwanegol o swyddi yn y Parc Cenedlaethol.

Gweithredu	Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
-------------------	---

MF53

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 19: Datblygiad cyflogaeth a hyfforddiant newydd Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Swm y tir cyflogaeth (ha) a'r arwynebedd llawr (sgwâr) wedi'i ailddatblygu i ddefnyddiau eraill	Dim colli tir cyflogaeth / arwynebedd llawr oni bai ei fod yn unol â'r Polisi	AMB Rhif 1:	0	Cyflenwi tir / adeilad cyflogaeth a gollwyd ddim yn unol â'r Polisi. Collwyd 1 cynllun am 3 blynedd yn olynol neu 3 chynllun wedi'u colli mewn blwyddyn.
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Ni chollwyd unrhyw dir cyflogaeth nac arwynebedd llawr i ddefnyddiau eraill yn ystod y cyfnod monitro hwn.				
Gweithredu	Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF54

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 19: Datblygiad cyflogaeth a hyfforddiant newydd Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Cyfradd swyddi gwag tir a mangre		AMB Rhif 1:	amherthnasol	
		AMB Rhif 2:	amherthnasol	
		AMB Rhif 3:	amherthnasol	
		AMB Rhif 4:	amherthnasol	
		AMB Rhif 5:	amherthnasol	
Dadansoddiad				
Cwblhawyd diweddariad i'r papur cefndir Cyflogaeth yn ystod 2017 a ddaeth i'r casgliad na fyddai angen dyrannu mwy o dir cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol. Roedd hyn oherwydd bod llawer o unedau gwag mewn safleoedd cyflogaeth yn y Parc a nifer o safleoedd gwag ac ar gael y tu allan i'r Parc y gellid eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth. Mae gwaith wedi cychwyn ar astudiaeth gydweithredol (rhwng Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd a Chyngor Môn) a fydd yn edrych ar benodi ymgynghorwyr i adolygu ac asesu'r ddarpariaeth tir cyflogaethi gynorthwyo i ffurfio sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri.				
Gweithredu		Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF55

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiau Allweddol Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 19: Datblygiad cyflogaeth a hyfforddiant newydd		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Monitro tir cyflogaeth ac adeiladau diwydiannol sydd ar gael yn agos at ffin y Parc Cenedlaethol		AMB Rhif 1:	amherthnasol	
		AMB Rhif 2:	amherthnasol	
		AMB Rhif 3:	amherthnasol	
		AMB Rhif 4:	amherthnasol	
		AMB Rhif 5:	amherthnasol	
Dadansoddiad				
Daeth diweddariad y Papur Cefndir Cyflogaeth a gynhaliwyd yn 2017 i'r casgliad bod nifer o safleoedd cyflogaeth a diwydiannol o amgylch ffin y Parc Cenedlaethol a bod gan lawer o'r rhain lefelau uchel o swyddi gwag. Felly fel y nodwyd, daethpwyd i'r casgliad na fyddai angen dyrannu unrhyw ddyraniadau tir cyflogaeth newydd yn y Parc Cenedlaethol.				

Mae gwaith wedi cychwyn ar astudiaeth gydweithredol (rhwng Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd a Chyngor Môn) a fydd yn edrych ar benodi ymgynghorwyr i adolygu ac asesu'r ddarpariaeth tir cyflogaeth.. The project is in the early stages of formulating a brief, but the end result will i gynorthwyo i ffurfio sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri.

Gweithredu Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

MF56

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol		Polisiâu Cysylltiedig		
Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri (27)				
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Monitro dad-gomisiynu Gorsaf Bŵer Niwclear Trawsfynydd a defnyddiau amgen posibl i'w hystyried mewn adolygiad		AMB Rhif 1:	amherthnasol	
		AMB Rhif 2:	amherthnasol	
		AMB Rhif 3:	amherthnasol	
		AMB Rhif 4:	amherthnasol	
		AMB Rhif 5:	amherthnasol	
Dadansoddiad				
<p>Cyhoeddwyd yn ystod Mehefin 2020 bod safle Trawsfynydd wedi'i ddewis i arwain ar brosiect digomisiynu adweithyddion Magnox yn y DU. Bydd hyn yn gweld gwaith digomisiynu yn cael ei ddwyn ymlaen a sicrhau cyflogaeth yn yr ardal. Rhagwelir y bydd rhaglen o 20 mlynedd ar y safle, gyda thri phrif gam.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf ar safle Trawsfynydd, mae swyddogion polisi yn rhan o gyfarfodydd Grŵp Safle Strategol Trawsfynydd yn ogystal â grwpiau Nuleaf (fforwm cynghori etifeddiaeth niwclear) ledled y DU. Yn ddiweddar, sefydlwyd grŵp Nuleaf ychwanegol gyda ffocws Cymreig a chynhelir y cyfarfod cyntaf ddiwedd 2021.</p> <p>Ar hyn o bryd mae uchelgais i gyflwyno rhaglen a fyddai'n cynnwys adeiladu SMR ar safle Trawsfynydd, i ddechrau yn 2027. Mae polisiâu presennol yr ELDP yn cydnabod y gallai'r safle hwn dderbyn busnesau ynni carbon isel a thechnolegau cynhyrchu ynni, ar yr amod nad oes unrhyw effeithiau negyddol ar y dirwedd.</p> <p>Mae swyddogion o'r Adran Bolisi yn gweithio gyda Magnox ar gyfer ffurfio Fframwaith Gynllunio ar gyfer y safle ac ar gyfer y broses ddatgomisiynu. Fe fydd drafft o'r ddogfen yma yn cael ei gyflwyno gan Magnox erbyn diwedd 2024 neu yn gynnar yn ystod 2025, a fe fydd diweddariad yn cael ei roi o fewn yr AMB nesaf. Bu oedi yn y gwaith yma o'r hyn ag adroddwyd yn yr AMB blaenorol ond y gobaith yw y bydd y dogfen mewn lle erbyn flwyddyn nesaf.</p>				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF56a

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri (27)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Mathau o ddatblygiad yn dod ymlaen o fewn Parth Menter Eryri		AMB Rhif 1:	0	
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	1	
		AMB Rhif 4:	1	
		AMB Rhif 5:	4	
Dadansoddiad				
<p>Derbyniwyd pedwar cais am ddatblygiad o fewn Ardal Fenter Eryri yn ystod cyfnod yr AMB. Roedd y caniatadau yma i gyd ar gyfer ardal Dadgomisiynu Trawsfynydd a roeddent yn cynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> Tystysgrif Defnydd Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Presennol ar gyfer dymchwel yr ardal cyfadeiladau gweinyddol (gan gynnwys yr hen adeilad gweinyddol a'r cyfadeilad gweithdy) a mewnlenni gwagleoedd o dan y ddaear (gan gynnwys gwagle islawr gweddilliol y neuadd dyrbinau a ddymchwelyd yn flaenorol) gyda gwaith dymchwel andweithiol deilliannau a mân waith Cadw gwaith trin carthion yn rhannol / cwblhau'n rhannol, ynghyd a gwaith cysylltiedig Drilio 17 o dyllau turio ar gyfer ymchwilio a monitro dŵr daear Gwaith peirianyddol o ran atgyweirio, gwella ac ymestyn y man cadw 				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF56b

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri (27)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Datblygiadau sy'n dod ymlaen o fewn Ardal Ffocws Dangosol Parth Menter Eryri - Llanbedr		AMB Rhif 1:	0	
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau i ddatblygu ym Mharth Menter Llanbedr yn ystod cyfnod yr AMB.				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF56c

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri (27)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Datblygiadau sy'n dod ymlaen o fewn dyraniad dangosol Parth Menter Eryri ehangach - Llanbedr		AMB Rhif 1:	0	
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ddatblygiad yn nyraniad ehangach Parth Menter Llanbedr yn ystod cyfnod yr AMB.				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF56d

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri (27)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Datblygiadau sy'n dod ymlaen o fewn dyraniad Parth Menter Eryri - Trawsfynydd		AMB Rhif 1:	1	
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	1	
		AMB Rhif 4:	1	
		AMB Rhif 5:	4	
Dadansoddiad				
Derbyniwyd pedwar cais am ddatblygiad o fewn Ardal Fenter Eryri yn ystod cyfnod yr AMB. Roedd y caniatadau yma i gyd ar gyfer ardal Dadgomisiynu Trawsfynydd a roeddent yn cynnwys; <ul style="list-style-type: none"> Tystysgrif Defnydd Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Presennol ar gyfer dymchwel yr ardal cyfadeiladau gweinyddol (gan gynnwys yr hen adeilad gweinyddol a'r cyfadeilad gweithdy) a mewnlenni gwagleoedd o dan y ddaear (gan gynnwys gwagle islawr gweddilliol y neuadd dyrbinau a ddymchwelyd yn flaenorol) gyda gwaith dymchwel andweithiol deilliannau a mân waith Cadw gwaith trin carthion yn rhannol / cwblhau'n rhannol, ynghyd a gwaith cysylltiedig Drilio 17 o dyllau turio ar gyfer ymchwilio a monitor dŵr daear Gwaith peirianyddol o ran atgyweirio, gwella ac ymestyn y man cadw 				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF56e

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy			
Polisiau Allweddol Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri (27)		Polisiau Cysylltiedig			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno	
Datblygiadau sy'n dod ymlaen yn union gyfagos i ddyraniad Parth Menter Eryri - Trawsfynydd		AMB Rhif 1:	0		
		AMB Rhif 2:	0		
		AMB Rhif 3:	0		
		AMB Rhif 4:	0		
		AMB Rhif 5:	0		
Dadansoddiad					
Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ddatblygiad, yn union wrth ymyl Parth Menter Trawsfynydd, yn ystod cyfnod yr AMB.					
Gweithredu		Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF57

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy			
Polisiau Allweddol Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)		Polisiau Cysylltiedig Polisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig (9) Polisi Strategol G: Tai (G)			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno	
Nifer y ceisiadau am unedau gwaith byw priodol Nifer y ceisiadau am weithio gartref	Cynnydd yn nifer y cynlluniau priodol a gymeradwywyd	AMB Rhif 1:	1		
		AMB Rhif 2:	5		
		AMB Rhif 3:	0		
		AMB Rhif 4:	3		
		AMB Rhif 5:	0		
Dadansoddiad					
Ni chaniatawyd unrhyw dy menter gwledig yn ystod y cyfnod 2023-24.					
Gweithredu		Mae polisiau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF58

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy			
Polisiau Allweddol Polisi Strategol I: Twristiaeth		Polisiau Cysylltiedig Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno	
Nifer y cyfleusterau twristiaeth newydd wedi eu gwella	Cynnydd yn nifer y cynlluniau priodol a gymeradwywyd	AMB Rhif 1:	Cynyddu		
		AMB Rhif 2:	Cynyddu		
		AMB Rhif 3:	Cynyddu		
		AMB Rhif 4:	Cynyddu		
		AMB Rhif 5:	Cynyddu		

Dadansoddiad

Rhodddwyd caniatâd i 18 cais, mewn perthynas â thwristiaeth, yn ystod y cyfnod monitro blynyddol hwn. Roedd rhain yn cynnwys datblygiadau fel;

- Ceisiadau ar gyfer datblygu Llety Gwyliau Amgen yn bennaf podiau
- Newid defnydd tir a throsi adeiladau amaethyddol ar gyfer llety gwyliau hunanarlwyo
- Dymchwel adeilad gweithdy presennol a chodi adeilad newydd i ddarparu storfa, cyfleusterau lles staff, man storio beiciau diogel, man golchi dillad, peiriannau/storfa a gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn cysylltiad â'r maes carafanau cysylltiedig
- Codi sied offer a gosod tanc storio dŵr glaw tanddaearol 7,500 litr ar safle yn Llanbedr
- Estyniad storio unllawr arfaethedig i'r caban arlwyo presennol yn Nant Gwynant
- Gosod tanciau atgyfnerthu dwr a phympiau cysylltiedig wedi ei amgau a ffens balis 1.8m o uchder ar safle yn Gellilydan
- Newid defnydd glaswelltir wedi'i wella ac adeiladau diangen er mwyn ymestyn maes carafanau presennol, ail-leoli naw maes gan gynnwys heolydd, llwybrau a thirlunio cysylltiol yn Llanycil
- Newid defnydd yn rhannol ar gyfer cynllun ailstrwythuro 23 o leiniau carafanau teithiol a gwersylla presennol ar safle yn Frongoch
- Defnydd o'r adeilad a'r cwrtil ar gyfer dwy uned gwyliau tymor byr sydd o fewn dosbarth defnydd C6 'gosodiadau tymor byr' yn Llwyngwrlil
- Trosi a newid defnydd adeilad amaethyddol segur, gosod trac mynediad a gwaith trin carthion iw ddefnyddio a fel llety gwyliau tymor byr fel rhan o priosect arallgyfeirio fferm yn Rhosygwaliau
- Estyniad a newidiadau i dy, addasu adeilad allanol ynghlwm i lety gwyliau hunanarlwyo tymor byr a chreu mynedfa newydd i gerbydau yn Llanllechid
- Newid defnydd o Westy (Defnydd Dosbarth C1) i Lety Gosod Tymor Byr, Hunan-ddarpar ar gyfer Gwyliau (Defnydd Dosbarth C6) yng Nghapel Curig
- Trosi a newid defnydd adeilad allanol, byncws a bloc toiledau/cawodydd yn 6 uned llety gwyliau hunangynhwysol tymor byr ynghyd â chreu maes parcio a chyfleusterau awyr agored cysylltiedig yng Nghapel Curig
- Cais ol-weithredol i drosi ffermdy segur yn llety gwyliau ar osod a chreu trac mynediad yn Harlech
- Cais ôl-weithredol i newid defnydd ystafell atig hayloft o ystafell triniaethau holistig i lety gwyliau un ystafell wely gydag ystafell gawod ar wahân ym Mryncrug

Gweithred

Mae polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

MF58a

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 28: Llety Newydd â Gwasanaeth (28)		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H) Polisi Strategol I: Twristiaeth Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy (30)		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Llety â gwasanaeth wedi'i adeiladu o'r newydd a ganiateir o fewn neu'n gyfagos i brif ardaloedd adeiledig canolf annau gwasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd		AMB Rhif 1:	0	Lle mae cynigion ar safleoedd sy'n ofynnol ar gyfer angen tai fforddiadwy lleol ac nad yw graddfa a dyluniad y datblygiad yn gydnaws â'r lleoliad.
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau am lety â gwasanaeth newydd yn y prif ardaloedd adeiledig neu yn gyfagos mewn canolfannau gwasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd o fewn y cyfnod monitro hwn. Fodd bynnag, fe ganiatawyd cais ar gyfer lleoli 3 pod glampio yn yr ardd gwrw gefn a defnyddio adeilad cyn seler/storfa i ddarparu cyfleusterau toiled/cawod i Westy yn Harlech. Caniatawyd y cais hwn ar sail y byddai'r podiau hyn yn israddol i'r prif westy ac nid ydynt wedi'u bwriadu fel unedau hunangynhaliol, ac felly maent yn llety estynedig mewn cysylltiad agos â'r Gwesty. Bu hefyd cais ar gyfer dymchwel y teras mynediad to presennol ac adeiladu canopi i ffurfio ardal eistedd dan do o flaen y gwesty ym Metws Y Coed. Yn ogystal, bu Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Defnydd Presennol) ar gyfer lleoli 2 garafan sefydlog a 3 carafán deithiol, ar dir gwesty yn Nyffryn Ardudwy.				
Gweithredu	Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF58b

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 29: Llety Gwyliau Amgen (29)		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H) Polisi Strategol I: Twristiaeth Polisi Datblygu 20: Arallgyfeirio Amaethyddol (20)		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y datblygiadau ar raddfa fach ar gyfer llety amgen a ganiateir		AMB Rhif 1:	5 cais	Lle caniateir safleoedd newydd nad ydynt yn gysylltiedig â chynllun arallgyfeirio amaethyddol neu atyniadau ymwelwyr sy'n bodoli eisoes.
		AMB Rhif 2:	4 cais	
		AMB Rhif 3:	4 cais	
		AMB Rhif 4:	3 cais	
		AMB Rhif 5:	3 cais	
Dadansoddiad				
Caniatawyd tri cais am ddatblygiadau llety amgen ar raddfa fach yn ystod y cyfnod monitro hwn. Y rhain oedd;				
<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu un uned gwyliau hunanarlwyo tanddaearol newydd ynghyd a gosod tanc septig ger Y Bala • Gosod tri pod ychwanegol ar gyfer llety gwyliau tymor byr yn Llanfairfechan • Cais ôl-weithredol i leoli un pod llety ymwelwyr yng Nghapel Garmon 				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF59

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 22: Safleoedd Sialeau a Charafannau Statig (22)		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H) Polisi Strategol I: Twristiaeth Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y datblygiadau sy'n gwella ansawdd y Safleoedd Sialeau a Charafannau Statig presennol ac yn lleihau ei effaith ar y dirwedd.	Cynnig pob datblygiad.	AMB Rhif 1:	1 cais	1 datblygiad yn methu â gwella ansawdd / lleihau'r effaith ar y dirwedd am 3 blynedd yn olynol neu
		AMB Rhif 2:	2 gais	
		AMB Rhif 3:	2 gais	
		AMB Rhif 4:	4 cais	

		AMB Rhif 5:	4 cais	3 datblygiad yn methu mewn blwyddyn.
Dadansoddiad				
Mae yna bedwar cais wedi cael eu caniatáu yn ystod y cyfnod monitro hwn, a allai arwain at wella safleoedd Cabanau, a fe gymeradwyd 2 dystysgrif yn berthnasol i garafannau Statig presennol a lleihau eu heffaith ar y dirwedd.				
Gweithredu	Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF60

Amcan	Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy			
Polisiau Allweddol Polisi Datblygu 23: Safleoedd Teithiol a Gwersylla (23)	Polisiau Cysylltiedig Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H) Polisi Strategol I: Twristiaeth Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y datblygiadau sy'n gwella ansawdd y Safleoedd Teithiol a Gwersylla presennol ac yn lleihau ei effaith ar y dirwedd.	Cynnig pob datblygiad	AMB Rhif 1:	0	1 datblygiad yn methu â gwella ansawdd / lleihau'r effaith ar y dirwedd am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad yn methu mewn blwyddyn.
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	4	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau ar gyfer datblygiadau sy'n gwella ansawdd y Safleoedd Teithiol a Gwersylla presennol ac yn lleihau ei effaith ar y dirwedd yn ystod y cyfnod monitro hwn.				
Gweithredu	Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF61

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 22: Parciau Siale a Charafannau Statig (22)		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)		
Polisi Datblygu 23: Safleoedd Teithiol a Gwersylla (23)		Polisi Strategol I: Twristiaeth		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Paratoi a mabwysiadu CCA ar Safleoedd Sialeau, Carafannau Statig a Theithiol a Gwersylla.	Cynnig pob datblygiad	AMB Rhif 1:	Wedi'i gwblhau	1 datblygiad yn methu â gwella ansawdd / lleihau'r effaith ar y dirwedd am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad yn methu mewn blwyddyn.
		AMB Rhif 2:	Wedi'i gwblhau	
		AMB Rhif 3:	Wedi'i gwblhau	
		AMB Rhif 4:	Wedi'i gwblhau	
		AMB Rhif 5:	Wedi'i gwblhau	
Dadansoddiad				
Cafodd CCA 8: Llety Ymwelwyr ei fabwysiadu'n ffurfiol gan aelodau'r Awdurdod ar 22 ^{ain} Ionawr 2020 ac mae bellach yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.				
Gweithredu	Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF62

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Gofod llawr manwerthu newydd ym mhrif ardaloedd adeiledig Canolfannau Gwasanaethau Lleol, Aneiddiadau Gwasanaeth ac Aneiddiadau Eilaidd.	Pob cynnig datblygu	AMB Rhif 1:	4	1 datblygiad newydd y tu allan i'r ardaloedd hyn am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad newydd y tu allan i'r ardaloedd hyn mewn blwyddyn.
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Ni chaniatawyd unrhyw gais am ofod llawr manwerthu <i>newydd</i> (gan gynnwys tai bwyta / caffis) o fewn y prif ardaloedd adeiledig Canolfannau Gwasanaethau Lleol, Aneiddiadau Gwasanaeth ac Aneiddiadau Eilaidd yn ystod y cyfnod hwn. Er hyn fe ganiatawyd ceisiadau a arweiniodd at ychwanegu at gyfleusterau manwerthu/caffi/busnes presennol, er enghraifft;				
<ul style="list-style-type: none"> Adeiladu estyniad llawr cyntaf i weithdy/golchdy presennol i gynnwys swyddfa cynllun agored yn Nolgellau Dymchwel adeilad presennol ac adeiladau allanol segur ac adeiladu adeilad newydd. Tirlunio caled a meddal gan gynnwys maes parcio newydd, compownd storio wedi'i ffensio gyda chynwysyddion storio yn Nolgellau 				

- Codi estyniadau unllawr yn y cefn ac addasiadau gan gynnwys gosod dwy simnai echdynnu cegin, waliau cynnal, grisiau metel a nenbont a gosod ffenestr newydd ym Metws y Coed
- Lleoli fan arlwygo o fewn yr iard gefn yn Y Bala
- Newid defnydd o siop fanwerthu presennol (Dosbarth Defnydd A1) i siop de / siop anrhegion bach arfaethedig (Dosbarth Defnydd A3 & A1) yn Y Bala
- Newidiadau i flaen siop i greu drws newydd i ddarparu mynediad ar wahân i fflat llawr cyntaf, ynghyd â chodi porth a grisiau newydd yn Harlech

Gweithredu

O ran y pwynt sbarduno, mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

MF63

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol		Polisiâu Cysylltiedig		
Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)				
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y datblygiadau manwerthu newydd y bwriedir iddynt wasanaethu dalgylch anheddiad ehangach wedi'i gyfyngu i'r Bala a Dolgellau .	Pob cynnig datblygu	AMB Rhif 1:	amherthnasol	1 datblygiad newydd y tu allan i'r ardaloedd hyn am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad newydd y tu allan i'r ardaloedd hyn mewn blwyddyn.
		AMB Rhif 2:	amherthnasol	
		AMB Rhif 3:	amherthnasol	
		AMB Rhif 4:	amherthnasol	
		AMB Rhif 5:	amherthnasol	
Dadansoddiad				
Nid oedd unrhyw ddatblygiadau manwerthu newydd i wasanaethu dalgylch ehangach yn ystod y cyfnod monitro hwn.				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF64

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol		Polisiâu Cysylltiedig		
Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)				
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y datblygiadau manwerthu newydd yn y brif ardal fanwerthu neu o fewn 300m i ganol y dref.	Cynnig pob datblygiad	AMB Rhif 1:	1	1 datblygiad newydd y tu allan i'r ardaloedd hyn am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad newydd y tu allan i'r ardaloedd hyn mewn blwyddyn.
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau manwerthu newydd o fewn y brif ardal fanwerthu nac o fewn 300m i ganol tref Canolfan Gwasanaethau Lleol yn ystod y cyfnod monitro hwn.				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.		

MF65

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Unedau gwag mewn ardaloedd manwerthu	Lleihau neu gynnal cyfradd swyddi gwag	AMB Rhif 1:	24	
		AMB Rhif 2:	36	
		AMB Rhif 3:	34	
		AMB Rhif 4:	28	
		AMB Rhif 5:	amherthnasol	
Dadansoddiad				
Oherwydd cyfyngiadau staffio ac adnoddau, ni gynhaliwyd arolwg manwerthu yn ystod y cyfnod monitro yma. Bydd arolwg manwerthu yn cael ei gynnal yn ystod misoedd yr hydref 2024 ac fe adroddir arno yn yr adroddiad monitro blynyddol y flwyddyn nesaf.				
Gweithred	Wrth asesu y ffigyrau hanesyddol gellir nodi bod polisiâu y cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

MF66

Amcan		Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Canran y defnyddiau manwerthu heblaw A1 ym mhrif ardaloedd manwerthu Aberdyfi, Bala, Betws y Coed, Dolgellau a Harlech	Cynnal y gyfradd o fewn 10-25% o'r ganran bresennol (yn seiliedig ar unedau manwerthu)	AMB Rhif 1:		Dros 25% o ddefnyddiau heblaw manwerthu mewn prif feysydd manwerthu am 3 blynedd yn olynol.
		AMB Rhif 2:		
		AMB Rhif 3:		
		AMB Rhif 4:		
		AMB Rhif 5:		
Dadansoddiad				
Oherwydd cyfyngiadau staffio ac adnoddau, ni gynhaliwyd arolwg manwerthu yn ystod y cyfnod monitro yma. Bydd arolwg manwerthu yn cael ei gynnal yn ystod misoedd yr hydref 2024 ac fe adroddir arno yn yr adroddiad monitro blynyddol y flwyddyn nesaf. Fel y nodwyd ar ddechrau'r bennod, mae Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai canolfannau bellach fod yn lleoedd lle mae amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu, cyflogaeth, masnachol, cymunedol, hamdden, iechyd a sector cyhoeddus yn dod at ei gilydd mewn canolbwynt gweithgaredd i'w gwneud yn hyfyw fel cyrchfannau i'w mynychu unwaith eto. Bydd angen ystyried ardaloedd manwerthu sylfaenol a pholisi cysylltiedig ymhellach fel rhan o'r adolygiad.				
Gweithredu	Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.			

Ymchwiliad pellach a chamau gweithredu o'r adran hon:

- 6.22 Er efallai na fydd o fewn amserlen nesaf y CDLI, mae'r ddogfen 'Cymru'r Dyfodol 2040' yn tynnu sylw at y gwir bosibilrwydd y bydd Adweithydd Modiwlaid Bach (SMR/AMBach) yn Nhrawsfynydd. Bydd yn bwysig i'r Awdurdod gymryd rhan mewn trafodaethau yn y dyfodol ynghylch y posibilrwydd y bydd yr AMBach yn Nhrawsfynydd a'i oblygiadau i'r Parc Cenedlaethol. Mae polisiâu presennol yr ELDP yn cydnabod y gallai'r safle hwn dderbyn busnesau ynni carbon isel a thechnolegau cynhyrchu ynni, cyn belled nad oes unrhyw effeithiau negyddol ar y dirwedd.
- 6.23 O ganlyniad i'r Pandemig rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref, yn enwedig yn sectorau swyddfa'r economi. Hyd yn oed pan godir yr holl gyfyngiadau, mae hyn yn debygol o effeithio ar ble mae pobl yn gweithio yn y tymor hir. Bydd angen i adolygiad y CDLI ystyried goblygiadau mwy o bobl yn gweithio gartref yn y tymor hir.
- 6.24 Fel rhan o ddiwygiad i'r CDLI yn y dyfodol bydd angen i'r Awdurdod weithio gydag awdurdodau cynllunio cyfagos i ail-edrych ar ragolygon economaidd a diweddarau'r Adolygiad Tir Cyflogaeth i sicrhau bod y cyflenwad tir ar gyfer cyflogaeth yn ddigonol ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Bydd angen adolygu dyraniadau cyflogaeth a, lle mae angen newid, dylai hyn fod i'r defnydd gorau o dir ar gyfer creu lleoedd. Gall hyn olygu bod safleoedd â chysylltiadau teithio cyhoeddus a gweithredol da yn cael eu dynodi at ddefnydd cymysg eraill. Gall hefyd olygu bod safleoedd anghynaliadwy dros ben yn cael eu tynnu o gynlluniau datblygu yn gyfan gwbl. Mae gwaith wedi cychwyn ar astudiaeth gydweithredol (rhwng Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd a Chyngor Môn) i adolygu ac asesu'r ddarpariaeth tir cyflogaeth er mwyn cynorthwyo i ffurfio sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Eryri.
- 6.25 Mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, ceir Asesiadau Canol Tref yn lle asesiadau manwerthu. Ni ddylent edrych ar angen manwerthu yn unig mwyach ond dylent gynnwys ystod ehangach o ofynion defnydd, yn enwedig yn y sectorau cyflogaeth, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd gan hyn oblygiadau i ddiwygio'r cynllun a hefyd o ran dynodi ardaloedd manwerthu o fewn pum prif dref y Parc Cenedlaethol. Mae'n bosibl y bydd ein fframwaith monitro o ran dibenion cyflogaeth a manwerthu yn dra gwahanol oherwydd y newid mewn polisi gan Lywodraeth Cymru (er enghraifft mwy o ffocws ar leihau unedau gweigion a llai o ffocws ar ddadansoddiadau defnydd A1/heb fod yn A1).
- 6.26 Mae'r ddogfen 'Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair' yn tynnu sylw at yr angen i Ganol Trefi ddod yn lleoedd lle mae amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu, cyflogaeth, masnachol, cymunedol, hamdden, iechyd a sector cyhoeddus yn dod at ei gilydd i'w gwneud yn hyfyw fel cyrchfannau 'mynd-iddynt' unwaith eto. Gallai lleoedd cydweithredu lleol, hyblyg hefyd fod yn elfen newydd hanfodol i gynyddu lle i weithio.
- 6.27 Bydd angen parhau i adolygu dyfodol ansicr y sector amaethyddol yn dilyn Brexit a newidiadau i'r drefn dalu a'u heffaith ar gymunedau o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhain yn debygol o arwain at bwysau i arallgyfeirio a phwysau i fod yn fwy cynhyrchiol ar dir wedi'i wella. Teimlir bod polisiâu presennol y CDLI yn hwyluso cynlluniau arallgyfeirio amaethyddol. Y dulliau arallgyfeirio sy'n debygol o ddod ymlaen yn Eryri yn y dyfodol yw: llety twristiaeth amgen, trosi adeiladau i ddefnyddiau amgen, cynhyrchu mwy o fwyd lleol, (efallai unedau prosesu bwyd, siopau fferm, lladd-dy), siediau ieir, siediau/ parlyrau llaeth, ynni adnewyddadwy, gwynt, dŵr, solar. Mae'r dulliau hyn yn cael eu hasesu ar hyn o bryd yn unol â pholisiâu mabwysiedig.

6.28 Mae angen gwaith pellach i ymchwilio i effeithiau campyrfaniau ar y Parc a sut y gellir mynd i'r afael â'r problemau cysylltiedig. Bydd angen i'r Awdurdod ystyried a all newid polisi fynd i'r afael â'r mater yn gadarnhaol heb niweidio Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.

7 HYRWYDDO HYGRCHEDD A CHYNHWYSIAD

Mae'r adran hon yn ymateb i'r amcanion canlynol:

Annog datblygiadau newydd mewn lleoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio gyda mynediad rhesymol at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol a dulliau cynaliadwy o deithio.

Cefnogi mentrau sydd â'r nod o annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio.

Hygyrchedd

7.1 Ni roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw lwybrau troed newydd yn ystod y cyfnod monitro hwn.

Telathrebu

7.2 Cymeradwywyd 3 cais ar gyfer adnewyddu, uwchraddio neu datblygu offer telathrebu newydd mewn safleoedd newydd a phresennol. Symudwyd yr amod polisi a oedd yn rhoi caniatâd deng - mlynedd dros dro yn dilyn adolygiad o'r CDLIE, gyda phob achos yn cael ei asesu ar ei rinweddau ei hun. Paratowyd Canllawiau Cynllunio Atodol a chawsant eu mabwysiadu yn ystod tymor yr hydref 2021. Ceir rhagor o fanylion am y CCA hwn ar ddiwedd y bennod hon.

Traffig Ymwelwyr a Pharcio Ceir

7.3 Yn dilyn llacio cyfyngiad Covid-19, yn ystod haf 2020 gwelwyd niferoedd uchel o ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol, gyda mwy yn cymryd gwyliau yn y DU. Arweiniodd hyn at broblemau parcio difrifol mewn ardaloedd cerdded poblogaidd fel o amgylch yr Wyddfa a Dyffryn Ogwen, gyda nifer fawr o geir yn parcio'n anghyfreithlon ar hyd y priffyrdd. Mae ymgyrch gan y APCE, Awdurdodau Lleol a'r Heddlu, yn cynnwys cyhoeddusrwydd a mwy o orfodaeth ar y briffordd wedi lleihau'r broblem. Mae'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cyflwyno system archebu ymlaen llaw ar gyfer maes parcio Pen y Pass ac yn ceisio hyrwyddo defnydd o wasanaethau parcio a theithio.

7.4 Mae'r Awdurdod wedi bod yn edrych i mewn i'r sefyllfa parcio am beth amser, ac yn 2020, comisiynwyd Martin Higgitt Associates gan Bartneriaeth Yr Wyddfa i gynnal adolygiad o faterion trafndiaeth a pharcio sy'n effeithio ar ardaloedd Yr Wyddfa a Ogwen.

7.5 Nod yr adolygiad hwn yw datblygu strategaeth ar gyfer rheoli mynediad a pharcio o amgylch Yr Wyddfa a Dyffryn Ogwen mewn ffordd sy'n cefnogi gweledigaeth hirdymor y Bartneriaeth ar gyfer Yr Wyddfa, yn ogystal â phwrpasau a dyletswydd ehangach y Parc Cenedlaethol o amddiffyn y dirwedd, hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'r ardal, a chefnogi lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol. Nododd yr adroddiad ystod o faterion sy'n ein harwain at y sefyllfa bresennol sy'n tansellio pwrpasau a dyletswydd graidd y Parc Cenedlaethol. Mae'r pwysau ar gyrchu'r safleoedd hyn mewn car yn effeithio ar y gallu i warchod a gwella harddwch y dirwedd ddynodedig ac amcanion Partneriaeth Yr Wyddfa ar gyfer rheoli'r ardal. Mae dibyniaeth ar geir yn tansellio gallu rhannau o'r cyhoedd i gael mynediad at y dirwedd a'i mwynhau.

- 7.6 Mae nifer yr ymwelwyr a phatrymau teithio yn cael effaith negyddol ar fywydau beunyddiol cymunedau, ac yn methu â chipio'r budd economaidd posibl i'r economi a busnesau lleol. Mae argymhellion yr adroddiad yn nodi y dylai model Twristiaeth Gynaliadwy gael ei fabwysiadu, mae'n darparu opsiynau i gyflawni a gweithredu'r nod hwn. **Mae'r cynigion yn amlinellu sut y gellid lleihau traffig, llygredd a sŵn yn fawr yn yr ardal fewnol yn ystod y tymor prysur, gan wella profiad yr ymwelydd yn sylweddol.** Byddai'r Dull Twristiaeth Gynaliadwy hwn yn trawsnewid sut mae'r ardal yn gweithredu ac yn cael ei ystyried yn gyrchfan. Yn sail i'r dull hwn mae integreiddio, darparu gwasanaethau newydd ac ail-raddio'r gwasanaethau presennol. Mae galluogi cyflawni blaengar o'r fath yn gofyn am strwythurau llywodraethu priodol ac ail-feddwl yr model economaidd y darperir gwasanaethau ynddo. Argymhellir model llywodraethu newydd sy'n gyfle i'r ardal, a Chymru yn gyffredinol, fod yn arloesol
- 7.7 Mae'r cynigion yn cyflwyno nod hirdymor ar gyfer rheoli traffig yn gynaliadwy. Mae rhanddeiliaid wedi ffurfio grŵp cyflenwi, gyda Thrafnidiaeth Cymru yn chwarae rhan flaenllaw, oherwydd y cysylltiadau â Metro Gogledd Cymru. Mae Rhaglen Metro Gogledd Cymru yn ceisio trawsnewid gwasanaethau trên, bws a theithio llesol ar draws Gogledd Cymru i'w gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i deithio ar draws Gogledd Cymru ac adeiladu gwell cysylltiadau â Gogledd-orllewin Lloegr.
- 7.8 Mae polisi presennol yr ELDP ar barcio, Polisi Datblygu 25, yn cefnogi meysydd parcio newydd i ymwelwyr os ydynt yn rhan annatod o gynllun rheoli traffig arfaethedig. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i allu derbyn cynlluniau megis cynllun trafndiaeth Yr Wyddfa / Ogwen o dan y polisi. Gellir ystyried a oes angen cyfeiriad penodol ar gyfer y cynllun a sefyllfa parcio / traffig yn y CDLI nesaf.
- 7.9 Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cynhyrchu Cynllun Teithio Llesol ar gyfer Eryri, a ddefnyddir ochr yn ochr â'r rhai a gynhyrchir gan Gynghorau Gwynedd a Chonwy.
- 7.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu comisiwn a fydd yn cynnal adolygiad sy'n para blwyddyn i ddatblygu argymhellion ar gyfer ffyrdd, rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol ar draws gogledd Cymru gyfan. Yr Arglwydd Burns fydd yn arwain yr adolygiad.

MF67

Amcan		Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysiant		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Thrafnidiaeth (L)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y datblygiadau gyda mynediad i lwybrau troed, llwybrau beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus	Cynnydd yn y nifer	AMB Rhif 1:		Methu â chyflawni
		AMB Rhif 2:		
		AMB Rhif 3:		
		AMB Rhif 4:		
		AMB Rhif 5:		
Dadansoddiad				
Fel sy'n wir mewn blynyddoedd blaenorol, mae mwyafrif helaeth y ceisiadau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod hwn wedi cael mynediad at gysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol		

MF68

Amcan		Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysiant		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Thrafnidiaeth (L)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y datblygiadau gyda mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus	Cynnydd yn y nifer	AMB Rhif 1:		Methu â chyflawni
		AMB Rhif 2:		
		AMB Rhif 3:		
		AMB Rhif 4:		
		AMB Rhif 5:		
Dadansoddiad				
Roedd 23 allan o 43 (53.5%) o ddatblygiadau newydd o fewn 0.5km i safle bws, ac 33 o'r 43 (76.7%) o fewn 1.5km i safle bws. Roedd 18 o'r 43 (41.9%) hefyd o fewn 1.5km i orsaf drenau. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae gan y mwyafrif o ddatblygiadau newydd ryw faint o fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus.				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol		

MF69

Amcan		Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysiant		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Thrafnidiaeth (L)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Dim niwed sylweddol yn sgil newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd	Pob cynnig datblygu	AMB Rhif 1:	1	Niwed sylweddol yn deillio o 1 datblygiad am 3 blynedd yn olynol neu niwed sylweddol yn deillio o 3 datblygiad mewn blwyddyn.
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				

Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw geisiadau newydd yn ystod y cyfnod monitro hwn, o ran newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd.

Gweithredu Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol

MF70

Amcan		Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysiant		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 25: Parcio Ceir i Ymwelwyr (25)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Meysydd parcio newydd i ymwelwyr sy'n canolbwyntio ar Ganolfannau Gwasanaethau Lleol	Pob cynnig datblygu oni bai ei fod yn rhan o gynllun rheoli traffig neu'n rhan annatod o atyniadau ymwelwyr newydd neu estynedig	AMB Rhif 1:	0	1 datblygiad y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau Lleol oni bai ei fod yn rhan o gynllun rheoli traffig wedi'i gynllunio neu'n rhan annatod o atyniad ymwelwyr newydd neu estynedig am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad y tu allan i'r ardaloedd hyn mewn blwyddyn.
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	
Dadansoddiad				
Ni chaniatawyd unrhyw feysydd parcio newydd i ymwelwyr mewn Canolfannau Gwasanaethau Lleol yn ystod cyfnod yr AMB.				
Gweithredu		Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol		

MF71

Amcan		Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysiant		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 25: Parcio Ceir i Ymwelwyr (25)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Meysydd parcio newydd i ymwelwyr y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau Lleol	Darparu maes parcio newydd i ymwelwyr fel rhan annatod o gynllun rheoli traffig wedi'i gynllunio neu fel rhan annatod o atyniad newydd neu estynedig i ymwelwyr sy'n rhoi blaenoriaeth i drafnidiaeth gynaliadwy.	AMB Rhif 1:	0	Methu â chyflawni
		AMB Rhif 2:	0	
		AMB Rhif 3:	0	
		AMB Rhif 4:	0	
		AMB Rhif 5:	0	

Dadansoddiad	
Ni chaniatawyd unrhyw feysydd parcio newydd i ymwelwyr tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau Lleol yn ystod cyfnod yr AMB.	
Comisiynwyd 'Martin Higgitt Associates' gan Bartneriaeth Yr Wyddfa i gynnal adolygiad o faterion trafndiaeth a pharcio sy'n effeithio ar Yr Wyddfa ac Ogwen. Nod yr adolygiad yw datblygu strategaeth ar gyfer rheoli mynediad a pharcio o gwmpas yr Wyddfa a Dyffryn Ogwen mewn ffordd sy'n cefnogi gweledigaeth y Bartneriaeth tymor hir ar gyfer Yr Wyddfa, yn ogystal â phwrpasau a dyletswydd ehangach y Parc Cenedlaethol o ddiogelu y dirwedd, hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'r ardal, a chefnogi lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol. Bydd angen ystyried canlyniad yr adolygiad mewn unrhyw adolygiad o'r CDLI yn y dyfodol.	
Gweithredu	Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol

MF72

Amcan		Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysiant		
Polisiâu Allweddol Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Thrafnidiaeth (L)		Polisiâu Cysylltiedig Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamdden (21)		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Monitro unrhyw oblygiadau defnydd tir o Strategaeth Hamdden yr Awdurdod		AMB Rhif 1:	amherthnasol	
		AMB Rhif 2:	amherthnasol	
		AMB Rhif 3:	amherthnasol	
		AMB Rhif 4:	amherthnasol	
		AMB Rhif 5:	amherthnasol	
Dadansoddiad				
Mae'r ddogfen oedd gynt yn cael ei enw yn Strategaeth Hamdden yr Awdurdod (2012 i 2017) bellach wedi newid i gael ei galw yn 'Datganiad Sefyllfa Hamdden Awyr Agored 2024-2029'. Mae'r newid yma wedi cael ei gwneud er mwyn sicrhau cyswllt agosach rhwng y ddogfen a Chynllun Eryri.				
Gweithredu	Mae polisiâu hygyrchedd a chynhwysiant yn effeithiol.			

MF73

Amcan		Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysiant		
Polisiâu Allweddol Polisi Datblygu 26: Telathrebu (26)		Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Monitro nifer y datblygiadau telathrebu nad ydynt yn niweidio ymddangosiad gweledol a chymeriad yr ardal	Pob cynnig datblygu	AMB Rhif 1:	5	Methu â chyflawni
		AMB Rhif 2:	2	
		AMB Rhif 3:	9	
		AMB Rhif 4:	3	
		AMB Rhif 5:	20	

Dadansoddiad

Cymeradwywyd 20 cais (a ganiateir neu gymeradwyaeth ymlaen llaw) ar gyfer naill ai offer newydd, amnewid neu uwchraddio offer telathrebu mewn safleoedd newydd a phresennol. Roedd y rhain ar gyfer;

- Gosod mast telathrebu newydd (40m), sy'n ymgorffori 9 antenna newydd ac offer cysylltiedig ger Llanfachreth, Dolgellau
- Gosod mast telethrebu newydd 35m o uchder, sydd yn ymgorffori 9 antenna newydd ac offer cysylltiedig ger Ffestiniog, Trawsfynydd
- Gosod mast/tŵr telathrebu newydd 40m o uchder sydd yn cefnogi 3 antenna newydd a 2 ddysgl ac offer cysylltiedig, ger Llanuwchllyn, Y Bala
- Gosod estyniad tŵr o 5m. Adleoli 2 antenna a gosod 6 antenna newydd ac offer cysylltiedig ger Rhosygwaliau
- Gosod 6 antenna newydd ar fast telathrebu presennol ac offer cysylltiedig, ger Cwm Hirnant, Rhosygwaliau
- Gosod estyniad 5m i dŵr presennol. Adleoli 3 antenna a 2 ddysgl. Gwaith cysylltiedig o ran offer. Wedi ei leoli ger Cwm Penmachno
- Estyniad 7.5m i dŵr presennol, ac adleoli dau antenna a dau ddesgl. Gwaith ac offer cysylltiedig. Wedi ei leoli ger Llanymawddwy
- Gosod mast telathrebu 15m gydag antenna cysylltiedig, ac seilwaith ategol ger Nant Gwynant
- Gosod tŵr telathrebu 20m o uchder a fydd yn cynnwys 6 antenna, 4 desgla gwaith ac offer cysylltiedig, wedi ei leoli ger Llanegryn
- Gosod tŵr dellt 30m o uchder sy'n cynnal 9 antenau, 6 dysglau trawsyrru, 6 cypyrddau offer, 1 cabinet medr, ynghyd â lleoli generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, ffurfio ardal llawr caled, adeiladu wal caergawell, a ffurfio cyfansawdd wedi'i ffensio. Wedi ei leoli ger Trawsfynydd
- Estyniad i fast telathrebu presennol i godi uchder o 5 medr, adleoli 3 antenna a 2 ddysgl presennol, gosod 6 antenna newydd a 4 cabinet newydd ar y ddaear, ac offer ategol arall o fewn compownd cyfleuster ger Nant Gwynant
- Amnewid y polyn telathrebu 15m presennol gyda pholyn 15m o uchder 'Phase 5 monopole' i gynnal 2 agoriadau antenna newydd ynghyd â datblygiad ategol, ger Abergynolwyn
- Uwchraddio offer telathrebu i fast presennol gan gynnwys antenna, polyn cynnal a gwaith cysylltiedig, ger Frongoch
- Gosod estyniad tŵr 5m i'r gosodiad presennol ac adleoli 3 fflat. antenna a 2 dim dysgl i ben yr estyniad (cymeradwywyd dan gais NP5/74/474) ynghyd â gosod 6 antenna newydd, 5 dim cypyrddau offer ar y ddaear, gosod unedau radio o bell, gosodwyr pen mast, GPS nodau a gwaith ategol cysylltiedig. Wedi ei leoli ger Mallwyd
- Gosod estyniad tŵr 5m i'r mast telathrebu presennol ac adleoli 3 antenna a 2 dysgl i'r brig. Gosod 6 antenna newydd a 4 cypyrddau offer newydd ar y ddaear. Gosod unedau radio, mwyhaduron pen mast, nodau GPS a chyfarpar cysylltiedig a gwaith ategol. Wedi ei leoli ger Pwll Penmaen
- Hysbysiad ymlaen llaw o dan Atodlen 2, Rhan 24 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ar gyfer adleoli 3 antenna rhwydwaith gwasanaethau brys a DIM i antenna main newydd, cynnydd cyffredinol mewn uchder i 17.4m (o 15m). Gosod 3 antenna rhwydwaith gwledig a rennir newydd, 5 cabinet newydd, unedau radio o bell, mwyhaduron pen mast, nodau GPS a chyfarpar cysylltiedig â gwaith ategol o fewn y compownd cyfleuster presennol. Hyn wedi ei leoli ger Ysbyty Ifan
- Hysbysiad ymlaen llaw o dan Atodlen 2, Rhan 24 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ar gyfer adleoli 3 antenna rhwydwaith gwasanaethau brys a DIM i'r antenna main newydd, cynnydd cyffredinol mewn uchder i 17.4m (o 15m). Gosod 3 antenna rhwydwaith gwledig a rennir newydd, 5 cabinet newydd, unedau radio o bell, mwyhaduron pen mast, nodau GPS a chyfarpar cysylltiedig â gwaith ategol. Wedi ei leoli ger Pwll Penmaen
- Hysbysiad o Flaen Llaw o dan Atodlen 2, Rhan 24, o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 fel y'i diwygiwyd, ar gyfer adleoli 3 antenna Rhwydwaith Gwasanaethau Brys a DIM i fownt antenna main newydd, cynnydd cyffredinol mewn uchder i 17.4m. Gosod 3 antenna Rhwydwaith Gwledig a Rennir newydd, 5 cabinet newydd, unedau radio o bell, mwyhaduron pen mast, nodau 'GPS' a chyfarpar cysylltiedig a gwaith ategol. Wedi ei leoli ger Beddgelert

- Hysbysiad o flaen llaw o dan Atodlen 2, Rhan 24, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 fel y'i diwygiwyd i osod mownt antenna main newydd, codiad uchder cyffredinol i 17.4m. Adleoli 3 antenna Rhwydwaith Gwasanaethau Brys a Gosod 3 antenna Rhwydwaith Gwledig a Rennir newydd, 5 o gypyrddau newydd, unedau radio o bell, mwyhaduron pen mast, nodau GPS a chyfarpar cysylltiedig â gwaith ategol ger Llanbedr
- Hysbysiad o flaen llaw o dan Atodlen 2, Rhan 24, Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 fel y'i diwygiwyd i osod 6 antenna Rhwydwaith Gwledig a Rennir newydd, 6 o gypyrddau offer newydd, nodau GPS, mwyhaduron pen mast, unedau radio o bell a chyfarpar cysylltiedig â gwaith ategol ger Ganllwyd

Mabwysiadwyd Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer datblygiadau Telathrebu yn ystod hydref 2021.

Mae'r CCA hwn yn ceisio darparu arweiniad manwl ynghylch y modd y bydd yr Awdurdod Cynllunio yn delio â thelathrebu a datblygu mastiau ac yn darparu cefnogaeth i swyddogion achos. Bydd y CCA hefyd yn darparu arweiniad i gynorthwyo datblygwyr sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio a cheisiadau cymeradwyaeth ymlaen llaw.

Gweithred

Mae polisiâu cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Ymchwil ac ystyriaeth bellach i lywio diwygiadau i CDLI Eryri

7.11 Mabwysiadwyd CCA newydd ynghylch datblygiadau telathrebu yn ystod cyfnod yr adroddiad monitro blynyddol hwn. Mae'r CCA hwn yn ceisio darparu arweiniad manwl ynghylch y modd y bydd yr Awdurdod Cynllunio yn delio â thelathrebu a datblygu mastiau ac yn darparu cefnogaeth i swyddogion achos. Mae'r CCA hefyd yn darparu arweiniad i gynorthwyo datblygwyr sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio a chymeradwyaethau ymlaen llaw. Cwblhawyd y CCA hefyd er mwyn cynnig ateb i'r galw cynyddol a'r ceisiadau am ddatblygiadau Telathrebu y mae'r Parc Cenedlaethol wedi'u gweld yn y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf yn ystod y cyfnod monitro hwn (ac sy'n debygol o aros yn uchel yn y cyfnod monitro nesaf). Mae hyn oherwydd ymgyrch i wella cysylltedd mewn ardaloedd gwledig o fewn y DU sy'n dod o dan y cynllun Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Ledled y DU (ar ran EE, O2, Three a Vodafone), nod y prosiect yw darparu gwasanaeth i 280,000 o adeiladau ychwanegol ac i 16,000km ychwanegol o ffyrdd. Ei nod hefyd yw gwella cwmpas daearyddol o fewn Parciau Cenedlaethol y DU, o'r lefelau presennol o 41%, i 74%. Mae hyn yn y pen draw yn arwain at geisiadau'n cael eu dwyn ymlaen a'u cyflwyno ym Mharc Cenedlaethol Eryri a bydd y CCA yn helpu i ddarparu arweiniad i sicrhau bod y datblygiadau yn y lleoliadau gorau posibl ac i osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar y dirwedd, tra hefyd yn ymdrin ag anghenion economaidd a chymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn creu rhai goblygiadau i'r adolygiad o'r cynllun, a'r adolygiad o'r polisi telathrebu, fodd bynnag bydd diogelu a phwyslais ar yr amgylchedd bob amser yn parhau'n flaenoriaeth.

7.12 Bydd angen rhoi ystyriaeth yn y CDLI yn y dyfodol i unrhyw oblygiadau defnydd tir o ganlyniad i'r canfyddiadau a gweithredu parcio a datrysiadau traffig sy'n deillio o'r Adroddiad Higgitt, a'r camau a gymerwyd gan y Grŵp Cyflenwi. Hefyd, dylid rhoi amlygrwydd i rôl Teithio Llesol yn yr adolygiad, gan roi ystyriaeth i Gynlluniau Teithio Llesol.

TABL 1: Fframwaith Monitro Gwerthuso Cynaliadwyedd

Mae adroddiad eleni yn cynnwys data 2020/21, 2021/2022 a 2022/2023 at ddibenion cymharu .

	Amcan y GC	Dangosydd Monitro	Ffynhonnell Data	Dadansoddiad
1	Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu	Cymhareb ynni adnewyddadwy (solar, gwynt domestig a hydro) caniatâd cynllunio prosiect a roddir yn erbyn ceisiadau cynllunio bob blwyddyn.	APCE	<p>2020/21 O'r holl ganiatadau cynllunio a roddwyd yn ystod y cyfnod hwn, roedd 0% ar gyfer Hydro, 0% ar gyfer Solar, 1% ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy eraill. Trwy bolisiau cynllunio yn y CDLI, mae'r Awdurdod yn cefnogi ceisiadau ynni adnewyddadwy domestig ar raddfa fach. Caniataodd yr Awdurdod bob un o'r 3 chais a dderbyniwyd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy 'eraill'. Roedd y rhain yn cynnwys pwmp gwres ffynhonnell aer, boeler biomas a throsiad ar gyfer boeler biomas.</p> <p>2021/2022 O'r holl ganiatadau cynllunio a roddwyd yn ystod y cyfnod hwn, roedd 0% ar gyfer Hydro, 0% ar gyfer Solar, 1% ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy eraill. Trwy bolisiau cynllunio yn y CDLI, mae'r Awdurdod yn cefnogi ceisiadau ynni adnewyddadwy domestig ar raddfa fach. Caniataodd yr Awdurdod bob un o'r 4 cais a dderbyniwyd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy 'eraill'. Roedd y rhain yn cynnwys tri phwmp gwres ffynhonnell aer, ac un boeler biomas.</p> <p>2022/2023 O'r holl ganiatadau cynllunio a roddwyd yn ystod y cyfnod hwn, roedd 0 ar gyfer Hydro, 8 (3%) ar gyfer Solar ac 3 (1%) ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy eraill. Trwy bolisiau cynllunio yn y CDLI, mae'r Awdurdod yn cefnogi ceisiadau ynni adnewyddadwy domestig ar raddfa fach. Caniataodd yr Awdurdod bob un o'r 3 cais a dderbyniwyd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy 'eraill'. Roedd y rhain yn cynnwys tri phwmp gwres ffynhonnell tir, ac un pwmp gwres ffynhonnell aer.</p> <p>2023/2024 O'r holl ganiatadau cynllunio a roddwyd yn ystod y cyfnod hwn, roedd 0 ar gyfer Hydro (0.0%), 17 (6.3%) ar gyfer Solar ac 4 (1.5%) ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy eraill. Trwy bolisiau cynllunio yn y CDLI, mae'r Awdurdod yn cefnogi ceisiadau ynni adnewyddadwy domestig ar raddfa fach. Caniataodd yr Awdurdod bob un o'r 4 cais a dderbyniwyd ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy 'eraill'. Derbyniwyd 20 cais am ddatblygiad Solar gyda 17 yn cael eu caniatáu, un yn cael ei wrthod, un yn cael ei dynnu yn nôl ac un ddim angen caniatad cynllunio.</p>
2	Sicrhau fod lleoliad a dyluniad datblygiad newydd yn dderbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd	Nifer y caniatâd cynllunio yn groes i gyngor CNC ar lifogydd.	CNC	<p>2020/21 Yn ystod y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw gais cynllunio yn groes i gyngor CNC ar lifogydd.</p> <p>2021/2022 Yn ystod y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw gais cynllunio yn groes i gyngor CNC ar lifogydd.</p>

				<p>2022/2023 Yn ystod y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw gais cynllunio yn groes i gyngor CNC ar lifogydd.</p> <p>2023/2024 Yn ystod y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw gais cynllunio yn groes i gyngor CNC ar lifogydd. Bu nifer o geisiadau ble roedd CNC yn cynnig awgrymiadau i'r ymgeisydd o ran sicrhau amddiffyn rhag llifogydd ond dim penderfyniad yn groes i'w argymhellion.</p>
		Nifer y datblygiadau newydd sy'n ymgorffori SuDS fel cymhareb o gyfanswm y caniatâd cynllunio a roddwyd.	APCE	<p>2020/2021 O 7 Ionawr 2019, bydd angen Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) ar gyfer dŵr wyneb ar bob datblygiad newydd o fwy nag un tŷ annedd neu lle mae'r arwynebedd adeiladu yn 100m² neu fwy. Rhaid i SDCau ar ddatblygiadau newydd gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â'r Safonau SDCau Statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a rhaid i Gynlluniau SDCau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n cyflawni ei rôl SAB, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.</p> <p>2021/2022 O 7 Ionawr 2019, bydd angen Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) ar gyfer dŵr wyneb ar bob datblygiad newydd o fwy nag un tŷ annedd neu lle mae'r arwynebedd adeiladu yn 100m² neu fwy. Rhaid i SDCau ar ddatblygiadau newydd gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â'r Safonau SDCau Statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a rhaid i Gynlluniau SDCau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n cyflawni ei rôl SAB, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.</p> <p>2022/ 2023 Dim gwybodaeth ar gyfer monitro'r dangosydd yma.</p> <p>2023/2024 Dim gwybodaeth ar gyfer monitro'r dangosydd yma.</p>
3	Hyrwyddo'r defnydd o ddeunydd cynaliadwy o ffynonellau lleol gan gynnwys ynni	Nifer a math o gynlluniau ynni adnewyddadwy gyda chaniatâd cynllunio bob blwyddyn.	APCE	<p>2020/2021 O'r 5 cais a dderbyniwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy rhwng 2020 a 2021, rhoddodd yr awdurdod ganiatâd i 4. Tynnwyd un cais ar gyfer Cynllun Trydan Dŵr 600kw yn ôl. Roedd y rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt yn cynnwys arâe paneli solar, boeler biomas a phwmp gwres ffynhonnell aer. Trwy bolisiau cynllunio yn y CDLI, mae'r Awdurdod yn cefnogi ceisiadau ynni adnewyddadwy domestig ar raddfa fach.</p> <p>2021/2022 O'r 5 cais a dderbyniwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy rhwng 2021 a 2022, rhoddodd yr awdurdod ganiatâd i 5. Roedd y rhai y rhoddwyd ganiatâd iddynt yn cynnwys boeler biomas, dau bwmp gwres ffynhonnell aer ac ailgyfeirio llifddor ar gynllun trydan dŵr. Trwy bolisiau cynllunio yn y CDLI, mae'r Awdurdod yn cefnogi ceisiadau ynni adnewyddadwy domestig ar raddfa fach.</p>

4	Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau trafndiaeth gynaliadwy a lleihau effaith ceir, cludo nwyddau ar y ffyrdd a seilwaith			<p>2022/ 2023 O'r 11 cais a dderbyniwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy rhwng 2022 a 2023, rhoddodd yr awdurdod ganiatâd i 11. Roedd y rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt yn cynnwys 7 cais am baneli solar (neu datblygiadau yn cynnwys paneli solar) a phwmp gwres ffynhonnell aer. Trwy bolisiau cynllunio yn y CDLI, mae'r Awdurdod yn cefnogi ceisiadau ynni adnewyddadwy domestig ar raddfa fach.</p>
				<p>2023/2024 O'r 24 cais a dderbyniwyd ar gyfer ynni adnewyddadwy rhwng 2023 a 2024, rhoddodd yr awdurdod ganiatad i 21. Roedd y rhai a ganiatawyd yn cynnwys 17 am baneli solar (neu datblygiadau yn cynnwys paneli solar) a phedwar datblygiad ynni adnewyddadwy 'arall', a oedd yn ddatblygiadau pwmp gwres ffynhonnell aer. Trwy bolisiau cynllunio yn y CDLI, mae'r Awdurdod yn cefnogi ceisiadau ynni adnewyddadwy domestig ar raddfa fach.</p>
		Nifer y datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio sy'n cyflawni dyfarniadau dylunio gwyrdd, fel canran o gyfanswm y ceisiadau cynllunio a roddir bob blwyddyn.	APCE	<p>2020/2021 Nid yw hwn yn ddangosydd y gellir ei fonitro'n hawdd gan yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn adrodd ar unrhyw ddyfarniadau dylunio gwyrdd y daw'n ymwybodol ohonynt.</p>
				<p>2021/2022 Dim gwybodaeth newydd.</p>
				<p>2022/2023 Dim gwybodaeth newydd</p>
				<p>2023/2024 Dim gwybodaeth newydd</p>
		Pellter datblygiadau newydd o wasanaeth trafndiaeth gyhoeddus.	APCE	<p>2020/2021 Roedd 60 allan o 99 o ddatblygiadau newydd o fewn 0.5km i safle bws, tra bod 87 o 99 o fewn 1.5km i safle bws. Roedd 39 allan o 99 hefyd o fewn 1.5km i orsaf drenau.</p>
				<p>2021/2022 Roedd 30 allan o 64 o ddatblygiadau newydd o fewn 0.5km i safle bws, tra bod 52 o 64 o fewn 1.5km i safle bws. Roedd 19 allan o 64 hefyd o fewn 1.5km i orsaf drenau.</p>
				<p>2022/2023 Roedd 22 allan o 33 o ddatblygiadau newydd o fewn 0.5km i safle bws, ac 25 o'r 33 o fewn 1.5km i safle bws. Roedd 14 o'r 33 hefyd o fewn 1.5km i orsaf drenau.</p>
				<p>2023/2024 Roedd 23 allan o 43 o ddatblygiadau newydd o fewn 0.5km i safle bws, ac 33 o'r 43 o fewn 1.5km i safle bws. Roedd 18 o'r 43 hefyd o fewn 1.5km i orsaf drenau.</p>
Taith i'r gwaith yn ôl modd	Cyfrifiad	<p>2020/2021 Dim gwybodaeth newydd</p>		
		<p>2021/2022 Dim gwybodaeth newydd</p>		

				2022/2023																																																																					
				<table border="1"> <thead> <tr> <th rowspan="2">Method of travel to workplace</th> <th colspan="2">Eryri</th> <th colspan="2">Wales</th> </tr> <tr> <th>number</th> <th>%</th> <th>number</th> <th>%</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Total: All usual residents aged 16 years and over in employment the week before the census</td> <td>11,221</td> <td>100.0</td> <td>1,368,445</td> <td>100.0</td> </tr> <tr> <td>Work mainly at or from home</td> <td>3,502</td> <td>31.2</td> <td>350,470</td> <td>25.6</td> </tr> <tr> <td>Underground, metro, light rail, tram</td> <td>3</td> <td>0.0</td> <td>595</td> <td>0.0</td> </tr> <tr> <td>Train</td> <td>42</td> <td>0.4</td> <td>11,559</td> <td>0.8</td> </tr> <tr> <td>Bus, minibus or coach</td> <td>102</td> <td>0.9</td> <td>31,448</td> <td>2.3</td> </tr> <tr> <td>Taxi</td> <td>11</td> <td>0.1</td> <td>7,606</td> <td>0.6</td> </tr> <tr> <td>Motorcycle, scooter or moped</td> <td>29</td> <td>0.3</td> <td>4,642</td> <td>0.3</td> </tr> <tr> <td>Driving a car or van</td> <td>5,988</td> <td>53.4</td> <td>772,621</td> <td>56.5</td> </tr> <tr> <td>Passenger in a car or van</td> <td>362</td> <td>3.2</td> <td>66,045</td> <td>4.8</td> </tr> <tr> <td>Bicycle</td> <td>107</td> <td>1.0</td> <td>15,081</td> <td>1.1</td> </tr> <tr> <td>On foot</td> <td>978</td> <td>8.7</td> <td>96,676</td> <td>7.1</td> </tr> <tr> <td>Other method of travel to work</td> <td>97</td> <td>0.9</td> <td>11,702</td> <td>0.9</td> </tr> </tbody> </table>	Method of travel to workplace	Eryri		Wales		number	%	number	%	Total: All usual residents aged 16 years and over in employment the week before the census	11,221	100.0	1,368,445	100.0	Work mainly at or from home	3,502	31.2	350,470	25.6	Underground, metro, light rail, tram	3	0.0	595	0.0	Train	42	0.4	11,559	0.8	Bus, minibus or coach	102	0.9	31,448	2.3	Taxi	11	0.1	7,606	0.6	Motorcycle, scooter or moped	29	0.3	4,642	0.3	Driving a car or van	5,988	53.4	772,621	56.5	Passenger in a car or van	362	3.2	66,045	4.8	Bicycle	107	1.0	15,081	1.1	On foot	978	8.7	96,676	7.1	Other method of travel to work	97	0.9	11,702	0.9
Method of travel to workplace	Eryri		Wales																																																																						
	number	%	number	%																																																																					
Total: All usual residents aged 16 years and over in employment the week before the census	11,221	100.0	1,368,445	100.0																																																																					
Work mainly at or from home	3,502	31.2	350,470	25.6																																																																					
Underground, metro, light rail, tram	3	0.0	595	0.0																																																																					
Train	42	0.4	11,559	0.8																																																																					
Bus, minibus or coach	102	0.9	31,448	2.3																																																																					
Taxi	11	0.1	7,606	0.6																																																																					
Motorcycle, scooter or moped	29	0.3	4,642	0.3																																																																					
Driving a car or van	5,988	53.4	772,621	56.5																																																																					
Passenger in a car or van	362	3.2	66,045	4.8																																																																					
Bicycle	107	1.0	15,081	1.1																																																																					
On foot	978	8.7	96,676	7.1																																																																					
Other method of travel to work	97	0.9	11,702	0.9																																																																					
				2023/2024 Dim gwybodaeth newydd/ychwanegol i'r flwyddyn flaenorol																																																																					
				2020/2021 Dim gwybodaeth newydd																																																																					
				2021/2022 Dim gwybodaeth newydd																																																																					
				2022/2023																																																																					
				<table border="1"> <thead> <tr> <th rowspan="2">Distance travelled to work</th> <th colspan="2">Eryri</th> <th colspan="2">Wales</th> </tr> <tr> <th>number</th> <th>%</th> <th>number</th> <th>%</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Total: All usual residents aged 16 years and over in employment the week before the census</td> <td>11,222</td> <td>100.0</td> <td>1,368,449</td> <td>100.0</td> </tr> <tr> <td>Less than 2km</td> <td>1,124</td> <td>10.0</td> <td>158,919</td> <td>11.6</td> </tr> <tr> <td></td> <td>579</td> <td>5.2</td> <td>163,384</td> <td>11.9</td> </tr> </tbody> </table>	Distance travelled to work	Eryri		Wales		number	%	number	%	Total: All usual residents aged 16 years and over in employment the week before the census	11,222	100.0	1,368,449	100.0	Less than 2km	1,124	10.0	158,919	11.6		579	5.2	163,384	11.9																																													
Distance travelled to work	Eryri		Wales																																																																						
	number	%	number	%																																																																					
Total: All usual residents aged 16 years and over in employment the week before the census	11,222	100.0	1,368,449	100.0																																																																					
Less than 2km	1,124	10.0	158,919	11.6																																																																					
	579	5.2	163,384	11.9																																																																					
	Y pellter cyfartalog a deithiwyd i'r gwaith	Cyfrifiad																																																																							

				2km to less than 5km					
				5km to less than 10km	794	7.1	174,625		12.8
				10km to less than 20km	1,068	9.5	174,245		12.7
				20km to less than 30km	769	6.9	75,403		5.5
				30km to less than 40km	410	3.7	31,059		2.3
				40km to less than 60km	468	4.2	22,351		1.6
				60km and over	469	4.2	27,546		2.0
				Works mainly from home	3,502	31.2	350,470		25.6
				Works mainly at an offshore installation, in no fixed place, or outside the UK	2,039	18.2	190,447		13.9
				2023/2024 Dim gwybodaeth newydd/ychwanegol i'r flwyddyn flaenorol					
		Nifer y gwasanaethau bysiau sy'n rhedeg yn y Parc Cenedlaethol	APCE, Gwynedd, Conwy	2020/2021 Dim gwybodaeth newydd					
				2021/2022 Dim gwybodaeth newydd					
				2022/2023 Dim gwybodaeth newydd					
				2023/2024 Dim gwybodaeth newydd/ychwanegol i'r flwyddyn flaenorol					
5	Amddiffyn a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd	Nifer y dirwedd Eithriadol a Gwerth Uchel fel y'i diffinnir o dan bum agwedd LANDMAP: diwylliannol, daearegol, cynefin tirwedd a gweledol a synhwyraidd.	APCE CCGC	2020/2021 Mae'r canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd a ddiffinnir o dan LANDMAP fel a ganlyn; <ul style="list-style-type: none"> Gweledol a Synhwyraidd - Dosbarthwyd 54.8% (63 allan o 115 ardal) o ardaloedd gweledol yn y Parc Cenedlaethol yn Uchel neu'n Eithriadol Diwylliannol - roedd 96.0% (48 allan o 50 ardal) o ardaloedd diwylliannol yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu dosbarthu fel Uchel neu Eithriadol Daearegol - Dosbarthwyd 93.9% (107 allan o 114 ardal) o ardaloedd daearegol yn y Parc Cenedlaethol yn Uchel neu'n Eithriadol Hanesyddol - Dosbarthwyd 89.3% (134 allan o 150 ardal) o ardaloedd hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol fel Uchel neu Eithriadol Cynefinoedd Tirwedd - Dosbarthwyd 38.9% (145 allan o 373 ardal) o ardaloedd tirwedd yn y Parc Cenedlaethol fel Uchel neu Eithriadol 					

				2021/2022 Dim newid
				2022/2023 Dim newid
				2023/2024 Dim newid
		Nifer y ceisiadau cynllunio a gafodd ganiatâd mewn ardaloedd o werth rhagorol a gwerth uchel fel y'u diffinnir gan LANDMAP.	LANDMAP	2020/2021 Mae nifer y ceisiadau cynllunio newydd ar gyfer yr ardaloedd a ddiffinnir o dan LANDMAP fel a ganlyn; <ul style="list-style-type: none"> • Gweledol a Synhwyrdd - 44 yn Uchel a 0 mewn ardaloedd Eithriadol • Diwylliannol - 30 yn Uchel a 51 mewn ardaloedd Eithriadol • Daearegol – 15 mewn Uchel a 67 mewn ardaloedd Eithriadol • Hanesyddol - 34 yn Uchel a 51 mewn ardaloedd Eithriadol • Cynefinoedd Tirwedd - 11 yn Uchel ac 16 mewn ardaloedd Eithriadol
				2021/2022 Mae nifer y ceisiadau cynllunio newydd ar gyfer yr ardaloedd a ddiffinnir o dan LANDMAP fel a ganlyn; <ul style="list-style-type: none"> • Gweledol a Synhwyrdd - 151 yn Uchel ac 16 mewn ardaloedd Eithriadol • Diwylliannol - 117 yn Uchel a 157 mewn ardaloedd Eithriadol • Daearegol – 35 yn Uchel a 244 mewn ardaloedd Eithriadol • Hanesyddol - 115 yn Uchel a 118 mewn ardaloedd Eithriadol Cynefinoedd Tirwedd - 28 yn Uchel a 33 mewn ardaloedd Eithriadol
				2022/2023 Dim gwybodaeth newydd.
				2023/2024 Dim gwybodaeth newydd
		Maint yr ardaloedd tawel yn y Parc Cenedlaethol	APCE	2020/2021 Dim newid

				2021/2022 Dim newid
				2022/2023 Dim gwybodaeth newydd
				2023/2024 Dim gwybodaeth newydd
6	Amddiffyn a gwella ansawdd aer	Lefelau llygryddion aer yn y Parc Cenedlaethol - yn seiliedig ar Adolygiad ac Asesiadau Ansawdd Aer ar gyfer Gwynedd a Conwy.	Cynghorau Gwynedd a Chonwy	2020/2021 Dim gwybodaeth newydd.
				2021/2022 Dim gwybodaeth newydd
				2022/2023 Dim gwybodaeth newydd
				2023/2024 Dim gwybodaeth newydd
7	Gwarchod ansawdd priddoedd trwy leihau halogiad a gwarchod swyddogaeth y pridd	Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cynnwys adfer y safle a'r ardal o dir sy'n cael ei adfer.	APCE	2020/2021 Dim gwybodaeth newydd
				2021/2022 Dim gwybodaeth newydd
				2022/2023 Dim gwybodaeth newydd
				2023/2024 Dim gwybodaeth newydd
		Canran y datblygiadau newydd a roddwyd caniatâd cynllunio ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.		2020/2021 Nifer yr unedau tai newydd y rhoddwyd caniatâd iddynt ar dir a ddatblygwyd o'r blaen yn ystod cyfnod yr AMB hwn yw 16/34, sef 47%.
				2021/2022 Nifer yr unedau tai newydd y rhoddwyd caniatâd iddynt ar dir a ddatblygwyd o'r blaen yn ystod cyfnod yr AMB hwn yw 9/9, sef 100%
				2022/2023 Nifer yr unedau tai newydd y rhoddwyd caniatâd iddynt ar dir a ddatblygwyd o'r blaen yn ystod cyfnod yr AMB hwn yw 8/14, sef 57%.
				2023/2024 Nifer yr unedau tai newydd y rhoddwyd caniatâd iddynt ar dir a ddatblygwyd o'r blaen yn ystod cyfnod yr AMB hwn yw 17/45, sef 38%.
8	Diogelu daeareg a geomorffoleg y	Cyflwr RIGS yn y Parc Cenedlaethol.		2020/2021 Dynodwyd RIGS yn Safleoedd Daearegol / Geomorffolegol Pwysig Rhanbarthol yng Ngwarchodaeth Natur y DU "Cadwraeth Gwyddor Daeareg ym Mhrydain Fawr: Strategaeth" (1990), gan ei fod o safon sy'n werth ei gydnabod a'i amddiffyn fel safleoedd anstatudol, i ategu'r SoDdGA a'r GNC

	Parc Cenedlaethol			<p>dan warchodaeth statudol. Bellach gelwir safleoedd RIGS yng Nghymru yn Safleoedd Bioamrywiaeth Rhanbarthol.</p> <p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfrannu at archwiliad Cymru gyfan o RIGS trwy gymorth ariannol a thechnegol. Yr archwiliad a ddechreuodd yn 2003, yw'r asesiad cenedlaethol cynhwysfawr cyntaf o safleoedd ail haen yng Nghymru. Fe'i gwnaed i raddau helaeth gan y grwpiau RIGS lleol a Gwyddonwyr Daear CNC gyda'r mwyafrif o'r cyllid yn dod o'r Gronfa Cynaliadwyedd Ardoll Agregau, ond gyda chyfraniad ariannol gan CNC i'r prosiect yng Ngogledd Cymru. Arweiniodd yr archwiliad at safoni dogfennaeth y safle, digideiddio ffiniau safleoedd i fformat cyffredin a sicrhau bod y tirlfeddianwyr a'r awdurdodau cynllunio yn cael gwybod am y RIGS.</p> <p>Mewnbyn mawr gan CNC oedd datblygu cronfa ddata GIS ar gyfer y prosiect lle cafodd pob un o'r tua 600 o safleoedd a gofrestrwyd hyd yma eu digideiddio gan CNC. Ar hyn o bryd mae CNC yn cynnal y data GIS hyn.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae 47 o RIGS yn y Parc Cenedlaethol.</p>
				<p>2021/2022 Dim newid .</p>
				<p>2022/2023 Dim newid. Anodd casglu'r wybodaeth er mwyn monitro'r dangosydd yma.</p>
				<p>2023/2024 Dim newid</p>
9a	Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth	Cyflwr safleoedd dynodedig gan gynnwys ACA, ACA, Ramsar, SODdGA, GNC, GNLL.	APCE CNC	<p>2020/2021 Ni dderbyniwyd y wybodaeth hon gan CNC ar gyfer y cyfnod monitro hwn.</p>
				<p>2021/2022 Ni dderbyniwyd y wybodaeth hon gan CNC ar gyfer y cyfnod monitro hwn</p>
				<p>2022/2023 Dim gwybodaeth newydd</p>
				<p>2023/2024 Dim gwybodaeth newydd. Traffertion medru cael data a gwybodaeth ar gyfer hwn yn y blynyddoedd diweddar</p>
9b	Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth	Cyflwr a statws rhywogaethau a chynefinoedd CGBLL.		<p>2020/2021 Dim gwybodaeth newydd.</p>
				<p>2021/2022 Dim gwybodaeth newydd</p>
				<p>2022/2023 Dim gwybodaeth newydd</p>
				<p>2023/2024 Dim gwybodaeth newydd. Traffertion medru cael data a gwybodaeth ar gyfer hwn yn y blynyddoedd diweddar</p>

9c	Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth	Nifer y caniatâd cynllunio sy'n effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd CGBLL		2020/2021 Dim gwybodaeth newydd.
				2021/2022 Dim gwybodaeth newydd
				2022/2023 Dim gwybodaeth newydd
				2023/2024 Dim gwybodaeth newydd
9d	Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth	Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n arwain at golli gwrychoedd a ffiniau caeau (lle mae hyn yn digwydd dylid coladu hyd colli manylion am rywogaethau).		2018/2019 Cynlluniau plannu gwrychoedd - arweiniodd 39 cynllun at blannu 11,308 metr o 79,156 o wrychoedd . Bu cynnydd yn y nifer o gynlluniau plannu gwrych oherwydd y cynnydd yn y ffynhonnell y cyllid ar gyfer y gwaith hwn, megis Cynllun Cynaliadwy Rheoli (CRhC) Grantiau Eden, CRhC Ffermwyr Ifanc, Cynllun Parc Coetir, Menter Gwella Tirwedd Y Grid Cenedlaethol Maentwrog (MGT) Gorllewinol, Y Grid Cenedlaethol Maentwrog Dwyreiniol, a MGT Ffiniau Traddodiadol y Grid Cenedlaethol. Coetiroedd a blannwyd - 2.81 ha o 4496 w coetir ail-blannu ar ôl 16 o gynlluniau.
				2022/2023 Dim gwybodaeth newydd
				2023/2024 Dim gwybodaeth newydd
10a	Gwerthfawrogi a gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archeoleg a thirwedd hanesyddol	Cyflwr yr Ardaloedd Cadwraeth ac i ba raddau y mae datblygiad newydd yn gyson â'r Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth.	APCE Cadw Archeolegol Gwynedd	2020/2021 Dim gwybodaeth newydd
				2021/2022 Gan nad yw'r asesiadau Ardal Gadwraeth a chynlluniau rheoli wedi'u cwblhau eto, mae'n anodd penderfynu p'un a yw ardaloedd cadwraeth wedi'u gwella gan gynigion datblygu. Ystyriwyd cadw a gwella ardaloedd cadwraeth fel rhan o'r broses benderfynu.
				2022/2023 Dim gwybodaeth newydd

				<p>2023/2024</p> <p>Mae'r Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli wedi'u drafftio ynghyd â chanllawiau ar wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae'r Gwerthusiadau a'r Cynlluniau Rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r camau nesaf yn cynnwys mabwysiadu ffurfiol fel ystyriaeth gynllunio berthnasol. Gan nad yw'r asesiadau Ardal Gadwraeth a'r cynlluniau rheoli wedi'u mabwysiadu eto fel ystyriaeth gynllunio perthnasol, mae'n anodd penderfynu a yw cynigion datblygu wedi gwella ardaloedd cadwraeth. Er hyn, mae cadw a gwella ardaloedd cadwraeth wedi cael ei ystyried fel rhan o'r broses benderfynu ar geisiadau cynllunio. Oherwydd Prosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau, mae llawer o welliannau wedi'u gwneud i'r Ardal Gadwraeth. Gweler yr adran 'Astudiaethau Achos' am ragor o wybodaeth. Yn ogystal bu gweithredu yn rhan o'r Prosiect Ardaloedd Cadwraeth o pedwar digwyddiad galw i mewn ar draws y Parc Cenedlaethol gydag arbenigwyr ym maes Cadwraeth Adeiladau yn hyrwyddo'r prosiect ac yn hyrwyddo gwybodaeth am wahanol ddulliau addas a chynaliadwy o wella effeithlonrwydd ynni adeiladau traddodiadol o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Yn ogystal, roedd cynllun grant ar gael i gynorthwyo gyda gwelliannau effeithlonrwydd ynni a / neu uwchraddio thermol eiddo cyhoeddus, cymunedol a masnachol o fewn Ardaloedd Cadwraeth dynodedig y Parc Cenedlaethol, megis Eglwysi / Capeli, Neuaddau Cymunedol, Llyfrgelloedd, Tafarndai Cymunedol, a Siopau Pentref. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau oedd 3 Mawrth 2023 a phenderfynwyd ar y cais llwyddiannus. Mae'r gwaith y cais llwyddiannus bellach wedi'i gwblhau ac yn cael ei hystyried yn cael effaith positif ar yr ardal gadwraeth Betws y Coed ble lleolir yr adeilad.</p>																		
10b	Gwerthfawrogi a gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archeoleg a thirwedd hanesyddol	Cyflwr Henebion Rhestredig.	CADW	<p>2020/2021. Mae data a ddarparwyd gan Cadw yn ystod 2021 yn dangos y canlynol:</p> <p>Ymwelwyd â 286 o'r 377 o Henebion Cofrestredig yn y Parc yn ystod y (5ed) rownd bresennol o ymweliadau, a ddechreuodd ar 01/04/2011:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Cyflwr</th> <th>Nifer y safleoedd</th> <th>%</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Wedi gwella</td> <td>19</td> <td>5</td> </tr> <tr> <td>Sefydlog</td> <td>248</td> <td>66</td> </tr> <tr> <td>Wedi gwaethygu</td> <td>110</td> <td>29</td> </tr> </tbody> </table> <p><u>Lefelau Henebion mewn Perygl (MaR):</u></p> <table border="1"> <tbody> <tr> <td>Low</td> <td>130</td> </tr> <tr> <td>Medium</td> <td>125</td> </tr> <tr> <td>High</td> <td>31 (2x High Immediate, 29x High)</td> </tr> </tbody> </table>	Cyflwr	Nifer y safleoedd	%	Wedi gwella	19	5	Sefydlog	248	66	Wedi gwaethygu	110	29	Low	130	Medium	125	High	31 (2x High Immediate, 29x High)
Cyflwr	Nifer y safleoedd	%																				
Wedi gwella	19	5																				
Sefydlog	248	66																				
Wedi gwaethygu	110	29																				
Low	130																					
Medium	125																					
High	31 (2x High Immediate, 29x High)																					

2. Decin pren a theras grisiog
Mae decin pren a theras palmantog wedi'u gosod ar ochr ac yng ngardd gefn yr annedd. Mae arwynebedd y teras carreg yn gorchuddio dwy haen o'r ardd, gyda'r decin pren wedi'i gyfyngu i'r rhan ddwyreiniol uchaf.
3. Sied gardd fetel a storfa goed o wneuthuriad pren
Mae'r storfa bren wedi'i gosod ar ffin ochr chwith y tir uwchben y teras ac yn agos at y decin. Disgrifir y storfa gan yr asiant fel un “*pellennig ac ar wahân*”. Yn ogystal, mae'r sied ardd fetel wedi ei lleoli ar y rhan teras o'r ardd ac yng nghefn yr eiddo.
4. Amnewid ffenestri to ar y to llethr cefn
Disodlwyd y ffenestri to blaenorol ar yr eiddo gyda ffenestri to “*o arddull a maint tebyg*” ac maent ar lethr to cefn yr eiddo.

Polisiâu Cynllun Datblygu:

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031

- Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiad Cynaliadwy
- Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol
- Polisi Strategol Ff: Amgylchedd Hanesyddol
- Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol
- Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy
- Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol

Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA):

- CCA 1: Dylunio Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru
- CCA 2: Aseiad Datblygiad Cyffredinol
- CCA 6: Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth

Polisi / Canllaw Cenedlaethol:

- Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Gol 12) 2024 a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol 2017 (NCT 24)

Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned Maentwrog	Dim Ymateb
Cynghorydd Lleol	Dim Ymateb
Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol	<p>Mae i'r ardaloedd dyrchafedig gael eu lliniaru.</p> <p>Mae'r gwaith wedi ei gwblhau i safon uchel, er eu bod yn amharu ar osodiad yr adeilad rhestredig.</p> <p>Bydd y pren yn hindreulio'n naturiol i lwyd arian, a fydd yn lleihau ei effaith, fodd bynnag mae angen sgrinio ychwanegol.</p> <p>Gellir gosod planhigion dringo ar y ffens i sgrinio'r ardaloedd pren. Dylai'r ymgeisydd dderbyn cyngor gan arbenigwr i nodi cynllun ar gyfer rhywogaethau brodorol priodol a all gyflawni'r nod hwn.</p>
Ecoleg	Heb ei dderbyn eto

Ymateb i Gyhoeddusrwydd:


Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais ar ffurf rhybudd safle a llythyrau yn rhoi gwybod i gymdogaion.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ni dderbyniwyd unrhyw lythyrau yn gwrthwynebu / cefnogi.

Asesiad:

1. *Egwyddor Datblygiad*
 - 1.1 Mae Polisi Datblygu 6 (Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy) a Pholisi Strategol Ff (Amgylchedd Hanesyddol) yn berthnasol gan fod y cais hwn yn ymwneud ag eiddo Gradd II o fewn Ardal Gadwraeth Maentwrog.
 - 1.2 Mae Polisi Datblygu 1 (Egwyddorion Datblygu Cyffredinol) yn ymwneud â chadwraeth gyffredinol a gwella rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri. Mae maen prawf (i) hyd at (iv) yn berthnasol i'r cynnig hwn ac yn ymwneud yn bennaf â graddfa a dyluniad y datblygiad.
 - 1.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12), paragraffau 6.1.14 i 6.1.17 'Ardaloedd Cadwraeth' yn arbennig, yn berthnasol i'r cais hwn. Mae'r canllawiau yn annog awdurdodau cynllunio lleol i ddiogelu cymeriad ac ymddangosiad ardaloedd cadwraeth. Cyflawnir hyn gan ddatblygiadau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol neu niwtral i olwg yr ardal gadwraeth. Gellir ystyried mesurau lliniaru lle bo'n berthnasol.
2. *Asesiad Cynllunio*
 - 2.1 Mae'r waliau cerrig cynnal ar ochr yr eiddo wedi'u dymchwel a'u hail adeiladu gan ddefnyddio'r cerrig a achubwyd. Gosodwyd y waliau hyn mewn gwahanol fannau o fewn yr ardd bresennol i gynnal yr ardal uwch y tu ôl i'r maes parcio, gan gynnwys y wal fwyaf ar y gwaelod. Mae'r asiant yn datgan bod y waliau wedi eu hail adeiladu yn eu lleoliadau presennol ac, o ddadansoddi lluniau blaenorol o'r safle, ymddengys fod hyn yn gywir. Mae lliw a gorffeniad y wal a'r cerrig sydd wedi cael eu defnyddio yn dderbyniol ac nid ydynt yn cael effaith andwyol ar yr eiddo rhestredig na'r ardal cadwraeth ehangach. Mae ei leoliad, uchder, ffurf a graddfa yn gydnaws â chynhwysedd a chymeriad y safle ac felly mae'n cydymffurfio â maen prawf Polisi Datblygu 1 (i) o Gynllun Datblygu Lleol Eryri.

Ffigur 1 – Yr ardd fel y'i gwelir o'r Ffordd Gyfagos (25.09.24)



- 2.2 Ar gefn uchaf yr eiddo mae decin pren a dwy haen ar wahân o deras palmantog wedi'u gosod. Mae'r decin pren wedi'i gyfyngu i gornel ddwyreiniol uchaf y cwrtil ac, fel pob rhan arall o'r ardd, mae wedi'i amgylchynu gan ffensys pren. Er y gall pren, yn yr achos hwn, fod yn ddeunydd addas, mae ei liw yn tynnu sylw oddi ar yr eiddo rhestredig ac yn cael effaith negyddol ar yr ardal gadwraeth ehangach. Fodd bynnag, gyda mesurau lliniaru addas ar ffurf hybu tyfiant planhigion ar gyfer sgrinio a chaniatáu i'r pren hindreulio'n naturiol, bydd hyn yn helpu i niwtraleiddio eu heffaith ar y lleoliad ehangach. Sicrheir y mesurau hyn trwy amod. Yn ogystal, gellir gweld ffens bren yng ngerddi cefn eiddo cyfagos ar y teras. Yn wyneb hyn, nid yw'r ffens yn rhy amlwg yn y dirwedd ehangach.
- 2.3 Mae'r teras palmantog yn gorchuddio rhan sylweddol o'r ardd. O'r dogfennau a gyflwynwyd gyda'r cais a'r ffotograffau sydd gan yr Awdurdod, roedd rhan o'r ardd wedi'i phalmantu cyn cwblhau'r gwaith hwn. Fodd bynnag, nid yw ei faint yn hysbys. Serch hynny, mae'r terasau wedi'i orffen â charreg naturiol a, thros amser, mae'n debygol y bydd y cerrig hyn hefyd yn hindreulio ac yn cydymffurfio â Pholisi Datblygu 1 a Pholisi Datblygu 6. Bydd hyn yn lleihau eu heffaith weledol. Unwaith y bydd lliw'r decin a'r ardaloedd teras wedi mynd yn ddwl o ran ymddangosiad, nid ydynt yn debygol o amharu ar gymeriad yr eiddo rhestredig ac ni fyddant yn rhy amlwg yn y dirwedd. O'r herwydd, gellir eu hystyried yn unol â maen prawf Polisi Datblygu 1 (ii) a (iii) a Pholisi Datblygu 6.

Ffigur 2 – Gardd fel y'i Gwelir o'r Cefn (Ar-lein 2023/24)



- 2.4 Mae'r sied ardd fetel yn union y tu ôl i'r eiddo, mae hon wedi'i chuddio i raddau helaeth ac felly o'r golwg. Yn yr un modd, gellir dod o hyd i siediau yng ngerddi eiddo cyfagos ar y teras. Mae ei uchder, ffurf a graddfa yn gydnaws â chymeriad a chynhwysedd y safle ac oherwydd ei fod wedi'i leoli y tu ôl i'r eiddo, ychydig iawn o effaith y mae'n ei gael. Yn yr un modd, nid yw'r storfa bren yng nghornel ddwyreiniol uchaf yr ardd yn cael effaith arbennig o negyddol ar yr annedd na'r ardal gadwraeth ehangach. Mae ei leoliad yn golygu, er ei fod yn weladwy, na ellir ei weld yn hawdd o'r ffordd fawr a bydd y tirlunio posibl ar y tir cyfagos (ochr chwith) yn debygol o ddarparu gorchudd ar gyfer y storfa bren yn ystod misoedd yr haf, gan ei sgrinio ymhellach.
- 2.5 Mae'r ffenestri to ar lethr cefn y to wedi'u tynnu a'u hadnewyddu. Amcangyfrifodd yr asiant fod y ffenestri to gwreiddiol wedi'u gosod rhyw ugain mlynedd yn ôl, yn unol â'r Aseiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (AET). Gan fod y gwaith wedi digwydd beth amser yn ôl, ni ofynnwyd am arolwg ystlumod rhagarweiniol. Honnir bod yr unedau newydd wedi'u disodli'n uniongyrchol - yn debyg o ran arddull a maint - i'r ffenestri to blaenorol. Nid oes cofnod blaenorol o'r ffenestri to wedi derbyn caniatâd. Fodd bynnag, gan eu bod y tu cefn i'r eiddo ac wedi'u cuddio o'r golwg, ychydig iawn o effaith y maent yn ei gael.
- 2.6 Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cyflwyno cynllun gwella bioamrywiaeth a Datganiad Seilwaith Gwyrdd. Mae plannu, ar ffurf hadau blodau gwyllt, plannu llwyni, a choed, eisoes wedi'u cyflwyno yn dilyn y gwaith. Yn ogystal, mae bocs tylluanod wedi ei osod ar goeden yn yr ardd gefn. Credir y bydd y mesurau hyn yn arwain at fudd net seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth ar ôl eu cwblhau. Yn gyffredinol, mae'r cynllun yn cydymffurfio â Pholisi Strategol D Cynllun Datblygu Lleol Eryri.

3. Casgliad

- 3.1 Mae'r cynnig hwn, er ei fod yn ôl-weithredol, yn cydymffurfio â'r polisiau perthnasol a drafodwyd uchod. Er bod materion, megis lliw y pren, gellir eu lliniaru er mwyn sicrhau bod y gwaith gorffenedig yn cael effaith niwtral ar y dirwedd, annedd rhestredig, ac ardal gadwraeth ehangach.

Papurau Cefndirol ym Mhentwr Dogfennau Rhif 1: Na


ARGYMHELLIAD: RHOI caniatâd gyda'r amodau a ganlyn:

- 1) Rhaid cyflawni'r datblygiad a ganiateir drwy hyn yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy a ganlyn:
 - 01 Lleoliad a Chynllun Bloc – A.2/24 (derbyniwyd 31/05/2024)
 - 02 Cynllun Tir Presennol – A.2/24 (derbyniwyd 31/05/2024)
 - 03 Gwedduniau Presennol – A.2/24 (derbyniwyd 31/05/2024)
 - 04 Cynllun Safle Presennol – A.2/24 (derbyniwyd 31/05/2024)
 - 05 Cynllun Tir Arfaethedig – A.2/24 (derbyniwyd 31/05/2024)
 - 06 Gwedduniau Arfaethedig – A.2/24 (derbyniwyd 31/05/2024)
 - 07 Cynllun Safle Arfaethedig – A.2/24 (derbyniwyd 31/05/2024)
 - 08 Manylion y Drws – A.2/24 (derbyniwyd 31/05/2024)
 - 09 Manylion Ffenestr – A.2/24 (derbyniwyd 31/05/2024)
 - Datganiad Seilwaith Gwyrdd (derbyniwyd 02/10/2024)
 - Cynllun Ychwanegiad Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd – Diwygiedig Hydref 2024 (Derbyniwyd 02/10/2024)
- 2) Ni chaniateir i'r ffens bren a'r decin allanol, nac unrhyw ailosodiad dilynol a wneir ar sail tebyg, gael eu staenio, eu paentio na'u trin gyda chreosot.
- 3) O fewn 3 mis i'r caniatâd a ganiateir drwy hyn, bydd manylion plannu sgrin ar gyfer y decin dwyreiniol uchaf yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod eu cymeradwyo trwy gyfrwng cais ffurfiol. Bydd y manylion plannu sgrin a gymeradwyir yn cael eu cyflawni yn y tymor plannu cyntaf ar ôl eu cymeradwyo a'u cadw felly wedi hynny.
- 4) Bydd y mesurau gwella bioamrywiaeth a gynhwysir yn y Datganiad Seilwaith Gwyrdd yn cael eu gweithredu o fewn 3 mis i'r hysbysiad penderfyniad hwn a'u cadw wedi hynny.



Rhesymau:

- 1) Er mwyn diffinio'r caniatâd ac i osgoi unrhyw amheuaeth.

- 2) Er mwyn caniatáu i'r pren allanol hindreulio'n naturiol ac i ddiogelu cymeriad ac edrychiad yr ardal gyfagos yn unol â Pholisïau Cynllun Datblygu Lleol Eryri ac yn arbennig Polisiâu A, 1, 6 a 7.
- 3) Er mwyn gwarchod a gwella mwynderau gweledol yr ardal, yn unol â pholisïau Cynllun Datblygu Lleol Eryri ac yn arbennig Polisi 1.
- 4) Er mwyn sicrhau gwelliant bioamrywiaeth yn unol â Pholisi Strategol D Cynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiedig a pharagraff 6.4.5 Polisi Cynllunio Cymru.



Maentwrog




1 Block Plan
1 : 200



2 Location Plan
1 : 1250




AMENDMENTS		
NO	Date	By
Do not scale this drawing Site dimensions to be checked This drawing is copyright		
ADDRESS 1 FRONFAIR, MAENTWROG		
TITLE LISTED BLDG APPLICATION FOR REMEDIAL WORKS		
DRAWING 01 Location & Block Plan		
REF A.2/24	DRAWING NO. 01	
SCALE @A3 1:200 1:1250		
DRAWN GLA DATE April 24		
GERAINT LEWIS ASSOCIATES		
ARCHITECTURAL DESIGNERS, PLANNING CONSULTANTS BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS		
BRYN RHEDYN, LLANELLYD DOLGELLAU, GWYNEDD, LL40 2SU TELEPHONE: 01341 422370		




1 Ground Floor Plan
1 : 50




AMENDMENTS		
NO	Date	By
<p>Do not scale this drawing Site dimensions to be checked This drawing is copyright</p>		
<p>ADDRESS 1 FRONFAIR, MAENTWROG</p>		
<p>TITLE LISTED BLDG APPLICATION FOR REMEDIAL WORKS</p>		
<p>DRAWING 02 Existing Ground Plan</p>		
REF	DRAWING NO.	
A.2/24	02	
SCALE @A3 1 : 50		
DRAWN GLA	DATE April 24	
<p>GERAINT LEWIS ASSOCIATES</p> <p>ARCHITECTURAL DESIGNERS, PLANNING CONSULTANTS BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS</p> <p>BRYN RHEDYN, LLANELLYD DOLGELLAU, GWYNEDD, LL40 2SU TELEPHONE: 01341 422370</p>		




1 Side Elevation
1 : 100



2 Front Elevation
1 : 100



3 Rear Elevation
1 : 100



4 Side Elevation
1 : 100

AMENDMENTS NO	Date	By

Do not scale this drawing
Site dimensions to be checked
This drawing is copyright

ADDRESS
1 FRONFAIR,
MAENTWROG

TITLE
LISTED BLDG APPLICATION
FOR REMEDIAL WORKS

DRAWING
03 Existing Elevations

REF	DRAWING NO.
A.2/24	03

SCALE @A3 1 : 100

DRAWN GLA **DATE** April 24

GERAINT LEWIS ASSOCIATES

ARCHITECTURAL DESIGNERS,
PLANNING CONSULTANTS
BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS

BRYN RHEDYN, LLANELLYD
DOLGELLAU, GWYNEDD, LL40 2SU
TELEPHONE: 01341 422370






1 Site Plan
1 : 100




AMENDMENTS		Date	By
NO			
<p>Do not scale this drawing Site dimensions to be checked This drawing is copyright</p>			
<p>ADDRESS 1 FRONFAIR, MAENTWROG</p>			
<p>TITLE LISTED BLDG APPLICATION FOR REMEDIAL WORKS</p>			
<p>DRAWING 04 Existing Site Plan</p>			
REF	DRAWING NO.		
A.2/24	04		
SCALE @A3		1 : 100	
DRAWN	GLA	DATE	April 24
<p>GERAINT LEWIS ASSOCIATES</p>			
<p>ARCHITECTURAL DESIGNERS, PLANNING CONSULTANTS BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS</p>			
<p>BRYN RHEDYN, LLANELLYD DOLGELLAU, GWYNEDD, LL40 2SU TELEPHONE: 01341 422370</p>			



1 Ground Floor Plan
1 : 50



AMENDMENTS		Date	By
NO			
<p>Do not scale this drawing Site dimensions to be checked This drawing is copyright</p>			
<p>ADDRESS 1 FRONFAIR, MAENTWROG</p>			
<p>TITLE LISTED BLDG APPLICATION FOR REMEDIAL WORKS</p>			
<p>DRAWING 05 Proposed Ground Plan</p>			
REF	DRAWING NO.		
A.2/24	05		
SCALE @A3 1:50			
DRAWN GLA	DATE April 24		
GERAINT LEWIS ASSOCIATES			
ARCHITECTURAL DESIGNERS, PLANNING CONSULTANTS BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS			
BRYN RHEDYN, LLANELLYD DOLGELLAU, GWYNEDD, LL40 2SU TELEPHONE: 01341 422370			




1 Side Elevation
1 : 100



2 Front Elevation
1 : 100

Porch Canopy To Be Removed

Existing Retaining Wall Re Built In Original Location Utilising The Salvaged Stone Work




3 Rear Elevation
1 : 100

Line Of Party Wall

Replacement Velux Rooflights In Present Location

Boiler Outlet



4 Side Elevation
1 : 100

Stone Retaining Wall Re Built

Line Of Party Wall

ADJ PROPERTY

AMENDMENTS NO	Date	By

Do not scale this drawing
Site dimensions to be checked
This drawing is copyright

ADDRESS
1 FRONFAIR,
MAENTWROG

TITLE
LISTED BLDG APPLICATION
FOR REMEDIAL WORKS

DRAWING
06 Proposed Elevations

REF	DRAWING NO.
A.2/24	06

SCALE @A3 1 : 100


DRAWN GLA **DATE** April 24

GERAINT LEWIS ASSOCIATES
ARCHITECTURAL DESIGNERS,
PLANNING CONSULTANTS
BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS

BRYN RHEDYN, LLANELLYD
DOLGELLAU, GWYNEDD, LL40 2SU
TELEPHONE: 01341 422370



Wood Store



PATH

Timber Decking Finish To Terrace Area

Timber Sleeper Wall

Stone Slabbing To Terraces

Blockwork Wall

ADJ PROPERTY


1 Site Plan

1 : 100



AMENDMENTS		Date	By
NO			
<p>Do not scale this drawing Site dimensions to be checked This drawing is copyright</p>			
<p>ADDRESS 1 FRONFAIR, MAENTWROG</p>			
<p>TITLE LISTED BLDG APPLICATION FOR REMEDIAL WORKS</p>			
<p>DRAWING 07 Proposed Site Plan</p>			
REF	DRAWING NO.		
A.2/24	07		
SCALE @A3		1 : 100	
DRAWN	GLA	DATE	April 24
<p>GERAINT LEWIS ASSOCIATES</p>			
<p>ARCHITECTURAL DESIGNERS, PLANNING CONSULTANTS BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS</p>			
<p>BRYN RHEDYN, LLANELLYD DOLGELLAU, GWYNEDD, LL40 2SU TELEPHONE: 01341 422370</p>			


FRONT



DOOR DETAILS. 1:20/1:2

AMENDMENTS		
NO	Date	By
<p>Do not scale this drawing Site dimensions to be checked This drawing is copyright</p>		
<p>ADDRESS 1 FRONFAIR, MAENTWROG</p>		
<p>TITLE LISTED BLDG APPLICATION FOR REMEDIAL WORKS</p>		
<p>DRAWING 08 Door Detail</p>		
REF	DRAWING NO.	
A.2/24	08	
SCALE @A3		
DRAWN	GLA	DATE April 24
<p>GERAINT LEWIS ASSOCIATES</p>		
<p>ARCHITECTURAL DESIGNERS, PLANNING CONSULTANTS BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS</p>		
<p>BRYN RHEDYN, LLANELLYD DOLGELLAU, GWYNEDD, LL40 2SU TELEPHONE: 01341 422370</p>		

AMENDMENTS NO	Date	By
Do not scale this drawing Site dimensions to be checked This drawing is copyright		
ADDRESS	1 FRONFAIR, MAENTWROG	
TITLE	LISTED BLDG APPLICATION FOR REMEDIAL WORKS	
DRAWING	09 Window Detail	
REF	DRAWING NO.	
A.2/24	09	
SCALE @A3		
DRAWN	GLA	DATE April 24
GERAINT LEWIS ASSOCIATES		
ARCHITECTURAL DESIGNERS, PLANNING CONSULTANTS BUILDING SURVEYORS & PROJECT MANAGERS		
BRYN RHEDYN, LLANELLYD DOLGELLAU, GWYNEDD, LL40 2SU TELEPHONE: 01341 422370		





**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
16 HYDREF 2024**

CYTUNDEBAU ADRAN 106

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD, 16 HYDREF 2024.**

CYTUNDEBAU ADRAN 106

Rhif	Rhif y cais	Dyddiad y daeth y cais i law	Lleoliad	Datblygiad	Y Sefyllfa Ddiweddaraf
1.	NP5/55/46G	12/07/2023	Fferm Geufron, Brynchrug, LL36 9RW	Trosi sgubor a stabl yn llety gwyliau tymor byr	Cytundeb draft wedi ei yrru 19/08/24.
2.	NP5/62/T143B	05/10/2022	Tanws Wern Gron, Llanbedr. LL45 2PH	Adfer, ymestyn a trosi hen felin i dy, creu cwrtil, a gosod tanc septig tanddaearol	Manylion perchnogion wedi newid, aros am gopi Newydd or tetl Cofrestra Tir ers 03/09/24.
3.	NP5/77/347	18/01/2023	Tir ger Tŷ Mawr, Talsarnau. LL47 6UF	Adeiladu ty fforddiadwy, creu cwrtil, ymestyn trac mynediad, a newidiadau i'r fynedfa cerbydau presennol.	Cyfarwyddiadau wedi ei hanfon at y cyfreithiw 31/07/24.

Nifer o geisiadau ar restr Pwyllgor 04 Medi 2024 = 6

**CEISIADAU SY'N DESTUN CYTUNDEB ADRAN 106 A SYDD WEDI EU CWBLHAU ERS
PWYLLGOR CYNLLUNIO & MYNEDIAD 04 MEDI 2024**

Rhif y cais	Lleoliad	Datblygiad
NP5/55/L140E	Capel Bethlehem, Brynchrug. LL36 9PW	Newid defnydd capel i ffurfio un annedd 1 lloft ac un annedd 6 lloft
NP5/58/363J	Nant Eos, Dyffryn Ardudwy. LL44 2HX	Trosi adeilad allanol yn dŷ fforddiadwy a gosod gwaith trin carthion

**CEISIADAU SY’N DESTUN CYTUNDEB ADRAN 106 SYDD WEDI EU GWRTHOD, TYNNU’N ÔL, NEU WEDI EU
GWAREDU, NEU LLE NAD OES ANGEN CYTUNDEB PELLACH ERS PWYLLGOR CYNLLUNIO & MYNEDIAD
04 MEDI 2024**

Rhif y cais	Lleoliad	Datblygiad
NP5/58/363H	Nant Eos, Dyffryn Ardudwy. LL44 2HX	Trosi i dy marchnad agored a gosod gwaith trîn carthion (Ail-gais)
NP5/58/629	Tir rhwng Plas Meini & Swyn y Mor, Dyffryn Ardudwy.	Cais amlinell i godi pedwar ty deulawr ar wahân (2 marchnad agored a 2 ffoddiadwy) gyda garejys mewnol a chreu mynedfa gerbydau i'r A496



**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
16 HYDREF 2024**

**CEISIADAU NA PHENDERFYNWYD
ARNYNT ERS 13 WYTHNOS A MWY**

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD 16 HYDREF 2024
CEISIADAU NA PHENDERFYRWYD ARNYNT ERS 13 WYTHNOS A MWY**

Disgwyl Gwybodaeth Ecolegol

NP4/16/78K	29/02/24	Tanaeldroch, Dolwyddelan. LL25 0L	Newid defnydd ac ymestyn adeilad allanol i'w ddefnyddio fel anecs atodol i'r prif eiddo (Tanaeldroch)
NP5/72/254	22/01/24	Tir ger Dol Hir, Frongoch, LL23 7NT	Adeiladu tŷ menter gwledig a gosod uned trŷn carthion.
NP5/73/439	23/11/23	Tir ger Llech-y-Cwm, Gellilydan. LL41 4EU	Codi annedd menter wledig, creu mynedfa newydd i gerbydau, a gosod tanc septig

Disgwyl Manylion gan yr Asiant / Ymgeisydd

NP2/16/442	10/05/24	Coed Hendre Ddu, Cwm Pennant, Garndolbenmaen. LL51 9AX	Creu cyswllt llwybr troed trwy goetir i gynnwys llwybrau pren uchel, pontydd, cyfeirbwyntiau. meinciau, paneli dehongli, lloches a 'Portaloo'
NP4/16/246	11/06/24	Bryn Tiron, Dolwyddelan. LL25 0JD	Trosi ac estyniad i adeilad allanol i greu tŷ fforddiadwy
NP4/31/127	31/05/24	Tir ger Hendre Ifan, Ysbyty Ifan.	Codi 2 dy deulawr fforddiadwy
NP5/50/562U	31/05/24	Caban N, Plas Panteidal, Aberdyfi. LL35 0RF	Amrywio Amod Rhif 6 ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/42/160A dyddiedig 21/04/1976 i ymestyn y cyfnod meddiannu o 8 i hyd at 11 mis mewn unrhyw flwyddyn galendr
NP5/50/647B	01/12/23	Tir yn ffurfio rhan o ymyl y briffordd presennol a tir ger yr A493 rhwng Aberdyfi a Tywyn.	Creu llwybr troed (Teithio yn Llesol) rhwng cymunedau Tywyn ac Aberdyfi cyferbyn a A493
NP5/50/762	15/03/24	Four Winds, 3 Corbett Lane, Aberdyfi. LL35 0RB	Adeiladu garej ar wahân gyda lle parcio gwastad, creu decin, newidiadau i'r fynedfa i gerddwyr a newidiadau i tŷ.
NP5/53/113E	12/06/24	Canolfan Hamdden Penllyn, Y Bala, LL23 7SR	Gosod 6 pwmp gwres ffynhonnell aer (100kw).
NP5/53/T154N	17/06/24	Adeiladau Banc y National Westminster, 44-46 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7NE	Newid defnydd y llawr gwaelod o ddefnydd A2 (Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol) i ddefnydd A1 (Siopau adwerthu a storffeydd), hepgor yr anheddau pâr a ganiatawyd yn flaenorol (2) a hepgor yr estyniad unllawr a ganiatawyd yn flaenorol y tu ôl i'r adeilad presennol.
NP5/55/60L	20/05/24	Tir yn Ffordd-y-Felin, Brynchrug.	Datblygiad preswyl yn cynnwys 12 annedd (Marchnad Agored) a datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys manau agored, parcio, mynediad a seilwaith draenio.
NP5/57/205L	29/04/24	Fronoleu, Tabor, Dolgellau. LL40 2PS	Rhyddhau Amod Rhif 3 (Sgubor clwydo ystlumod) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/57/205J dyddiedig 18/01/2024
NP5/57/1008C	26/03/24	Tir yn Coed Penmaenuchaf, Llynpenmaen. LL40 1YB	Codi tŷ Un Planed ac adeilad Dosbarth.
NP5/58/646	17/03/23	Tir ger Pentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy.	Adeiladu byngalo wedi'i addasu'n arbennig ynghyd ac annedd deulawr
NP5/58/660 269	19/04/24	Llwyneinion Fechan, Dyffryn Ardudwy. LL44 2HX	Trosi adeiladau fferm segur i ffurfio 2 uned gwyliau i'w gosod am dymor byr ynghyd a gosod uned trŷn carthion.

NP5/68/100G	28/02/24	Creua, Llanfrothen. LL48 6SH	Newid defnydd adeilad a chodi estyniad unllawr i adeilad presennol i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â busnes crochenwaith presennol.
NP5/77/179A	21/06/24	Bron Y Garth, Llandecwyn, LL47 6YW	Cais ôl-weithredol i godi garej/storfa ar wahân.
NP5/78/421A	17/11/23	Tir gyferbyn a Teras Ty Llwyd, Trawsfynydd. LL41 4TH	Trosi garej bresennol yn annedd (Meddiannaeth Fforddiadwy a Lleol) ynghyd â gosod 2 ffenestr to newydd

Disgwyl Asesiad Priodol ARHC

NP3/12/126C	20/09/22	Bron Fedw Uchaf, Rhyd Ddu. LL54 7YS	Trosi a newid defnydd arfaethedig o allandai gwledig i 3 uned gwyliau i'w gosod, codi sgubor ystlumod, newidiadau i fynedfa cerbydau presennol a gwaith cysylltiedig
NP5/53/598C	16/05/23	Tir ger Ffynnon Beuno, Y Bala.	Cais amlinellol gyda'r materion i gyd wedi'u cadw'n ôl i adeiladu un tŷ (Ail-gyflwyniad yn dilyn gwrthod cais cynllunio NP5/53/598B)
NP5/54/18C	10/05/24	Gornant, 4 Tai Baldwin, Llanfachreth. LL40 2EA	Newid defnydd o dir preswyl i ymgorffori defnydd busnes a gosod pabell fawr at ddibenion cynnal gweithdai cerameg.

Nifer o geisiadau ar y rhestr = 22

Nifer o geisiadau ar y rhestr Pwyllgor 04 Medi 2024 = 16



**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
16 HYDREF 2024**

PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD 16 HYDREF 2024

PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG

Ceisiadau wedi ei caniatáu

	Rhif y Cais	Bwriad	Lleoliad	Dyddiad Penderfyniad	Swyddog Achos
1.	NP2/11/52R	Diwygiad ansylweddol (Gosodiad mast diwygiedig ac offer ar y ddaear) i'r hyn a gymeradwywyd dan gyfeirnod cynllunio NP2/11/52L dyddiedig 06/12/2023	Maes Parcio Pen y Pass, Nant Gwynant. LL55 4NU	06/09/24	Mr Richard Thomas
2.	NP2/16/389G	Adeiladu estyniad cefn unllawr i'r edrychiad cefn	Beudy Parc, Golan. LL51 9AQ	06/09/24	Mr Richard Thomas
3.	NP2/16/97K	To arfaethedig dros iard rhwng dwy sied amaethyddol bresennol	Ty Canol, Garndolbenmaen. LL51 9RQ	09/08/24	Mr Richard Thomas
4.	NP3/10/121B	Newid defnydd tir i lecyn cymunedol yn gynnwys gosod offer chwarae a gwaith tirlunio	Tir yn Cae Felin, Abergwyngregyn. LL33 0LW	05/09/24	Mr Richard Thomas
5.	NP3/12/LB104A	Trosi sgubor yn anecs gan gynnwys newidiadau allanol ac addasiadau i borth car i gynnwys cladin a drysau newydd	Ysgubor, Ffridd Isaf, Rhyd Ddu. LL54 6TN	05/08/24	Mr Richard Thomas
6.	NP3/12/LB104B	Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer trosi sgubor yn anecs gan gynnwys newidiadau mewnol ac allanol ac addasiadau i borth car i gynnwys cladin a drysau newydd	Ysgubor, Ffridd Isaf, Rhyd Ddu. LL54 6TN	05/08/24	Swyddog Cadwraeth
7.	NP3/21/98B	Cais ol-weithredol ar gyfer newidiadau i lefelau tir, codi adeilad amaethyddol cyffredinol arfaethedig, mynediad cysylltiedig a thirlunio	Tir i gefn Tan-y-Bryn, Llanllechid. LL57 3LB	23/08/24	Sara Thomas
8.	NP4/11/55M	Rhyddhau Amodau Rhif 4 (cynllun goleuadau allanol) & 5 (cynllun gwella bioamrywiaeth) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP4/11/55K dyddiedig 18/06/2024	Bryn Llewelyn, Ffordd Caergybi, Betws y Coed, LL24 0BN	06/09/24	Mr Richard Thomas

9.	NP4/11/T84H	Amnewid ffenestri a drysau ar y llawr gwaelod	Oakfield House, Pentre Du, Betws y Coed. LL24 0BY	06/08/24	Mr Richard Thomas
10.	NP4/13/265	Codi estyniad anecs unllawr i ochr y ty presennol	1 Rhos Cottages, Pont Gyfyng, Capel Curig	06/08/24	Mr Richard Thomas
11.	NP4/29/LB135A	Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer y bwriad i gael gwared ar y to sment asbestos rhychiog ac ail-doi gyda tho llechi mwynol naturiol	Bwlch y Maen, Dolwyddelan. LL25 0HX	03/09/24	Mr Richard Thomas
12.	NP5/50/159B	Dymchwel garej ac adeiladu estyniad deulawr ar yr ochr	3 Melin Ardudwy, Aberdyfi. LL35 0RY	08/08/24	Mr David Jones
13.	NP5/50/635D	Estyniad i eiddo preswyl	17 Mynydd Isaf, Aberdyfi. LL35 0PH	29/08/24	Mr David Jones
14.	NP5/50/766	Newidiadau ac estyniadau gan gynnwys decin wedi'i godi.	The Gables, Balkan Hill, Aberdyfi. LL35 0LA	15/08/24	Mr David Jones
15.	NP5/50/767	Newidiadau, dymchwel ystafell haul a gosod cladin	Fairway, Corbett Lane, Aberdyfi. LL35 0RB	05/09/24	Mr David Jones
16.	NP5/50/769	Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer allanol	12 Mynydd Isaf, Aberdyfi. LL35 0PH	19/09/24	Mr David Jones
17.	NP5/52/394	Gosod pwmp gwres ffynhonell aer o fewn y cwrtill	5 Glasfryn Terrace, Arthog. LL39 1AZ	19/09/24	Mr David Jones
18.	NP5/52/LB232C	Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau mewnol i greu ystafell ymolchi a gosod gril allanol ar gyfer ffan echdynnu'r ystafell ymolchi.	Henddol Old Farm, Y Friog. LL38 2RZ	19/09/24	Miss Eva Jones
19.	NP5/53/8M	Gosod uned rhewyddio newydd	Co-op Store, 78-86, Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AD	17/09/24	Mr. Dafydd Thomas
20.	NP5/53/LB222B	Caniatad Adeilad Rhestredig (ol-weithredol) i dynu wal frics sengl presennol sydd ddim yn cynnal llwyth	Fron Deg, 14 Heol Ffrydan, Y Bala. LL23 7RT	05/08/24	Mr. Dafydd Thomas
21.	NP5/54/462A	Rhyddhau Amod Rhif 4 (cynllun gwella bioamrywiaeth) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/54/462 dyddiedig 22/05/2024	Llyn Cynwch, Brithdir.	05/08/24	Mr. Dafydd Thomas
22.	NP5/55/L140E	Newid defnydd capel i ffurfio un annedd 1 lloft ac un annedd 6 lloft	Capel Bethlehem, Brynchrug. LL36 9PW	11/09/24	Mrs. Iona Roberts
23.	NP5/57/LB17W	Rhyddhau Amodau Rhif 3 (ATM allanol), 4 (carreg ar gyfer y peiriant ATM), 5 (morter calch ar gyfer y gwaith carreg) & 6 (newidiadau i'r ffenestri) ynghlwm i Ganiatad Adeilad Rhestredig NP5/57/LB17U dyddiedig 25/08/2023	HSBC Bank, Stryd Fawr, Dolgellau. LL40 1PS	06/08/24	Mr David Jones

24.	NP5/57/LB17X	Rhyddhau Amodau Rhif 3 (ATM allanol), 4 (carreg ar gyfer y peiriant ATM), 5 (morter calch ar gyfer y gwaith carreg) & 6 (newidiadau i'r ffenestri) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/57/LB17Q dyddiedig 25/08/2023	HSBC Bank, Stryd Fawr, Dolgellau. LL40 1PS	06/08/24	Mr David Jones
25.	NP5/57/LB86D	Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer amnewid y boeler nwy presennol, fflw allanol a rheiddiaduron mewnol gan gynnwys newidiadau cysylltiedig i bibellau	Sulis, Stryd Fawr, Dolgellau. LL40 1RD	29/08/24	Mr David Jones
26.	NP5/58/263C	Tynnu cladin plastig o'r talcen De a gosod cladin llechi	Arosfa, Ffordd Capel, Dyffryn Ardudwy. LL44 2DN	23/08/24	Sara Thomas
27.	NP5/58/600E	Amrywio Amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/58/600C dyddiedig 22/09/2020 i gynnwys newid mewn lefelau ac ychwanegu triniaeth ffiniau	Ferndale, Dyffryn Ardudwy. LL44 2BH	15/08/24	Mr Aled Lloyd
28.	NP5/58/LB443G	Rhyddhau amodau 4 (manyleb ffenestri to) a 6 (Rhaglen cofnodi archeolegol) ynghlwm wrth Ganiatad Cynllunio NP5/58/LB443E dyddiedig 07/12/2023	Taltreuddyn Fawr, Dyffryn Ardudwy. LL44 2RQ	09/08/24	Mr Aled Lloyd
29.	NP5/58/LB443H	Caniatad Adeilad Rhestredig i osod paneli solar ar do'r drychiad deheuol	Taltreuddyn Fawr, Dyffryn Ardudwy. LL44 2RQ	03/09/24	Mr Aled Lloyd
30.	NP5/58/LB443J	Gosod paneli ffotofoltäig ar do ty	Taltreuddyn Fawr, Dyffryn Ardudwy. LL44 2RQ	15/08/24	Mr Aled Lloyd
31.	NP5/60/130D	Amnewid hadfy	2 Bryn Goleu, Ganllwyd. LL40 2HU	10/09/24	Mr. Dafydd Thomas
32.	NP5/62/439	Dymchwel ty presennol a chodi byngalo newydd	Erw Fair, Llanbedr. LL45 2LL	30/08/24	Mr Aled Lloyd
33.	NP5/64/194	Gosod 2 res o baneli solar 10kw wedi'u gosod ar y ddaear	Fferm Ty'n Llan, Llanegryn. LL36 9ST	19/09/24	Mr David Jones
34.	NP5/65/379	Tynnu ystafell wydr cefn bresennol a chodi estyniad un llawr newydd	Nant Y Garreg, Tai Cynhaeaf, Dolgellau, LL40 2TU	13/08/24	Mr Aled Lloyd
35.	NP5/68/3C	Tynnu'r ystafell haul presennol a chodi estyniad unllawr ar yr blan ar ochr	Garth Llwynog, Croesor. LL48 6SR	01/08/24	Mr Aled Lloyd
36.	NP5/69/425A	Rhyddhau Amod 6 (Adroddiad Archeolegol) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/69/113Q	Llanfendigaid, Rhoslefain. LL36 9LS	01/08/24	Mr David Jones

37.	NP5/69/425B	Rhyddhau Amod Rhif 8 (Arolwg ffotograffig) ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP5/69/L113P dyddiedig 19/06/2024	Llanfendigaid, Rhoslefain. LL36 9LS	10/09/24	Mr David Jones
38.	NP5/69/428	Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer allanol	Glan-y-Wern, Ffordd Celynin, Llwyngwriol. LL37 2JD	19/09/24	Mr David Jones
39.	NP5/69/LB157J	Rhyddhau Amodau 6 (Manylion inswleiddio mewnol a gwrthleithder) a 7 (Sgrin fewnol bren, ffenestri, drysau mewnol, drysau estyllod pren wedi'u paentio'n allanol, holl ddodrefn drws, grisiau mewnol, newydd-ddyfodiaid, canllawiau, grisiau, manylion balwstradau mesanîn) ynghlwm i Ganiatad Adeilad Rhestredig NP5/69/LB157H dyddiedig 10/06/2024	Llanfendigaid, Rhoslefain. LL36 9LS	10/09/24	Mr David Jones
40.	NP5/70/67C	Ail-ddatgan annedd (C3) o lety hostel	Glan Hirnant, Rhosygwalia. LL23 7EU	18/09/24	Mr. Dafydd Thomas
41.	NP5/71/480A	Adeiladu estyniad i'r eisteddle	Cae Pêl Droed, Llanuwchllyn.	10/09/24	Mr. Dafydd Thomas
42.	NP5/72/LB142J	Caniatad Adeilad Rhestredig i gadw gwaith anawdurdodedig a wneir fel newidiadau i Ganiatad Adeilad Rhestredig NP5/72/LB142A dyddiedig 21/01/2015.	Rafel, Parc. LL23 7YU	06/09/24	Miss Eva Jones
43.	NP5/73/LB181A	Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer tynnu mortar sment o waith carreg y ddau brif gorn simnai a gosod cwteri alwminiwm bwrw proffil 'ogee' newydd a bracedi a chysylltiadau pibellau dwr crwn a gosod pibellau haearn bwrw yn lle'r pibellau awyru pridd plastig a'r pibellau sinc presennol	Bron Turnor Mawr, Maentwrog. LL41 3YT	07/08/24	Miss Eva Jones
44.	NP5/73/LB317G	Amrywio Amod 2 ynghlwm i Ganiatad Adeilad Rhestredig NP5/73/LB317C dyddiedig 18/11/2019 i ddiwygio deunyddiau cymeradwy ar gyfer yr adeilad allanol, symud conglfeini a linteli cerrig nadd i ddwy ffenestr, ailosod rhai unedau gwydr dwbl cadwraeth, diwygio arddull coronau cribau, a diwygio arddull rhai potiau simnai	Porth Gwyn, Tan-y-Bwlch, Maentwrog. LL41 3YU	05/09/24	Miss Eva Jones

45.	NP5/73/LB317H	Caniatad Adeilad Rhestredig i godi canopi newydd i'r drychiad dwyreiniol, ychwanegu canllawiau amrywiol, balwstrad, gatieu a ffens i'r cwrtil	Porth Gwyn, Tan-y-Bwlch, Maentwrog. LL41 3YU	05/09/24	Miss Eva Jones
46.	NP5/73/LB317J	Codi canopi newydd i'r drychiad dwyreiniol, ychwanegu canllawiau amrywiol, balwstrad, gatieu a ffens i'r cwrtil	Porth Gwyn, Tan-y-Bwlch, Maentwrog. LL41 3YU	19/09/24	Miss Eva Jones
47.	NP5/73/LB321B	Caniatad Adeilad Rhestredig i ychwanegu drws yn y pared, cynllun ystafell molchi diwygiedig, ychwanegu rhosyn nenfwd i'r ystafell fyw, ac amnewid y stôf yn y gegin fel newidiadau i Ganiatad Adeilad Rhestredig NP5/73/LB321 dyddiedig 03/09/2021	Station House, Tan-y-Bwlch, Maentwrog. LL41 3AQ	11/09/24	Miss Eva Jones
48.	NP5/78/581A	Codi adeilad offer a storio i ddibenion amaethyddol	Glan Llafar, Cwm Prysor, Trawsfynydd. LL41 4TP	10/09/24	Mr. Dafydd Thomas
49.	NP5/78/ADL170D	Caniatad Hysbyseb i arddangos 4 arwydd allanol (2 arwydd ffasgia wedi'u goleuo'n allanol, 1 arwydd crog ac 1 arwydd wal)	Llys Ednowain, Trawsfynydd. LL41 4UB	10/09/24	Mr. Dafydd Thomas

Ceisiadau wedi ei gwrthod

	Rhif y Cais	Bwriad	Lleoliad	Rheswm Gwrthod	Swyddog Achos
1.	NP4/12/238	Codi caban pren ar gyfer ymwelwyr/llety gwyliau	Tir yn Waen Fechan, Llanbedr-y-Cennin. LL32 8UR	01/08/24 Oherwydd nad oes tystiolaeth wedi ei gyflwyno gyda'r cais hwn fod y cynnig hwn yn ffurfio rhan o gynllun arallgyfeirio fferm, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisïau CDLIE DP 20 a 29, TAN 6 a CCA 8. Oherwydd bod y cais hwn yn dangos lleoliad caban llety mewn lleoliad a fyddai'n cael ei ystyried yn ymwithiol yn y dirwedd, gan ei osod yn groes i bolisïau CDLIE SP C, H ac I, DP 1, 2 a 29.	Mr Richard Thomas
2.	NP5/53/580H	Diwygiad Ansylweddol i Ganiatad Cynllunio NP5/53/580 dyddiedig 25/05/2021	Llyn Tegid, Y Bala.	05/08/24 Ym marn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ystyrir bod y diwygiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn ddiwygiadau 'sylweddol' eu natur gan y byddant yn arwain at newid sylweddol i'r caniatâd cynllunio gwreiddiol. O'r herwydd ni ellir ystyried y newidiadau arfaethedig yn newid 'ansylweddol' a bydd angen y fantais o gais amrywio amod i ddiwygio'r cynlluniau a gymeradwywyd yn flaenorol.	Mr. Dafydd Thomas
3.	NP5/58/662	Codi ty deulawr ar wahan	Tir yn Ffordd y Llan, Dyffryn Ardudwy. LL44 2BL	08/08/24 Ni fyddai'r annedd deulawr arfaethedig, oherwydd ei ddyluniad a'i fâs, yn gydnaws â chynhwysedd a chymeriad y safle a'r ardal leol y mae wedi'i leoli ynddo. O'r herwydd, mae'r cynnig yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1 a 6 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiedig.	Mr Aled Lloyd

4.	NP5/58/662A	Codi 2 dy deulawr (1 marchnad agored a 1 fforddiadwy)	Tir yn Ffordd y Llan, Dyffryn Ardudwy. LL44 2BL	08/08/24 Ni fyddai'r anheddau arfaethedig, oherwydd eu dyluniad a'u màs torfol, yn gydnaws â chynhwysedd a chymeriad y safle a'r ardal leol y mae wedi'i lleoli ynddi. O'r herwydd, mae'r cynnig yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1 a 6 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiedig. Ystyrir bod yr anheddau arfaethedig oherwydd eu lleoliad, ffurf a chymeriad yn or-ddatblygiad o'r safle ac o'r herwydd nid yw'r datblygiad yn gydnaws â chynhwysedd a chymeriad y safle a'r ardal leol y mae wedi'i lleoli ynddo, yn groes i bolisi DP1 o Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 mabwysiedig.	Mr Aled Lloyd
5.	NP5/61/LB32K	Newid defnydd rhan o'r bwyty ar y llawr gwaelod o A3 (Gwerthiant bwyd) i C3 (Preswyl)	Y Plas, High Street, Harlech. LL46 2YA	11/09/24 Mae'r cais hwn yn methu â darparu unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r defnydd presennol yn hyfyw mwyach, neu na ellir ei aildefnyddio at ddibenion tebyg neu amgen a photensial cyflogaeth. Felly, mae'r cynnig yn groes i Bolisi Strategol H ac yn arbennig maen prawf ix Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-31. Oherwydd nad yw'r ymgeisydd yn dangos gallu neu'n anfodlon ymrwymo i Gytundeb Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990) i sicrhau cyfraniad tai fforddiadwy, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â Chynllun Datblygu Lleol Eryri (2016 - 2031), CCA G a DP 30 a Chanllawiau Cynllunio Atodol 4 a 5.	Mr Aled Lloyd
6.	NP5/61/LB32L	Caniatad Adeilad Rhestredig am waith mewnol i gymhwyso newid defnydd y bwyty ar y llawr gwaelod o A3 (Gwerthiant bwyd) i C3 (Preswyl)	Y Plas, Stryd Fawr, Harlech. LL46 2YA	11/09/24 Byddai'r bwriad, oherwydd ffurf a dyluniad, yn niweidiol i gymeriad hanesyddol arbennig ac edrychiad yr adeilad rhestredig. Mae'r cynnig felly yn methu â bodloni gofynion Polisiâu A, Ff, 1, 6 a 7 Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031;	Mr Aled Lloyd

				<p>y canllawiau a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru 11 (Chwefror 2021), yn benodol paragraffau 6.1.10 i 6.1.13; a'r canllawiau a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol, yn benodol paragraffau 5.9 i 5.27.</p> <p>Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn annigonol ac yn brin o fanylion ynghylch effaith bosibl y gwaith arfaethedig. O ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth a ddarparwyd, mae'r cais yn cyflwyno risg i ffabrig, cymeriad ac edrychiad yr adeilad rhestredig. Mae'r cynnig felly yn methu â bodloni gofynion Polisiâu A, Ff, 1, 6 a 7 Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031; y canllawiau a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru 11 (Chwefror 2021), yn benodol paragraffau 6.1.10 i 6.1.13; a'r canllawiau a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol, yn benodol paragraffau 5.9 i 5.27.</p>	
7.	NP5/69/98E	Diddymu Cytundeb Adran 106 dyddiedig 16/09/2022 sy'n cyfyngu meddianeth yr anned i berson lleol	Maes Lledfan, Rhoslefain. LL36 9NH	<p>12/09/24</p> <p>Oherwydd bod yr Awdurdod hwn yn ystyried bod rhwymedigaeth 16eg Medi 2002 yn parhau i fod yn ddefnyddiol wrth ddilyn polisiâu tai Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031, a'r ymgeisydd yn dangos dim parodrwydd na gallu i ymrwymo i gytundeb adran 106 newydd. mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisiâu SP A, SP C, SP G a DP 30 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 a Chanllaw Cynllunio Atodol 4 Tai Fforddiadwy (Ionawr 2020).</p>	Mr David Jones
8.	NP5/74/516	Trosi garej ddomestig yn anecs a gosodiad gwyliau tymor byr	Ger-y-Llan, Llanymawdd wy. SY20 9AQ	<p>20/09/24</p> <p>Mae'r cynnig yn ymwneud â llety gwyliau tymor byr ar osod (dosbarth defnydd C6) mewn Anheddiad Llai diffiniedig o dan strategaeth aneddiadau Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031. Ystyrir y byddai'r cynnig yn mynd yn groes i ddarpariaethau polisiâu SP C, SP G a DP 30</p>	Mr David Jones

				Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 sy'n cyfyngu tai newydd i dai fforddiadwy o faint a math priodol i ddiwallu anghenion lleol o fewn ffin yr anheddiad.	
--	--	--	--	--	--